Ystyron Enwau

Trefi, Pentrefi,
Tai, Meusydd,
Mynyddoedd,
Afonydd,
Llynoedd, &c.

YN MEIRIONYDD

Towyn, Llangelynin, Llanegryn,
Llanfihangel y Pennant,
Talyllyn, a Phennal.

CARNARVON
CORPORATION SEAL
1430

FREE LIBRARY 1887

B281826

Rhaglith y Golygwyr.

Ar gyfer Eisteddfod Gadeiriol Towyn, Mehefin 21ain, 1907, cynygiwyd gwobr arbenig o 8p. am y traethawd goreu ar "Ystyron enwau trefi, pentrefi, tai, meusydd, mynyddoedd, afonydd, llynoedd, &c., ym mhlwyfi Towyn, Llangelynin, Llanegryn, Llanfihangel-y-Pennant, Talyllyn, a Phennal." Cymerai yr ardalwyr yn gyffredinol ddyddordeb mawr yn y gystadleuaeth, a gobeithid gan lawer y byddai i gyfansoddiad teilwng o'r testyn ac o'r wobr ddyfod i law, ac hefyd un a fyddai o werth parhaol.

Derbyniodd y Proff. Edward Anwyl, M.A., o Brifysgol Aberystwyth, dri o draethodau, a phenderfynodd ranu y wobr cydrhwng y tri ymgeisydd. I'r cyntaf, "Aneurin," dyfarnodd £5; i'r ail, "Plus Ultra," £2; ac i'r trydydd, "Ceredig," £1 Rheswm y Proffeswr dros ranu y wobr oedd fod yn y tri traethawd ragoriaethau arbenigol iddynt eu hunain. Gwêl ar hyn feirniadaeth y Proffeswr. "Aneurin" yw Mr. Wm. Davies, Talybont, Ceredigion; "Plus Ultra," y Parch. D. S. Thomas, Berwyn House, Towyn; a "Ceredig," Mr. J. G. Jones, ysgolfeistr, Llansilin.

Penderfynodd Pwyllgor Eisteddfod Towyn mai doeth oedd argraphu y traethodau, a chredwn y cytuna yr ardalwyr â ni fod defnyddio cyfran o elw yr Eisteddfod i'r amcan hwn—lles cyffredinol yr ardal—yn ffordd deilwng o drefnu yr arian gweddill. Dewiswyd Pwyllgor cynwysedig o'r Mri. Pryse H. Hughes, John Maethlon James, Parch. D. S. Thomas, a'r Parch. Robert R. Roberts i olygu a threfnu y traethodau. Cyfarfyddodd y Pwyllgor amryw weithiau. Gwedi ystyriaeth ofalus penderfynwyd mai y cynllun doethaf oedd argraphu y traethodau ar wahan yn yr un llyfr. Têg tuagat yr ymgeiswyr yw egluro fod y golygwyr wedi tori allan luaws o nodiadau o'r tri thraethawd, yn enwedig yn y mannau hyny lle y canfyddid fod yr esboniadaeth ar yr enwau yn gymhwys o'r un nodwedd. Tra yn addef fod y tri chyfansoddiad wedi cael triniaeth gyffelyb yn yr ystyr yna, eto cydnabyddwn mai traethawd Mr. J. G. Jones sydd wedi dioddef dostaf oddiwrth yr oruchwyliaeth. Yr oedd allan o'r cwestiwn i argraphu y tri traeth-

awd fel y daethant i law. Byddai yr ail-adroddiadau yn rhy luosog i fod yn ddyddorol, ac achosai i bris y llyfr fod yn ormodol. Dan yr amgylchiadau gwnaeth y Golygwyr eu goreu.

Yr ydym yn ddyledus i Mr. Pryse H. Hughes am awgrymu y testyn ac am gasglu tuagat y wobr, ac hefyd am addewid o gynorthwy yn nglyn ag argraphu y llyfr.

Hyderwn y bydd i'r ardal roddi ei dyledus gefnogaeth i'r ymdrech hon o eiddo Pwyllgor yr Eisteddfod. Os nad yw y traethodau yn bobpeth ellid ddymuno o ran safon ac ysgolheigdod eto mae ynddynt doraeth o wybodaeth fydd yn gynorthwy i'r athrylithgar i ysgrifenu yr hanes pan gyfyd at ei orchwyl.

Y Feirniadaeth.

EISTEDDFOD TOWYN, 1907.

TESTYN : YSTYRON ENWAU LLEOEDD, &c.

Daeth tri o draethodau i law ar y testyn uchod, a charwn longyfarch yr Eisteddfod ar ei llwyddiant yn cael cystadleuaeth mor dda. Gwnaeth y tri ymgeisydd waith gwir addawol, ond nid ydynt oll o'r un teilyngdod. Eu henwau yw Ceredig, Plus Ultra, ac Aneurin.

Ceredig.—Un o ragoriaethau Ceredig ydyw ddarfod iddo chwilio mewn amryw engreifftiau am hen ffurfiau yr enwau, ond o'r tu arall nid yw yn ddigon gofalus ynghylch y modd y *seinir* yr enwau yn bresenol ar lafar gwlad. Edrycha ar lawer enw fel llygriad hollol anghyson â rheolau cyfnewidiad ffurfiau yr iaith Gymraeg : er engraifft, Brynerwest o Brynerwcest, Dŷsynni o Diswnwy, Dyfi o Dofwy, Llwynwccus o Llwyn uwch y gwys, Pant yr owen o Pantyrerwen, Penyryrfa o Penyraerfa, Arthog o Garthog, Coed y gweddill o Coed y Gwyddel, Dysefin o Maeshefin. Eto, mae amryw bethau pur addawol yng ngwaith Ceredig, a chyda gofal gall ddyfod yn draethodwr da.

Plus Ultra.—Mae gan Plus Ultra draethawd llawn a threfnus, ac amcana fod yn feirniadol a chywir, ond syrth yntau yn aml i'r un amryfusedd a'r rhai a feirniedir ganddo. Er engraifft cysyllta Dyfi a Dwfr; ysgrifena "Isle of White" am Isle y Wight; Meusam am Museum. Hefyd tardda Dysynni o'r ferf "synu;" Gynolwyn o Canol a gwyn; Bera o enw'r Iberiaid: ac yn yr enw "Y Domen Las" cysyllta "Las" a'r gair "lladd." Tybia hefyd mai llygriad o Bradwen yw Bredyn. Gresyn na buasai ysgrifenydd ac ymchwilydd mor addawol yn fwy gofalus.

Aneurin.—Dyma'r llawnaf, y manylaf a'r trefnusaf o'r tri chyfansoddiad, eto mae yntau yn aml yn hollol anfeirniadol yn ei ddull o darddu enwau. Oherwydd y terfyniad "dwy" yn y gair Dyfrdwy cymer yn ganiataol mai ystyr y terfyniad -wy yw perthynas enw afon a rhywbeth cysegredig. Gresyn hefyd

na thalai fwy o sylw i'r modd y seinir enwau ar lafar gwlad gan drigolion yr ardal. Nid oes a fynno Machynlleth a'r gair Bach, a'r un modd eto nis gellir tarddu Dysyrnant o Drwsynant, Dysynni o Desynwy, Efail Feurig o Gafael Feurig, Gwyddelod o Gwyddhelod, Pantidal o Pantyrhaul neu "Pant y dail," Coed y gweddill o Coed y gwyddgyll, Bryn y Froches o Bryn y Fuches, Rhydygrin o Rhydyrhiw, Cwmgila o Cwmcilan.

Mae traethawd Aneurin yn dangos ol gwaith ac astudiaeth, ond oherwydd fod yr awdwr yn rhy anfeirniadol ar lawer pryd wrth ymdrin ag esboniad enwau teimlwn nas gallwn ei gyfrif yn deilwng o'r holl wobr, a theimlwn hefyd fod ymdrechion yr ymgeiswyr ereill yn deilwng o gydnabyddiaeth, felly ein dyfarniad ydyw rhanu'r wobr fel y canlyn,—

I *Aneurin*, y goreu, Pum punt	£5
I *Plus Ultra*, yr ail oreu, Dwy bunt	£2
I *Ceredig*, y trydydd, Punt	£1
	£8

E. Anwyl, *Beirniad.*

Ystyron Enwau.

I.—PLWYF TOWYN.

Aberdyfi.—Y mae y rhan gyntaf o'r enw hwn, sef ABER, yr un yn y *Lydaweg* a'r *Gernywaeg*, ac yn y Gymraeg. Y mae iddo bump o wahanol ystyron,—

1. Ymarllwysfan un afon i'r llall, megys yn *Abercorris*, lle mae'r afon *Corris* yn ymarllwys i'r *Dulas*.

2. Ymarllwysfan afon i fôr. Derbynia *Aberdyfi*, *Aberystwyth*, *Aberaeron*, *Abermaw*, *Aberffraw*, eu henwau am eu bod yn sefyll lle y mae yr afonydd *Dyfi*, *Ystwyth*, *Aeron*, *Maw*, a *Ffraw*, yn ymarllwys i'r môr.

3. Dylifiad llanw'r môr *(the flow or flux of the tide)*.

> Ef a wnaeth uch traeth trei ac *aber*.
> *Gruffydd ab Meredydd.*

4. Porthladd *(a port or harbour)*.

> [Soffala] aber ar ochr dwyrain Affrica.
> *W. O. Pughe.*

5. Ffrwd redegog o ddwfr croyw; afonig, nant *(a brook)*.

> Nid rhaid march buan danad,
> Neu bont ar *aber*, na bad.
> *Dafydd ab Gwilym.*

DYFI.—Y syniad cyffredin, hyd yn ddiweddar, ar lafar gwlad, ac yn mysg dysgedigion ydoedd, fod y terfyniad *wy* yn afonydd ein gwlad yn golygu *dwfr (water)*.

Dywed Dr. W. O. Pughe am y *Dyfi*—"The name of several rivers, descriptive of a gentle, or smooth current." Ac y mae Ieuan Dyfi, yn ei *Hanes Machynlleth*, yn egluro yr enw yn *dof-wy* neu hylif-dof, tawel a llyfnredol. Y mae ieithegwyr diweddar o'r farn fod y terfyniadau hyn, megys ag a geir yn *Dyfrdwy*, *Elwy*, *Conwy*, *Mawddwy*, *Dyfi*, *Teifi*, *Tywy*, *Tawy*, &c., yn golygu *dwyfol* neu *gyssegredig*, a'u bod yn awgrymu i ni am yr amser yr oedd trigolion ein gwlad yn addoli elfenau natur, fel y gwna cenhedloedd eraill mewn gwahanol ranau o'r byd yn awr. Esbonia Dr. John Rhys yr enw "*Dyfrdwy*" neu "*Dyfr Dwyf*" yn "*ddwfr y dduwies.*" Mewn anerchiad o'i eiddo yn Eisteddfod Gadeiriol Corwen, Awst, 1895, ar "Enwau Lleoedd," dywed fel y canlyn:—

"Deallaf mai Caer Drewyn, neu Gaer Drywyn, y gelwir hi; a swnia'r gair hwnw'n debyg i rif unigol y gair *Drywon* am *dderwyddon*, megis yn y llinellau a ganodd rhyw hen fardd am afon Dyfrdwy:—

Drwyodd er dyddiau'r drywon
Y rhwyf y Dwfr dwyf ei don.

Dyna'r hen fardd wedi esbonio i chwi yr enw Dyfrdwy yn Ddwfr dwyf, hyny yw, y Dwfr dwyfol. Ffurf hynach yr enw oedd *Dwfr dwyw*, a hen ffurf yr ansoddair *dwyfol* oedd *dwywol* neu *ddwywawl;* er hyny, ceir rhywun yn awr ac eilwaith yn ysgrifenu y'nghyflawnder ei anwybodaeth i brofi mai *Dwfr dwy afon* yw yr ystyr; nid wyf yn cofio pa ddwy, ond nid oes nemawr afon nas gellid dyweud ei bod yn ddwfr dwy, neu ddwy ar hugain, o ran hyny, neu ragor. Myn rhywun arall,—canys y mae dwy ochr hyd yn oed i fympwyon fel hyn hefyd,—mai *Dwfr Du* yw'r Dyfrdwy, am fod Glyndyfrdwy yn cael ei gwtogi weithiau yn *Glyndwrdu*. Ond ni waeth hynyna nag ychwaneg, hen enw yr afon oedd *Dyfrdwyw;* a golygai'r *dwyw* hwnw a wna'r bardd yn ddwyf yn y llinellau a grybwyllais eisioes *dduw* neu *dduwies;* a cheir yr un gair mewn ffurf mwy henafol yn y *Dêva* a arferai y Rhufeiniaid am yr afon. Gan ryw lwyth Celtig y dysg-

asant hwy y gair hwnw gyntaf; ac o'r enw *Dêva*, debyg, yn hytrach nag o un ffurf Cymraeg fwy diweddar, y daw *Dee* y Saeson. A rhyw debyg, feddyliaf fi, yw hanes yr enw *Dee* ar afonydd eraill mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Gyfunol."

Abergroes, neu yn hytrach Aber-y-groes.—Deillia yr enw oddiwrth yr arferiad o osod croesau i fyny mewn gwahanol fanau ar hyd a lled ein gwlad, er cyfarwyddyd i deithwyr cyn gweithio ffyrdd. Byddid yn addoli wrth y croesau hyn hefyd yn y canol oesoedd. Ceid croesau gynt mewn mynwentydd, ac ar hyd lleoedd a ystyrid yn gysegredig, lle y gallasai yr euog ffoi a bod yn ddiogel rhag ei erlyniwr.

Argoed.—Y mae yr enw hwn yn arwyddo lle cysgodol oddiar neu yn mysg y coed. Sylwa un awdwr ar y rhan gyntaf ohono fel y canlyn. "*Ar* or *ard*, a primitive root diffused throughout many languages, generally signifying '*a height*.' In Welsh names it is usually found with the 'd' suppressed or the 'r' substituting it, as in *Argoed* in Cardiganshire; *Arddur* in Carnarvonshire. It has the same meaning in the following names:—*Ardach*, *Ardglass*, *Ardrossan*, *Dysart*, *Lizard Point*, and *Arran Islands*."

Bachyrhew.—Golyga *bach* "le cysgodol" neu "ddiogelfa" *(a nook, corner, or angle)*. Ceir ef yn Y *Fach*, yn Lleyn; Y *Fach Ddeiliog*, yn Mhenllyn; Y *Fach Goch*, a *Bach y Saint* yn Eifionydd; *Bachygwyddyl* yn Sir Gaerfyrddin, ac yn yr enw *Machynlleth*. Ystyr *Bachyrhew* yw "Cilfach y rhew."

Banc Bryn y Gareg Lwyd sydd enw ar faes perthynol i'r Dolau Gwyn. Banc=bank. *Ar y bancau*, *Ar y bencydd*,—on the hills.

Hen ystyr y gair *llwyd* ydoedd *bendigedig (blessed)*.

Llwydion fu'r saint, geraint gu,
Disyml, a llwyd yw Iesu.
—*Rhys Goch Eryri.*

A chywyddau i Dduw *lwyd*,
Yw Llaswyr, Dafydd Brophwyd.
—*Dafydd ab Gwilym.*

Un o'r "*meini hirion*" yw y *Gareg Lwyd*, ac y mae oddeutu pedair troedfedd uwchlaw gwyneb y tir. Diameu nad oedd enw ei safle, namyn *Bryn y Gareg Lwyd*, ar un adeg, y rhan gyntaf wedi ei gymeryd oddiwrth ddullwedd y fan lle y saif, a'r llall o herwydd y gareg ei hun.

Berthlwyd.—Wrth *Berth*, neu yn hytrach "*perth*," y golygir llwyn o ddrain, prysgl, neu ddrysni *(a grove)*. "Ac angel yr Arglwydd a ymddangosodd iddo mewn fflam dân o ganol *perth*" *Exodus* iii. 2. Y mae'r rhan olaf o'r enw hwn yn gyfystyr a'r gair Seisnig *gray*.

Bettws.—*Bettws*, lle canolig rhwng dyffryn ac uwch mynydd. Felly y dywed rhai. Ni a ddaethom yr owan [yr awran] i *Fettws*, hynny yw, lle cynhes tymmoraidd. Y mae hyn yn fwy tebygol fyth wrth osodiad ac agwedd y llanau sy mewn amryw fanau yng Nghymru yn dwyn yr enw hwnw.

Dr. J. Davies (Arch. Brit. 214).

Ereill a ddywedant y perthynai pob *Bettws* i ryw fanachlog, ac mai oddiwrth y gair Lladin *abbatis* y daeth.

Edw. Llwyd (Arch. Brit. 214).

Ymddengys fod yr enw *Bettws* yn un o'r geiriau hyny ag y mae ein dysgedigion yn methu cytuno yn nghylch yr hyn a olyga. Y dyb gyffredin, modd bynag erbyn heddyw, ydyw mai Cymreigiad ydyw o'r geiriad Saxonaidd "*bed hus*" *(bead house)*, sef tŷ gweddïau, o herwydd ei fod yn arferiad yn y sefydliadau hyn a'r cyffelyb i ddefnyddio peleni bychain tyllog, y rhai a elwir yn "beads," i gyfrif paderau. Credir mai math o elusendai oeddynt, wedi eu sefydlu yma a thraw ar hyd y wlad, yn y rhai y croesawid pererinion a ymwelent a'r mynachdai, y rhai, yn dâl am yr ymgeledd a dderbynient, a elent dros restr o baderau Pabyddol ar ran y meirw duwiolfrydig a adawsant feddianau at y cyfryw sefydliadau elusengar."

Bodfor.—*Bod* yn cyfateb i'r Saesonaeg *abode (an abode*, a *dwelling* or *abiding-place)*, a cheir yr un ystyr yn y geiriau cyfansawdd, *preswylfod*, *trigfod*, *hafod*, a *gauafod*.

Yn yr hen amser, pan fyddai blaenor neu arglwydd yn dechreu preswylio mewn man anhygyrch o'r wlad, byddai yn adeiladu preswylfod, a byddai yr annedd yn cael yr enw *bod*, ac enw yr adeiladydd yn gysylltiedig ag ef, megys *Bod Edern*, *Bod Organ*, *Bod Idris*, ac ambell waith cyssylltid ef ag enw gwrthrych a fyddai gerllaw, a galwent ef yn *Bod Afon*, *Bod Ysgallen*, &c. Ar ol adeiladu bod, byddai y penaeth yn adeiladu tai i'w anifeiliaid a'i bobl; ac ar ol gorphen hyn, a chael pethau i ryw raddau yn gyfleus at fyw, byddai y cyfan o'r tai yn cael yr enw *tref;* megys *Tref Caswallon*, *Tref Hedyn*, *Tref Cadwgan*, a *Thref Garon*.

Y mae y rhan olaf o'r enw *Bodfor* yn cael ei wneyd i fyny o'r gair *môr (the sea)*, neu lygriad o'r enw priodol *Ifor*. Tueddir ni i gredu mai ystyr yr enw yw preswylfa neu gartref ger neu ar fin y môr.

Bodtalog, sef cartref person yn dwyn yr enw *Talog (a person having a large forehead)*.

Braichgwyn.—Ystyr braich yma yw ochr mynydd *(an arm or ridge of a mountain)*, ac y mae y rhan olaf o'r enw, sef gwyn, yn dangos ansawdd y lle. Ceir y fath enwau a *Braich Coch*, *Braich Garw*, *Braich Melyn*, *Cefn y Braich*, *Ty'n y Braich*, *Braich y Pwll*. Enwau ereill yn mhlwyf Towyn ydynt *Braichyrhenllys*, *Braich y Caerau*, *Braichycelyn*, a *Braichycilyn*.

Bronprys, neu yn hytrach Bron-y-prysg. *Prysg* yw y gair Cymraeg am *brushwood*.

Bryn y Castell, neu **Bryn Castell**, sydd enw yn awr ar amaethdy yn nghymdogaeth Bryncrug. Saif y ty hwn yn nghysgod bryn, ar uchaf pa un y mae crug a elwir Tomen Bryn Castell. Diamheu mai y bryn hwn a elwid ar y cyntaf yn Fryn y Castell, ond ymhen amser, ddarfod i'r amaethdy gael ei alw ar ei enw. Cyssylltwyd yr enw Castell â'r bryn am y safai un gynt ar

ei warthaf, olion o ba un sydd yn aros eto ar ffurf y domen neu y crug crybwylledig, pa un a gyflunwyd mewn rhan drwy dori y tir oddeutu pen y bryn a gosodiad yr ysbwrial ar yr ymylon.

"Yn agos i'r bryn hwn saif amaethdy o'r enw Cynfal, ac ymddengys mai Castell Cynfal neu Cynfael oedd enw y Castell a safai ar y fan y mae y domen neu y crug a nodwyd."—*Cantref Meirionydd*, 542.

Bryn y Cistiau, neu Fryn y Cistfeini=*the hill of the stone chest or coffer.* Y mae yn amlwg mai beddrodau oedd y cistfeini; canys ceir hwynt gan amlaf o fewn i garneddau, ac yn cynwys esgyrn ac arwyddion ereill o gladdedigaethau. "Saif y fan a elwir Bryn y Cistiau ar fynydd cydranog Coed y Go a Thyddyn y Berllan, yn Nghwm Dolgoch. Tua 34 mlynedd yn ol i'r flwyddyn 1880, yn ol fel y dywedir, yr oedd tair o gistfeini, neu a dilyn enw y fan, dair o gistiau, yn agos i'w gilydd tua phen y bryn, yn fwy neu lai cyfain. Gorchuddid un o honynt, o leiaf, gan garnedd, ac erys dwy o geryg un o'r cistiau hyn ar eu cyllyll yn eu manau, fel cofarwyddion o'i bodolaeth. Ac ymddengys y gorwedd careg orchudd un o'r cistfeini gerllaw. Dygwyd y garnedd ymaith tua'r adeg a nodwyd er mwyn cynorthwyo i wneyd corlan o hen Hafotty—Hafotty'r Waen,—Waen Dasau, yr hon a saif gerllaw wrth odreu dwyrain ogledd y bryn. Cafodd y garnedd ei harchwilio ryw dro yn flaenorol i'w symudiad. Y mae safle dwy gistfaen yn lled agos i'r cistfeini a nodwyd, ac ar uchaf yr unrhyw fryn, ac i'r de oddiwrthynt, y mae hefyd ddwy eraill tua godreu de orllewin y bryn.—*Cantref Meirionydd, t.d.* 548.

Bryn Crug.—"*Crug*" yw twmpath, bryncyn, neu chwyddiant tirol, a dywedir mai ar godiadau tirol o'r fath yr arferai yr hen Gymry gynal eu gorseddau barnol, fel yr oedd "crug" a gorsedd yn myned yn aml am yr un peth. Hefyd, cynwysa gistfeini ac arwyddion claddedigaethau, ac yn gyffredin, bydd amryw o gistfeini yn yr un *crug.*

Bryn Celwydd sydd gerllaw Aberdyfi, a thybir mai ar hwn y safai Castell Dyfi. Llygriad yw yr enw o *Bryn y Cilwydd*, sef *bryn coediog mewn cesail gysgodol*. Dechreuir amryw enwau lleol a'r gair "*cil*"; ei ystyr yw, "lle neillduedig i encilio iddo." Cyfarfyddir enwau a'r gair hwn yn eu dechreu yn fynych iawn mewn enwau lleoedd yn yr Iwerddon, ac ymddengys ei fod yn cyfateb i'n "*llan*" ni yn y wlad hon. *Cilcennin, Cil y Maenllwyd, Cilcain, Cilgwyn, Cilgwrwg, Cil Sant, Cilbebyll, Cil y Cwm, Cilgynydd*, ydynt rai o enwau ein gwlad a'r gair "*Cil*" yn eu dechreu. Ystyr "*gwydd*" yw mangoed, "clyn," prysglwyni. Sonia Dafydd ab Gwilym am "y dirgel *wyddeli*" *(the solitary brakes)*. Ceir lleoedd o'r enwau *Nantgwyddyl, Aber Gwyddyl, Blaen Gwyddyl*, a *Choed y Gwyddyl*.

Bwlch Glas.—*Bwlch* a gymhwysir yn fynych mewn enwau lleoedd at agoriad mewn llinell o fryniau a mynyddoedd. *Bwlch dau fynydd, a pass, a passage, or opening between two mountains.* Y gair Saesneg cyferbyniol i *glas* yw *blue;* ond y mae y Gymraeg yn ei gymeryd weithiau yn gyfystyr a *gwyrdd*. Ceir amryw leoedd gyda'r gair hwn, megys *Pwllglas, Glasgoed, Brynglas, Maesglas*, &c. Gwel *Eglwysi y Gwyddelod*.

Bwlch y Maen.—*Maen* mewn ystyr briodol ydyw sylwedd caled, ac a ddefnyddir at wahanol bethau, yn enwedig at adeiladu. Yr oedd "*maen*" weithiau yn yr oesoedd gynt yn golygu y grefydd Dderwyddol. "Da'r maen gyda'r Efengyl," hyny yw, "Da pob dysg rinweddol ag oedd yn perthyn i'r Derwyddon gyda'r Efengyl." Galwyd y lle hwn yn *Bwlch y Maen* oherwydd fod un o'r meini hirion gerllaw.

Caeceinach.—*Cae* mewn ystyr briodol ydyw y gwrych *(a hedge)** a fyddo yn amgylchynu y maes; ond yn gyff-

---

* A thros *gae drain* cyfain call,
A thraws oedd, a thros arall.
—*Dafydd ab Gwilym.*

March a wŷl yr yd, ac ni wŷl y *cae*.—*Diareb.*

Gwr a blanodd winllan, ac a osododd *gae* o'ũ hamgylch.—Marc xii. 1.

redin iawn, oddiwrth hyny, gelwir y maes amgauedig gan y fath wrych yn gae, megis "*cae o wair*" *(a field of hay)*, "*cae o yd*" *(a field of corn)*. *Ceinach* yw ysgyfarnog *(a hare)*.

Llunio ei gwâl yn llwyn y gog
Draw, y *geinach* d' rogenog.
—*Dafydd ab Gwilym.*

Clychau y naint, clywch yn iach,
A ganant glul y *geinach*.
—*Risiart Cynwal*, i Fytheuaid.

Natur a wnaeth, iawn ytyw,
Ei rhan ar bob anian byw.
Mwythder i'r *ceinych* mwyth-dew,
Daint hirion llymion i'r llew.
—*Goronwy Owen.*

Cae Cynolwyn sydd enw ar faes ar dir Glygyrog Wen, yn nghymydogaeth Aberdyfi. Ymddengys mai enw neu ffugenw perthynol i rywun neu gilydd ydyw y dynodiant Cynolwyn a geir ar y fan hon. Gall mai ffugenw yw yn herwydd rhyw gysylltiad o eiddo yr unrhyw âg Abergynolwyn.

Cae Glas.—Perthynol i fferm Bodtalog. Yr oedd cromlech yn sefyll gynt ar y maes hwn, ond cafodd ei dinystrio. Hefyd, mewn cae o'r enw *Cae'r Brenin*, cafwyd rhai priddfeini Rhufeinig, a gweddillion o weithiau Rhufeinig eraill.

Caethle, o CAETH *(a bondman, a slave)*, a LLE, yn golygu *cartref y caethion neu'r gwyr aillt. Caeth gweinyddol, a domestic bondman or slave.* Yr oedd pedair maenol yn mhob cwmmwd yn perthyn i'r gwŷr aillt, neu y caethion. Nid oedd gan y rhai hyn unrhyw hawl gyfreithlawn yn eu tiroedd: ond yr oedd eu deiliadaeth yn ymddibynu yn hollol ar ewyllys yr uchelwr, neu y tywysog. Y mae y gwŷr aillt yn myned o dan yr enw "taeogion" a "gwŷr nôd," ond o dan ba enw bynag yr

adnabyddid hwynt, a pha faint bynag o wahaniaeth, os oedd gwahaniaeth rhyngddynt o gwbl, yr oeddynt yn dal eu tiroedd yn ol ewyllys y brenin, os byddent ar ddiffaethdir y brenin, neu yn ol ewyllys arglwydd y cwmmwd, os yn y maenolydd caethion. Ymddengys mai y "dawn bwyd"* oedd ardreth wirioneddol y tir, ond er hyny yr oedd yn rhaid i'r gwŷr aillt gyflawnu amryw o ddylesdwyddau ereill er mwyn sicrhau ewyllys da eu harglwyddi.

Carreg Cadfan.—Gorwedd y garreg hon ar ei gorwedd ar lawr Eglwys St. Cadfan, Tywyn. Ond bu a'i safle gynt yn y fynwent berthynol; eithr dywedir iddi gael ei chymeryd o'r fynwent hono, a'i gosod yn bost llidiart un o gaeau Bodtalog, lle yn y gymydogaeth. Dywedir hefyd ddarfod i deulu Ynys Maengwyn, wedi cwympo o honynt allan a theulu Bod Talog, fynu iddi gael ei dwyn yn ol i'r fynwent hono drachefn. Am hanes cyflawn o'r garreg hon, gwel *Cantref Meirionydd*, 531—539.

Castell Dyfi.—Daw y gair castell o'r Lladin *castellum*, a golyga gaer, neu amddiffynfa gymhwys i wrthsefyll ymosodiadau gelynion.

"Castell pawb ei dŷ."—*Diareb.*

---

* Yr oedd yr ardreth hon yn cael ei rhanu yn ddwy; un ran i gael ei thalu yn y gauaf, a'r llall yn yr haf. Yr oedd "Dawn-bwyd" y gauaf yn gynwysedig o hwch deir-blwydd; llestraid o ymenyn, yn dair dyrnfedd o ddyfnder, a thair o led; llonaid cerwyn o frâg yn naw dyrnfedd o drawsfesur; a threfa o ŷd (ceirch) yn ebran; chwe' torth ar hugain o'r bara goreu a dyfai ar y tir. Yr oedd y bara i fod can lleted fel ag i gyrhaedd o'r penelin i'r garddwn, a chan dewed fel na phlygent wrth eu dal gerfydd eu hymylon. Yr oedd yr arglwydd hefyd i gael dyn i gyneu tân yn y neuadd y noson y byddai yno, neu yr oedd yn rhaid talu ceiniog i'r hwn a wnai y gwasanaeth hwnw. Yr oedd "Dawn-bwyd" yr haf yn gynwysedig o fyharen teirblwydd: dysglaid o ymenyn can lletted a'r un yn y dref, ac yn ddwy ddyrnfedd o drwch; chwe torth ar hugain o fara fel o'r blaen; yr oeddynt hefyd i gasglu cynifer o anifeiliaid blithion a fyddai yn y dref a'u godro unwaith bob dydd, a gwneuthur caws o'r llaeth hwnw i'w meistriaid."

Credir i Gastell Dyfi gael ei adeiladu gan yr Arglwydd Rhys, Tywysog y Deheubarth, mewn lle a elwir yn bresenol Bryncelwydd, ac ymddengys iddo gael ei lwyr ddinystrio tua 1157 gan Robert, Iarll Clare, un o'r arglwyddi cyffindirawl, fel nad oes dim olion o hono i'w weled yn bresenol.

Castell Cynfal, a safai ger amaethdy o'r enw Cynfal ar grug a adnabyddir wrth Tomen Bryn Castell. Ymddengys iddo syrthio tua'r flwyddyn 1145, trwy law Hywel a Chynan, meibion Ywain Gwynedd, wrth ei gymeryd oddiar Cadwaladr, eu hewythr o frawd eu tad, pryd ei delid iddo gan Morfran neu Merfyn, abad y Ty Gwyn ar Daf.

Cefn Coch.—"Math o fryncyn yw hwn, sydd yn ymgodi yn gefnen yn Nghwm Dyffryn Gwyn, a saif yn nes i Fwlch Tywyn na'r tyddyndy a elwir Dysyrnant. Ar warthaf y bryncyn hwn erys gweddillion hen gaerfa led fawr; ac o barth ei henilliad, dywedir y safai y gelynion ar ddechreu yr ymosodiad ar ben Mynydd y Llyn—Llyn Barfog, ond y cyrchasant yn ei herbyn, megys o'r tu cefn iddi, sef o ben mynydd Syrnant neu Dysyrnant, y tu arall i'r cwm. Dywedir hefyd y lladdwyd ei hamddiffynwyr bob un; ac i'r cefn y safai y gaer arno gael ei alw Cefn Coch oherwydd ei gochi gan waed y lladdedigion. Ond, yn ngwyneb hyn, er fod yn ddigon tebygol y collwyd llawer o waed mewn cysylltiad a'r hen gaer hon, ac y rhuddgochwyd y llawr ganddo; eto, pa faint bynag a ruddgochodd y gwaed hwnw ar y fan nid gwiw rhoi nemawr o bwys ar y dywediad mai oherwydd gwaed y lladdedigion y cafodd yr enw, canys ymddengys y cysylltir y dynodiant *coch* â manau heb fod a fyno gwaed a'r enw o gwbl."—Allan o *Cantref Meirionydd*, *t.d.* 545.

Cefncrib.—Ystyr CEFN yw "*the back or upper part of a hill.*" *Cefn o dir, a ridge of a land.* Ystyr CRIB ydyw trûm—*(a ridge; a top or summit).*

Crib mynydd, *the crest or ridge of a mountain.* *Ar grib y mynydd, on the ridge or crest of a mountain.* Y mae lle yn dwyn yr enw *Alltycrib* yn Sir Aberteifi.

Cesail.—Tybir fod y gair CESAIL yn dod o'r Lladin *axilla*, a'i fod yn golygu *celfan* neu *ddirgelfan (a recess)*. *Cesail mynydd, a recess or cove in the side of a mountain; a nook in a mountain.*

Tri thir a chnwd a heiniar
Cesail bryn gwar pant a thalar.
—*Englynion Eiry Mynydd.*

Enw ar dyddyn yw *Cesail* yn nghymydogaeth *Llain y Bedd*. Gwel *Llain y Bedd*.

Cilcemmaes.—Am ystyr y gair CIL gwel *Bryn y Celwydd*. CEMMAES: a word of obscure origin and meaning, which is found in the older language only as a place-name. A hundred in North Pembrokeshire, a district and village in Anglesey, and two parishes in the County of Monmouth bear this appellation, the old form being always *Cemeis* or *Cemais*, not *Cemmaes* or *Cemaes*, as now generally written. The first element is probably cam not camp.

Dr. Pughe (deriving it from camp) renders it "a circle or amphitheatre for games;" and this sense has been adopted by some recent writers.—*Geiriadur D. S. Evans.*

Campau y cemmaes.—The Circensian games.

Campau y cemmaes a ddechreuwyd gan Romulus, sylfaenydd Rhufain.—*Credoau y Byd*, I., 415.

Ar ol ei arwain ogylch y *cemmaes*, neu'r gampfa, â llechen argraffedig o'i flaen, hwn yw Attalus y Cristion, mynai cynddaredd y lluaws gael gweled ei ddybendod yn y fan.—*Trysorfa Ysbrydol* (1799), I., 72.

Ystyr *Cemmaes* yw Chwareufa *(Amphitheatre)* neu Faes Cemma; ac y mae amrai o'r cylchoedd chwareu hyn i'w canfod eto yma ac acw ar hyd y plwyf.—*Hanes Machynlleth*, &c., tud. 35.

Cil y Parc.—Daw y gair PARC o'r Lladin *parcus*, a golyga *gaeadfaes (an enclosed field)* at ddybenion helwriaethol. Ystyr *Cil y Parc* yw mangre gysgodol o fewn maes cauedig yn y goedwig. Ymddengys fod *Cil y Parc* un adeg yn ffurfio rhan o fforest fawr oedd yn gor-

chuddio llawer iawn o arwynebedd plwyf Towyn. Cynwysai fforest y canol oesau, o'i mewn heblaw gelltydd, lawer iawn o barciau a thiroedd gwyllt agored, a gedwid felly er mwyn bwystfilod y coed *(beasts of forest—hart, hind, hare, boar and wolf)*, bwystfilod helwriaeth *(beasts of chase)*—y bwch, y cadnaw a'r bele, a bwystfilod daear *(beast of warren)*. Ni chauid y fforest i fewn, ond ceid parciau yn ei chanol wedi ei hamgylchu a phalisau.

Clegyrogddu, Clegyrogwen.—Ystyr CLEGYROG yw creigiog *(rocky; full of rocks)*. *Tir clegyrog*, a rocky piece of ground.

Fy mhen a orphwysai ar gledr fy llaw, tra darluniai fy myfyrdod yr aneirif drallodion a oddiweddasant ein dewrion hynafiaid, ar hyd y moelydd *clegyrog* hyny.—*Gwyliedydd*, v., 27.

Aeth i fyny tua'r Hafotty . . . ar hyd y llwybr troellog, tros glogwyni *clegyrog*, ac uwch dibynau certh.—*Brython*, iv., 333.

Craig Carn March Arthur.—Yn un o'r cymoedd a lechant o olwg y byd, rhwng Pennal ac Aberdyfi, y gorwedd llyn bychan prydferth o'r enw "Llyn Barfog." Dywedir gan rai mai o'r llyn hwn y darfu i Hu Gadarn, gyda'i Ychain Banawg, dynu Afanc y Llyn yn ei gorpholaeth, rhag iddo byth mwyach achosi diluw cyffredinol, drwy dori bwlch yn nghlawdd Llyn Llion. Dywed trigolion gororau Llyn Barfog mai y brenin Arthur a'i farch rhyfel a gyflawnodd yr orchestgamp: ac i brofi hyny dangosir ol carn y march ar graig cyfagos, yr hon a elwir o'r herwydd yn *Craig Carn March Arthur*.

Crychnant, sef rippling stream. *Nentydd crychion*, rippling brooks. *Nofio yn erbyn y crych*, to swim against the stream or current. *Crychell y dŵr*, the rippling of purling of water.

A'r prawf o'i iawndra oedd y nofiai yn erbyn *crych*, hyd yn nod pan wedi ei osod mewn aur.—*Carnhuanawc:* Hanes Cymru, 39.

Y mae y gair NANT i'w gael mewn cysylltiad ag enwau lleoedd yn mhob sir yn Nghymru, ac i'w gael hefyd yn

Lloegr. Ei ystyr yw, lle wedi cael ei dori gan ddwfr, pa un bynag a fyddo y dwfr yn rhedeg yn barhaus neu yn achlysurol. Y mae y gair Sychnant yn cyfleu y synwyr yn dda. Yn mhlith yr amrywiol enwau a geir a'r gair nant ynddynt yn Nghymru, y mae *Nant yr Hebog*, *Nantmel*, *Nantybwch*, *Sychnant*, *Dyfnant*, *Nantcynog*, *Nantiesyn*, *Nantgwenlli*, *Nantymynach*, *Nantygwyddil*, *Nantglyn*, *Nantyglo*, *Nantymwyn*, *Nantyderi*, *Nantgarw*, &c. Yn Nghernyw ceir, *Tynance*, *Pennant*, *Trenance*, *Nance*, a *Nancemelin*, ac yn Lloegr leoedd fel *Nantwich*, &c.

Crynllwyn.—Tardd yr enw hwn o'r ansoddair CRYN (treigliad o crwn) cylchol, a LLWYN *(a grove)*, a golyga le crwn, amgauedig gan goed. *Crynfaen* (crwn + maen) a round stone; a pebble.

> Cod ar ben ffon yn sonio,
> Cloch sain o *grynfain* a gro.
> —*Dafydd ab Gwilym.*

Golyga y gair *llwyn* yn gyffredin fangoed brigog, weithiau gallt o goed, a phryd arall ychydig o goed yn ymyl eu gilydd. Mae y gair mor gyffredin yn enwau lleoedd fel y credwn ei fod wedi myned yn gyfystyr a lle i fyw ynddo, neu gartref, a digon tebyg ei fod wedi dod i lawr o'r amser pan oedd yr hen Gymry yn byw mewn ogofau, a phyllau, a llwyni.

Cwmffernol.—CWM = "A hollow, a dell, a bottom; a deep valley where the sides come together in a concave form, whereas the sides of a *glyn* approach in a convex form; a valley or dingle opening downwards, and closed at the upper end, which is generally called *blaenycwm*." —*Geir. D. S. Evans.*

Ceir y gair yn gyffredin iawn mewn enwau lleoedd yn Nghymru ac yn Lloegr. Dywed Anderson am Cumberland, ei sir enedigol:—

> "There's Cwmerhitton, Cwmwhitton, Cwmranton,
> Cwmrangan, Cwmrew, and Cwmcatch;
> And many more Coms i' the County,
> But nin evir Cwmdoock can match."

"Ar fan o'r enw y Garn, ar ben mynydd Cwmffernol, saif dwy garnedd, heb fod nepell oddiwrth eu gilydd. Y mae y rhai hyn yn garneddau lled fawr, ond y maent wedi cael ymhel â hwy a'u hamharu o fod yn eu ffurf gryno gyntefig. Encyd â'r gorllewin oddiwrthynt, erys un arall, ac megys ar ben yr unrhyw fynydd, ond heb fod ar fynydd Cwmffernol. Buasai yn ddymunol allu dwyn hanesyddiaeth neu farddoniaeth i gysylltiad diamheuol â'r creigiau cerygog neu'r carneddau hyn; ond nid yw yn ymddangos y gellir hyny. Eto, nid annhebygol, wrth ystyried y tebygrwydd enwol rhwng Ffernol, yn Nghwmffernol, â "ffyrnal" a "ffyrnael" y llinellau dilynol, allan o Englynion y Beddau, y claddwyd y gwr y cyfeirir ato ynddynt yn un ohonynt, neu yn rhywle ar neu tua thyddyndir Cwmffernol :—*

"Y Bed yn y Gorvynyd a lyuyaf, ai luyossyd
Bed ffyrnnal hael vab Hyulyd."

Neu o fodd arall :—

"Pieu yr bet ynymynyt,
A lyviasei luossit,
Bet ffyrnnael hael ab hyvlyt."

Wrth y darn llinell "a lyuyaf ai luyossyd" neu y llinell "a lyviasei luossit," y golygir ddarfod i "ffyrnnal" neu "fyrnual" fod yn llywio neu yn trefnu byddinoedd. Y mae y gwr hwn, fel y gwelir, yn cael ei ddynodi yn un hael, ac yn fab i Hyflyd neu Hywlyd.—*Cantref Meirionydd*, t.d. 546.

Cwrt.—"Mae y gair yn dod o'r Lladin *cortis*, a golyga le *cauedig*, neu neuadd, lle y gweinyddir cyfraith, a hefyd lys cyfreithiol. Yn yr hen amser, pan fyddai y brenin neu y penaeth ar ei deithiau rhyfelgar neu helwriaethol drwy y wlad, yr oedd yn rhaid darparu lletty cyfaddas iddo ef, ei deulu a'i swyddogion, tra y byddent yn aros yn y cwmwd; 'Y Cwrt' y gelwid y lle hwnw. Ar y fileiniaid, neu eilltion, sef y caethion oedd yn byw yn y fileindrefi *(villain townships)*, ac yn amaethu fferm yr arglwydd, y disgynai y gwaith o adeiladu neu ddarparu y cwrt, a thai anghenrheidiol eraill i gysgodi y penaeth."

---

* Y mae ar y fan a elwir *Rhos Cwmffernol* ar yr unrhyw dyddyndir, faen ar ei ben yn y ddaear, a dichon ei fod yn dynodi beddrod rhywun neu gilydd.

"Nawty a dyly bileiniaid y brenin eu gwneutur iddo; neuad, ystavel, bwydty, ystabyl, cynorty, yscubawr, odyn, terfyn becan, cerner."

["Nine buildings which the villeins of the king are to erect for him; a hall, a chamber, a buttery, a stable, a doghouse, a barn, a kilyn, a privy and a dormitory."]

Adeiledid y cwrt rhywbeth yn debyg i hyn:—"Gosodid dwy restr o golofnau coed yn gyfredol, a sicrheid hwy wrth nenbren i weithio math o neuadd. Tu allan i hyny, a thipyn o bellder oddiwrth y colofnau, gyrid rhes o bolion i'r ddaear, a phlethid hwy â gwiail neu wrysg cryfion, er ffurfio cynteddau *(aisles)* o bob tu i'r neuadd. Gosodid gwrysg a brwyn neu wellt yn do dros y cyfan. Bob pen yr oedd drws o glwyd blethedig. Yn y cynteddau byddai y preswylwyr yn cysgu ar welyau o wellt, a defnyddid estyll traed y gwely yn eisteddleoedd yn ystod y dydd. Rhenid y neuadd yn ddwy, sef y rhan uchaf, lle yr eisteddai y brenin, ei wraig, ei etifedd, a'i swyddogion blaenaf; a'r rhan isaf, lle yr arosai y gweddill o'r gwasanaethwyr. Rhyngddynt yr oedd y tân a'r pentanfaen wrth bost canol y neuadd. Yr oedd y tân yn cael ei 'enhuddo' bob nos. Mae 'nuddo y tân' yn derm cyffredin. Ar y mab hynaf yr oedd y gofal o'i ddadenhuddo yn y boreu yn gorphwys. Yr oedd cyssylltiad agos rhwng y gwaith teuluaidd hwn, a meddiant yr etifeddiaeth, fel yr aeth y gair *dadenhudd** yn derm cyfreithiol ynglyn a'r etifeddiaeth."

Cynfal Fach, Cynfal Fawr.—Dwy drefgorda yn y plwyf, yn agos i Dowyn. Ceir hefyd amaethdy gerllaw yn dwyn yr enw Cynfal, yn nghydag amddiffynfa o'r enw Castell Cynfal neu Cynfael. Gwel *Bryn y Castell*.

---

* "A term for a peculiar suit at law for the recovery of patrimony, formerly in the possession of an ancestor of the claimant, founded on the circumstance of the custom of covering the fire previous to retiring to rest, generally in modern times with a large turf, by which a smouldering fire is kept up, and uncovering it in the morning."

Dadl dadanhudd, *Cwyn dadanhudd* } a suit for the recovery of patrimony.

Dau Ddyffryn.—Lle yr ymgyfarfydda dau ddyffryn. Daw y gair DYFFRYN o "dyfr-hynt"—tramwyfa dwfr. O'r enwau *glyn*, *cwm*, *dyffryn*, *ceunant*, *pantle*, ystyrir *dyffryn* yr eangaf a'r mwyaf agored o honynt oll.

Dol Goch.—"Dygir y lle hwn i sylw mewn cysylltiad â Gruffydd ap Adda o'r Ddol Goch. Yn ol a ddywedir, saif olion yr hen Ddol Goch, preswylfa Gruffydd ap Adda, yn ymyl afon Dol Goch, ac ar y tu deheuol iddi. Y mae ei safle, hefyd, bron a bod gyferbyn a'r anedd-dy a elwir yn bresenol ar yr enw hwn, pa un sydd yn ymyl yr unrhyw afon, ond ar yr ochr arall iddi.

Odditan neni bwäog yn mur gogleddol cangell yn Eglwys Towyn y mae darlun ar ei orwedd, yn cael ei arddangos fel mewn cadwisg milwr cyffyllog, ac megis yn y weithred o weinio ei gledd. Yn y mur uwch ei ben ceir y geiriau canlynol:—"Yma gorwedd Gruffydd ab Adda, o Ddol Goch ac Ynys y Maengwyn, Rhaglaw y cwmwd hwn yn y bedwaredd a'r seithfed flwyddyn o deyrnasiad y brenin Edward y Trydydd."

Dol y Ffrwd.—"Yn ol a ddywed traddodiad, bu llawer o ymladd yn erbyn eu gilydd rhwng y fyddin oedd ar Domen Bryn y Castell yn mhlwyf Towyn, a'r un a safai ar y Domen Ddreiniog yn mhlwyf Llanegryn. Cyfarfuant â'u gilydd rai gweithiau ar y gwastadedd rhwng y ddau le a nodwyd. Ac un tro cyfarfu y ddau lu hyn â'u gilydd, gan ymladd mor ffyrnig nes y rhedai eu gwaed yn ffrwd ar y fan, a dywedir y galwyd safle y frwydr o'r herwydd yn Ddol y Ffrwd. Saif y ddol hon ar y gwastadedd yn agos i Ynys Maengwyn, ond y mae y rhanbarth a gynwysai gynt wedi ei ddosbarthu i dair o ddolydd. Gwnaed clawdd un o'r Dolydd hyn oddeutu'r flwyddyn 1840. Ond cauwyd y llall ar ei phen ei hun ryw dro yn flaenorol, a gorwedd am y clawdd a'r ffordd fawr sydd yn arwain o Dywyn tua Bryn Crug, ac adnabyddir hi yn gyffredin dan yr enw Cae'r Bont Wen, eithr yr ydys yn gwybod am dani, fel Dol y Ffrwd Ucha'. Adnabyddir yr agosaf ati fel y Ddol Ffrwd Ganol, a'r llall fel Dol Ffrwd Isa', a hon yw yr un sydd yn cael eu hadnabod yn gyffredin yn awr fel Dol y

Ffrwd. Rhed nant neu ffrwd o ddwfr i lawr o Gwm Cynfal heibio am y clawdd a'r ddau ddosraniad agosaf i'r brif-ffordd o'r hen Ddol y Ffrwd, a rhed hefyd am ychydig latheni efo ymyl y dosraniad arall, sef Dol Ffrwd Isa', ond a drowyd ymaith er's nifer o flynyddoedd yn ol, fel nad yw yn llifo ymlaen i'w therfyn eithaf. Ac os oes a fyno ffrwd waedlyd â'r enw Dol y Ffrwd yn nghysylltiad â'r dolydd hyn, mwy tebygol na bod gwaed y ddeulu gelynol yn rhedeg yn ffrwdlif ddigymysg, ar hyd y gwastadedd, ydyw ei fod yn cochi y nant neu y ffrwd ddwfr dan sylw."—*Cantref Meirionydd*.

Dyffrynglyncul.—Y mae yr enw hwn yn gyfansoddedig o DYFFRYN *(a deep valley)*, GLYN *(a glen)*, a CUL *(narrow)*. Y mae *glyn* yn golygu lle cul rhwng gelltydd neu fryniau, a hyny lawer yn gulach na dyffryn. Wrth *gul* y golygir *cyfyng (narrow)*. *Llwybr cul (a narrow path)*. *Lle cul (a narrow place)*.

Yn rhandir Aser yr oedd gwlad Phenicia yn llain *gul* ar hyd glan Môr y Canoldir.—*S. Lloyd, Amserydd-iaeth*, 78.

Dysefin, sydd lygriad o *Maes Hefin*. Ystyr HEFIN yw haf hin, hyny yw, hinsawdd haf.

Alban *hefin* yw calan haf.—*Barddas*, i., 418.

Dysyrnant, sydd enw ar dyddyn-dŷ ac ar nant fechan drystiog a lifa drwy Ddyffryn Gwyn. Llygriad yw yr enw o Drwsynant. Arferir y gair *drws* fynychaf i ddynodi yr agorfa, y fynedfa, neu y dramwyfa i adeilad, ac i wahanol ystafelloedd mewn adeilad, a *dôr* i ddynodi cauad y drws. Oddiwrth hyn y cafodd amryw fynedfeydd rhwng mynyddoedd eu henwau, megys *Drws y Coed*, *Drws y Nant*, *Drws Ardudwy*, &c.

Dysynwy neu **Desynwy,** sydd enw ar afon yn cychwyn i'w thaith o Lyn Tal y Llyn, ac wedi llifeirio tua 17 o filldiroedd i'r de orllewin, ymarllwysa i'r môr ger Towyn. Dywed awdwr yn *Cymru (Parthedigol* &c.), mai ystyr yr enw yw Di swn wy, am ei bod yn rhedeg yn arafaidd a synllyd. Gwell genym ni gredu fod yr *wy*

yn yr enw yn golygu *dwyfol* neu *gyssegredig*, fel yn *Dyfrdwy*, y *Dyfi*, &c., a bod yr enw wedi ei gludo i lawr drwy yr oesau, o'r cyfnod chwedlonol, pan yr addolid afonydd yn y wlad. Gwel tud. 7.

Eisteddfa Cadfan.—Gwel *Llwybr Cadfan*.

Efailfeurig, neu yn hytrach *Gafael Meurig*. *Gafaelau* ydoedd fath o raniadau tirol yr hen amser. Yr oedd *gafael* a *gafaelau* yn eiriau a ddefnyddid yn gyffredin iawn dan gyfundraeth dylwythol y Cymry. "Pedair rhandir ymhob *gafael*." *Gafael* ydoedd y rhan hono o dir a ddelid gan feibion, neu wyrion perchenog y "gwely." Weithiau â rhandir yr wyrion dan yr enw "gwely" yn ogystal a *gafael*. Mae amryw ffermydd yn mhlwyf Llandyssul, Sir Aberteifi, yn dwyn yr enw *gafael*, megys *Gefeilau*, *Cwmgefeilau*, *Gwarcefel*, *Yr Afaelfach*, &c.

Erw, sydd enw ar faes ger Eglwys Tywyn. Golyga y gair ERW heblaw rhaniad tirol *(an acre)*, etifeddiaeth, treftadaeth *(an estate, an inheritance)*.

Erw y gwydd, an acre of land set aside towards providing implements of husbandry.

Erw ddiffoddedig, an estate that falls to the king, because the proprietor had no heir.—*Geir. Richards.*

Eglwysi y Gwyddelod.—Golyga y gair EGLWYS yn gyffredin, nid yn unig gynulleidfa grefyddol, ond hefyd yr adeilad neu'r lle yn mha un yr arfera addoli. GWYDD-HELOD neu *Gwydd-helwyr* y gelwid y llwythau Brytanaidd a Chymreig a gymerent y rhan fwyaf blaenllaw yn nhreiddiad y coedwigoedd, a heliad y bwystfilod rheibus, o barthau newyddion ag y chwenychid eu poblogi. Y mae tri o hen olion o fewn plwyf Tywyn yn dwyn yr enw Eglwys y Gwyddelod. Ceir hwy ar fynydd y *Bwlch Glas*, yn nghoed *Perfeddnant*, ac ar fynydd *Ty'nllwyn*. Tybir mai "Brynach Wyddel" a sefydlodd yr eglwysi hyn.

Erw Porthor.—"Yn lled agos i Gaethle, y mae tyddyndy o'r enw Erw Porthor, o'i sillebu yn ol fel ei

gelwir ar lafar gwlad; eithr yn y *Rental of the Land Revenue of the Crown*, y mae yn cael ei ddynodi fel 'Erw Ferthyr, neu Erw Forthor, neu Erw Porthor.' Ond yr oedd ysgrifenydd neu ysgrifenwyr yr unrhyw, gymaint yn y tywyllwch o ran ystyr enwau, fel nad gwiw dal nemawr o sylw ar y gwahanol ddulliau hyn. A cheir yma ddilyn dull arferedig y wlad o'i alw, yr hwn hefyd a roddir i lawr fel un o'r dulliau dyfynedig uchod. A chynygir yma ddau ddyfaliad fel rheswm am paham ei gelwir yn Erw Porthor. Un o'r dyfaliadau hyny yw, mai, os yw Caethle yn ddull cywir neu gyflawn o enwi y tyddyndy a adnabyddir fel Caethle neu Caethla gan y wlad yn gyffredinol, y gall y bu gynt fath o garchar tua'i fangre, ac fod yr enw yn ddynodiant o hono; ac y perthynai i'w borthor erw o dir, a elwid Erw Porthor, oddiwrtho. Ond gan nad ymddengys yn ddigon diogel fod *le* yn derfyniad cywir, nid yw y dyfyniad hwn yn ymddangos yn derfynol nac yn safadwy. Felly ceir rhoddi y llall, sef, y dichon, yr hyn sydd debycaf, mai oherwydd rhyw berson neu gilydd, a elwid Porthor, ond heb fod a wnelai ddim â'r borthoriaeth awgrymedig, y cafodd rhyw erw neu gilydd, tua safle y tyddyndy, ei galw Erw Porthor, ac ymhen amser gwedi ddarfod galw y tyddyndy ar y dynodiant hwn. Ac fel ategiad i'r dyfaliad yma, gosodir gerbron yr englyn canlynol, ac yn y llinell gânol iddo ceir yr enw personol Porthawr (Porthor). Un o'r englynion a elwir 'Englynion y Klyweit' ydyw, ac wele yr unrhyw:—

"A glyweisti a gant Cadreith
Fab Porthawr filwr areith,
Ni char Dofydd diobeith.
—*Cantref Meirionydd*, t.d. 562.

Dyfaliad o'n heiddo ni yw i *Erw Porthor* dderbyn ei enw oddiwrth *porthor*—un o swyddogion y *cwrt*. Yr oedd y swyddog hwn yn rhydd-ddeiliad—yn dal ei dir fel tâl am ei wasanaeth yn y cwrt, tra byddai y tywysog yn aros yno. Heblaw cael ei dir yn rhydd, cawsai lawer iawn o fanteision eraill. Dyma fel y dywed y *Cyfreithiau* am dano:—

"Ev a dyly ei tir yn ryd, a'i tŷ o nen y port. Ev a dyly ei ymport o'r lŷs yn gwastad a saig pan fo y brenin. Ev a dyly o bob anreg a êl trwy y port dyrnbed. Ev a dyly o bob pwn cynnud, a êl trwy port, yscyren a tyno yn ddilestair i'r marc, ai law ar y port. Ev a dyly pedair ceiniawg y can pob carcarawr y cauer y port arno. Ev a dyly dynu crwyn yr aniveiliaid a lader yn y lys, yntau a dyly ceiniawg o bob un onaddynt hwy. Ev a dyly o'r anrait o moc a del trwy y port, hwc a alo ev erpryn ei gwryc ei dercavael, a'i un law yny bo cyvuwc ei traed a tal ei deuglyn; a lodyn cwta a del i'r port ev pieubyd. Ev a dyly pedair ceiniawg o bob amgobyr a del o honei. Ev a dyly gwysiaw gwyr y maertref i'r gwait. Ev a dyly o bob dirwy a camlwrw a dycer y arnadynt gobyr. Ev a dyly negesau yn ryd yn y lys; ac a dyly cadit y caws a popo. Ev a dyly arlwyaw y lys y am peri gwelta a peri cynneu y tân, &c."—"*Cyv.*," tud. 972).

Enwau eraill yn y plwyf gyda'r rhagddawd *(prefix) Erw*, ydynt *Erw Goch*, *Erw Faethlon*, *Erw Gwenllian*, *Erw Pistyll*, ac *Erwhenblas*.

Escuan, sydd naill ai llygriad o *Esgair* neu o *Ysgawen*.

Esgairgyfela.—Ystyr y gair ESGAIR ydyw cangen neu ymestyniad allan o beth. "Ni thorasant ei *esgeiriau* Ef." Mewn enwau lleoedd golyga fryn neu fynydd yn ymestyn allan. Ceir *Esgairgeiliog* yn Sir Drefaldwyn, ac *Esgairhir* yn Sir Aberteifi. Llygriad yw'r rhan olaf o'r enw uchod o *gafaeliau*. Dosberthid y tiroedd yn yr hen amser gan y Cymry fel y canlyn:—

4 Erw mewn un Tyddyn.
4 Tyddyn mewn un Rhandir.
4 Rhandir mewn un "*Gafael.*"
4 *Gafael* mewn un Dref.
4 Tref mewn un Maenol.
12 Maenol a 2 dref mewn un Cwmwd.

Neu yn ol y drefn ganlynol:—

4 Erw mewn un Tyddyn.
16 Erw mewn un Rhandir.
64 Erw mewn un *Gafael.*
256 Erw mewn un Dref.
4 Tref mewn un Maenol.
50 Tref mewn un Cwmwd.
100 Tref mewn un Gantref.

Esgairweddau.—Enw ar ffermdy ger Pennal, ond yn mhlwyf Towyn. Ystyr yr enw yw *Esgairygwydd*, h.y., *Esgair yn y Coed*. Hen enw y lle ydoedd *Plas-yn-y-Rofft*. Gwel *Rofft* yn rhestr enwau plwyf "Pennal."

Fachgoch.—Am FACH, neu yn hytrach *Bach* neu *Mach*, gwel tud. 9. Mae COCH yn air cyffredin yn nghyfansoddiad enwau lleol. Cawn *Rhiw Goch, Clyn Coch, Penllwyn Coch, Parc Coch, Dol Goch, Penrhyn Coch, Pont Coch, Allt Goch, Fron Goch*, &c. Yn y parthau hyn, gelwir tir fyddo wedi ei aredig yn "dir coch." Credwn mai oddiwrth liw arwynebedd y tir yn y gwahanol ardaloedd y tardda yr enwau a nodwyd.

Faenol (Y).—Ffurf arall ar y gair ydyw MAENOL, *maenawl*, neu *maenawr*. Golyga randir neu ddosbarth o wlad (gwel *Esgairgyfela)*. Rhoddid yr enw hwn ar ddarn o dir am, o bosibl, y dynodid ffiniau tirol ar y cyntaf gan feini wedi eu gosod i lawr yma thraw. Cynwysai pob maenol, yn ol Cyfreithiau Hywel Dda, 1,024 o erwau—"pedair ar ugain a mil o erwi yn pob maenawl." Dywed Mr. Gwenogfryn Evans, yn y *Liber Landavensis*, am y gair fel hyn :—

"Mainaur still survives in S. Wales as Vainor, N. W., Vainol. It is etymologically distinct from English Manor and seems to have meant a group of *stone* buildings."

Ffridd=defeidle *(a sheep-walk, a sheep-farm)*.—Ceir amryw leoedd yn mhlwyf Llangelynin yn dwyn yr enw hwn, a golyga yn gyffredin ran o fynydd wedi ei gau i fewn at gadw defaid.

Ffynnon Cadfan.—Wrth ffynnon y golygir tarddle dyfroedd allan o'r ddaear; y lle y byddo dyfroedd yn tarddu allan o'r ddaear. Tybir fod y gair yn dod o'r *Lladin fons (a fountain)*.

"FFYNNON signified also anciently the first or biggest lakes of the greatest mountains, as we find by *Ffynnon Las, Ffynnon Felen*, and *Ffynnon Frech*, near Llanberis, in Carnarvonshire."—*Edward Llwyd*.

CADFAN, brodor o Lydaw, sef mab i Eneas Lydewig o Gwen Teirbron, ferch Emyr Llydaw, tywysog yn y wlad hono. Daeth i Gymru tua'r flwyddyn 576. Dywedir mai efe a sefydlodd eglwys Towyn, ac iddo gael ei gladdu yno. Y mae colofn yn mynwent Towyn a elwir *Maen St. Cadfan*, a thybir fod y golofn hon wedi ei chyfodi er cof am dano. Y mae amryw leoedd yn Nghantref Meirionydd yn dwyn ei enw—*Cwm Cadian, Eisteddfa Cadfan, Llwybr Cadfan*, a *Phistyll Cadfan*.

Ystyrir fod *Ffynnon Cadfan* yn llesol at wella y gewynwst, ac anhwylderau croenaidd.

Garthmawr, a elwir ar yr enw hwn i'w wahaniaethu oddiwrth le yn y gymydogaeth a adnabyddir wrth yr enw Garthbach. Arferir rhoddi ystyr y gair GARTH yn *projecting ridge;* diau mai ar y fath le, os byddai modd, yr adeiledid y *garthoedd* yn yr hen amser, fel amddiffynfeydd *(forts)*, a daeth y gair i arwyddo y lle yn gystal a'r amddiffynfa. Y mae yr enw *garth* yn un o'r enwau y deuir ar ei draws amlaf yn Ngogledd Cymru. Ceir *Garthwnion, Penarthwnion, Llwynarth, Arthog, Llanarth, Gogarth, Ceniarth, Garthbeibio, Garthangharad, Garthyfog, Garthfach*, &c.

Gelligraian.—Yr hen syniad am y gair GELLI neu *celli* ydoedd, mai *llwyn o goed cnau (grove of hazel-trees)* a feddylid wrtho, ond ymddengys nad oes a fyno a choed cnau, ond ei fod yn gyfystyr a'r gair Saesneg *grove*.

> Haws oedd mewn castell *celli*,
> Ar hafnos ei haros hi.
> —*Dafydd ab Gwilym.*

Wrth GRAIAN y meddylir *gro, tywod bras, marian-ro (gravel, coarse gravel, pebbles)*.

"Melus gan wr fara trwy ffalsedd; ond o'r diwedd ei enau ef a lenwir â *graian*.—*Diarhebion* xx. 17.

Gessel, llygriad o *Cessail*. Gwel tud. 17.

Geufron.—Cyfansoddir yr enw hwn o *gau* neu *cau (to fence or enclose about with a hedge or hedges)* a

bron (a slope or side of a hill). Ystyr yr enw yw lle wedi ei amgau a'i amgylchynu â chlawdd neu wrych. Adail *cau* y galwai Lewis Glyn Cothi arch Noa; nythle *gau* ydyw nyth aderyn. *Ceufaes,* an enclosure.

Dylai pob tyddyn gael ei adranu yn *geufeusydd* atebol i drefn y triniad.—*Aneurin Owen:* Amaeth. 23.

Glanyrafon.—Ystyr GLAN yw min, ymyl, ochr, ceulan, megys glan y môr, neu glan yr afon, hyny yw, min y môr, neu ymyl yr afon. Wrth AFON *(a river)* yn gyffredin y golygir ffrwd o ddwfr croyw yn rhedeg i'r môr.

"Yr holl *afonydd* a redant i'r môr . . . o'r lle y daeth yr *afonydd,* yno y dychwelant eilwaith."—*Pregethwr* i. 7.

Glanymorfa.—Ystyr y gair MORFA yw lle ar lan y môr, ac yn gyffredin lle y byddo llanw y môr yn arfer dyfod. Ei gyfystyr yn Saesneg yw *moor—a fennish place which the sea overflows.* Yn y lle hwn, Ionawr 22ain, 1751, y ganwyd yr athrylithgar Dafydd Ionawr.

Gogarth.—Ystyr y flaenddawd GO yn yr enw hwn yn ol rhai yw *bychan* neu *bach (little),* megys yn *Gobant,* a little valley or dale. *Gofron,* a little hill. Tybia eraill mai ystyr yr enw yw *gwyddgarth,* o *gwydd* (coed), a *garth* (amddiffynfa), yn golygu felly amddiffynfa goediog, neu amddiffynfa yn y coed.

Groesfaen.—Un o'r Meini Hirion. Saif mewn maes yn ymyl y ffordd fawr a arwain o Fryn Crug i Dywyn, ac yn y pellder o tua thair rhan o filldir o'r lle olaf. Ac ystyrir fod ei safle ar y terfyn rhwng trefddegwm Cynfal a threfddegwm y Faenol. Mesura oddeutu wyth troedfedd oddiar wyneb y tir.

Dywed traddodiad ei defnyddid gynt i gael gwared o wiber a lochesai gerllaw yn nghoed Ynys y Maengwyn; ac yr arferai y wiber hono flino y bobl a dramwyent heibio ar hyd y ffordd. Ac er mwyn lladd y fath fwystfil niweidiol, ddarfod pwyo pigau dur i dri thwll ar ben y garreg, a thaenu brethyn coch dros y pigau. Yna, wedi parotoi fel hyn, ddyfod o'r wiber mewn llid mawr

gan guro yn ffyrnig yn erbyn y pigau dur yn ei chynddaredd at y brethyn coch. Ond, fel yr ymgurai, trywenid ei mynwes ganddynt, a bu yr archollion a gafodd trwy hyny yn farwol iddi. Ystyrir fod llid mawr gan y gwiberod at liw coch, a dywedir y taenid brethyn o'r lliw hwn ar bigau dur er mwyn enyn eu digofaint a'u cynhyrfu i ymguro yn erbyn y pigau.

Nid ydys yma yn gallu mynegu yn benodol paham y gelwir y maen hwn yn Groesfaen. Dichon ei gelwir felly oddiwrth ei safle ger Croesffordd. Neu ynte am ei golygid yn faen terfyn, canys ymddengys oddiwrth hen Gyfreithiau Cymru, y gelwid maen terfyn yn groesfaen yn Ngwent, ac feallai y gwneid hyny hefyd yn Ngwynedd. Ond, dyma a ddywed yr hen gyfreithiau hyny yn ol dull Gwent yw croesfaen, wrth fynegu maint cosbedigaeth "Am Tori Finyeu" yn cynwys y cyfryw:—"Croesuen, sef yw hwnw, maen ffin neu pren ffin neu peth arall enwedic avo yn kadw ffin, wheugeint."—*Cantref Meirionydd, tud.* 550.

Gwaendasau.—GWAUN, yn ol Geir. Richards, yw "*a meadow, a down*" yn Neheudir Cymru, a "*a mountain meadow*" yn Ngogledd Cymru. *Das*, neu *Tas*, lluosog *dasau, deisi, deisydd*, a heap, a pile, a stack. *Das ŷd, Das o ŷd*, a stack of corn.

Achos hyny llosged llawer iawn o dai, ac ysguboriau, a *deisydd* yd.—*Iolo MSS.*, 43.

Dasau o yd eisieu oedd.—*Ieuan Du'r Bilwg.*

Das gwair, a hay rick.

Cymaint caredigrwydd a rhwng yr hen fuwch a'r *das gwair*.—*Diareb.*

Das mawn, Das tywarch, a heap of turf or peat. *Das rhedyn*, a fern mow.

Gwyddelfynydd.—Deillia yr enw hwn oddiwrth GWYDD (coed) a MYNYDD *(a mountain)*. Ceir lleoedd o'r enwau *Blaen Gwyddyl* ac *Aber Gwyddyl*, a sonia Dafydd ab Gwilym am y *dirgel wyddeli (the solitary brakes)*. Ystyr yr enw *Gwyddelfynydd* yw *mynydd coediog*.

Gwydd Gwian.—Yn yr âch-lyfr gan Lewis Dwnn, gelwir y lle hwn yn Gwydd Gwion, uwchben achau ei gyn-berchenogion. Golyga yr enw fel yr ymddengys goed rhyw un o'r enw Gwian neu Gwion. Galwyd coed y fan, neu ryw gyfran o honynt, oherwydd rhyw achos neu gilydd, ar yr enw Gwian neu y Gwion hwn; ac ymhen amser rhoddwyd yr unrhyw enw ar y tŷ a'r tyddindir perthynol. Saif tyddyndy Gwydd Gwian ar y tu de-orllewin i Gwm Dyffryn Gwyn. Bu y lle gynt yn cael ei breswylio gan ei berchenogion; ond y mae wedi newid dwylaw er hyny, a phreswylir ef yn awr gan dirddeiliad.—*Cantref Meirionydd, tud.* 559.

Hafod, enw fferm.—Cyfarfyddir y gair yn aml mewn enwau lleoedd a orweddant ar ystlysau ein bryniau a'n mynyddoedd. Deillia yr enw o HAF *(summer)* a BOD *(a dwelling);* a golyga *le i fyw yn ystod yr haf.* Yr oedd yn arferiad gan ein cyndadau, oeddynt yn byw mewn tyddynod yn agos i waelod y dyffrynoedd, i fyned a'u deadelloedd yn yr haf i fyny i'r bryniau i bori. Codent fythynod bychain yma a thraw mewn lleoedd cyfleus, er mwyn trin y blith ynddynt, a galwent le o'r fath yn *hafod (summer house).* Gelwid y cartref yn y dyffryn weithiau yn *hendre* neu *gauaf-dy (a winter-house).*

Hafotty'r Waen.—Saif y lle hwn wrth odreu dwyrain-ogledd Bryn y Cistiau, ac adnabyddir ef weithiau wrth yr enw *Hafotty'r Waen Dasau.* Gwel *Hafod* (tud. 31), *Bryn y Cistiau* (tud. 12), a *Gwaen Dasau* (tud. 30).

Llain y Bedd.—LLAIN, llafn, llinell—sef darn hirgul o unrhyw beth. *Llain o dir,* a strip of land. *Llain o frethyn,* a piece of cloth. Y mae y fangre a ddyga yr enw Llain y Bedd ar dir rhag-dyddyn o'r enw Tyno, a cherllaw y ffordd a arwain heibio y tyddyn a elwir y Gesail, o gyfeiriad Llanfihangel y Pennant, tua Bryncrug, ac ar y tir isaf iddi. Yn amser tad neu daid un a fu farw yn y flwyddyn 1865, yn 86 mlwydd oed, yr oedd hen grythor, yn ol a ddywedir, yn byw mewn tŷ yn lled agos i'r Gesail. Byddai hwn weithiau yn arfer myned i deithio trwy dir y De; ond un tro, wedi iddo fyned i rodio y ffordd hono, ni chyrhaeddodd yn ol i'w

gartref fyth mwy. Aeth cryn lawer o amser heibio ar ol ei fynediad oddicartref heb i neb ystyrio rhyw lawer yn ei gylch, gan dybio iddo aros yn hwy nag arferol yn y Deheudir. Eithr, fel yr oedd yr amser yn cerdded yn mlaen, ac yntau yn parhau heb ddyfod adref, aed i ddechreu holi am dano; a chafwyd sicrwydd ei gwelwyd yn Machynlleth, ar ei ffordd tuag adref, er's llawer o wythnosau yn flaenorol. Ond ni chaed dim o'i hanes gwedi hyny hyd ymhen tuag ugain mlynedd. Ond tua'r pryd hwn, fel yr oeddis yn agor ffos trwy gors yn y fan a nodwyd, darganfyddwyd esgyrn dynol, a darn o flaen cyllell yn asgwrn y gwddf. Caed yno, hefyd, ben crwth; ac felly, oddiwrth y cyfryw arwyddion, barnwyd mai gweddillion yr hen grythor a'i grwth oeddynt, ac ddarfod iddo gael ei lofruddio wrth ddychwelyd adref, a'i daflu i'r gors hono. A gelwir y fan yn *Llain y Bedd* oherwydd hyn.—*Cantref Meirionydd, tud.* 549.

Llan Gadfan.—Llan, mewn ystyr briodol, sydd yn arwyddo darn o dir, neu faes cauedig, a ddefnyddir at ryw wasanaeth penodol; lle clir, darn o dir i roddi rhywbeth penodol i'w gadw ynddo, megys *corlan (a sheep fold), Ydlan (a rickyard), Perllan (an orchard)*, a *Corphlan (a church-yard)*. A thebygol fod yr enw llan wedi dyfod ar yr addoldy plwyfol yn y wlad hon oddiwrth y llan, neu y llanerch gauedig sydd yn ei amgylchynu yn gyffredinol, lle y cleddir y meirw, sef y fynwent. Hen enw ar Eglwys Tywyn yw Llan Gadfan. Ystyrir yn gyffredin mai Cadfan o Lydaw ydoedd sylfaenydd yr eglwys neu y llan hon. Gwel *Cadfan*.

Llanerchgoediog. — Llanerch = arwyneb cysgodol; lle amgeuol mewn dinas neu goed *(a distinct place, or piece of ground)*. Yn ol Geir. Richards, *a bare open place in a wood*. Ystyr *coediog* yw *abounding with wood or trees; covered with trees. Gwlad goediog*, a well-wooded country.

Yr ail a elwir y cylch *coedog*, llawn o dderw, ffawydd, ffynidwydd.—*Gwallter Mechain:* Gwaith ii. 403.

Llanerch y Bleiddiaid.—Y mae yr enw hwn yn ein harwain yn ol i'r amser hwnw pan oedd Llanerch y

Bleiddiaid yn rhan o fforest fawr yn mhlwyf Tywyn—lle y cedwid bwystfilod y coed *(beasts of forest—hart, hind, hare, bear, and wolf).*

Llwyn.—Mae amryw leoedd yn Nghantref Meirionydd a'r gair LLWYN ar eu dechreu. Golyga y gair yn gyffredin fangoed brigog, weithiau gallt o goed, a phryd arall ychydig o goed yn ymyl eu gilydd. Gwel *Crynllwyn*, tud. 19.

Llwyncelyn=*a holy grove.*

A glywaist ti chwedl aderyn
O ganol y *llwyn celyn?*
—*Iolo MSS.*, 260.

Llwyn Onn.—Enw lled gyffredin ar dyddyndai yn Nghymru yw "Llwyn Onn," a gelwir un o'n halawon Cymreig mwyaf prydferth ar yr enw hwn hefyd. Cyfieithir llwyn i'r enwau Seisnig *grove, bush,* &c., ac ymddengys mai y lluosog o *onen* yw *onn.* Lluosog arall yw *ynn. Coed derw,* a *choed ynn,* ddywedir yn y Deheubarth.

Llwynwccws.—Llygriad yw'r enw hwn o *Lwyn hoccys.* Yr enw Seisnig ar y llysieuyn hwn yw *mallows. Hoccys bendigaid, hoccys y garddau,* garden mallows. *Hoccys morfa, môr-hoccys, hoccys y gors,* marsh-mallows.

Llwybr Cadfan.—LLWYBR mewn ystyr briodol, ydyw troedffordd, neu fynedfa o'r naill fan i'r fan arall. Y gair Seisnig mwyaf arferedig am dano yw *foot-path. Llwybrau y mynyddoedd,* mountain foot-paths.

"Gelwir y llwybr neu y ffordd y dywed llafar gwlad yr elai Cadfan ar hyd-ddi wrth dramwyo yn ol a blaen o Lan Gadfan, yn Swydd Drefaldwyn, i eglwys Tywyn neu Lan Gadfan, yn Meirionydd, yn nghyflawniad ei weinidogaeth ynddynt, yn Llwybr Cadfan. Parha yr hen lwybr neu y ffordd hon i fod yn ganfyddadwy mewn manau yn y pellder rhwng y ddwy Lan hyn a'u gilydd. Ond, nid yw yn ymddangos y gellir canfod ei ol yn nes i Eglwys Tywyn na maes sydd wrth dyddyndy yr Erw, eithr y mae i'w weled yn cyfeirio i fynu ar osgo ar hyd lethr y cae hwn, ac, ymhellach ymlaen, ond yn ychydig yn is i lawr na'r llwybr, y mae Pâstyll Cadfan, ac ychydig ymhellach

y mae Eisteddfa Cadfan. Cyfeiria y llwybr ymlaen oddiwrth yr Eisteddfa i Fynydd y Pentre',—Pentre' Maes Trefnant, ar yr hwn y mae yn weledig am encyd o ffordd. Hefyd, y tu draw i Bont Llaeron, y mae i'w weled yn mynydd Bryn yr Eglwys yn cyfeirio ymlaen ar hyd ochr y cwm i gyfeiriad Bwlch y Groes, man sydd tua blaen yr unrhyw fynydd. Cyfeiria ymlaen trwy ran o blwyf Penal nes cyraedd y tu draw i Afon Ddulas i blwyf Llanwrin, a hyny yn ol rhai trwy fynydd y Fottŷ (Hafotty), o dan dwll y Daran,—Taran Gesail, ac ymlaen i'r Bwlch Llydan. Yna trwy fynydd Pantperthog, a thir Cwmcadian a thros Afon Ddulas â dir Fron Felen. Cyfeiria ymlaen o dir Fron Felen i fynydd Esgair Geiliog, gan groesi cornel iddo gyferbyn a Gallt y Rhiw. Yn ymestyn i fynydd Ty Mawr y mae llwybr neu gefnffordd a ystyrir yn Llwybr Cadfan. A chyfeiria ymlaen heibio y tu uchaf i adfeilion hen dyddyndy o'r enw Maesgwm. Ymhellach ymlaen y mae ffordd a ystyrir yn llwybr Cadfan yn myned ar draws llechwedd Moel Eulyn oddiar Gwm y Gath yn mynydd Foel Friog. Ystyr hefyd mai Llwybr Cadfan sydd yn myned ar hyd fynydd Esgair Lywelyn gan fyned tros y tir ac ymestyn ymlaen ar draws y Llechwedd yn yr unrhyw fynydd, ag sydd megis ymlaen Cwm Coeg, ac ystyria rhai mai tros gefn yr Esgair—Esgair Angell, y mae ei gyfeiriad oddiyno, ond eraill a ystyriant mai myned y mae ymlaen ar hyd y gefnen rhwng plwyf Mallwyd a Llanwrin ac ymlaen i dir Nancyff a thros Afon Ddyfi yn rhyd Dolcorslwyn gan gyfeirio tua'r grybwylledig Lan Cadfan, yn Swydd Drefaldwyn.—*Cantref Meirionydd*, tud. 541.

Llyn Barfog.*—Golyga LLYN grynhoad o ddwfr, naill ai ynglyn ag afon neu ar wahan. Y mae amryw leoedd wedi cymysgu eu henwau yn gyffelyb yn Scotland, ond mai *lin* ac nid *llyn* ydyw yno, megys Linton, Linwood, &c.

"Y mae yn gred sefydlog gan lawer hen gostog mynyddig fod gwragedd Annwn yn parhau eu hymweliadau â'n byd ni yma. Ychydig flynyddoedd yn ol, byddent yn ymweled yn lled fynych â chymydogaeth y Llyn Barfog, yr hwn sydd yn nghanol y mynyddoedd a gysgodant bentref tlws Aberdyfi rhag rhuthriadau ystormus oerwynt y gogledd. Yn mysg yr amryw lynau

---

* "This lake has been described by one visitor as 'reposing like a babe of innocence on the bosom of beauty.' Once it was more beautiful still, for such a fringe of trees surrounded it, that the '*Bearded Lake*' was the name by which it became known."—*Gossiping Guide to Wales*, p. 53.

a honant iddynt eu hunain yr anrhydedd o fod yn Llyn Llion, y mae y llyn hwn hefyd. Dywed y Trioedd mai Hu Gadarn a'i ychain banawg a orfu ar yr afanc. Ond dywed trigolion gororau Llyn Barfog mai y Brenin Arthur a'i farch rhyfel a gyflawnodd yr orchestgamp; ac i brofi hyny, dangosir ôl carn y march ar graig cyfagos, yr hon a elwir o'r herwydd Craig Carn March Arthur. Y mae cysylltiad cydrhwng y llyn hwn âg Annwn—y pwll diwaelod, trigle Gwyn ab Nudd. Yr oedd yn fyw, ryw saith mlynedd yn ol, hen amaethwr mynyddig, yr hwn a ddywedai y byddai gwragedd Annwn yn talu ymweliad mynych â chyffiniau y Llyn Barfog, a hyny yn ei oes ef; ond yr oedd efe yn rhy ieuanc i gofio hyny. Byddent wedi ymwisgo mewn gwyrdd. Yn y prydnawn y byddent yn dyfod, yn cael eu dilyn gan eu gwartheg a'u cŵn. Ar nosweithiau tawel yn yr haf, clywid yn aml y cŵn yn udnadu yn llydan eu cêg pan yn ymlid ar ol eneidiau collfarnol—rhai wedi marw heb fedydd a phenyd. Llawer gwaith y bu yr amaethwyr yn syllu â'u bol-wynion lygaid ar y llyfndew hardd-deg laethliw wartheg; a llawer gwaith y croeswyd llwybr yr heliwr gan gŵn gwynion, ysgafndroed, a gor-brydferth—y cŵn annwn; ond erioed ni fendithiwyd unrhyw ddyn â dim mwy na chipolwg ohonynt, nes i hen amaethwr a drigai yn Dyssynant, Dyffryn Gwyn, yn ffodus ddala un o'r llaethliw wartheg. Cydnabyddiaeth gwartheg y llyn a gwartheg yr amaethwr fu y moddion trwy ba un y gallodd yr amaethwr feddianu y fuwch. Erioed o'r blaen ni bu y fath fuwch gan unrhyw ddyn bedyddiol—ni bu erioed y fath loi—erioed y fath laeth ac ymenyn—erioed y fath gaws; a mawr oedd y son am y fuwch gyfeiliorn yn mhob lle yn rhandir Rhwng y Ddwy Afon—o lenydd y Mawddach hyd lenydd y Dyfi—o Aberdessynwy i Abercorris. Buan iawn ar ol hyn y cafodd yr amaethwr dro o dde ar yr olwyn—cynyddodd ei dda bydol yn hynod gyflym—daeth yn brif ddyn y fro—yn batriarch y mynyddoedd—yn ail Job. Ond och finau! nid oedd gras ataliol yr hen Job ganddo—gwnaeth ei gyfoeth ef yn falch, gwnaeth ei falchder iddo anghofio ei rwymedigaeth i'r fuwch gyfeiliorn; a chan ofni iddi fyned yn rhy hen i fod o fudd iddo, penderfynodd ei phesgi tuag at ei lladd. Os hynod cynt, hynotach wedy'n; erioed o'r blaen ni welwyd y fath gruglwyth o anifail tew yn unman. O'r diwedd daeth dydd y lladdedigaeth—dydd o bwys yn nghalender amaethwr mynyddig—dydd lladd buwch—a'r fath hynod fuwch dewfras hefyd. Nid rhyfedd i'r holl gymydogion ddyfod yn nghyd i fod yn llygaddystion o'r weithred. Yr oedd yr hen amaethwr yn torsythu, gan edrych ar y darpariadau mewn hunanfoddlonrwydd ymffrostgar. Teimlai y cigydd nad oedd yn myned i gyflawni rhyw weithred gyffredin, a chan dorchi ei lewys, tarawodd y ddyrnod, ond nid yn angeuol; canys cyn niweidio yr un blewyn, yr oedd ei fraich wedi diffrwytho—syrthiodd y gyllell

o'i law, a thrydaneiddiwyd yr holl edrychwyr gan waedd dreiddiol a gyfodai adsain o'r holl fryniau cyfagos, gan ail dreiddio drwy y ffurfafen; ac wele! yr holl gynulliad a welsant fod ar lun benyw, wedi ymwisgo mewn gwyrdd a'i breichiau i fynu, yn sefyll ar un o'r creigiau uwchben y Llyn Barfog, ac a'i clywsant yn galw gyda llais gan uched a'r daran :—

"Dere di felen Einion
Cyrn Cyfeiliorn—braith y Llyn
A'r Voel Dodin,
Codwch, dewch adre."

Ac nid cynt nag yr ynganwyd y geiriau hyn, nad oedd y fuwch gyfeiliorn, a'i holl hiliogaeth, hyd y drydedd a'r bedwaredd genhedlaeth, yn prysur ddyludo tua'r Llyn Barfog, fel pe buasai Belphegor ar eu hol. Cynhyrfodd hunanfudd yr amaethwr, ac ymaith ag ef ar eu holau, gan feddwl eu dal, ond i ddim pwrpas. Cyrhaeddodd i ben un o'r bryniau, ar ol llawer o lafur a lludded, a'r cwbl a welodd oedd y fenyw â'r wisg werdd yn araf ddisgyn yn nghanol y llyn, gan gael ei hamgylchynu gan y fuwch a'i hiliogaeth â'u cynffonau i fyny, a hithau yn chwareu ei dwylaw mewn gwawd, cystal a dywedyd, 'Dal ni, gyfaill, os medri,' ac i lawr i dduwawr ddyfroedd y llyn yr aethant, ac nid oedd i nodi y fan ond alaw y dwfr. Bellach, nid oedd gan yr amaethwr ddim i wneud ond sychu ei drwyn yn ei lawes, a chusanu ei ofid. Troes ei olwyn o chwith gwedi hyn, a daeth yr amaethwr yn dylotach nag y bu erioed; ond nid oedd a gwynai iddo, oherwydd ei ormod gwanc a'i angharedigrwydd tuagat ei gymwynaswr."—Allan o'r *Brython.*

Maescoch.—Wrth FAES y golygir yn gyffredin le *agored, gwastad-tir, maenol, rhandir.* Y mae yn cyfateb o ran ystyr i'r gair Seisnig *field,* a golyga ambell waith *faes y frwydr,* neu le y bu ymladd rhwng dwy fyddin. *Cad ar faes,* a pitched or drawn battle. *Maes y gad,* the field of battle; battle-field. *Cael y maes,* to win the field. *Colli y maes,* to lose the field; to lose the battle. Dywed "llen gwerin" plwyf Towyn fod ymladd caled a ffyrnig wedi bod yn nghymydogaeth *Maes Coch,* ac mai gwir ystyr yr enw yw *Maes y Gwaed.*

Maesllefrith.—Y Saesoneg am *llefrith* yw *sweet milk,* ac y mae'n cyfateb o ran ei ystyr i'r gair Cymraeg *blith.* Ystyr *Maesllefrith* yw *Blithdir,* pasture land; a dairy farm. *Gwartheg blithion, Buchod blithion, Da blithion,* milch cows.

Maethlon.—Ystyr MAETH yw lluniaeth, ymborth, cynhaliaeth. *Mammaeth* yw un a fyddo yn magu neu yn maethu plentyn dros, neu yn lle, ei rieni priodol. Gall y terfyniad LON yn *Maethlon* fod yn golygu yr un peth a *lawnt*, sef llanerch, neu laslanerch; neu yn ol Richards, *a plain; even ground*. Enw arall yn mhlwyf Towyn yw *Erw Faethlon*.

Melinllyn Pair sydd ar lan afonig fechan o'r enw *Nant Felinllynpair*, yn y mynyddoedd rhwng Towyn ac Aberdyfi. Tardda yr enw oddiwrth fod yno *lyn* ar lun *pair* neu *grochan* gerllaw. Ceir lle c'r enw *Pant y Pair* ar yr afon Llugwy yn Sir Gaernarfon.

Melin Parsel.—*Curn* a *qri* yw y Sanscrit am falu; *muillean* yw y Gaelaeg, a *muilean* yw y Wyddelaeg am felin; gair cyffelyb geir arni yn holl ieithoedd y byd. Daw PARSEL (Saesneg *parcel*) o'r *Lladin particula*, dim of *pars*, *partis*, a *part* (sef *rhan*).

Llaw-felinau bychain oedd gan yr amaethwyr cyn codi Melin Parsel, y rhai a elwid yn *Freuanau*, am mai â hwy yr oeddent yn *breuo* neu *friwio* yr ŷd. Careg lefn, wastad, galed, gyda phantle yn ei gwyneb uwchaf oedd maen isaf y freuan. Gosodid yr ŷd yn y pantle hwnw, a churid ef â maen llai yn y ddwy law nes y deuai yr ŷd yn flawd mân i'w dylino yn does. Wrth hir guro a rhwbio aethai twll dwfn yn y maen isaf, fel yr aethpwyd i falu'r ŷd a phwyodir hir o gareg neu o haiarn. Wedi hyny gwnaed maen i lanw y twll hwnw, yr hwn a droid â dwylaw i falu yr ŷd, a deuai y blawd allan o'r felin drwy dwll yn ystlys y maen isaf. Hon oedd y freuan berffeithiaf hyd nes y daeth melinau a droid â dwfr a meini celyd buhr-graig o Ffrainc.

Pan orfodwyd amaethwyr ein gwlad i roddi gwasanaeth milwrol neu dâl am ddal tir, gosododd arglwyddi y tiroedd ddeddf fod yn rhaid i'r amaethwyr falu yr ŷd yn melinau arglwyddi y tiroedd, a thalu toll am hyny, a bod cadw breuan yn drosedd cosbadwy. Os delid breuan yn meddiant amaethwr dryllid hi yn ysgyrion, a chosbid ei pherchenog â dirwy drom. Hyn sydd yn cyfrif mai yn y ffosydd, corsydd, a lleoedd anial, y ceir o

hyd i olion yr hen freuanau cyntefig. Melin arglwydd y tir roddodd yr enw Felin Parsel i'r amaethdy hwn.

Mynydd Esgairgyfela.—"Yn y flwyddyn 1874, cafwyd carnedd ar y mynydd hwn, meddir, a gwelltglas tyfol yn ei gorchuddio, mewn man yn lled agos i'r lle a elwir Llidiart Gyriadau, pa un sydd am y terfyn â ffridd neu fynydd Dyffryn Gwyn. Yr oedd yn ei gwaelod lwch esgyrn, ac hefyd rai darnau mân o esgyrn yn aros. Ac o amgylch y garnedd mewn rhan yr oedd llechfeini byrion wedi eu dodi ar eu penau yn y ddaear, yn y pellder o tua haner llath i'w gilydd, pa rai oeddynt hefyd orchuddiedig â thyfiant yr un modd."—*Cantref Meirionydd, tud.* 546.

Gwel *Efailfeurig*, tud. 24, ac *Esgairgyfela*, tud. 26.

Nantcynog.—Am ystyr y gair NANT gwel *Crychnant*. Tueddir ni i gredu mai llygriad yw *Nantcynog* o *Nantclynog*. Barna Dr. John Rhys mai *clun* ydyw ffurf gywir y gair, a'i fod o'r un ystyr a'r Gwyddelaeg *cluain*, gweirglawdd.* O brin y mae safle Nantcynog yn awgrymu yr hyn a ystyrir yn "weirglodd." Gwell genym gredu mai *clyn* sydd iawn. Ystyr *clyn* ydyw dyryslwyn, mângoed, neu yr hyn a elwir yn *berth* mewn rhai manau. *Clynog*, a place overgrown with brakes or thickets. *Clyn o eithin*, a furze brake. *Clyn mieri*, a bramble brake.

Nantiesyn.—Ystyr IESYN, sef y rhan olaf o'r enw hwn, yw *teg, cain, prydferth (fair, beautiful)*. Cair y gair yn yr enw priodol *Taliesin*, a'r ystyr yma yw un yn meddu *talcen* neu *wynebpryd prydferth*.

Nantygwenlli.—Gwneir yr enw hwn i fyny o NANT *(a brook)*, GWEN, y menywaidd o *gwyn (white)*, a *lli, llif, llifeiriant, dylif (a flood, deluge*, or *inundation)*.

Nantymynach.—Wrth fynach y golygir un wedi encilio oddiwrth y byd i ymroddi yn hollol i Dduw, ac i fyw mewn ymneillduaeth ac ymataliad. Yn y canol oesoedd, yr oedd mynachod wedi ymsefydlu mewn am-

---

* Gwel *Cymru* am Hydref, 1896.

ryw fanau ar hyd a lled y wlad, ac mae'n debyg fod *Nantymynach* yn un o'r lleoedd hyny.

Pandy *(a fuller's workhouse).*—Gweithdy panwr, a adeiledid ger afonydd a nentydd, lle yr arferai ein cyndadau fyned a'u gwlaneni a'u brethynau cartref i'w glanhau a'u tewychu, fel yr elid a'r ŷd i'r felin i'w falu. Y mae y gair *panu* yn cael ei ddefnyddio yn aml hyd heddyw am ddyrnodio yn drwm.

Pantcoch.—Ystyr pant yw lle isel, wedi ei amgylchynu a lle uwch, neu le isel yn cael ei gau gan fronydd neu elltydd. Ceir nifer fawr o enwau lleoedd yn Nghymru yn cynnwys y gair hwn yn eu dechreu, ac ambell waith yn y diwedd. Y mae weithiau yn cael ei gymhwyso at enwau dynion; megys *Pant Rhydderch, Pant Einion, Pant Dafydd;* pryd arall cymhwysir ef at enwau cyffredin, megys *Pantydwr, Pantybarcud, Pantyperan, Pantglas*, &c., &c.

Pant y Beddau.—Yn y fan a elwir Pant y Beddau, ac ar y terfyn rhwng mynydd Bryn Castell a Bachyrhew, y mae olion wrth ochrau eu gilydd ag y dywedir mai dau fedd ydynt. Ymrafaeliodd perchenogion Bryn y Castell a Bachyrhew ryw amser gynt ynghylch y terfyn, a phenodasant i ymladd dau fywyd gyda chrymanau. Cwympodd y ddau; a'u beddau hwy, meddir, yw y rhai sydd i'w gweled yn y lle a enwyd.—*Cantref Meirionydd, tud.* 548.

Pantidal, sydd lygriad o naill ai *Pantyrhaul* neu *Bantydail.*

Penbontfelindre.—Pen, yn briodol, sydd yn arwyddo y rhan uchaf o unrhyw beth, copa, y grib; mewn enwau lleoedd arwydda y dechreu neu'r diwedd, megys yn yr enwau *Pencoed, Penlôn*, &c.

Tybia rhai mai gair Lladinaidd yw *pont* o *pons, pontis. Drochaid*, drwg le, yw yn y Gaelaeg. Ceir y gair *pont, pount*, yn y Gymraeg, Gwyddelaeg, ac Armoraeg. *Bana*, i adeiladu, ydyw yn yr Hebraeg. Dichon mai *pono*, i osod dros, yw gwreiddair yr enw pont. Ar yr olwg gyntaf gellid meddwl mai gair cyfansawdd o *melin (a mill)* a *tre* ydyw hwn, ond camgymer-

iad fyddai hyny; *tre* heb felin ydyw *felindre*, ac nid oes sicrwydd fod melin wedi bod yma erioed. Yn Nghyfreithiau Hywel Dda ni a gwrddwn â'r enw:—"Y brenin a dyly o bob *bileintref* gwr a bwyal i gwneutur luestai yn ei lwyd." Ystyr y gair ydyw cartref y bileiniaid, y taiogion, neu eillion, sef y caethion perthynol i'r arglwydd *(the villeins' home)*. Y rhai hyny heb waed tylwythol oeddynt; gweithient ar y maenolau neu y ffermydd oedd yn perthyn i'r arglwydd yn y cwmwd. Yn yr hen amser, yr oedd pob cwmwd yn cynwys deuddeg maenol; o'r deuddeg yr oedd pedair yn perthyn i'r arglwydd neu'r brenin, ac arnynt y gweithiai y bileiniaid, neu eillion, oeddynt yn byw mewn pentrefi bychain gerllaw y maenolau hyn, ac a elwid weithiau *bileintrevi*. Mae yr hen enw gwreiddiol wedi aros ar amryw bentrefi drwy Gymru. Ceir *Felindre* yn mhlwyf Penboyr, Sir Gaerfyrddin, a *Felindre Wyon* yn mhlwyf Llandyssul, Sir Aberteifi.

Penhelyg.—Enw ar ran o bentref Aberdyfi. Daw yr enw o PEN, a HELYG *(willow trees)*. Hen enw y lle ydoedd *Penycoedhelyg*.

Penrhynbach.—Daw PENRHYN o *pen* a *rhŷn*, a golyga bentir, peniarth, morben *(a cape, a promontory)*. O dan y gair Rhŷn yn Ngeiriadur Richards, ceir a ganlyn:—"Rhŷn, a mountain, a hill, a cape, a promontory. In the highlands of Scotland it is Rûn, as our Din or Dinas is their Dun. Rhŷn perhapssignified anciently a Nose. To this Rhŷn answers the old English Ness, as in Sheerness in the Isle of Shepney, and Caithness in Scotland, &c. And a promontory is called by the same word as Nose in other languages. Hence the compound Penrhyn, our most common word for a promontory."—*ELH*.

Pentref.—"Hysbys i bawb ydyw ystyr presennol y geiriau tref a phentref, neu, ys dywed y Sais, 'town and village.' Mwy peth yw'r blaenaf yn awr na'r olaf. Y mae'r sill 'pen' allan o'i le. Ni bu felly o'r dechreuad. Man lle mae dynion yn byw a olygir wrth y gair tref, a dyna oedd ei feddwl erioed. Ond y mae

cyfnewidiadau mawrion wedi digwydd mewn arferion dynion a'u dull o fyw. Pobl fugeilaidd ac amaethyddol oedd yr hen Gymry. Ar y tir yr oeddynt arfer a byw. Yr oedd tylwyth neillduol mewn meddiant o ran arbenig o'r wlad, ac yr oedd i bob adran o'r tylwyth ei le, neu ei randir ei hun, ar yr hwn yr ydoedd yr adran hwnw yn byw. Dyna oedd ei dref. Trefgordd y gelwid hi, canys un peth ydoedd, a phawb mewn cydwaith arni yn gwneud ei oreu i lenwi y fuddai ganolog a chyffredin, o gorddiad yr hon y deilliai y ddarpariaeth er eu cynal mewn symlrwydd a digonedd, yn unol a'u braint a'u haeddiant. Safai aneddleoedd trigolion y dref yma ac acw dros wyneb y rhandir, yn y manau mwyaf manteisiol i'w dyledswyddau a dymunol i'w teimladau. Bychan a brau oedd yr aneddleoedd yna, ond mwy a phwysicach lle oedd y tŷ, yn yr hwn y safai y fuddai ganolog. Hwnw oedd y Maerdy.

"Yr oedd y drefgordd, neu y dref-ddegwm, fel y daethpwyd i'w galw yn ddiweddarach, yn hunan-gynhaliol; ac yn gymaint ag nad oedd cywreinrwydd mawr yn eisiau i adeiladu y preswylfeydd nac i ddarparu y celfi, ychydig oedd nifer y crefftwyr anghenrheidiol. Nyddid y gwlan gartref, a boddlon oedd ein hen dadau i wisgo dillad ac esgidiau heb nemawr ol celf arnynt. Yn nhreigliad amser, ac oherwydd ymgyrraedd o honom at bethau gwell, daeth angen am seiri coed a maen, am deilwriaid a chryddion, am wehyddion, a chanwyllwyr, am ofiaid a chrefftwyr ereill. Nid oedd y drefgordd yn ddigon ynddi ei hun i gadw ac i gynnal y rhain, ond bellach yr oedd galwad am danynt, a dygodd y galwad yna ddynion i fodolaeth, gwasanaeth y rhai a ddefnyddiwyd gan lawer tref yn ei thro. Yr oedd gofyn i'r crefftwyr yna aneddu mewn man cyfleus ac adnabyddus. Felly y bu iddynt wneuthur eu trigfa yn ymyl hen eglwysi plwyfol. Felly y tarddodd y *pentref*, ac y daeth dynion iddo i fyw yn ymyl eu gilydd."—*Cymru*, 1902, *tud.* 157.

Pentrepoeth.—Enw ar le arall yn yr un gymydogaeth yw *Murpoeth*. Dywedir gan rai fod yn yr enwau hyn gyfeiriad at yr aberthau yn amser y Derwyddon.

Penygongl.—Daw y gair congl o'r Lladin *cungnus*, a golyga ongl, cornel, cilfach, cŵr eithaf gwlad neu deyrnas, neu ryw le distadl, disylw. *O gongl i gongl*, from corner to corner. "Nid mewn congl y gwnaed hyn," *Actau* xxvi. 26. Pedair *congl* y ddaiar, the four corners of the earth. Maen *congl*, a corner stone.

Penywern.—Wrth gwern y deallir tir llaith a gwastad, ac yno yn gyffredin y tyf *coed gwern (alder trees)*. *Gwernlle*, a grove of alders, swamp.

Penyrallt.—GALLT ydyw serthfa uchel—coediog neu heb goed.

Nid oes un *allt* heb bren crin.—*Diareb.*

Tra byddo dŵr y môr yn hallt,
A bedw gleision yn yr *allt*,
A thra bo'r frân yn seilio'i nyth
F'anwylyd fach, ni ddeuaf byth.—*Hen Benn.ll.*

Yn y penill a'r ddiareb uchod golyga "*allt*" *goedwig (a wood)*. Yn y ddiareb "Ni bydd *allt* heb waered" golyga *riw (an ascent)*. Ystyr *Penyrallt* yw, naill ai *terfyn y rhiw*, neu *ddiwedd y goedwig*.

Pensarn.—Enw ar le ar ochr un o'r ffyrdd Rhufeinig. Ystyr wreiddiol y gair SARN yw llwybr, neu ffordd o gareg i gareg tros afon, neu gors, neu leithder; a thebyg i'r rhai hyn ydoedd y ffyrdd Rhufeinig yn eu ffurfiad. Llorid hwy â cheryg palmant wedi eu gosod ar eu penau.

Perfeddnant.—Wrth y gair PERFFDD yma y golygir y canol, canolbarth. *Perfeddion y nos*, canol y nos. *Y bys perfedd*, y bys canol. *Rhan berfedd*, y rhan ganol. *Perfedd gwlad*, gwlad ganoldirol. Locrinus a gymmerth y rhan *berfedd* i'r ynys.—*Galf. Y ty cymherfeddaf*, the inmost house. *Yn nghymherfedd afonydd*, in the midst of rivers. Ystyr *Perfeddnant* yw y *Nantganol (the middle stream)*. Ceir lle o'r enw *Nantyperfedd* yng Ngogledd Sir Aberteifi.

Perthycutiau.—Ystyr PERTH yw *llwyn (a bush)*, ac y mae *cutiau* yn lluosog o *cut*, sef *caban, cwt (a hut, a hovel)*. *Cut gwyddau*, a pen for geese.

Rhoi'r adar anhawddgar hyn
At wyddau'n y *cut* oeddyn'.—*Rhys Carno.*

Porthgwyn.—Wrth *porth* yma y golygir *drws* neu *fynedfa* i le. Daw o'r Lladin *porta=a gate.*

Rhianfa, sef cartref neu breswylfa *rhian. Rhian* yw merch yn amser goreu ei bywyd, merch briodadwy, arglwyddes, boneddiges *(a maid, a virgin).*

"Fy mherffaith *rian* agor i mi."—(Can. v. 2) *Dr. Morgan.*

Rhosydom.—Wrth ROS y golygir cors, corsle, corswaun, ac arwydda yn gyffredin dir gwyllt, anniwylliedig *(a moor).* Yn ol Geiriadur Richards, *a mountain meadow, a moist large plain. Dom*=dung. *Porth y dom,* the dung gate, *Neh.* ii. 13.

Curach memrwm, wefl-grwn waith,
I'r *dom* a fwriwyd ymaith.—*Dafydd ab Gwilym.*

Rhydyronnen.—*Rhyd* neu *rydle* yw lle bas, lle galler myned trwy afon ar draed. Hefyd golyga ambell waith nant neu ffrwd *(a stream or brook).* ONNEN yw ash tree.

Sychnant.—Enw fferm ar fin nant, fydd ar adegau o sychder yn ddi-ddwfr. Mae yr *aber* neu y *nant* ar amseroedd yn cynwys digon o ddwfr fel ag i deilyngu ei galw yn *afon;* ond y mae yn methu ac yn sychu i fyny yn fuan wedi hyny; ac felly y gwahaniaethir hi oddiwrth afon.

Talgarth.—Saif Talgarth yn mhlwyf Towyn, ond yn ardal Penal. Mae y gair TAL, mewn enwau lleoedd, yn arwyddo dyrchafiad neu derfyniad; megys terfyniad *sarn, llwybr troed, pontydd, llynoedd,* &c. Y geiriau sydd yn dilyn tal yn gyffredin yw, *pont, sarn, llyn, garth,* &c., megys *Talybont, Talysarn, Talyllyn, Talgarth,* &c. Am y gair GARTH, gwel tud. 28.

Tanyfoel.—Y mae TAN, neu yn hytrach *dar,* yn arwyddo islaw, goris *(under, beneath, below),* megys *Dan yr haul,* under the sun. *Dan y ddaear,* under the earth. *Dan y nef,* under the heaven. *Dan yr allt,* under the wood. Ystyr MOEL ydyw mynydd neu fryn, yn sefyll ar

ei ben ei hun, yn bigyn ar wahan i'r tir oddiamgylch iddo; mynydd *crwn-bren (a conical hill)*. Ceir *Moel Aelian* yn mynyddoedd Eryri; *Moel Arthur* yn Sir Ddinbych; *Moel Eryr* yn Sir Frycheiniog; *Moel Famau* ar derfynau Siroedd Dinbych a Challestr; *Moel Feliarth* yn Sir Drefaldwyn; *Moelfre* yn Sir Gaerfyrddin; *Moel Fre* yn Sir Feirionydd; *Moel y Don* yn Sir Fon, &c., &c. Enwau eraill yn mhlwyf Towyn yn dechreu gyda'r blaenddawd tan ydynt *Tanyrallt*, *Tanygraig*, *Tanybryn*, *Tanycoedisaf*, *Tanycoeduchaf*, &c.

Taren y Gesail.—Wrth y gair TAREN y golygir crugfryn *(a round hillock, a knoll)*. *Tarenig*, crug neu dwmpath bychan *(a small hillock)*. Am *Cesail*, gwel tud. 17.

Tomen Cil Parc.—Bernir fod y tomenau crynion, cymesurol, a welir mewn gwahanol ranbarthau o'n gwlad, yn gynyrch oes ddiweddarach nag oes y creigiau a'r carneddau, ac y mae eu ffurf yn awgrymu cynydd mewn meddwl a medr. Mae yr offer a geir ynddynt o wneuthuriad diweddarach na'r rhai a geir yn gyffredin yn y carneddau. Mewn rhai o honynt cyfarfyddir ag offer a llestri o fetel, ac yn anaml fatheiniau rhai o Ymerawdwyr Rhufain. Mewn rhai tomenau ceir cistiau o geryg, a gweddillion meirw, naill ai wedi eu claddu neu wedi eu llosgi ynddynt. Nid ydyw pob tomen yn gläddfa er hyny, a chan nad oes ymchwiliad wedi ei wneyd i'r oll o domenau ein gwlad, anhawdd penderfynu yn iawn beth ydynt.

Saif y crug hirgul o ddaear a elwir Tomen Cil Parc ar fin y ffordd dref ddegwm, sydd yn myned heibio tyddyndy a elwir Pen y Parc, tua Chynfal. Mesura ar ei gwaelod oddeutu 60 o droedfeddi o hyd. Dywed traddodiad fod milwr wedi ei gladdu ynddi. Ac ymsyniai y werin fod cryd aur yn guddiedig o'i mewn, a dywedir y deuai yn fellt a tharanau bob amser y cynygid cael gafael arno. Am *Cil y Parc*, gwel tud. 17.

Towyn.—Am darddiad y gair, yr ystyr gyffredin a roddir iddo yw *lle ar fin y môr*. Cyfieithir *Towyn*, neu yn fwy cywir *Tywyn*, yn *sea shore*, a *sea land*. Tueddir

Ieuan Dyfi, yn ei *Hanes Machynlleth*, &c., i gredu fod yr enw yn dod oddiwrth *Hywyn* ap Gwyndaf; ond nid oes genym sail ddigonol dros gredu hyn.

Dichon nad oedd ar y fan y saif tref Tywyn ond un tyddyndy yn dwyn yr enw ar y cyntaf, a bod hwnw wedi derbyn yr enw hwn yn unig am fod ei safle ger y môr.

Trefri, -fawr, -fach.—Dywed y diweddar hynafiaethydd John Pughe, Aberdyfi, mai yr enw priodol ar y lle hwn yw *Tref-rydd (the wanderer's home)*. Tueddir awdwr arall dros gredu mai *Trefhudd* sydd gywir. Golyga *hudd* gysgod *(a shelter)*, a thybir mai ystyr yr enw yw *tre* neu *gartref* mewn cilfach gysgodol. Bu yma, yn nheyrnasiad Harri IV., ysbeilydd hynod yn byw, ond darfu i John Vaughan o Caethle ei anfon ymaith.

Tyddyn y Berllan.—Yn yr hen amser byddai Tyddyn (yn ol Geiriadur Richards gwneir y gair i fyny o *Tŷ* a *din=dinas)* pob Cymro rhydd yn cynwys tri pheth—ei dŷ, ei fuarth, a'i ydarth, neu ei ydlan. Y tyddyn hwn a thir y Cymro rhydd oedd ddaliad teuluaidd. Cyhyd ag y byddai pen y teulu byw, ei holl hil a drigent gydag ef, yn yr un anedd mae yn debyg, os na byddai rhai newydd wedi eu hadeiladu iddynt ar dir y teulu. Pan fyddai pen y teulu farw, ni thorid y daliad i fyny. Delid ef gan ei etifeddion am dair cenhedlaeth fel un cyd-ddaliad, ac adwaenid ef fel daliad hwn-a-hwn. Ond yn y daliad yr oedd cydraddoldeb rhaniad rhwng y meibion. Y mab ieuengaf yn dal y tyddyn neu yr anedd wreiddiol, ac i'r lleill darperid tyddynod ar dir y teulu. Pan fyddai y meibion farw, yr oedd rhaniad arall; a phan fyddai eu meibion hwy farw, un arall. Ond os allan tuhwnt i'r rhai hyn hawlid cydraddoldeb; ac os byddai gŵr heb etifeddion, ac heb berthynas agosach na chyferderon, ai y tir yn ol i'r penaeth a gynrychiolai y llwyth. Wrth y gair PERLLAN y golygir maes cauedig o goed ffrwythau—lle i gadw ffrwythau pêr *(an orchard)*.

"Dy blanhigion sydd *berllan* o bomgranadau, a ffrwyth peraidd."—*Caniadau* iv. 13.

"Ar fynydd *Tyddyn y Berllan*, yn nghymdogaeth Bryn y Cistiau, ac yn y lle a elwir Tapiau Tyddyn y Berllan, yr oedd carnedd yn aros gynt, ac yn ol 'llen gwerin' yr ardal yr oedd ynddi grochan a'i lon'd o aur wedi ei guddio gan Gruffydd ap Adda o'r Ddol Goch. Ond, ryw dro tua'r flwyddyn 1780, agorwyd y garnedd; eithr, yn lle y crochan a'i gynwys euraidd disgwyliedig, cafwyd cistfaen yn cynwys lludw a mân esgyrn."

Enwau eraill yn dwyn yr enwau *Ty* a *Thyddyn*, ydynt *Ty Newydd*, *Ty'nycornel*, *Ty'ntwll*, *Tyddyn Rhys y Gader*, *Tyddyn y Berth*, *Tyddyn y Briddell*, *Tyddyn yr Eithin*, *Tyddyn y Fedwen*, *Tyddyn Coch*, *Tyddyn Du*, *Ty'nllwyn*, *Ty'nllwyn Hen*, *Ty Gwyn*, *Ty Pridd*, &c.

Tyno.—Gwreiddyn y gair hwn yw TWN, yr hyn a arwydda toredig, sef tir yn cael ei gymeryd i fewn a'i dori gan yr aradr. Yn ol Geiriadur Richards, *a green plot of ground, a little valley.*

> Bryn a *thyno.*—*Llygaid Gwr.*
>
> Nid oes dwyn na dwys *dyno*
> Yn neutu glynn yn nant y glo.—*Dafydd ab Gwilym.*

Ceir y gair yn *Tynohir*, lle ar lan y Dyfi yn Sir Drefaldwyn, ac yn *Tonypandy* a *Thonyrefail* Sir Forganwg. Gwel *Llain y Bedd.*

Ynys.—Enw ar fferm, heb fod yn nepell o bentref Penal, ar lan yr afon Dyfi. Mewn ystyr briodol, *ynys* yw rhan o dir yn cael ei amgylchynu yn hollol gan ddwfr, megys ag y mae *Ynys Môn*, *Ynys Manaw*, *Ynys Enlli*, &c. Yn y Beibl y mae y gair yn cael ei ddefnyddio mewn gwahanol ystyron, megys, sefydliad, neu drefedigaeth, mewn cyferbyniad i ranau diffaeth o'r sychdir, a'r moroedd, a'r afonydd, megys yn Gen. x. 5; Job xxii. 30; Esa. xlii. 15; mae y gair yn fynych eto yn cael ei arfer yn yr ystyr hwn, sef pan fyddo llanerch drigianol yn cael ei llwyr amgylchynu gan anialwch neu ddiffaethwch, lle ni byddo neb yn byw ynddo. Yn Sir

Aberteifi, ar lan y Dyfi, ceir llu o leoedd yn dwyn yr enw hwn. Wele rai o honynt,—*Moel Ynys, Ynys Las, Ynys Cynfelyn, Ynys Fach, Ynys Greigiog, Ynys Eidiol, Ynyshir, Ynys Edwin*, &c.

Ynys-ffarm.—Enw ar le gerllaw Tywyn. Ystyr y gair FARM, yn ol y *Farmer's Magazine*, yw a ganlyn :—"Nid oedd y 'stadiau a ganiateid yn amser y Sacsoniaid gan Lords of Manors i fwrdeiswyr, ar y cyntaf, ond am flynyddau, gyda thaliad o rent, yr hwn oedd, yn y dyddiau hyny, o ŷd neu luniaeth, ac oddiyno gelwid y gafaelebau *(leases)* a wneid yn *formes* neu *farmes*, yr hwn air a arwydda lluniaeth ; ond fel y daeth amser yn mlaen trowyd y lluniaeth i arian, a'r nifer o flynyddau i nifer o fywydau a pherchenogaeth, gan gadw y rhenti a'r rhai a elwid *quit rents*, neu renti y personau hyny oeddynt yn rhyddion."

Ynysmaengwyn.—Ymddengys i enw y lle hwn gael ei gymeryd oddiwrth *faen* neu *gromlech* a safai yma. Ystyr *gwyn* yma yw *cysegredig*, ac ystyr yr enw *Ynysmaengwyn* yw *Ynys-y-maen-cysegredig*. Cyfenw perchenog y lle hwn yn bresenol yw Corbet. Llosgwyd y palas hwn hyd lawr yn amser y rhyfel Seneddol, er atal i'r fyddin Seneddol gael lloches ynddo ; ac ar amaethfa gerllaw, o'r enw Bryn Castell, y mae bryncyn crwn o bridd, yn agos i'r hwn y cafwyd, yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, haner pelen magnel, yn pwyso saith pwys.

Ysguborwen.—*Ysgubor* yw ysgub-dy, ŷd-dy, heiniardy, sef adeilad wedi ei godi i gadw yr ŷd. Daw y gair o *ysgub (a sheaf of corn)*, a *cor (a circular enclosure)*.

Ystumaner.—Ymddengys mai y ffurf gywir ar y rhan gyntaf o'r enw hwn yw *estyn* neu *ystyn*. Ceir ar lafar gwlad y ffurf Ystyn Gwadna ac Ystyn Gwadneth ar dyddyndy ym mhlwyf Llanfachraith, yn nghymydogaeth Dolgellau. Ac yn Ardudwy mae un arall yn cael ei alw yn Ystungwern. Y mae ystyn neu estyn yn ddynodiant cyfreithiol, a golyga rhoddiad, meddiant, a hyny yn gyfreithiol, sef ar dir, neu ryw-

beth arall ansymudol. Ac felly bod gan neb un a'i caffai hawl yn yr hyn y byddai y cyfryw feddiantrodd yn sefyll am dano, oddigerth y gellid dangos cam farn. Ac os defnyddid y dynodiant cyfreithiol hwn mewn cysylltiad â phethau eraill nid yw hyny yn newid ei ystyr. Yn ddilynol rhoddir penran o'r hen gyfreithiau Cymreig lle y ceir y dynodiant hwn yn y ffurf o *estyn*,—"O byt deu arglwyt allu kau pob un onadunt en e gulat adeuod dyn y erky estyn ydau ar peth angeuodedyn [megis] ar tyr rod eu rod ac nyd estyn eu hestyn eny heneper [pwy] pyeufo egulat onadunt."

Dyri "llen gwerin" Meirionydd amryw ystyron i'r rhan olaf o'r enw uchod. Tybia rhai mai yr ystyr yw *anner*, gan y credir ei fod yn dwyn rhyw gyffelybrwydd i ffurf yr anifail hwnw; ond dadleua ereill mai *ystum* aran ydyw, sef ystum Aran y Gesail, mynydd uchel yn y gantref. Dadleua ereill mai llygriad yw'r gair o *ystyn* a *maenol*. Am *maenol*, gwel tud. 27.

II.—PLWYF LLANGELYNIN.

Arthog.—Pentref bychan yw Arthog ar gŵr gogleddol eithaf plwyf Llangelynin, ar fin y brif ffordd i Ddolgellau, yn cynwys tai hen a diweddar, un capel i'r Methodistiaid, un i'r Wesleyaid, gyda chapel-eglwys i'r Eglwyswyr, a elwir "Capel Arthog." Un ystyr a ddyry hen drigolion y lle i'r enw Arthog yw *Arthogof*, gan faentumio i'r lle fod unwaith yn lloches eirth *(bears)*. Dywed ereill mai o "garth" *(a projecting ridge)* y tardda'r enw, ac mai ei ystyr yw lle *bryniog (a place abounding with hills or eminences)*. *Gwlad fryniog*, a hilly country. Dywedir gan ereill fod Arthog yn enw yr hen dyddyndy a elwid *Pwll Arthog*, pa un a safai ar y fan y lle a elwir Arthog Hall. Yn Monedd y Saint, ceir yr enw personol *Arthog* yn y ffurf o *Arthawc*, ac *Arthawg* yn y cysylltiadau hyn,—"Kyngar, ap *Arthawc*, ap Keredic," &c.

Bachysilig.—Am BACH gwel tud. 9, ac am SILIG gwel *Nantsilig*.

Barracks.—Enw ar dŷ annedd. Gair Saesonaeg yw *barracks*, a dynoda luestty, neu wersyllfa. Gair Gwyddelaeg cyfystyr yw *barrachad (a hut or booth)*.

Bedd y Milwr.—Wrth fedd y golygir lle i un orwedd ynddo ar ol marw *(a grave)*.

> Y *bedd* sydd imi ar bar,
> A diwedd oes, a daiar.—*Dafydd ab Gwilym.*

Gerllaw Llanfendigaid y mae y lle hwn, ac adnabyddir ef hyd heddyw wrth yr enw Bedd y Milwr. Dywedir y bu careg ac argraff arni yn aros unwaith gerllaw, a mynegir hefyd ddarfod i'r garreg hono gael ei thaflu dros y fôr-geulan mewn direidi gan saer-maen o Lwyngwryl.

Bedd y Tri Milwr, sydd nifer o feini wedi eu cyfleu yn y cyfryw fodd fel ag i ffurfio math o gylch, ar gefnen sydd yn gwahanu rhwng y Figyn, neu y Siglen Fawr, a'r Figyn Fach neu y Figyn Ucha'. Ni wyddis ddim o hanes y milwyr hyn, namyn y dengys yr enw hwn y cawsent feddrod yn y fan hon, a'u bod yn wŷr a fuont yn dwyn arfau.

Blaenau Celynin.—Wrth FLAEN y golygir y "cŵr uchaf o le" *(the extremity of a place)*. *Blaenau afonydd*, the sources of rivers. *Blaenau gwlad*, the upper part of a country. *Blaenau Celynin*, the upper part of the Parish of Llangelynin. *Blaenau Ceredigion*, the upper parts of Cardiganshire. Y *Celynin* a fu mewn rhan yn achlysur o'r enw sydd ar y plwyf hwn ydoedd fab i Heli, neu Helyg ab Glanog, ac y goresgynodd y môr ei dir tua'r fan a elwir Traeth Lafan. Rhestrir ef yn un o Saint Ynys Prydain, a gosodir ei amseroedd yn y seithfed ganrif.

Bodgadfan.—Enw ar fferm. Deillia yr enw oddiwrth y gair BOD *(an abode)*, a CHADFAN, a golyga breswylfa Cadfan.

Bodwlan, neu yn fwy cywir, *Bodwan*. Dywedir fod y person hwn yn fab i Helyg ab Glanawg.

Braich Du.—A elwir felly mewn cysylltiad a'r fraich o dir sydd gerllaw yn dwyn yr un enw. Y mae ar un o gaeau y fferm hon faen llydan ar ei ben yn y ddaear. Mesura dros bedair troedfedd oddiar yr arwyneb.

Bronyclydwr. — Rhwng gorsaf Llwyngwril a Thowyn, os edrych yr ymdeithydd o'r tren tua'r dwyrain, efe a wel gil hyfryd o wlad, a mynydd yn haner cylch o'r tucefn i'r cil, a llechwedd y mynydd gan mwyaf wedi ei orchuddio gan goed; ac yn mhen uchaf yr haner cylch, wele ffermdy lled fawr yn llechu yn nghysgod y bryn a'r coed; dyna Fronyclydwr, lle genedigol ac etifeddiaeth Hugh Owen glodfawr, yr hwn, trwy ei lafur a'i ddaioni, a wnaeth y ffermdy diarffordd hwnw yn adnabyddus i bob Cymro sydd yn gwybod rhyw ychydig am hanes ei wlad. Ganwyd H. Owen yn 1637. Gwneir yr enw i fyny o BRON a CLYDWR, sef bron neu fryn mewn lle cysgodol. *Lle clyd*, a well-sheltered place.

Clyd pob clawdd i gardotyn.—*Diareb.*

Clydwr, a shelter from cold.
Clydwr dafad yw ei chnu.—*Englynion Eiry Mynydd.*

Ni thyn na *chlydwr* na thân,
Na dillad, f'annwyd allan.—*Ieuan Brydydd Hir.*

Bronyclydwr Cottage.—*Cottas* y gelwir ty bychan, ac yn Saesneg cottaige; am fod yn yr hen amser gyfraith na chelai neb un yn Ynys Prydain na fyddai berchen ar dir ym mraint a hawl ei hun, neu ym mraint ei arglwydd, wneuthur ty ar unrhyw dir a daiar amgen na hyn; sef gwneuthur rhyw swd o god fawr o wellt gweadbleth o'r maint a fynai, a'i osod ar ddull llestr gwenyn ar y tir egored a fynai, a thwll yn ei hochr yn lle drws; ac yno cynnal byd a bywyd oni chelai rybudd undydd a blwyddyn, i symmud efe a'i *gottas*, oddiyno; ac ar hyny o ben amser efe a gymmerai ei *gottas*, ac a'i dyweiniai ymaith lle y gallai, o ran rhyddyd, a byd, a bodd; ac o hyn y daethpwyd i alw pob ty gwr difraint yn *gottas;* ac ar hyn y tadogir y gair Saesneg *cottaige* [cottage]. —*Cyfrinach y Beirdd*, 16.

Enwau eraill yn dechreu gyda *bron* a *bryn* ydynt *Bronhyfryd*, *Bronwylfa*, *Bronygog*, *Bronllettyifan*, *Bronyfoel*, *Brynawel*, *Brynllwyn*, *Brynmeurig*, *Bryn Gwilym*, *Bryntirion*, &c.

Buarth.—Daw y gair hwn o BU=buwch *(a cow)*, a GARTH=amgauad *(an enclosure)*, sef yw hyny, *a pen or enclosure for cattle.*

Gwell *buarth* hysp nag un gwag.—*Diareb.*

Tri phriodolion gwahanredawl gwr gwlad a chymmrawd . . . tŷ; *buarth;* ac ydarth.—*Cyfreithiau Cymru*, ii. 492.

Buarth gwartheg, an enclosure for cattle, a cow yard. *Buarth defaid*, a sheep fold.

Bwlchyrhendref.—BWLCH *(a pass)*; HENDREF (gauafdy). Gwel tudalen 31.

Bwlchygwynt.—A alwyd ar yr enw hwn o herwydd ei safle oer a gwyntog. Hynodid ef yn yr hen amser fel mangre *bwgan (a ghost).*

Bwlch Gilbert.*—"Yn nghymydogaeth Creigiau Morwydd y mae anedd, anrhigianol yn awr, o'r enw Bwlch Gilbert, pa un a gafodd y rhan-ddynodiad Bwlch oddiwrth ddullwedd y tir tua'r fan, ac y mae Gilbert yn golygu enw personol. Ond ymddengys y gelwid yr enw Bwlch Gilbert ar ryw fan tua'i safle, cyn dodiad yr unrhyw arni."—*Cantref Meirionydd*, tud. 356.

Cadlesydd Ceiliogod, o'i gyfieithu i'r Saesneg ydyw *cock-pits. Pitiau Ceiliogod*, ddywedir ar "lafar gwlad." *Tir cadlas* a *thir coedgae*, enclosed pasture, and open land in a ring-fence. *Cadlas ŷd*, a corn-yard. *Cadlas wair*, a hay-yard. *Cadlas ceiliogod*, a cock-pit.

"Mae *cadlas* yno heno," there is a dance in that place to-night. Y mae olion dau o'r cadlesydd hyn gerllaw Hafotty Fach—un o honynt ar y fan a elwir Rhos y Fotty Fach, yn ymyl rhidys dwfr a red o gyfeiriad plwyf Dolgellau, ac ar y tu agosaf iddo i'r tyddyndy, a'r llall ar y fan a elwir y Foel—Foel y "Fotty Fach." Olion cylchog ydynt, a'r tir wedi ei dori fel rhyw ffos fechan o'u hamgylch. Mesura arwynebedd un o honynt oddeutu deg troedfedd o dryfesur, a'r llall oddeutu deuddeg

* Ystyr Gilbert yw "*bright pledge.*"

neu dair troedfedd ar ddeg ar ei draws. Y mae yr un a nodwyd olaf yn fwy amlwg, ond nid yw ei arwynebedd yn cadw ei ffurf gylchog yn gystal a'r llall. Dyben y rhai hyn oedd i fod yn lle i geiliogod ymladd arnynt, a buwyd yn eu dwyn i ymladd â'u gilydd ar y Suliau tua'r "Fotty Fach," fel mewn rhanau o'r wlad, a thebygol y defnyddiwyd un neu y ddeufan a nodwyd i'r diben hwnw ar y cyfryw ddyddiau. Cyngwystlid ar y ceiliogod, a rhoddid arfau dur yn bigau blaenllymion ar eu hyspardunau, i'w grymuso yn nhrywaniad yr aderyn gelynol yn yr ymladdfa benodedig.—*Cantref Meirionydd*, tud. 379.

Cae'r Deintur.—DEINTUR yw y peiriant *(machine)* sydd gan y panwr at sychu a thynhau y wlanen. Y mae'r gair Saesneg *trynturer* (lliwiedydd) yn gyffredin iawn yn llenyddiaeth y bymthegfed ganrif. *Bach deintur*, a tenter-hook. *Bod ar y deintur*, to be on the tenters. Gwel *Melin Arthog*.

Cae Lloches, sydd enw ar faes perthynol i Ynysfaig Isaf. Cafodd yr enw hwn am mai yma y llechodd dyn o ryw barth o'r Deheudir a laddasai ei gymydog. Noddwyd ef dros ryw hyd, cyn gwybod pwy neu beth oedd yn iawn, gan un Owen Pugh o'r Ynysfaig Uchaf. Daliwyd, collfarnwyd, a dienyddiwyd ef.

Capel Arthog, sef pentref Arthog. Cafodd yr enw hwn am fod capel anwes yno. Am darddiad y gair *capel*, nid oes llawer o sicrwydd. Dywed rhai ei fod yn tarddu oddiwrth cappa, sef math o nenfwd goed i gysgodi allor mewn lle agored. Eraill a dybiant fod y gair wedi tarddu oddiwrth gwcwll *(cope)* St. Martin, yr hwn oedd mor fychan, fel y galwyd ef *capella*. Yr oedd hwn y crair mwyaf gwerthfawr yn ngolwg hen freninoedd Ffrainc, fel yr oedd pob cysegr lle y cedwid ef yn cael ei enwi oddiwrtho yn *capella*.

Carn Gadell.—Wrth GARN neu GARNEDD y golygir crug, cruglwyth, neu bentwr o bridd neu gerryg. Arferir y gair yn y Beibl am bentwr o geryg wedi eu casglu yn nghyd er nodi allan neu yn goffadwriaeth am rywbeth hynod, Gen. xxxi. 46, Lef. xviii. 9. "Yr oedd cyfodi carn neu garnedd yn arferiad bore iawn yn mhlith yr hen Frytaniaid, er dangos a chadw mewn cof

y fan y claddesid eu gwŷr enwog.* Parhaodd y ddefod, fel y bernir, yn mhell ar ol dygiad Cristionogaeth i'n plith; ond pan y daeth yr arferiad o gladdu mewn eglwysi a mynwentydd yn gyffredin, nid yn unig rhoddwyd yr arferiad heibio, ond daethpwyd i edrych arni yn addas yn unig ond i ddrwgweithredwyr. Mewn canlyniad, daeth dymuno 'carn ar dy wyneb' i gael ei ystyried y felldith drymaf a ellid ddymuno ar unrhyw un. Pan yr edrychid ar y garnedd yn goffadwriaeth anrhydeddus o ryw wr enwog, byddai taflu careg i'r garnedd yn cael edrych arno fel arwydd o barch iddo. Ond pan ddaeth codi carnedd i gael ei arfer ond yn unig er nodi bedd rhyw anfad-ddyn, ystyrid taflu careg i'r garnedd fel nôd o ddiystyrwch a ffieidd-dra o'r cyfryw un."

Y mae yn y plwyf hwn ddau amaethdy yn dwyn yr enwau *Carn Gadell*, y rhai, er mwyn gwahaniaeth a ddynodir—y naill yn *Garn Gadell Uchaf*, a'r llall yn *Garn Gadell Isaf*. Ar faes perthynol i Garn Gadell Uchaf daethpwyd o hyd i garnedd fawr o geryg, dan yr hon y caed bedd o faintioli enfawr, yn yr hwn, fel y tybid, y claddesid gweddillion yr enwog Gadell o Gastell y Gaer. Gelwir un ystafell sydd yn Ngharn Gadell Uchaf yn siamber yr arglwyddes.

Castell y delyn, neu yn hytrach Castell y ddeulyn. Cafodd yr enw hwn oherwydd ei agosrwydd i lynau Crogennant.

Cefncamberth.—Gwneir enw y lle hwn i fyny o CEFN *(a ridge)*, CAM *(crooked)*, a PHERTH *(a grove)*.

Clawdd y Pymtheg.—*Clawdd* a alwn ni yn awr yr amgaer pridd neu geryg a godir o amgylch gardd neu faes, tra mai *clawdd* yn yr hen amseroedd a alwn ni yn ffos. *Clawdd castell*—y ffos a dorid o amgylch castell. *Clawdd a mur*, ditch and wall. *Clawdd Seferus*, the Wall of Severus. *Clawdd Offa*, Offa's Dike, Offa's

* "Y mynydd hugen, y bu y frwydr ynddo, a eilw ciwdawd y wlad y Mynydd *Carn;* sef yw hyny, Mynydd y Garnedd; canys yno y mae dirfawr *garnedd* o fain, o dan yr hon y claddwyd rhyswr yn nghynoesoedd gynt."—*Buchedd G. ab Cynan.*

Ditch. *Clawdd cerryg*, a stone fence or wall. *Clawdd pridd*, a hedge made of sods. *Clawdd ffin, Clawdd terfyn*, a boundary fence or hedge. Wrth *glawdd y pymtheg* y golygir "clawdd y pymtheg cyfar ar hugain." Gwel *Cantref Meirionydd, tud.* 371.

Coedygweddill, sydd yn cael ei wneud i fyny o COED *(a wood, a forest)*, a GWYDDGYLL *(hazel trees)*. Fod llwyni o goed mawrion o gylch y fan gynt a brawf enwau amryw ffermydd a thyddynod cyfagos, megys *Llwyndu, Parthygwyddwch, Coedmawr, Coedygweddill, Gwastadgoed*, &c. Yn *Nghoed y Gweddill*, yr eilfed o Fehefin, 1760, y ganwyd yr hen bregethwr poblogaidd Lewis Morris, Coedygweddill.

College.—Y mae yma amryw leoedd yn dwyn yr enw hwn. Ceir *College, College Uchaf*, a *Chollege Isaf*. Tardda'r gair *coleg (college)* o'r Lladin *collegium*, oddiwrth *con* a *lego*, casglu neu grynhoi yn nghyd; neu, fel y myn ereill, oddiwrth *college*, person a ddewisir mewn cysylltiad âg ereill i lanw swydd benodol.

Corlan Fraith, sydd enw ar un o'r crugiau mesuronol Trionglog neu Gyflegrol a godwyd o fewn terfynau hen Gantref Meirionydd yn agos i ddechreu y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Ymddengys iddi gael ei chodi ar le a adnabyddid yn flaenorol wrth yr enw hwn. Wrth *gorlan* y golygir unrhyw le cauad i gadw praidd. Y gair Groeg am gorlan sydd yn arwyddo unrhyw le cauedig âg un pen agored iddo. *Corlan defaid*, a sheepfold.

"*Corlanau defaid* a adeiladwn ni yma i'n hanifeiliaid."—*Numeri* xxxii. 16.

Clos Cottage.—Ystyr CLOS yw *an enclosure; a small field enclosed; a yard or court before a house.*

Awn â bun yno beunydd,
Glas a gwyn dan *glos* y gwŷdd.
—*Dafydd ab Edmwnt.*

Craig yr Hwch, sydd fath o hafdy ar ffurf castell, yn perthyn i Arthog Hall. Ai nid *Craig y Gwydd-*

hwch sydd yn gywir? sef *Craig yr Hwch Goed (the Wild Sow)*.

Creigiau'r Morwydd, sydd ar dir y Deildref. Tybir gan rai mai ystyr *morwydd* yn yr enw hwn yw *mulberry trees*, sef *morwydd* neu *mwyar Mair*. Tybia eraill mai dynodiant personol yw *Morwydd*. Yn y *Liber Landavensis* ceir enw un *Morwydd* fel tyst lleygol, ymysg eraill, o roddion Eglwysig yn y Deheudir, cyflwynedig gan y brenhinoedd Iddon ab Ynyr Gwent, a Gwrfodw, yr hwn oedd frenin gwlad Ergyng.

Crogenan, a sillebir hefyd yn *Crog-gangen*, *Crogennant*, a *Chrygenan*. Dywed y diweddar Celynin mai yr ystyr yw *Crog-gangen*, am mai yma, fel y tybir, y crogid y drwgweithredwyr a gondemnid i farwolaeth yn "Llys Bradwen," a hyny ar gangen un o'r derw. Tybiwn fod gormod o arliw "llen gwerin" ar yr esboniad uchod, ac mai gwir ystyr yr enw yw *Crug Ennan*, sef claddle un o'r enw *Ennan*.

Cromlech.– Enw ar goedwig eang, ger Ynysfaig Isaf. Bernir fod yma Gromlech gan y Derwyddon yn perthyn yn benaf i ardal y Friog. Maen gwastad ydoedd y gromlech, ac yn gyffredin yn gorphwys ar dair o geryg unionsyth, ac yn sefyll yn nghanol teml Dderwyddol. Gelwid hi yn grair gorsedd, maen llog, neu faen gorsedd, ac arni y cyflawnid amryw o ddefodau.

Eglwys Goel.– Y mae safle olion yr hen eglwys hon yn agos i safle Llys Bradwen, eithr uwchlaw, ac ar y tu deheuol i afon Pant Llan. Ymddengys mai fel Llan, ac nid fel Eglwys, ei hadnabyddid ar y cyntaf, gan mai Pant Llan, neu Pant y Llan, y gelwir tyddyndy gerllaw, canys diameu mai oddiwrth y Llan neu yr Eglwys hon y cafodd ei enw mewn rhan. Y mae lle i dybio, oddiwrth y dynodiant goel a berthyn iddi, y byddid gynt yn cymeryd argoelion oddiwrth ryw ddullweddau neu arferion mewn perthynas â hi; eithr nid oes unrhyw draddodiad yn aros fel sail i dybio hyny.* Pa

---

* Gerllaw i Lys Bradwen y mae olion adeilad a elwir yr "Eglwys Goel," lle y barna rhai yr oedd yr eglwys, i'r hon yr

fodd bynag, gellir nodi y bu gynt frenin o'r enw Coel Godebog, yr hwn a restrir yn un o Saint Ynys Prydain, a'r brenin hwn a gyfododd Eglwys Llandaf, a dichon mai oddiwrth ryw un neu gilydd a elwid Coel, fel ei sefydlydd, y cafodd yr eglwys hon ei henw.

Y mae yn ymddangos oddiwrth yr olion fod rhan o'r eglwys a'i hadeiladwaith yn y ddaear, a thebygol mai ei thalcen oedd; ac os felly, yr oedd ei gyfeiriad i'r de-orllewin. Bu yr eglwys hon yn cael ei phreswylio fel anedd-dy neu dyddyndy mor ddiweddar a thua'r flwyddyn 1796. Y mae olion gardd neu fuarth i'w ganfod fel yn gysylltiedig ag olion yr adeilad.—*Cantref Meirionydd, tud.* 360.

Figyn, -fawr, Figyn, -fach.—Enw arall ar *migyn* yw *siglen (a bog)*. Lle ni bydd *mign* e fydd moen.—*Llyw. Hen.*

Friog, Frondeg, Frondderw, ydynt enwau ar dai annedd.

Ffordd Ddu, sydd yn rhedeg islaw y mynydd uchel a elwir y Tyrrau Mawr.

Ffynon Wen Gynfal.—Tardd y ffynnon hon mewn rhan o'r maes ag y mae olion Llys Bradwen ynddo, ond encyd islaw iddo, a rhed afon Pant Llan heibio gerllaw iddi. Cyfrifid hi yn un o'r ffynonau cysegredig, a chredid fod ei dwfr yn rhinweddol i wella y gewynwst.

Gaer (Y).—Saif gweddillion yr hen amddiffynfa hon ychydig o bellder oddiar Llwyn Gwryl, ac ar y tu deheuol iddo. Yn ol traddodiad, cymerodd ymladdfeydd gwaedlyd le o gylch y fan, rhwng y rhai a ddalient y Gaerfa, a'u gelynion. Dywedir y byddai penaeth y gwarchodlu yn trigianu yn yr amaethdy a elwir Carn Gadell Uchaf, ac yr ymladdwyd un o'r brwydrau cry-

---

arferai Bradwen a'r brodorion fyned i addoli ar y Sabbath a'r gwyliau arbenig. Eraill a feddyliant mai ystyr yr enw, ond ei fod wedi ei lygru trwy fynych ail adroddiadau, yw "Eglwys y Coel Brenau" gan olygu mai yma, trwy weddi, y bwrid y coelbren ar y drwg-weithredwyr a grogid ar y derw wrth Crogenan.—Y diweddar *Celynin.*

bwylledig ar dir y Coed Mawr, rhwng y penaeth hwn a'i elynion.

Y mae yn y plwyf hefyd weddillion hen amddiffynfa arall, a elwir *Y Gaer*, pa un sydd a'i safle gerllaw tyddyndai y Castell Mawr a'r Castell Bach, y rhai, fel yr ymddengys, a gawsant y dynodiant o gastell yn herwydd yr hen amddiffynfa hono.—*Cantref Meirionydd, tud.* 356, &c.

Garnedd Ddu (Y), ydoedd garnedd isel, ar Ffridd Pen y Grug, pa un a berthyn i'r Borth Wen. Cafodd ei chwalu oddeutu'r flwyddyn 1840, ac aed a rhyw gymaint o'i cheryg ymaith i wneyd clawdd y ffridd hono. Ymddengys oddiwrth a ddywedir mai gwyddfa feddrodol oedd y Garnedd Ddu.

Gerddi Bellis.—Arwydda y gair *gardd* le cauadig er dwyn llysiau, blodau, a ffrwythau. Hen Saesoneg, *garth*, an enclosed place. Gwel *Ynysgyffylog*.

Gwaen Bant, neu *waun (a plain, a meadow)*, mewn *pant*, neu le isel wedi ei amgylchynu a lle uwch. Yr oedd unwaith garnedd ar Waen Bant, ac wrth ddwyn ei cheryg ymaith yn y flwyddyn 1840, caed esgyrn, pa rai, yn ol tystiolaeth meddyg, oeddynt esgyrn dynol.

Hafodwen, Hafod Dywyll, Hafodygarreg, Hafodty Fach.—Cafodd y lle olaf yr anrhydedd o fod yn lle genedigol y cerddor enwog John Williams, o Ddolgellau, awdwr y "Funeral Te Deum," "Ymdeithgan Gwŷr Abermaw," "Wrth Afonydd Babilon," "Y Sabbath," &c. Am ystyr yr enw HAFOD gwel tud. 31.

Hendref, fferm ger Llwyngwryl. Enw arall adnabyddus ar *Gauafdy* yw *Hendre*. Gwel *Hafod*, tud. 31. Enwau eraill yn y plwyf ydynt *Hendre Mill*, a *Hendre Hall*.

Henddol.—Enw fferm ger Ynysfaig. Ystyr *Dol* [Cernywaeg *dôl;* Armoraeg *dôl;* Gwyddelaeg a Galaeg, *dail;* Saesonaeg, *dale*], yw gwaen, gweirglodd *(a meadow)*, neu le gwastad ar lan afon neu lyn, ac a gedwir yn llaith gan y cyfryw. *Bryn a dôl*, hill and dale.

Os yn Mawrth y tyf y *ddôl*,
Gwelir llawndra ar ei ol.—*Diareb.*

Isallt.—Y mae is fel ansoddair yn arwyddo gwaelach; fel *gorair*, arwydda bod dan rywbeth arall, o ran y sefyllfa y byddo yn sefyll. Y mae *Isallt* yn golygu lle o dan y coed neu'r goedwig—yn gyfystyr a *Thanycoed (under or below the wood)*.

Llanfendigaid, neu Eglwys Fendigaid. Daw y gair bendigaid o'r Lladin *benedicus*, a golyga *blessed, holy. Bendigaid* wyt ti ym mhlith gwragedd, *Luc* i. 28. *Y Tir Bendigaid*, the Holy Land (Palestina). *Y Cymmun Bendigaid*, Holy Communion. *Y Forwyn Fendigaid, Y Fendigaid Forwyn*, the blessed Virgin. *Y Groes Fendigaid, Y Grog Fendigaid*, Holy Cross. Gwel *Llangelynyn*.

Llan Gelynin.—Y Celynin a fu mewn rhan yn achlysur o'r enw ar y plwyf hwn ydoedd fab i Helyg ab Glanog. Gwel *Iolo MSS.*, tud. 124. Saif hen Lan Gelynin* tua dwy filldir yn nes i Aberdysyni na Llwyn Gwril, a cherllaw y môr, ond rhed llinell y ffordd haiarn rhyngddynt a'u gilydd. Pa faint bynag o gyfnewidiadau a fu ar yr hen Lan er amser ei sefydliad, y mae yn parhau i ddwyn enw ei sefydlydd; ond nid ydys yn cadw gwasanaeth eglwysig ynddi yn bresenol, eithr cynhelir y gwasanaeth yn yr eglwys sydd gerllaw pentref Llwyn Gwril, yr hon a adeiladwyd yn y flwyddyn 1842. Y mae, hefyd, ddau gapel eglwysig yn y plwyf, y naill yn Arthog, yr hwn a elwir Capel Arthog, ac a agorwyd tua'r flwyddyn 1807, a'r llall ger Rhoslefain, pa un a agorwyd yn Ngorphenaf y flwyddyn 1870.

Ond heblaw yr adeiladau eglwysig hyn, bu gynt hen eglwys yn sefyll gerllaw, neu tua'r fan y saif amaethdy neu y neuadd a elwir Llan Fendigaid. Ac ymddengys yn amlwg mai Llan Fendigaid oedd enw yr hen eglwys hono, a bod yr amaethdy a nodwyd yn dwyn ei enw yn

---

* Dywed hen chwedl y bwriadwyd adeiladu Llan Gelynin mewn man sydd ar dir Bodgadfan, ond y byddai cymaint o gerig ag a ddygid i'r fan hono y dydd, tuag at ei hadeiladu, wedi eu dwyn ymaith erbyn y boreu i fangre lle y mae Llan Gelynin. Y mae rhai meini ar y fan a nodir yn y chwedl y bwriadwyd ei chyfodi ar y cyntaf.

awr. Tybir mai ar y maes a elwir Cae'r Capel, ychydig o bellder oddiwrth y ty, y safai; a dywed Cathral yn ei chylch yn ei hanes o Ogledd Cymru, argraphedig yn y flwyddyn 1828:—"Yr oedd wrth Lanfendigaid, yn y plwyf hwn, tua deugain mlynedd yn ol, gapel bychan, yr unig ran arosol o hen eglwys. Tua'r pryd yna symudwyd cysgodlen gain i dŷ a elwir Maes y Pandy ym mhlwyf Talyllyn, a defnyddiwyd rhan o honi fel cysgodlen gwely."

Yn Nghof-lyfr Caernarfon, tudal. 272, o dan y penawd "Extenta Com' Meryoneth," a wnaed, fel yr ymddengys, yn y seithfed flwyddyn o deyrnasiad Harri y Pumed, ceir cofnodiad i'r ystyr a ganlyn:—

"Llanfendigaid.—Yn yr unrhyw dreflan mae darn penodol o dir a elwir Llanfendigaid, ag a osodir am 14s. 4c., taledig bob blwyddyn i'r arglwydd dywysog, mewn rhanau cyfartal ar wyliau y Pasg a St. Mehangel. Ac y mae yn yr unrhyw dreflan ddarn arall o dir a elwir M'edd Foel ab Conofan, ag a osodir am 13s. 4c. yn y flwyddyn, &c., yn daledig ar y gwyliau a gyn-enwyd. Ac y mae yn yr unrhyw dreflan ddarn penodol arall o dir, ag a elwir tir Gwyn ab Ieuan, yn Llanfendigaid, ag a osodir am 5s. yn y flwyddyn, yn daledig ar y gwyliau a gyn-enwyd. Ac yr oedd yn yr unrhyw dreflan yn yr hen amser ddau (holes) a elwir Eign ab Ph' & Grono ab Ph'; y rhai a arferynt roi i'r arglwydd dywysog ym mlwyddyn gorchfygiad Cymru, ac am hir amser gwedi, i frenhinoedd Lloegr, a thywysogion Cymru, y swm o 5s. ar y gwyliau a gyn-enwyd. Cyfanswm blynyddol, 31s. 8c.

Llechlwyd, neu y *Maen Llwyd*—y maen cysegredig neu fendigaid—hen ystyr *llwyd* ydoedd bendigaid *(holy)*. *Mari Lwyd*, Holy Mary.

Llwyndu.—Enw ar ffermdy ger Llwyngwryl, a lle genedigol Henry Owen,—Crynwr a meddyg enwog yn ei ddydd.

Llwyngwril.—Saif y pentref hynafol hwn bron wrth y môr. Rhed yr afon Gwril trwy ei ganol, ac y mae y golygfeydd o'i amgylch yn hynod swynol ac amrywiol.

Lluosog yw yr ystyron a geir i ystyr a tharddiad yr enw. Dywed rhai fod rhyw gysylltiad rhyngddo â rhyw lwyn, neu gromlech dderwyddol a safai rywbryd yn y lle. Eraill a dybiant mai Llwyn Cyril a ddylai fod, gan seilio eu tyb ar y traddodiad ddarfod i wr da o sant o'r enw Cyril gerdded dros y môr o Ynys Enlli a thrigianu yn y lle! Esbonia eraill yr enw trwy ddweyd yr ymlwybrai cawrfilod yn llwyni y lle gynt, ac mai Llwyncawrfil ydyw y meddwl. Eraill, drachefn, a ddaliant fod yr enw yn deilliaw oddiwrth Gastell y Gaer; sef yr hen amddiffynfa filwrol a safai ar fryn uchel o'r tu dehau i Llwyngwril, yn yr hon y cedwid mil o wŷr arfog dan lywyddiaeth un Cadell, oddiwrth yr hyn y galwyd ef yn Llwyngwyrfil, neu Llwyn y mil gwŷr. Ceir olion amryw hen adeiladau ychydig uwchlaw y pentref, ac y mae olion hen Gastell y Gaer i'w gweled yn amlwg ddigon hyd y dydd hwn. Ymddengys i ni mai enw personol yw Gwril neu Gwryl, ac ddarfod i'r "llwyn" gael ei alw ar enw rhywun neu gilydd a ddygai y cyfryw. Ceir Gwyril neu Gwyryl yn enw ar ferch yn yr âch-lyfr, gan Lewis Dwnn. A gelwir un o feibion Efroc frenin yn Gwryl.

Llynau Crygenan, a orweddant islaw mynydd uchel y Tyrau Mawr, ar derfyn y Ffordd Ddu. Yn nghymydogaeth y llynau hyn ceir un o'r "meini hirion" a elwir *Careg y Big*. Mesura tua chwe' troedfedd o uchder, a chredir ei bod yn arddangos lle beddrod milwr a gwympodd mewn brwydr a ymladdwyd gerllaw. Gwel *Crygenan*.

Llys Bradwen.—Y mae safle ac olion yr hen Lys hwn ger glan ogleddol afon Pant y Llan. Ac yn bresenol, gelwir y maes lle y maent Maes Pant Llan, neu Pant y Llan; ond ei enw yn flaenorol oedd Maes Crycenan, a bu ar un amser yn perthyn i'r tyddyn a elwir Crygenan, eithr yn awr perthyna i'r un a adnabyddir fel Pant Llan. Dengys yr olion y perthynai i adeilad Llys Bradwen ddwy ddosran gydgysylltiol, a mesura y fwyaf o honynt, yn un pen iddi, tua chan' troedfedd ar ei thraws megis; ond y mae y pen arall iddi yn gulach

o ryw naw troedfedd. A mesura y ddosran y ffordd arall oddeutu naw deg a chwech o droedfeddi, ac yn yr ochr arall ryw naw deg a dwy o droedfeddi yr un modd. Y mae maintioli y ddosran arall, ar draws un pen iddi, yn rhyw dri deg ac wyth, neu dri deg a naw o droedfeddi; ond, feallai fod cornel allanol y pen arall yn troi i mewn, ac fod yr encyd ryw bedair troedfedd yn llai. Ei hyd sydd oddeutu pedair a deugain o droedfeddi. Mesuriadau y tu mewn i'r dosranau yw y rhai hyn.

Dywed Pennant fod dwy gareg yn sefyll o bobtu i'r fynedfa; eithr y mae y rhai hyny yn bresenol yn gorwedd yn ddymchweledig wrth y fan.

Dywedir, mewn nodyn, o barth Llys Bradwen, yn y Cam. Reg., Cyf. I., tud. 153, y trigianai y penaeth yn y ddosran fwyaf o'r adeilad, ac mai y ddosran leiaf oedd y llys barn.

Fel y cyfeiriwyd eisoes, mewn ystyr, dynodiant oddiwrth enw personol yw Bradwen, a geir ar y Llys hwn. Nid yw yn ymddangos fod ar gael ddim o hanes gweithredoedd y Bradwen y gelwir y llys ar ei enw; ond y mae yn cael ei ddynodi yn Arglwydd Dolgellau, ac yn gyffredin dynodir ei fab, neu ei ŵyr, yn Ednywain ab Bradwen, yr hwn hefyd a ddynodir fel arglwydd Dolgellau. Y mae yr Ednywain ab Bradwen hwn, hefyd, yn cael ei osod yn un o Bymtheg Llwyth Gwynedd, ac yn oesi yn amser y Tywysog Gruffydd ab Cynan. Ac wrth ystyried hyn, tebygol y trigianai Bradwen yn y Llys dan sylw yn yr unfed ganrif ar ddeg, neu y ddeuddegfed.—*Cantref Meirionydd*, tud. 358.

Mawnog Arthog, yw y *fawnog (bog)* fwyaf yn Meirion. Yma y cafodd brodor o'r lle flaen gwaewffon hynod, ac eraill rai o'r ceryg tair cornel gwenwynig a deflid oddiar fwa saethau yn yr oesoedd gynt.

Maes Pant y Llan.—Yn Maes Pant y Llan, neu yn ol ei enw blaenorol, *Maescrygenan*, y mae nifer o feini ar eu penau yn y ddaear, a bernir gan rai fod cylch Derwyddol yn sefyll ar y fan. Gwel *Crygenan*, tud. 55.

Nantsiling.—Dichon mai dwyn enw personol y mae *Silig* neu *Siling*. Yn nynodiant y tyddyndy a elwir ar lafar gwlad yn *Nantsilig* neu *Nantsiling*, pa enw a ddygid unwaith, fel yr ymddengys, gan y nant a red heibio gerllaw iddo. Maentumir gan rai mai yr enw yn briodol yw Nant Sulïen. Yn y *Gwyddoniadur Cymreig*, Cyf. II., t. 27, ceir y cofnod canlynol:—

"Sulien=Silin, ab Hywel, ab Emyr Llydaw:—6ed canrif. Efe a wnaeth eglwys Llansilin, a chapel Silin yn Ngwynedd, ac eglwys Sulien a chapel Silin yn Nyfed." Ceir yr enw Sulien yn y *Myvyrian Archaiology* yn y ffurf o Sylien fel hyn:—"Sylien neu Sulien a ddaeth gyda Chadfan i'r ynys hon."

Melin Pant Phylip, Melin Pwll Arthog.—Bu gynt felin flawd ar dir Pant Phylip, ond ryw dro yn amser sychder a phrinder dwfr ati, anfonodd gwr y tyddyndy a elwid Pwll Arthog (yr hwn yr ymddengys a biodd y lle), ei was yno i gael malu ŷd i'w gŵn hela, pryd y gomeddodd y melinydd wneyd, gan ddywedyd fod arno "eisiau malu i blant dynion yn nghynta." Ffromodd gwr Pwll Arthog oherwydd hyn, a bygythiodd godi melin ei hun, gan ddywedyd fod ganddo well lle am un. Ac felly codwyd Melin Pwll Arthog, neu, fel ei gelwir yn gyffredin yn awr, Melin Arthog. Ymhen amser, trowyd Melin Pant Phylip yn bandy, a hyny i Dafydd Ywain, mab Edward a Margaret Ywain, Pant Phylip. Ymddengys na pharhawyd i ddwyn gwaith panu ymlaen am hir amser yn y pandy hwn—ddim ond am ryw ddeng mlynedd. Y mae ar dir Pant Phylip gaeau o'r enwau Cae'r Felin a Chae'r Deintur. Nid oes malu yn Melin Pwll Arthog er y flwyddyn 1861."

Melin Ddraenen.—Yma, yn y flwyddyn 1783, y ganwyd John Pughe *(Ieuan Awst)*—bardd grymus, ac un o'r Cymreigwyr goreu yn ei oes.

Ogof Owen.*—Y mae mangre yr ogof hon yn min

---

*Wrth "*ogof*" y golygir ffau, neu geudwll dan y ddaear. Meddylir mai mewn ogofeydd y byddai dynion gynt yn byw cyn iddynt ddysgu gwneyd tai ar wyneb y ddaear. Arwyddocad yr enw *Owen* neu *Owain* yw un o *uchel fonedd*.

y môr islaw Llanfendigaid. Yn nghylch y flwyddyn 1405, daeth anffodion lu i gyfarfod y tywysog dewr Owain Glyndwr. Dirywiodd ei achos i'r fath raddau fel y gorfu iddo ffoi am ei einioes, gan ymlechu mewn lleoedd dirgel ac anghyfanedd. Dywed traddodiad iddo fod yn yr ogof hon yn ffoadur trallodus am un yspaid o amser, ac y danfonid ymborth iddo gan gyfaill o'r enw Ednyfed ab Aaron. Yn y cyfwng hwn y cyfansoddodd Iolo Goch, bardd Owen Glyndwr, ei "Gywydd i Owain Glyndwr wedi ei fyned ar ddifancoll."

Pantafal, sydd lygriad o *Pantygafel* neu *Banty Gafael*. *Gafael* ydoedd un o randiroedd yr hen Gymry. "*Pedair Rhandir ym mhob Gafael.*"

Pant Engian, neu yn hytrach *Pant Einion*. Tybir i'r lle hwn dderbyn ei enw oddiwrth Einion ab Gruffydd, o Dalyllyn, bardd yn ei flodeu yn y 17eg ganrif.

Pant Mawr, sydd enw ar faes perthynol i'r tyddyndy a adnabyddir wrth yr enw Tryfana. *Pant Bach* yw enw maes arall perthynol i'r un tyddyndy.

Pantrenerw, neu yn hytrach *Pantyrhenerw*.

Pantyffa, sydd lygriad o *Bantyffin*. *Ffin* ydyw terfyn y naill dir oddiwrth y llall.

Pantygwyddwch, a elwir ar lafar gwlad *Part y Gwyddwch*, neu *Part Gwyddwch*. Dichon mai oddiwrth enw personol y cafodd y lle hwn ei ran ddynodiant o GWYDDWCH. Ceir yr enw hwn yn un o englynion y beddau. Wele'r englyn:—

Piev y bet hun nid
Aral *Gwythwch* wrth ervid
Trath lathei chvarchei vithid.

Ond o'r tu arall gall mai *hwch y coed* neu *hwch wyllt* a olyga *Gwyddwch* yn enw y tyddyndy dan sylw. Yn ol gosodiad Aneurin Owen, dywed dull Gwent o hen Gyfreithiau Cymru, fel hyn:—"*Gwythwch* un werth ac un ar dyrchauel a hwch tref."

Pared y Gefnhir, sydd drum o fynydd hynod, ar yr hwn y mae amgaerfa o gryn faintioli. Wrth BARED yn gyffredin y golygir, mur, gwahanfur, canolfur, ac ym-

ddengys i'r lle uchod dderbyn ei enw oherwydd ei debygrwydd i "*bared*" yn nghanol y bryniau.

Parlle.—Llygriad yw'r enw hwn o "*Parlas*,"—*a green plot of ground.*

Penygromlech.—Enw yw "*Pen y Gromlech*" ar fan heb fod ymhell oddiwrth Lan Gelynin. Nid yw yn ymddangos fod unrhyw weddillion yno ag y gellir eu dynodi fel yn perthyn i gromlech gelfyddol, hafal i'r rhai a geir mewn manau yn Nghymru. Ond ymddengys oddiwrth yr enw, naill ai y bu un gelfyddyddol yno yn sefyll gynt, neu y cysylltir Cromlech âg ef oddiwrth ryw gilfach naturiol yn y creigiau tua'r fan.—*Cantref Meirionydd*, tud. 362.

Pentrebach, lle genedigol y meddyg enwog Richard Williams, M.R.C.S.

Penrodyn, neu Pen-yr-odyn.—Yn yr hen amser byddai *odyn (kiln)* gerllaw pob tyddyndy, a byddai y maes neu y cae agosaf at y tŷ yn mha un y byddai yn dwyn yr enw "*Cae'r Odyn.*"

Plasbugail.—Wrth "FUGAIL" y golygir un wrth ei swydd yn gofalu am braidd defaid, gwartheg, &c., gan eu casglu, eu porthi, eu harwain, a'u diogelu. Gwneir ef i fyny o *bu*, ych, a *cail*, corlan. *Bugail defaid*, a shepherd. *Bugail gwartheg*, a herdsman.

Cyfaill blaidd *bugail* diog.—*Diareb.*

Prysgaeuchaf, -isaf, -ganol, neu yn gywirach, Prysg, gae, uchaf; Prysg, gae, isaf; Prysg, gae, ganol. Ystyr PRYSG yw mangoed *(shrubs)*. *Prysgle*, a place overgrown with shrubs.

Pulpud y Cythraul.—Ar gŵr y brif-ffordd, yn ngodre coedwig y Gromlech, y mae craig hynod, yr hon cyn dryllio rhanau o honi, oedd debyg o ran ffurf i *bulpud*, ac a elwir *Pulpud y Cythraul*. Yn ol y chwedl byddis yn gweled y gwr drwg yn symud arni mewn amryw ffurfiau. Ond yn ffodus, nid yw yntau yma mwy, mwy na bwgan *Bwlchygwynt*. Tardd y gair "PULPUD" o'r hen Ffrangeg "*pulpite*," lle y seinir yr "u" yn debyg

i'r "u" Gymraeg. Yn ol deddfau'n hiaith ni fe drowyd yr "i" yn "u" gan yr "u" arall, ac fe feddalhawyd y "t," a chafwyd "*pulpud*" yn hollol reolaidd. Ystyr yr enw "*cythraul*" yw "*gwrthwynebwr.*" Y Lladin am dano yw "*contrarius*" o *contra*, against.

Reiolgae.—Ar yr ochr ogleddol i bentref Llwyngwril y mae olion caer, a gelwir y ffordd a arweinia o'r pentref i'w hymyl yn "*Reiolgae*," neu yn fwy priodol, "*Heol y Gaer*," h.y., ffordd y gaer neu yr amddiffynfa.

Rhaiadr Arthog, sydd le a fynychir gan ymwelwyr, ac a fawrygir gan faint arucheled cwymp gorwyllt ei ddyfroedd. Wrth RAIADR y golygir serthle mewn afon, lle y byddo y dwfr yn cwympo yn hytrach na rhedeg. "Wrth *raiadr* yr afonydd," *Num.* xxi. 15.

Rhiwgaeron, sydd enw ar dyddyndy yn ardal Llwyngwril, ac a dderbyniodd ei enw oherwydd ei safle gerllaw yr amddiffynfa filwrol a elwir "*y Gaer.*" Wrth RIW yma y golygir, llethr, lle ochrog—ochr bryn neu fynydd.

Rhiw Las.—Mae "LLAS" yn gyfystyr a "*lladdwyd*," fel yn y llinell "*Gan y tri hyn y llâs traian y dynion.*" Yr oedd hen amddiffynfa ar ben y rhiw hon, ac awgryma yr enw fod ysgarmes a lladdfa wedi cymeryd lle gerllaw.

Rhos Hafotty Fach.—Enw ar ddarn o dir yn agos i Bant y Llan. Y mae ar y lle hwn olion dwy garnedd fawr, y leiaf o honynt yn mesur tua thriugain troedfedd o dryfesur, a'r llall yn mesur tua deuddeg a thriugain o droedfeddi yr un modd. Wrth archwilio y fwyaf o'r ddwy yn neu oddeutu'r flwyddyn 1853, caed ynddi ddwy gistfaen, ac ymddengys y caed un gistfaen yn y leiaf o honynt.

Rhoslefain.—Dywed traddodiad i frwydr gael ei hymladd ar y fangre hon, ac y mae y rhan olaf o'r enw sef "LLEFAIN" yn ffafriol i gywirdeb y cyfryw draddodiad, canys canlyniad naturiol ofnadwyaeth ymdrechfa neu frwydr yw llefain neu waeddi. Gellir sylwi fod yn agos i'r tyddyndŷ ddau gae, y naill yn cael ei alw *Cweryl Bach*, a'r llall *Cweryl Mawr*.

Rhydycynyddion.—Ymddengys fod y lle hwn yn yr amser gynt yn sefydliad helwriaethol, a'i fod wedi derbyn ei enw oddiwrth swyddogion pwysig perthynol i'r llys, sef y cynyddion. Sonir yn y *Cyvreithiau* bod y pencynydd i gael ei dir yn rhydd, â'i farch preswyl, a digon tebyg mai *Rhydycynyddion* oedd y fan yr oedd y tir a berthynai iddo. Yr oedd i'r pencynydd barch mawr yn y Cwrt tra yr arhosai y tywysog yno, a'i le oedd nesaf at yr offeiriad, a'r cynyddion wrth ei ochr. Calan Tachwedd yr oedd ef i dalu ei gydswyddogion,

"O'r rai a dylyo ran ido; ac yna ateb; a gwedi hyny ranu y crwyn yn deupart a traian; a'r deupart i'r cynyddion a'r traian i'r brenin; o deupart y cynyddion, dwyran i gynyd gelci (bytheuad) ac un i cynyd milci; a'r pencynyd a dyly dwyran y can y cynydion gelcwn a dwyran y can y cynyddion milcwn; ac o traian y brenin, o'r crwyn ev a dyly traian."

Nodir yn y *Cyvreithiau* amserau neillduol i'r cynyddion i hela gwahanol greaduriaid. O mis Chwefror hyd ganol haf, hela ewigod. Tranoeth gwyl Ieuan, hela ceirw,

"Ac oni cevir cyn ei cyvodi i ar ei gwely a gwisgaw ei cwaranau ni ddyly gwneutur iawn i neb o'r hawl a gomyner arno"—"*Cyv.*," tud. 969.

Hyd calangauaf, hela hyddod, a "nawmeddyd calangauaf" hyd calan Tachwedd, moch coed.

Tudfarchmawr, -bach.—Ystyr yr enwau yw tir neu randir y march. Sylwa y Proffeswr J. M. Jones ar y gair *tud* fel y canlyn:—*Tud*, gwlad, tir. Ystyr wreiddiol y gair oedd *cenedl*, a dyna ystyr *tud* eto yn Llydaweg, a'r gair cyfatebol *tuath* yn Ngwyddeleg. O'r *genedl* daeth yn Gymraeg i olygu'r wlad. Ceir y gair yn hen enwau Gâl, megys *Teuto*—matus. Yn hen ieithoedd Gogledd yr Eidal Umbrian, *toto*, gwladwriaeth, Oscan, *tuotu*, pobl, ac yng Ngothig, *thinda*, pobl.

Tyddyn Bach.—Yn y lle hwn, yr oedd Mary Thomas yn cartrefu, yr hon a fu byw dros amryw flynyddoedd heb gymeryd ymborth sylweddol, na nemawr ddim yn cynwys maeth.

Ty'n y Coed, neu yn hytrach *Tyddyn yn y Coed.* Yn y flwyddyn 1826, cafwyd gwrn o efydd, 18 modfedd o ddyfnder, a phedair modfedd ar ddeg a haner ar draws-fesur yn y pen uchaf, ac un ar ddeg a haner yn y gwaelod, mewn mawnog ar dir Ty'nycoed.

Ynysfaig.—Y mae dwy Ynysfaig, sef yr uchaf a'r isaf, y cyntaf yn blas, a'r olaf yn amaethdy. Ystyr yr enw yw *Ynyshaig,* medd rhai, oblegid yr heigiau o bysgod a geid yn y fan gynt, pan arferai y môr ymdaenu dros y gwastadedd hwn o'r Friog i Arthog, trwy fod yr argae y pryd hwnw yn fwy isel a drylliedig nag ydyw yn awr. Tybia eraill mai yr ystyr yw *Ynysaig,* neu Ynysymor. Gwaith y môr yn cylchynu y bryn hwn gynt, yn gystal a bryniau crynion tebyg, heb fod yn bell, a fu yr achos, 'does dim dadl, o'u galw yn ynysoedd.

Ynysgrach, a elwir felly (medd y diweddar Celynin) oblegid y cnyciau anwastad ar hyd-ddi o olygiad crachaidd, yn y gauaf felly yn neillduol. Am ystyr wahanol i'r gair "CRACH" gwel *Crachfynydd.*

Ynysgyffylog, neu *Ynysgyffylogyn.*—Saif ar fryn o gryn faintioli, ac ymddengys ei fod yn amaethdy o hynafiaeth mawr. Ei hen enw oedd "Gerddi Belis." Yn ol "llen gwerin" yr ardal newidiwyd yr enw o fod yn "*Gerddi Belis*" i fod yn *Ynysgyffylogyn* fel y canlyn:—Cartrefai Mr. Belis perchenog y lle yn Llundain, ac wedi marw y tad daeth yr aer neu'r etifedd i wel'd y lle, a'i ddryll yn ei ganlyn, a chyfaill o dwrne yn gwmni. Pan wrth y fan y saif y ty arno, cyfododd cyffylogyn braf o'u blaen, anelodd yr aer ei ddryll a saethodd ef i'r llawr. "Pa beth ydyw enw y lle hwn o'r eiddoch, Mr. Belis?" gofynai y twrne. "Gerddi Belis, syr," atebai yr aer. "Felly," ychwanegai y twrne, "ond ai ni fyddai eich gwaith yn saethu cyffylogyn ar y lle y tro cyntaf y daethoch i'w weled yn ddygwyddiad naturiol i chwi newid yr enw yna, a'i alw o hyn allan Ynysgyffylogyn?" "Byddai yn sicr," atebai yr aer, "yr wyf fi yn hoffi yr awgrymiad:" ac felly Ynysgyffylog neu Ynysgyffylogyn (woodcock island) a fu hyd y dydd hwn.

Yn nes i Arthog, ar lan y Fawddach, y mae amaethdai y *Feglefawr* a'r *Feglefach*. Lleoedd wedi eu cymeryd oddiar y môr yw y rhai hyn, drwy amgaùad a chloddiau llanw, a'u hystyr yw *Aiglefawr* ac *Aiglefach*, h.y., "lle'r môr mawr a lle'r môr bach."

Yr Ardd Gladdu.—Mae dau le yn dwyn yr enw hwn yn y plwyf. Saif un o honynt ar dir Cyfanedd Ucha'—rhyw gant a deuddeg a thriugain o droedfeddi oddiwrth y tyddyndy, ac ar y tu dwyreiniol iddo. Nid ymddengys fod dim hanes ysgrifenedig am y lle, ond dywed traddodiad mai mynwent y Crynwyr ydyw, ac fod rhai wedi eu claddu ynddi. Buarth amgauedig, lled fychan yw, a'i amglawdd wedi dechreu adfeilio.

Y fangre arall a elwir yr Ardd Gladdu yw hen fynwent y Crynwyr, ar Fryn Tallwyn, ar dir y Llwyn Du, gerllaw Llwyn Gwryl. Gwel *Cantref Meirionydd*, tud. 363.

III. PLWYF LLANEGRYN.

Afonddu.—Enw ar anedd-dy, ac a alwyd felly oherwydd ei fod ar lan afonig sydd yn dwyn yr un enw. Rhed yr afonig o fawnog gerllaw, ac mae'r ansoddair *du* yn briodol i liw ei dyfroedd.

Bodowyn.—Llygriad o *Bodowen*.

Bredyn Fach, Bredyn Fawr.—"Ymddengys mai un tyddyn oedd y ddau hyn ar y cyntaf, ond iddo, ymhen amser, gael ei ddosbarthu i ddau. A thebygol y cysylltid yr enw o dyddyn â'r fan yn flaenorol i'r cyfryw ddosbarthiad. Ymddengys hefyd mai talfyriad yw y rhan gyntaf o Bredyn, a dichon mai llygriad o'r ffurf briodol yw y rhan olaf. Tebygol mai dwyn dynodiant personol un o'r enw Peredur, pwy bynag ydoedd, y mae y manau hyn. Gellir dwyn ymlaen yr un sylw mewn rhan yn nghysylltiad â lle yn Swydd Drefaldwyn o'r enw Melin Byredyn. Dengys yr achau mai Peredur ydoedd enw taid Ednywain ab Bradwen, yr hwn Brad-

wen sydd ag olion ei lys gerllaw Pant y Llan, yn mhlwyf Celynin.

Brongweunydd.—Enw ar amaethdy. Deillia yr enw o *bron*, llethr, llechwedd *(a slope or side of a hill)* a *gwaenydd* y lluosog o *gwaun* (a meadow).

Bron Eunydd.—Y mae Bron Eunydd wedi ei gymeryd oddiwrth enw rhyw berson neu gilydd. Y mae y tyddyn a adnabyddid fel Bron Eunydd yn rhan o dir y Castell Mawr, ac ymddengys iddo beidio a bod yn dyddyn gwahanol er's mwy na chan' mlynedd yn ol.

Bryn.—Enw ar amaethdy. Y mae y gair *bryn* yn cael ei wneyd i fyny o *bre*, a'r bychanigyn *yn*, sef *breyn*, h.y., *bre* neu fynydd bychan, ac yn nhreiglad amser wedi ei grebachu i *bryn*.

Bryn y Froches.—Enw ar amaethdy, ac ymddengys mai llygriad yw yr enw o *Fryn y Fuches*. Wrth "*fuches*" y golygir, "*a fold or enclosure into which cattle are brought for milking.*" *Buches ddefaid*, a fold for milking sheep.

Oddeutu hanner y nos, cefais fy neffroi gan swn anarferol yn y *fuches* oedd tu cefn i'm hystafell.—*Cylchgrawn*, i. 9.

Bryn yr Orsedd.—"Yn ol a ddywedir, yr ysgubor a berthyn i'r amaethdŷ a elwir yr Hen Shop yw yr hen gynt dyddyndŷ a elwid yr Orsedd. Ond y mae yr ysgubor hon wedi ei gwneyd yn fwy nag oedd helaethder yr hen dyddyndŷ hwnw. A thebygol fod ei safle tua'r fan a elwid Bryn yr Orsedd, sef y bryn lle yr oedd yr orsedd, neu y cynelid yr orsedd arno. Gelwir cae perthynol i'r Waen yn Gae Bryn yr Orsedd, a pherthyna gweirglodd o'r enw Bryn yr Orsedd i'r amaethdy neu y tyddyn a elwir Hen Shop. Yr oedd cynal a sefydlu gorsedd yn drefniant a ffynai ymysg y Cymry er's amser boreu. Ac ymddengys y cynaliwyd y cyfryw sefydliad ar y fangre a elwid Bryn yr Orsedd,—pa un ai gorsedd mewn cysylltiad â barddoniaeth, neu wybodaeth llenyddol, neu frawdle yn trafod achosion gwladol, nis gellir penderfynu; ond feallai y cynaliwyd gorsedd yn y fan

mewn cysylltiad â'r naill a'r llall."—*Cantref Meirionydd*, tud. 303.

Carreg y Big.—Saif y garreg hon ar fynydd y Waen. Y traddodiad am y lle yw, ddarfod i rywun gynt gyflawni hunanladdiad yn y gymydogaeth, ac iddo gael ei gladdu ar y groesffordd ger Cefncoch, gan na chaniateid claddu un o'r fath yn y fynwent. Ond gan yr honid fod "bwgan" yn ymddangos ac yn aflonyddu ar y preswylwyr tua'r fan, symudwyd y corff oddiyno at Garreg y Big. Gosodwyd pren yn y ddaear i nodi allan y lle, ac ymddengys ei fod yn aros yno hyd o fewn tua 115 mlynedd yn ol.

Cefncoch.—"Yr oedd unwaith ddeuddeg o dai tua chroesffordd Cefncoch, ond nid oes yno erbyn hyn namyn un o honynt yn aros, sef y tafarndy. Aeth y cyntaf o honynt i lawr oddeutu'r flwyddyn 1845, a phreswylid yn yr olaf mor ddiweddar a'r flwyddyn 1883. Gelwid hwn y Cefn Coch Ucha', ond yn ddiweddar adnabyddid ef fel Cefn Coch Bach, ac y mae ei adfeilion yn parhau i aros."

Cemmaes.—Y mae yn y plwyf dyddyn yn dwyn yr enw *Cemmaes*, ac hefyd anedd-dy o'r enw *Rhyd Gemmaes*. Ystyr yr enw *Cemmaes* yn y lleoedd hyn yw amchwareufa, neu ymddyrchfa tuag at chwareufeydd neu ymdrechfeydd.

Clos Bach, Clos Mawr.—Ystyr "CLOS" mewn enwau lleoedd yw amgauad, cauadle *(an enclosure)*.

> Dere, f'anwyl, dere i fynydd,
> I le tirion gleision *glosydd*.—*Ysten Sioned*, 47.

Cwm Ych, sydd enw ar fryn, sef *Bryn Cwm Ych*. Wrth droed y mynydd hwn y mae ffynnon o ddwfr duraidd *(chalybeate)*, ac yr oedd ei dwfr mewn bri mawr gynt am ei effeithiolrwydd i wellhau y gymalwst.

Cyfanedd Fawr, Ganol, Uchaf.—Wrth "Cyfanedd" y golygir preswylfod, trigfa, lle i fyw *(a place of residence, a dwelling-place)*.

Tri dyn a wnant *gyfannedd* lle bônt: bardd, gof, a thelynwr.—*Barddas*, ii. 154. *Gwlad gyfannedd*, an inhabited country. *Tŷ cyfannedd*, an inhabited house. Ar dir *Cyfanedd Fawr* y mae pedwar o feini wedi eu dodi ar eu penau yn y ddaear. Saif dau o honynt ar y mynydd, a'r ddau eraill mewn maes a elwir *Cae Maen Hir*. Mesura yr hwyaf o'r meini sydd ar fynydd Cyfannedd Fawr oddeutu saith troedfedd a haner o uchder. Ychydig i'r gorllewin oddiwrth y tŷ, saif gweddillion y Gistfaen Hir. Ymddengys y bu gynt garnedd yn gorchuddio y gistfaen hon, a'i bod wedi ei bwriadu i fod yn argel wely corff marw yn ei ffurf naturiol.

Domen Ddreiniog, Y.—Saif y crug a elwir y Domen Ddreiniog ychydig i'r dehau oddiwrth Dalybont, ac ar lan ogleddol afon Syni. Tybir iddi dderbyn ei henw, oddiwrth gnwd o ddrain ag oedd, hwyrach, yn tyfu arni, ar y pryd. Yr ochr arall i'r dyffryn sydd yn ymestyn o flaen y domen hon, a chryn encyd o bellder oddiwrthi, y mae lle yn dwyn yr enw Tomen Bryn Castell. Eithr y mae gwahaniaeth trwyadl mewn ystyr rhwng y ddwy domen, neu y crugiau hyn; canys tra nad yw Tomen Bryn y Castell ond math o grug wedi ei ffurfio mewn rhan trwy dori o ddeutu y tir naturiol oedd yno o'r blaen; crug gelfyddydol hollol yw y Domen Ddreiniog, wedi ei chyfodi ar y fan gan law ddynol. Y mae yn amlwg fod y flaenaf wedi bod yn osail amddiffynfa gynt; ond gellir tybio oddiwrth ymddangosiad pen uchaf y Domen Ddreiniog na fu erioed felly. Er hyny, y mae traddodiadau mewn perthynas â'r ddwy yn milwrio yn erbyn gosod allan na fu mewn rhyw fodd yn gysylltiedig âg amddiffynfa.

Mynegir gan draddodiad i'r byddinoedd a arosent, y naill ar Fryn y Castell, a'r llall ar y Domen Ddreiniog, gyfarfod â'u gilydd droion mewn brwydr ar y gwastadedd rhwng y ddau le; a phan gollai un o'r pleidiau gelynol y dydd yr enciliai y blaid orchfygedig i gysgod un o'r manau a nodwyd. Un tro, aeth y fyddin oedd ar Fryn y Castell tros afon Syni, a churasant eu gelynion oddiwrth y Domen Ddreiniog; a buont yn ymladd

gerllaw mewn man o'r enw Waen Llywelyn, a chafwyd gweddillion arfau rhyfel, megys blaenau gwaewffyn, a darnau o fwäau saethau yn y fan hon.—*Cantref Meirionydd*, tud. 298.

Felin Fach, ger Llanegryn, a alwyd ar yr enw i'w wahaniaethu oddiwrth le arall yn y gymydogaeth sydd yn dwyn yr enw *Felin Fawr*.

Fron, ydoedd unwaith yn enw ar dyddyndŷ yn sefyll gerllaw Ffynnon y Fron, eithr y mae wedi myned i lawr, ac y mae'r tir a berthynai iddo wedi ei ddodi at dyddyndir Glanmachles.

Ffynnon y Fron.—Ystyrid y ffynnon hon yn llesol at wella y gewynwst, a chafodd ei hadgyweirio tua'r flwyddyn 1835.

Gilfachygog.—Enw ar amaethdy, mewn lle cysgodol, ac ymddengys iddo dderbyn yr enw hwn oherwydd yr arferai y gog dalu ymweliadau mynych a'r lle. Ystyr "CILFACH" yw, *a retired place or corner*.

> Ac aros y nos yn iach
> Ym mon celfa, mewn *cilfach*.—*Dafydd ab Gwilym*.

Cilfachau y mynyddoedd, the recesses of the mountains.

Glanmachlas.—Gwneir yr enw hwn i fyny o *glan*, min, ymyl, megys glan y môr, glan yr afon; *mach*, yn golygu "*cilfach*" (*a nook, a corner*), a *glas* (blue), ansoddair a geir yn fynych mewn enwau lleoedd.

Gwely'r Meibion, sydd enw ar ddarn o fynydd-dir rhwng Pont Cwm Llwyd a Chyfanedd Fawr. Ni fynegir meibion pwy oeddynt y rhai y mae y darn tir crybwylledig yn cael ei alw oddiwrthynt yn Wely'r Meibion, nac ychwaith beth oedd eu henwau hwythau. Byddid gynt yn rhanu trefdadaeth yn ol yr amgylchiadau digwyddiadol, rhwng brodyr, yna rhwng cefndyr, ac wed'yn rhwng cyfyrdyr. Ac wrth wely yn y cysylltiadau hyn y golygir etifeddiaeth, a dichon i'r fath enw gael ei gymhwyso at hyn, gan mai ar y cyfryw gyfran etifeddol yr oedd eu harosfan dreftadol neu eu gorphwysfa. "*Gwely cenedl*," ydyw etifeddiaeth deulu-

aidd. "*Tir gwelyawg,*" yw tir etifeddol; a "*chenedl-welyawg,*" yw teulu yn perchen etifeddiaeth.

Llanegryn, sydd bentref a phlwyf. Saif y pentref ar lan yr afon Dysynwy, dwy filldir a haner o lan y môr. Y mae y plwyf yn cynnwys trefgorddau Peniarth a Rhyd-y-rhiw. Egryn ydoedd sant, a mab i Grwydr Drwm ab Gwedrog ab Geraint, o linach freiniol Cadell Deyrnllwg. Oesai yn y 7fed ganrif. Efe, meddir, a sefydlodd eglwys Llanegryn. Cysegrwyd y Llan hon i Mair, a disgyn diwrnod ei chofwyl ar y seithfed o Awst.

Llwynhenoel, enw ar dyddyndŷ. Llygriad yw'r enw o *Llwynhenfoel.*

Llwyn y Gardd.—Mewn ysgriflyfr ysgrifenedig yn y flwyddyn 1560, o eiddo Gruffydd Hiraethog, sonir am y lle hwn. Dyma fel y dywed yr hen fardd:—"Sir Veirionydd, Kwmwd Talybont, tre Beniarth, plwy Llanegryn: Yn y dre kou lle y gelwid *Llwyn y Gardd,* yn ymyl Maes y Neuadd; rhwng moel gwely y sarff a deau orllewin, mae lle y bu adail mawr o brigs eto i'w gweled, a ffenestri yn y dayar, ac i'r oedd y llawr wedi pavio o geric ysgwar callestredig ar lun disie yn disgenu tô o glai yn gyntaf, tô o dywod yn nesaf, a thô o galch, ac yn hwnw y cerric ysgwar wedi gosod." *Garddwyr,* certain persons resembling our cottages, who possessed small parcels of land called *Gerddi.—Pennant's Tours,* iii., p. 3.

Llwynyfynwent.—Wrth FYNWENT y golygir claddfa, corfflan *(a burial place, a cemetery).* Dywedir fod gwahaniaeth yn cael ei ystyried gynt rhwng mynwent a chorfflan; mai y clos o amgylch yr Eglwys, yn cyffwrdd yn uniongyrchol â hi, oedd y fynwent; ac mai y clos o'r tuallan i'r fynwent, ac weithiau o'i hamgylch oedd y corfflan. Yn y cauadle hwn, meddir, yn unig y cleddid y meirw gynt; ond y mae y gwahaniaeth hwn rhwng y corfflan a'r fynwent wedi hen ddiflanu yn awr, fel yr ystyrir y ddau air yn gyfystyr. Ystyr yr enw *Llwyny-fynwent* yw trigfa neu gartref ger y gladdfa.

Maesyneuadd.—Ystyr "NEUADD" ydyw "ystafell eang" neu "le diddos," fel yn y ddiareb, "Neuadd

pob diddos.'' Yn yr hen amser, arferid codi neuaddau i fyny mewn gwahanol gymydau, i dderbyn y brenin neu yr arglwydd ar ei ymweliadau helwriaethol, &c. Desgrifir y neuaddau hyn gan Giraldus Cambrensis, a sonir am danynt yn *Y Cyvreithiau,* a chofnodion hynafol eraill.

Moelmon.—'' Yr oedd yn y plwyf unwaith dyddyn yn cael ei alw Moelmon, ond y mae yn awr fel rhan o'r tyddyn a berthyn i'r Tymawr. Safai tyddyndŷ Moelmon ar fin y ffordd dref-ddegwm sydd yn dyfod i lawr heibio yn agos i'r tyddyndŷ a elwir Rhiwfelen. Cauwyd mangre tyddyndŷ Moelmon i mewn fel rhan o gae perthynol i'r Tymawr yn y flwyddyn 1885. Ond yr oedd ei dyddyndir wedi ei osod at y Tymawr flynyddoedd yn flaenorol. Buwyd yn trigianu yn Moelmon fel tŷ anedd mor ddiweddar a'r flwyddyn 1875.'' Ystyr *mon* yn yr enw yw y '' *pwynt pellaf.*'' Galwai y Brytaniaid Ynys Mon yn '' Fon Wlad '' i arwyddo pwynt pellaf eu tiriogaeth, yr un modd ag y galwasant bellaf-bwyntiau ereill yn ddilynol, megys Cernyw, yn *Ben-y-fonlar,* neu Ben-y-fonwlad.

Nantcynog.—Tueddir awdwr *Cantref Meirionydd* (tud. 301) dros gredu mai dwyn enw personol y mae y dynodiant Cynog a geir yn y tyddyndŷ a elwir Nant Cynog. Cyfarfyddir a'r gair '' *cynnogn* '' yn aml yn *Y Cyvreithiau,* a golyga y '' *dyledwr gwreiddiol*'' *(the original debtor).*

> Pa fach bynnag a wrthdyngo ar y *cynnogn,* bid rydd o'r hawl, ac o'r fechni . . . pa fach bynnag ynte a wrthdyngo ar y *cynnogn,* taled ei hun yr hawl.—*Leges Wallicae,* ii. iv. 5.
>
> A arbeto ei fach, arbeted ei gynnogn.—*Diareb.*

Mach a chynnogn, surety and debtor. *Cynnogaeth,* a fixing or settlement of debt.

Nantpwl.—Tyddyndŷ yn gynnwysedig o dyddyndŷ a thai allan, '' ac o 30 i 40 o erwau o dir.'' Llygriad yw'r enw o *Nantypwll.* Y mae PWLL yn gyfystyr a'r gair

Saesoneg "*pool*," ac ambell waith yn golygu *clawdd, ffos, pydew*.

Nant Madyn.—"Dywedir ddarfod i dri brawd ymgymeryd âg adeiladu preswylfeydd iddynt eu hunain, a'r aneddau hyny oeddynt y Nant.—*Nant Madyn, Ty'n Llwyn*, a *Pheniarth Ganol*. Y mae yr anedd neu y tyddyndŷ a nodwyd flaenaf yn parhau i aros mewn rhan, eithr y gyfran iddo a elwid y groes wedi myned i lawr. Ond yn Mheniarth Ganol y mae y groes yn aros, a gadawyd hi felly yn ail-adeiladiad y tŷ er's nifer o flynyddau yn ol. Eithr y mae Ty'n Llwyn wedi myned i lawr, ac unwyd ei dyddyndir perthynol â thir Glanmachlas, oddeutu'r flwyddyn 1809. Yr oedd y tri wedi eu hadeiladu ar gynllun hafal i'w gilydd."—*Cantref Meirionydd*, tud. 322. Ystyr *Nant Madyn* yw *Nant y Llwynog*, neu *Nant y Cadnaw*.

Pantyrefail, sydd lygriad o *Pantygafel*. Gwel "*gafel*."

Parsonage=persondy, periglordy *(the official dwelling house of a parson)*. Wrth beriglor y golygir y prifweinidog plwyfol yn yr Eglwys Wladol, yr hwn yw perchenog y degymau, a llywydd y plwyf mewn achosion eglwysig. Wrth berigloriaeth y deallir y fywioliaeth eglwysig, sef y tir, y degwm, yr offrwm, neu beth bynag a fyddo yn gwneud y fywioliaeth i fyny. [O French *persone*, from L. L. *persona ecclesiæ*, the person of the church; L. *persona*, a person.]

Peniarth, Ganol, Uchaf.—Am ystyr "*garth*" gwel tud. 28. "Ymddengys mai yn y bumed flwyddyn o deyrnasiad Harri V. (1417) y dechreuodd Peniarth ddyfod dan fath o afael gan un o hynafiaid perchenog presenol yr etifeddiaeth. A'r gafael hwnw oedd mewn cyssylltiad â thirwystlaeth (in prida) gan Gruffydd ab Aron. Canys yn ol a nodir, rhoddodd y gwr hwn £7 ar feichniaeth Maes Peniarth a Bryn y Frochas am yr ystod o bedair blynedd. A thebygol y gorweddai Maes Peniarth tua'r fan y saif neuadd Peniarth yn awr arno.

Nid yw *Peniarth Ganol* yn awr ond amaethdy, ac yn cael ei breswylio gan y tir-ddeiliad; a pherthyn y

lle yn bresenol i etifeddiaeth Peniarth. Preswylid y fan gynt gan ei berchenogion, ac yr oedd Ty'rgawen ac yntau yn ffurfio rhan o'r etifeddiaeth. Gwel "*Nant Madyn.*"

Gelwid *Peniarth Uchaf* gynt yn *Pen Glasan* a *Bryn Glasan,* a buwyd unwaith yn galw *Peniarth Uchaf* ar yr amaethdy a elwir yn awr *Peniarth Ganol.* Adeiladwyd y palasdy a elwir yn bresenol Peniarth Ucha' yn lled agos i neuadd o'r enw Bryn Glasan, a thebygol mai oddiwrth y bryn y cafodd y neuadd y cyfryw enw. Perchenogid Pen Glasan neu Bryn Glasan yn yr eilfed ganrif ar bymtheg gan un Ywain Gruffydd, ap John, ap Ifan.

Plascorniog.—A palace having chimneys or stacks.

> Mae'r tai *cornogion?* mae'r tir?
> Mae'r swyddau mawr, os haeddir?—*Sion Cent.*

Corn mwg, Corn simnai, a funnel of a chimney; a chimney; a stack.

> Eira mynydd gwyn *cornmwg,*
> Hoff gan leidr dywyllwg.—*Englynion Eiry Mynydd.*

Rhydygemmaes, o *rhyd* (a ford) a "*cemmaes*" (an amphitheatre). Gwel "*Cemmaes.*"

Rhydygarnedd.—Enw ar dyddyndy.

Rhydycriw.—Enw ar dyddyndy. Ymddengys mai llygriad yw yr enw o *Rhyd-y-rhiw.*

Talybont.—Saif yr amaethdy a ddyga yr enw hwn yn lled agos i Bont Syni, ac enw ydyw o'r un ystyr a Phen y Bont, neu uwchlaw y bont. Bernir fod Talybont wedi bod yn hen annedd Tywysogion Gwynedd yn gymaint a bod y Tywysog Llywelyn wedi dyddio un o'i Freinleni oddiyma—sef ar y 6ed o Hydref, 1275.

Trychiad.—Y mae yn y plwyf ddau dyddyndy o'r enw arbenig Trychiad, y rhai a wahaniaethir wrth yr enwau Trychiad Isaf a Trychiad Uchaf. Tybiwn mai llygriad yw yr enw o *Tyddyn y Mychiad* neu *Tyddyn y Meichiad.* Wrth "*mychiad*" y golygir "ceidwad

moch." "A'r *meichiaid* a ffoisant."—Matthew viii. 33.

Tyddynyblaidd.—Y mae cyffredinedd a chyffredinolrwydd y gair *blaidd*, fel rhan o enwau lleoedd, yn profi fod y fath fwystfil yn trigianu yn Nghymru ryw gymaint ar ol i'r Brutaniaid sefydlu yn y wlad.

Ty'n y Bryn.—"*Bryn*" y gelwir y lle hwn ar lafar gwlad. Tebygol mai talfyriad o Tyddyn y Bryn yw Ty yn y Bryn, neu Ty'n y Bryn. Yr un le yw ag a elwir ambell waith yn "Tyddyn y Bryn y Gwyshion duon."

Ty'n Llan, a alwyd ar yr enw hwn oherwydd ei agosrwydd i Lan Egryn. *Llan* y gelwid yr eglwys gynt, a *Thy'n Llan* y gelwid y tafarndy agosaf i'r eglwys; a *Llanwyr* fyddai y gair mwyaf arferedig am y rhai hyny a fynychent yr Eglwys. Yn Ty'n Llan y ganwyd Elen Egryn.

Ty'rgawen, sydd lygriad o *Tyddyn yr Ysgawen*. Edrychai hen drigolion Cernyw a'r cyffiniau yn uchel ar yr *ysgawen*. Mae yno amryw bentrefi yn dwyn ei henw, nid amgen *Boscauen-rôs*, *Penscauan*, *Enyscauen*, *Lescauan*, *Fentonscauan*, a *Trescau*.

IV. LLANFIHANGEL-Y-PENNANT.

Abergynolwyn.—Bu llawer o ddyfalu ac esbonio o barth ystyr enw Abergynolwyn, a lliosog yw y dulliau o'i osod allan, megis Abergwernolwyn, Abergwernol Wy, Aber Cynolwyn, Aber Cantolwyn, Aber Gwenolwyn, Aberganolwyn, ac Abergynolwyn. Y mae un hynafiaethydd lleol craffus, yn barnu mai gwir enw y lle ydyw Aber Gwernol-wy; am mai "afon Gwernol" y gelwir yr afon, a'i bod yn tarddu o "Ffynnon Gwernol." Y mae awdwr *Cantref Meirionydd* yn tueddu dros gredu i'r lle dderbyn ei enw oddiwrth berson o'r enw Cynolwyn, a dyfyna y llinellau canlynol o Lyfr Du Caerfyrddin:—

Eu aber gwenoli, y mae
* * * *
Bet pryderi yny terw tonnev tir
Yg Rarrauc bet gwallauc hir.

Y mae yn nghymydogaeth Aberdyfi, ar dir Glygyrog Wen, faes o'r enw Cae Cynolwyn, a thybir gan rai fod y lle hwn yn ogystal ag Abergynolwyn wedi derbyn eu henwau oddiwrth berson yn dwyn yr enw Cynolwyn.

Aran y Gesail, Aran yr Hydref.—Enwau ar ddau fynydd uchel. Y mae Aran y Gesail yn 2,224 o droedfeddi o uchder. Ystyr ARAN yw lle uchel (a high place).

Lliw eiry cynnar pen *aran*
Lloer bryd lwys fryd o lys Frân.
—*Hywel ab Einion Lygliw.*

Ceir *Aran Fawddwy*, yn mhlwyf Mawddwy, *Aran Benllyn*, yn Mhenllyn, ac *Aran Pen Aran*, yn sir Drefaldwyn.

Beddau'r Gwroniaid.—Saif y rhai hyn ar fynydd Pentref Maes Trefnant. Dywedir eu bod unwaith yn fwy tebyg i feddau nac ydynt yn bresenol; ac y mae yn amlwg ddarfod i rywun fod yma yn chwalu. Yn ngwanwyn 1877, cafwyd golosg yn gymysg a'r pridd, ac yr oedd yn amlwg mai beddau dynol oeddynt, a barotowyd i'r gladdfa trwy losgiad.

Bryn yr Eglwys.—Gelwir yr enw hwn ar anedd a fu unwaith yn amaethdy, pa un sydd a'i safle yn y pellder o filldir a haner o Abergynolwyn. Gerllaw iddo y mae anedd-dy neu amaethdy wedi ei godi i oruchwyliwr cloddfa Bryn yr Eglwys. Cysylltir yr enw Bryn yr Eglwys â'r tŷ hwn hefyd; ond ynglŷn â hyn ychwanegir gair Saesneg cyfystyr a neuadd. Diameu fod yr hen amaethdŷ a nodwyd yn dwyn yr un enw ag a wna y bryn, ar gŵr pa un y saif, ac y gelwid y bryn ei hun ar yr unrhyw enw, oherwydd eglwys a safai gynt yn ei gymydogaeth—yn ol traddodiad eglwys a godwyd gan Sant Cadfan. Yr oedd mangre yr eglwys hono, yn ol fel yr ystyrir, yn ochr Cantrybedd i'r nant a red heibio

godreu y bryn, ac o fewn ychydig iddo. Y mae y fan lle y tybir yr oedd ei safle wedi ei orchuddio âg ysbwriel y gloddfa, ond symudwyd ymaith lawer o geryg adfeilion oedd a'u safle ar neu tua'r fan a elwid yr Hen Fynwent a'r Fynwent Fach o gyraedd yr ysbwriel, gan ei ffurfio yn fath o amglawdd, a phlanwyd coed oddimewn i'r amgauad megis. Dywedir fod math o argraff ar graig lefn yn y nant a red rhwng Bryn yr Eglwys a thir Cantrybedd, ond ei fod yn orchuddiedig gan domen y chwarel er's blynyddoedd.—*Cantref Meirionydd*, tud. 260.

Bwlch Cyfyng.—Enw ar amaethdy, ac a dderbyniodd yr enw hwn oherwydd ei safle *gul* neu *gaeth* yn y bwlch. *Lle cyfyng*, a narrow place. *Y porth cyfyng*, the strait gate. Y *bwlch* ydoedd *gyfyng* i ddau wr o'r mwyaf.—*Judeth iv.* 7.

Cader Idris.—Golygir mai CADER, gair cyfystyr a *Caer*, neu amddiffynfa *(a fort, or fortress)*, ac nid *Cadair*, eisteddle, yw y gair priodol am y lle, am mai ar gopa y mynydd hwn yr oedd prif amddiffynfa yr hen filwr llywodraethol *Idris*, yr hwn hefyd y dywedir ei fod yn fardd ac yn ser-ddewin. Mae hen draddodiad, pe cysgai dyn am noson ar ryw fan penodol ar ben y Gader, y byddai yn *fardd*, neu yn *wallgof*, neu yn *farw*, erbyn y boreu. Lleoedd eraill yng Nghymru yn dwyn yr enw hwn ydynt *Cader Facsen*, *Cader Ddinmael*, *Cader Arthur*, *Cader Ferwyn*, *Pen Cader*.

Cae'r Berllan sydd hen balasdy yn sefyll ar fin y ffordd o Abergwernolwy i Lanegryn, a bernir ei fod wedi ei adeiladu yn dra boreu, efallai, tua'r amser y dinystriwyd Castell y Bere. Perchenogid y lle er's llawer o oesoedd, gan deulu o'r cyfenw Owen, y rhai a olrheinient eu hachau i Owain Gyfeiliawc, mab Gruffydd ab Meredydd, tywysog Powys.

Cae'r Nant.—Cyfeiria y nant hon ymlaen heibio Llanfihangel-y-Pennant, gan olchi clawdd y fynwent ar ei thaith, ac ymuno a'r Gegidan islaw Castell y Bera.

Carreg y Gwr Drwg.—"Ar ochr orllewinol Cader Idris, yn gymhwys ar derfyn plwyf Llanfihangel a Thal

y Llyn, y mae carreg wastad, lle y byddai trigolion y ddau blwyf, oesoedd yn ol, yn arfer cyfarfod ar y Sabbathau i ddawnsio; a dywed llên gwerin y byddai y bodau bychain, heinyf, ac ysgafndroed, a elwid y Tylwyth Teg, yn ymweled a'r un lanerch ar nosweithiau lloergan, gan ganu, neidio, a dawnsio, hyd oni chlywid "mab yr iar" yn eu rhybuddio i fyned adref. Ar ryw adeg, pan oedd y ddau blwyf wedi ymgyfarfod i gynnal dawnsfa wystledig ar Sul y Pasg, ac ar ganol eu dawns gwnaeth y gwr drwg ei ymddangosiad ar lun asyn yn eu canol; ac wedi rhoddi oernad ofnadwy, nes oedd creigiau y Gader yn diespedain, rhoddes dro dair gwaith ar y ddawnsfaen; ac erbyn hyn yr oedd y dawnswyr a'r edrychwyr yn ffoi am y cyntaf, tua chyfeiriad Talyllyn a Llanfihangel; ac y mae yn dra thebyg iddynt fyned i'r llanau i orphen eu Sabbath, ac i wneyd iawn am eu camwedd. Mewn canlyniad i'r tro uchod, dywedir y bu y garreg am amser maith heb neb yn ddigon calonog i fyned yn agos ati, gan ofn fod "y gwr drwg" yn llechu o'i deutu. Ond yn mhen rhyw ysbaid o amser daeth dau fachgen gwrol i fugeilio i'r gymydogaeth; y naill i Ben y Coed, a'r llall i Riw Ogo; a phenderfynodd y ddau, er yn bryderus, fyned tua'r fan; lle hefyd yr aethant yn grynedig; ac er nas gwelsant yr asyn y clywsent gymaint am dano, na dim yn debyg iddo, eto, hwy a welsant ddigon i'w hargyhoeddi o wirionedd y chwedl; canys yr oedd ôl traed yr asyn yn aros yn amlwg, wedi suddo tua dwy fodfedd i'r garreg; ac ervs felly hyd heddyw! Dyna draddodiad "Carreg y Gwr Drwg" fel ei hadroddir gan werin yr ardaloedd mynyddig tua godrau Cader Idris. Y mae enwau ugeiniau o bersonau wedi eu cerfio ar y garreg; ac y mae amryw o honynt yn hen iawn; un o honynt can hyned a'r flwyddyn 1564.

Castell.—Nid yw y gair "*Castell*"—Llydawaeg, *Kastel;* Gwyddelaeg, *caisel;* Galaeg, *caisteal;* Manawaeg, *coshtal*, ond cymhariaethol ddiweddar, ac y mae yn yr holl dafod-ieithoedd Celtaidd wedi ei fenthyca o'r Lladin *castellum*, ffurf fychanig *castrum=amddiffynfa*

(a fortified place). Yr enw hynaf ar y cyfryw yn iaith y Cymry oedd "*Din*," "*Dinn*," "*Tun*," a "*Duan*."

Y mae y lle hwn gerllaw pen coed Dysefin. Y mae yno ychydig o hen olion caerfa, a gelwir y fan wrth yr enw unigol Castell. Yn y mynydd heb fod yn neppell y mae lle o'r enw Tap Spi, neu Tap Yspi. Ac ymddengys, gan ei fod yn lle manteisiol i wylio dynesiad y gelyn, iddo gael ei ddefnyddio gynt fel edrychfan neu wylfan.

Castell y Bera.—Ar lan ddeheuol yr afonig Llaethnant, ac ychydig bellder oddiwrth bentref hynafol Llanfihangel-y-Pennant, y mae i'w gweled yn amlwg weddillion hen gastell neu amddiffynfa o'r enw Castell y Bera, neu Gastell Cae'r Berllan. Oddiwrth ei olion y mae yn amlwg fod y castell yn lle hynod gadarn. Ymestyna ar hyd grib y graig am fwy na 500 o droedfeddi o hyd, ac uwchlaw 150 o droedfeddi o led. Bernir iddo gael ei adeiladu gan Gruffydd ab Cynan, tywysog Cymru, neu gan Hugh Fleiddyn, Iarll Caerlleon, rhwng y blynyddoedd 1080 a 1100. Tybir mai hwn ydoedd Castell y Bera amddiffynfa olaf Llywelyn ein Llyw Olaf, a'r hwn a gymerwyd gan William de Valence, Iarll Penfro, ychydig cyn i Gymru gael ei llwyr orchfygu. Dywed traddodiad iddo gael ei enill drwy i'r gelynion gael allan dramwyfa y dwfr, ac i'r gwarchodwyr orfod ei roddi i fyny oherwydd prinder dwfr. O berthynas i darddiad yr enw y mae llawer o wahanol farnau. Barnai Ieuan Brydydd Hir mai y gwir enw yw *Castell yr Aberau;* tarddiad arall a roddir iddo yw *Castell y Beri*, neu y barcutanod, am ei fod yn gyniweirfa i nifer mawr o adar ysglyfaethus, y rhai a adeiladent eu nythod yn y graig; tybia ereill mai *Castell y Bera* y dylid ei ysgrifenu, a'i fod yn deilliaw oddiwrth lun y graig, yr hon nid yw yn anhebyg i *fera** neu byramid. Tueddir ni

---

* Y *bera* blaenfain, balchedd hen yr Aipht,
A syndawd byd.—*Iago Trichrug.*

Bera o yd, a stack or rick of corn.

dros gredu mai llygriad ydyw "bera" o "berai" neu "merai" sef cwter,* cafn, neu geunant. Ystyr Castell Bera felly ydyw *Castell y Ceunant*.

Clwt Maen Hir.—Wrth "CLWT" [Gwyddelaeg, *clud;* Gaelaeg, *clud;* Manawaeg, *clooid*] y golygir *darn, llain,* neu *ddryll* (a piece; a patch). *Clwt o dir*, a piece of ground. *Clwt o fara a chaws*, a piece of bread and cheese.

Y mae y fan a elwir *Clwt Maen Hir* yn agos i Gae'r Berllan. Tybir iddo dderbyn yr enw hwn oddiwrth faen sydd yn osodedig ar ei ben yn y ddaear, a'r hwn yn bresenol a ddefnyddir fel cil-bost llidiard. Mesura oddeutu chwe' throedfedd a haner oddiar yr arwyneb.

Coed y Fedw.—Enw ar le ger Abergynolwyn. Wrth "*Coed y Fedw*" y golygir *a birch grove*, ac yn y golygiad yma dygwydda yn aml mewn enwau lleoedd, megys yn *Y Fedw, Y Fedw Deg, Ty'n y Fedw*, y *Fedw Arian*, &c.

Craig y Deryn, sydd ar waelod dyffryn Llanfihangel. Cafodd ei henw mae yn debyg oddiwrth y lluaws mawr o forfrain, hebogiaid, cyhyrod, ac adar ysglyfaethus ereill a'i mynychant. Ymgyfyd y graig yn serth i'r uchder o dri chan' troedfedd uwchlaw y llethr, yr hwn sydd yn orchuddiedig gan gerryg anferth. Y mae iddi ddau wyneb nodedig, y rhai a elwir yn y gymydogaeth "Y Palis Fawr" a'r "Palis Bach." Ymddyrcha y "Palis Bach," tua dau gan' troedfedd o uchder o'r ffordd sydd wrth ei godrau. Y mae wyneb y "Palis Mawr" tua chan llath o led, a 400 troedfedd o uchder, ac yn gogwyddo tua 60 troedfedd dros droed y graig. Y mae yn hon ugeiniau o ystafelloedd neu gilfachau, yn y rhai y bydd yr adar yn dodwy ac yn magu eu cywion. Y mae olion dau dŵr ar ben hon, a elwir "Tyrrau y Gwylwyr," a dywed traddodiad eu bod gynt yn perthyn i Gastell y Bere; ac y byddai y gwylwyr pan ganfyddent y gelynion yn nesau o gyfeiriad Towyn neu Lan-

* Defnyddir y gair "cwter" am geunant yn 2 Samuel v. 8.

egryn, yn rhoddi arwydd i warcheidwaid y castell trwy gyfodi baner goch ar un o'r tyrau.''

Cwm Trefnant.—Y mae Abergynolwyn yn gorwed ar gydiad pedwar o gymoedd, sef ''*Cwm Trefnant*,'' i'r dehau; ''*Cwm Talyllyn*'' i'r gogledd; ''*Cwm Buarth y Meini*'' i'r dwyrain; a ''*Chwm y Gamallt*'' i'r gorllewin. Am ystyr ''*Cwm*'' gwel 19.

Dolydd Cau.—Dolydd yw y lluosog o *Dôl*. Ystyr ''*Dol*'' [Cernywaeg, *dôl;* Armoraeg, *dôl;* Gwyddelaeg a Gaelaeg, *dail;* Saesneg, *dale*] yw gwaen, gweirglodd = *a meadow (usually through or by which a river flows).*

> Dychwel yn ol i'r *dolydd*,
> Yn drym draw er gwisgaw gwŷdd.
> —*Dafydd ab Gwilym.*

Dywedir yn gyffredin gan ysgrifenwyr mai yn Nolyddcau y bu Dr. W. O. Pughe farw, ond camsynied yw hyny, canys nid yno y bu, ond mewn ty gerllaw o'r enw *Cottage*. Am ystyr ''*cau*'' gwel *Llyn Cau*.

Dyssefin Uchaf, Isaf.—Dywed awdwr *Cantref Meirionydd* (tud. 272) mai llygriad yw *Dyssefin* o ''*Maes Hefin.*'' Ystyr ''*hefin*'' yw hafol, hafaidd, perthynol i haf, o *haf* (summer) a *hin* (weather). *Alban hefin*, summer solstice.

> *Alban hefin yw calan haf.—Barddas*, i., 418.

Dywed traddodiad fod brwydr waedlyd wedi ei hymladd yma ar ryw adeg foreuol; ond nid oes yma unrhyw olion yn tueddu i brofi gwirionedd y traddodiad, nac un sill mewn Hanesiaeth i fwrw goleu ar yr amgylchiad.

Eisteddfa Cadfan.—Wrth ''eisteddfa'' y golygir lle i eistedd arno er gorphwys neu farnu achosion. Y mae enw yr hen Sant Cadfan wedi ei gyssylltu ag amryw leoedd ereill yn y plwyfi, megys *Cwm Cadfan*, *Llwybr Cadfan*, *Pistyll Cadfan*, a *Llam Cadfan*.

Erw Waedd.—Ceir y nodiadau canlynol yn nhudalen 273 o *Cantref Meirionydd:* ''Y mae dau le yn

nghymydogaeth Craig y Deryn ag y gellir rhoi ystyron i'w henwau ag a ddynodant ddarfod i frwydrau gael eu hymladd arnynt, pa un bynag ai dyna'r ffaith ai nadê. Canys dyna'r tyddyn *Erw Waedd** yn un o'r manau hyny, ac y mae yn rhesymol dweyd y gallai i frwydr gael ei hymladd yno, oblegid canlyniad naturiol brwydr ydyw *gwaedd*. A dyna dyddyn arall a elwir *Rhiwerfa* ped ychwanegid y llythyren *a* rhwng yr *w* a'r *e* yn y sill canol iddo, gwnai felly yr enw Rhiw *Aerfa*, neu mewn dull arall, Rhiw'r *Frwydr*.

Ffynnon Mihangel, sydd ar dir Ffridd y Felin. Ystyrid hi yn rhinweddol i wella y gewynwst, a dywedir y cyrchai llawer iddi gynt am iachâd oddiwrth yr anhwylder blin hwn.

Gaer Wen, Y.—"Encyd o bellder i'r de oddiwrth Craig y Deryn y mae bryn o'r enw Y Gaer Wen. Ar gopa y bryn hwn y mae crug o geryg, y rhai, fel yr ymddengys, sydd adfeilion adeilad bychan a godwyd yno ryw amser gynt. Safant yn ymyl ac o'r tu mewn megis, i olion y gellir tybio ydynt weddillion cerygog rhan o warchglawdd milwrol. Ac os dyna ydynt, yr oedd yma hefyd gaerfa yn yr hen amser, a chadarnheir hyn gan enw y bryn; canys ymddengys mai oddiwrthi y cafodd ei ddynodiad, ac mai ei henw hithau oedd y *Gaer Wen*.

Gamallt, Y.—Daw yr enw hwn o *cam* (crooked) a *gallt* (an ascent). Y Gamallt sydd gwm dwfn, drwy yr hwn y mae yr afon Mwyngil yn llifeirio o Gwm Tal y Llyn i ddyffryn Llanfihangel-y-Pennant. Ar ben y Gamallt, y tu deheuol i'r cwm, y mae lle hynod, a elwir "*Tyllau y Gwylanod*."

Garnedd Lwyd, Y.—Gelwir yr enw hwn ar ddarn lled helaeth o dir ag a ffurfia ran o ben mynydd Nancaw

---

* Ai nid llygriad yw yr enw "*Erw Waedd*" o "*Erw y Gwŷdd*" neu "*Cyfair Casnadd?*" sef, yn ol Geiriadur D. S. Evans—"*A piece of land set aside towards providing implements of husbandry.*"

Fawr. Ar uchaf y fan hon y mae carnedd o geryg wedi ei phentyru i ryw ddyben neu gilydd. Agorwyd hi gan Mr. Wynne o Beniarth, a Mr. W. Wynne Ffoulkes er's rhai blynyddoedd yn ol, ond ni lwyddwyd i gael dim olion beddrodol ynddi.

Gwaith Deuwr Duon, Gwaith Gwr Du, a Pumwr Duon.—Yn y penawd hwn ceir enwau tri o leoedd ag sydd yn perthyn i wahanol dyddynod. A pherthyn y cyntaf i Nantcawfawr a'r ddau arall i Gedris. Y gwaith y cyfeirir ato yn yr enwau hyn yw tori gwair. Ac yn y berthynas â'r cyntaf golygir gwaith dau ŵr o dori gwair mewn diwrnod, ond gwaith un dyn o dori gwair mewn diwrnod yn yr ail. Ac er nad ydyw y gair gwaith yn gyssylltiedig â'r olaf, eto gwaith pump o ddynion o dori gwair mewn diwrnod a olygir. Ond y mae i'w ystyried ai cyfeiriad dynodol at y tir sydd yn y rhan-enwau Duon a Du mewn cysylltiad â'r lleoedd hyn, neu at galedrwydd y gwaith o dori eu gwair, ynte at y pladurwyr eu hunain. Y mae fod yr enwau *Cae Du* a *Ffridd Cae Du* ar fanau ar dir Nantcawfawr fel yn bleidiol i'r blaenaf. Ond a chaniatau mai at bersonau y cyfeirir, naturiol gofyn pwy oedd y Gwyr Duon hyny, tybed? A phaham y dynodir du a duon mewn perthynas iddynt? Nid yw yn ymddangos fod un math o draddodiad ar lafar gwlad yn yr ardal a gynorthwya i gael hyn allan. Gallai mai duon o liw a olygid; ond o'r tu arall feallai nad ydoedd namyn arddynodiant enwol heb gyfodi o gwbl yn herwydd tywyllni eu gwedd. Canys ceir ddyfod ciwaid ysbeilgar a chreulawn i ymosod ar Gymru yn y nawfed ganrif, y rhai, feallai, a fuont dostach trwy eu rhuthrgyrchoedd echryslawn wrth Loegr nac hyd yn nod at y Dywysogaeth ei hun. Gelwir y llu ysgeler hwn yn Ddaeniaid Duon, Llu Du, Paganiaid Duon, a'r Gwŷr Duon. Dichon y cysylltir y dynodiant *duon* â hwy oblegid creulondeb eu gweithredoedd, ac ymddengys eu gelwid yn Ddaeniaid i ddynodi o ba genedl yr oeddynt.—*Cantref Meirionydd*, tud. 248.

Un o hen ystyron y gair *gwaith* yw brwydr (battle) megys ag ei ceir yn y penawdau canlynol:—*Gwaith*

Gwenystrad (the Battle of Gwenystrad), *Gwaith* Argoed Lluyvain (the Battle of Argoed Lluyvain), *Gwaith* Dyffryn Gwarant (the Battle of Dyffryn Gwarant).

Gweirglodd Bant, neu yn fwy cywir *Gweirglodd y Pant*, sydd enw ar eangfaes gwastad gerllaw Castell y Bera. Ffurfir y gair "*gweirglawdd*" o *gwair* (hay) a *clawdd* (fence) sef tir wedi ei gau, neu ei gloddio i fyny, ac na byddys un amser yn ei aredig er dwyn cnwd o ŷd; yn y cyffredin, math leithdir ystwyth a gedwir yn weirgloddiau.

"Ac wele, yn esgyn o'r afon, saith o wartheg teg yr olwg, a thewion o gig; ac mewn *gweirglodd-dir* y poerent.—*Gen.* xli. 2.

Gweirglodd Ystym Gronw.—Enw ar fan yn nhrefddegwm Peniarth, ac mae'n eglur mai enw personol ydyw Gronw,—Gronwy. Am ystyr "*Ystym*" gwel tud. 47.

Gwely Idris, ydyw enw a roddir ar y bwlch bychan rhwng y ddau glogwyn sydd ar ben y Gader. Dywed chwedloniaeth y byddai y sawl a gysgai noswaith yn *Ngwely Idris* yn fardd neu yn wallgof erbyn y boreu.

Hendref Wallog.—Enw ar amaethdy ar y tu uchaf i'r ffordd a arwain dros y mynydd o Abergynolwyn i Fachynlleth. Golyga y rhan olaf o'r enw ryw berson neu gilydd o'r enw Gwallog. Y mae dwy o hen gerddi ar gael i Wallawg ab Lleenawg. Penawd y naill yn y *Myfyrian Archaiology* ydyw "I Wallawg," a gelwir y llall ynddo "Kerdd I Wallawg ab Lleenawg." Ac yn yr un y cyfeiriwyd ati ddiweddaf ceir y llinellau hyn,—

"Hir ddychyferfyddain
O Brydain gofain
O Berth Maw i Eiddin."

Dywed Mr. Stephens, Merthyr, mai Abermaw a olygir wrth Berth Maw y gerdd, a thybir y gall "Hendref Wallog" fod wedi derbyn ei enw oddiwrth Gwallawg ab Lleenawg.

Llaethnant.—Sydd enw ar un o'r ffrydiau a redant i afonig a adnabyddir wrth yr enw Afon Fach; ond cyll

yr enw encyd cyn cyraedd Hafotty Gwastadfryn. Yn ol chwedloniaeth yr ardal Tydecho a berodd i'r afon droi yn llaeth, ac er coffâd o hyn, canodd rhyw fardd y ddwy linell ganlynol:—

"Tydecho dad di duchan
A'i gwnaeth yn llaeth hyd y Llan."

Llanfihangel y Pennant.—Wrth Fihangel neu Mihangel y golygir Michael yr archangel, ac y mae Llan yn y cyssylltiad hwn yn golygu Eglwys. Ystyr yr enw yw "Llan neu Eglwys Mihangel ar ben y Cwm neu y Nant." Y mae pentref Llanfihangel yn awr wedi adfeilio fel nad oes ond dau deulu yn byw yno; a'r boblogaeth wedi symud i ran arall o'r plwyf, sef i bentref Abergynolwyn.

Llanllwydan, sydd drefgordd yn mhlwyf Llanfihangel-y-Pennant. Tybir i'r fangre hon dderbyn yr enw hwn oddiwrth Llwydian, sant a flodeuai yn y seithfed ganrif. Ei ddydd gwyl yw Tachwedd 19.

Maes Ucha', -y Llan, -Isaf, -Ceryg y Dwr Ucha'.—Gryn bellder oddiwrth Cefn Mawr ac ar wastadedd dyffryn Llanfihangel, ar y cae a elwir y Maes Ucha', yr hwn a berthyn i dyddyndir Maes y Llan, erys maen ar ei ben yn y ddaear, yn mesur oddeutu tair troedfedd uwchlaw yr arwyneb. Yn Maes Isa', Ty'nyfach, y mae maen wedi ei osod ar ei ben yn y ddaear, ac yn mesur pum' troedfedd. Yn Maes Ceryg y Dwr Ucha'—maes perthynol i Faes y Llan, yr oedd unwaith ddau faen yn sefyll ar eu penau yn y ddaear. Ymddengys oddiwrth safle y meini hyn, iddynt gael eu cyfodi yn goffadwriaeth feddrodol am rywrai neu gilydd. Rhestrir hwy yn mhlith y "*Meini Hirion.*"

Nantcaw Fawr, -Fach.—Dywedir gan rai fod y lleoedd hyn wedi derbyn eu henwau oddiwrth Caw, ab Geraint ab Erbin. Tybir gan eraill mai llygriad yw "*Nantcaw*" o "*Nantcau,*" enw yn cael ei wneyd i fyny o *nant* a *cau*, yn golygu "*a hollow bottom.*"

Nantynod.—Ymddengys i'r lle hwn fod un adeg yn perthyn i arglwydd y cwmmwd, a'i fod yn cael ei ddal

gan un o'r "*gwŷr nôd*" neu'r "*taeogiaid.*" Ystyr yr enw yw "*Nant-y-gwŷr-nôd,*"—sef "*gwŷr aillt*" neu "*gaethion.*" Yr oedd eu deiliadaeth yn ymddibynu yn hollol ar ewyllys yr uchelwr neu y tywysog.

Nant y Bera.—Enw ar *nant* (a brook) yn nghymydogaeth *Castell y Bera.*

Palis Mawr, Palis Bach.—Tardda'r gair "*palis*" o'r Lladin *palus*, a stake. Gwel "*Craig y Deryn.*"

Pentre Maes Trefnant.—Enw ar le yn nhrefgordd Maes Trefnant yn mhlwyf Llanfihangel-y-Pennant. Ar fynydd Pentre Maes Trefnant y mae "*Beddau'r Gwroniaid.*"

Pen y Bryn yr Mur.—Llygriad o Penau'r Bryniau Mawr. Dywed yr adroddiadau a roddwyd o flaen y Senedd yn y flwyddyn 1834, y derbynid 10s. yn flynyddol oddiwrth John Dafydd, tir-ddeiliad "*Pen y Bryn yr Mur*" (Penau'r Bryniau Mawr), tyddyn ag oedd y pryd hwnw yn mherchenogaeth Edward Owen, Ysw., ac y'u rhenid ymhlith tlodion y plwyf, ond yn benaf i'r rhai nad oeddynt yn derbyn cymorth wythnosol, a hyny mewn dognau yn amrywio o 6c. i 2s.

Pistyll Cadfan.—*Pistyll*=a water-spout. Gwel "*Llwybr Cadfan.*"

Pont Ystymaner.—Y mae y bont hon yn rhychwantu afon Syni neu y brif gainc iddi gerllaw tyddyndŷ o'r enw Rhiwlas. Gelwir hi, weithiau, o leiaf, yn Bont Styrmana neu Strymana ar lafar gwlad, llygriad fel yr ymddengys o Bont Ystumaner. Gwel tud. 47.

Rhiwaerfa, sef "*Rhiw'r Frwydr.*"—AERFA=a battle-field.

> Ni hulir *aerfa* mwy â llachar ddur.
> —*Blackwell:* Cein. Alun, 158.

Rhiwlas.—Un ystyr i'r gair LLAS yw "lladdwyd." Os troir i'r Mabinogion, yn nechreu "Peredur ab Efrawc," ceir "Ef a *las* ae chwe meib,"—efe a laddwyd yng nghyd â'i chwe mab. Y mae amryw hen amddiffynfeydd yn nghymydogaeth y lle hwn, ac awgryma

hyny i ni fod brwydr neu ysgarmes waedlyd wedi cymeryd lle gerllaw.

Tanycoed.—Yn *Cantref Meirionydd*, tud. 276, ceir y traddodiad canlynol am wr Tan Coed Isaf:—Tua chan' mlynedd yn ol deuai gwr Tanycoed—Tan Coed Isaf, a gwr Hendre Wallog, adref gyda'u gilydd o Ddinas Mawddwy, o fod yn gwerthu gweoedd. A phan oeddynt wedi cyraedd o dan Goed y Fedw, ger Abergynolwyn, lle heb fod ymhell oddiwrth eu cartrefi dywedai gŵr Tan y Coed fod rhyw ofn wedi ei gymeryd i'r fath raddau fel nas gwyddai sut yr elai adref. Yna, gan ei fod yn y fath gyflwr trallodus, ceisiai ei gydymaith ganddo fyned gydag ef i Hendre Wallog tan y boreu; a chydsyniodd yntau i hyny. Ond fel yr oeddynt yn myned i fyny yn y nant sydd rhwng tir y Pandy a thir Nant Llwyngwern, cawsant wr Tŷ Gwyn yn eistedd yno. Gan hyny, wedi i wr Tan y Coed weled ei gymydog, sef gŵr y Tŷ Gwyn yn y fan hono, teimlodd awydd i fyned adref yn lle myned i Hendre Wallog, ac felly cychwynasant eu dau. Ond yr oedd gŵr Ty Gwyn wedi dyfod at y nant a nodwyd i ddyben drygionus, sef i ysbeilio gŵr Hendre Wallog. A bwriadai gyflawni y fath weithred ysbeiliol er mwyn dial arno, canys yr oeddynt wedi cwympo allan a'u gilydd yn flaenorol, eithr rhwystrwyd ef yn ei amcan trwy fod y ddau arall gyda'u gilydd. Ond er ei lluddiwyd fel hyn i roi ei falais ysbeilgar mewn grym ar wr Hendref Wallog, cyflawnodd weithred waedlyd ar ei gymydog gŵr Tan Coed Isaf, canys lladdodd hwnw wrth gydgerdded gydag ef tuag adref, a thaflodd ei gorph i gae yr Erw (yr Erw Benlas). Ac y mae darn o'r cae lle cafwyd ei gorph wedi ei gau allan oddiwrtho, ac yn gorwedd ar fin y ffordd sydd yn arwain o Abergynolwyn i Dywyn. Tranoeth ar ol y weithred ysgeler, cyfododd y llofrudd yn foreu, ac aeth mor bell ag Aberdyfi, gan feddwl croesi yr afon i Sir Aberteifi. Ond erbyn iddo gyraedd i Aberdyfi yr oedd wedi dyddhau, a phan y canfyddwyd gwaed ar ei ddillad gomeddwyd gadael iddo fyned tros yr afon. Gan hyny trodd yn ei ol ac aeth adref i'r Tŷ Gwyn. Erbyn

iddo gyraedd yno yr oeddynt wedi cael hyd i gorph marw gŵr Tan y Coed, ar ol chwilio llawer am dano. A chan fod gŵr Tŷ Gwyn wedi dianc, tybiwyd fod ganddo law yn ei laddiad. Ac wedi iddo gael ei holi cyfaddefodd y cyfan, yr hyn a benderfynodd ei dynged yn y fan, a chrogwyd ef ar goeden o flaen drws ei dŷ. Claddwyd y llofrudd yn ffridd y Tŷ Gwyn, ond claddwyd y llofruddiedig yn mynwent Tal y Llyn.

Tap Spi.—Gwel "*Tap Rhys Edward.*"

Ty'nyfach.—Cyfansoddir yr enw hwn o *tyddyn* (a farm, tenement) a *bach=cilfach* (a nook). Ystyr yr enw yw *Tyddyn y Gilfach.*

Tyllau y Gwylanod.—*Tyllau* (holes), *Gwylanod* (seagulls). Y mae'r lle hwn ar ben y *Gamallt.*

Ty'nybryn, sef *Tyddyn y bryn.*—Yn Ty'nybryn, y 7fed o Awst, 1759, y ganwyd Dr. W. O. Pughe.

Tyn'yddol, sef *Tyddyn y Ddol.*—Yma yn y flwyddyn 1784 y ganwyd Mari Jones. Hi fu yn achlysur i gychwyn Cymdeithas y Beiblau.

Tyrrau y Gwylwyr.—Tardda'r gair "*twr*" yr unigol o "*tyrrau*" o'r Lladin *turris,* a tower. Gwel "*Craig yr Aderyn.*"

V. PLWYF TALYLLYN.

Aber Corus.—Defnyddir y ffurf o Corus yma, yn hytrach na *Corris,* am y credwn mai'r cyntaf yw'r dull priodol. Ceir y ffurf o *Corys* a *Corus* yn y Cambrian Register am 1795, ond ymddengys mai y defnyddiad o *u* ac nid *y* sydd gywiraf. Hefyd, yn y gyfrol am yr un flwyddyn, nodir i'r ystyr mai yr hyn a olygir wrth *Abercorus* yw ymarllwysiad yr afon *Corus.* Diameu i dyddyndy *Aber Corus,* dderbyn ei enw oddiwrth yr aber—*Aber Corus.* Ac mai yr *Aber Corus* briodol yw y fan y mae yr afon a red o gyfeiriad Aber Cwm Eiddaw yn aberu i'r Afon Ddulas. Ac ymddengys mai dynodiant benthyciol yw *Corus,* a gymerwyd gyda oddiwrth

ryw fan a elwid ar yr enw hwnw sydd ar y dref ddegwm a adnabyddir fel ddegwm *Corus*.

Dywed Ieuan Dyfi yn ei "Ddarlundraeth o Fachynlleth," &c., mai ystyr yr enw yw *Cor-ris*,* neu "*grisiau defaid*." Tueddir y diweddar hynafiaethydd J. Pughe, Aberdyfi, i gredu mai yr ystyr yw "*Cor-ris*," *a very high step or gris*. Tueddir eraill dros gredu i'r lle dderbyn ei enw oddiwrth sant o'r enw Corus, a ddaeth i Gymru o Lydaw. Yn y gyfrol gyntaf o'r *Gwyddoniadur Cymreig*, tud. 511, sonir am fynach o'r enw hwn, a chyfeirir ato fel y canlyn:—"Yn fuan ar ol hyn, tra nad oedd Padarn ond pur ieuanc, fel y dengys ei fuchdraeth chwedlonol sydd yn *Mucheddau y Saint*, cynhyrfwyd ysbryd mynach arall o'r enw *Corus* i gasglu cynifer ag a allai o 'saint' i ddyfod ar ol y lleill i'r wlad yma, 'o'r hon yr hanoeddynt.'"

Gellir nodi hefyd y gosodir yn yr ach-lyfr gan Lewis Dwn, sef yr *Heraldic Visitations of Wales, cyfrol* ii., tud. 104, fod i Cunedda Wledig "fab o'r enw *Korus*."

Aber Cwm Eiddaw.—Encyd o bellder oddiwrth yr aber hon y mae amaethdy o'r enw Cwm Eiddaw, ac ymddengys y golyga cwm yn y cysylltiad hwn y glyn y cafodd ei enw oddiwrtho. Yn y Cambrian Register am 1795 dywedir mai arllwysiad yr afon Cwmeiddian a olygir. Y mae *Eiddaw* neu *Eiddew* wedi ei gymeryd oddiwrth ryw berson neu gilydd a fu yn cartrefu yma.

---

* Yn Ngeiriadur D. S. Evans ceir y nodiad canlynol:—Canon Robert Williams, in the glossary to his edition of *Saint Greal*, has the following note on *Corgi*: Properly a sheep dog, being comp. of *cor* a sheep, now obsolete in Welsh, but preserved also in *corlan*, a sheepfold. Ir. *cuor?* *Corgi* is no more a sheep dog than it is a hound, spaniel, or terrier; it is a degenerate dog, of a comparatively small size, the precise meaning of the compound being a small or dwarf dog. *Cor* is never used for sheep, and no trace of it is found in the language, spoken or literary. *Corlan* is not necessarily a pen for sheep, but is applicable to any circular enclosure, and the old sheep-folds were usually of that form. The notion of circularity enters into most if not all words of which *côr* is the first element.

Yn Englynion y Beddau ceir yr enw hwn yn y ffurfiau a *Eitev* ac *Eitew*. Wele'r englynion hyny:—

"Piau y bet hwn, bet hun a hun,
Gowin ymi mi ac gwnn,
Bet ew Eitew oet hun
A bet Eidal tal ysgun.
Eitew ac Eidal diessic alltudion
Kanawon cylchwydrei
Meckid meibion Meigen merch mei."

Gellir sylwi fod cyfran o fynydd-dir o'r enw *Moel Eiddaw* yn nghymydogaeth Cemmaes yn Swydd Drefaldwyn.

Aberllefeni.—Cymer yr ardal hon ei henw oddiwrth yr hen balasdy sydd yn awr yn feddiant i R. D. Pryce, Yswain. Wrth yr hen balasdy, y mae y cwm yn ymranu yn ddau: y naill o'r rhai hyn yw Cwm yr Hengae; ac y mae y llall, cyn cael unrhyw enw, yn ymranu yn ddau eraill, sef Cwm y Ddolgoed a Chwm Llwydiarth.

Yma golygir wrth ABER, y fan yr arllwysa, neu yr abera yr afon Llwyfeni i'r afon Ddulas, islaw tŷ Aberllyfeni. Y syniad cyffredin am ystyr yr enw hwn yw *Aber-llech-feini*, am fod yr aber yn rhedeg am y rhan fwyaf o'i gyrfa drwy neu ar wyneb llech-faen. Mewn cywydd o waith Ifan Tew yn llyfrgell yr Amgueddfa Brydeinig ceir yr enw yn y ffurf o *Aberllwyfeni*,—rhed penawd y cywydd fel hyn,—"Cywydd i Sion llowyd o *Aberllwyfeni*, cyn iddo fyn'd yn farchog y sir." A rhed dwy linell o'r cywydd hwnw fel hyn—

"Llawer i'r aber a red
Llwyfeni maen lle i fyned.

Ceir yr enw yn yr unrhyw ffurf hefyd yn y ddwy fraich olaf o'r rhai dilynol—allan o un o'r chwe' cywydd ymryson rhwng Richard Cynwal a Richard Phylip, am Riwaedog, yn amser Sion Llwyd o Riwaedog. Cyfeiriad sydd yn y llinellau a ddyfynir at wraig y Sion Llwyd hwnw, a rhedant fel hyn:—

"Aeras Syr Sion rhoes aur sieb,
Llwyd orau, llew diareb:
Ei thad o'r gyfraith ydoedd,
Rhosyn y tir sersiant oedd;
Bu'n ben ar bob un beunydd,
A'i fath yn ben fyth ni bydd;
Cynes berl Ceiswyn ei bu,
Cynes yn hoffi canu;
Cawn yn Aber haelder hwn,
Llwyfeni, oll a fynwn."

Wrth gyfeirio fel hyn at *Aberllyfeni* yn y ffurf o *Aberllwyfeni* neu *Aber Llwyfeni*, fel yr enw priodol ar y lle, dymunwn nodi yr ystyriwn fod *llwyfeni* yma o'r un ystyr a *choed lwyfen (elm trees)*.

Ala Fach.—Enw ar leindir ger Penrhyl. Dywedir y bu gynt eglwys yn Mhenrhyl, ac fod y lleindir hwn, pa un a elwir *Ala Fach* yn gladdfa. Ymddengys mai llygriad yw "*Ala Fach*" o "*Cladfa Fach*"—(a small burial place; a cemetery).

Briws.—Sydd lygriad o'r gair Saesonaeg "*brewery*" (darllawdy).

Bwlch Bangor, a alwyd ar yr enw hwn oddiwrth "grefydd-dy" a safai yma gynt. Yr oedd *Bangor* yn enw cyffredin ar grefydd-dai y canol-oesoedd. Cawn *Bangor Deiniol*, yn Arfon; *Bangor Dunod*, yn Maelor; *Bangor Illtud* a *Bangor Catwg*, yn Morganwg, &c.

A'r *bangorau* a fuont cyn cael y monachlogydd, a gwedi hyny fe ddarfu am danynt namyn y rhai o honynt a aethant yn fonachlogydd.—*Iolo MSS.* 114.

Bwlch Helygen.—Math o goed digon adnabyddus yw helyg *(willow trees)*, yn tyfu mewn lleoedd dyfrllyd, ac yn tyfu llawer mewn byr amser. Mae llawer math o honynt, megys helyg llwydion, helyg duon, helyg y cwn, helyg ffreinig, &c.

Caeywernuchaf, -isaf.—Daw yr enwau o CAE (a field) a GWERN (a swamp).

Crachfynydd.—Ystyr CRACH yma yw *bychan* (petty, small), felly ystyr yr enw yw "*Mynydd-bach.*" *Crach swyddog*, a petty officer. *Crachen o dir*, a piece of

(inferior) land. *Mae ganddo grachen o dir*, he possesses a little spot of ground.

Caecenaw.—[*Cae—Cernywaeg*, ce; *Llydawaeg*, kaè, ke; *Gwyddelaeg*, cae, ce.] Y gair *cenawon* yn y Beibl yn gyffredin sydd yn arwyddo eirth, llewod, neu ddreigiau ieuainc, a chenawon cwn,—*a whelp, a cub. Cenaw arth*, a bear's cub or whelp. *Cenaw blaidd*, a wolf's cub. *Cenaw cadno*, a fox's cub. *Cenaw draig*, a young dragon.

Carreglwyd.—[Cernywaeg, *carrag, carrac;* Llydawaeg, *karrek;* Gwyddelaeg, *carraic;* Gaelaeg, *carraig, carragh;* Manawaeg, *carric*] a stone. *Carreglwyd*, a grey stone; the grey mountain stone; also called *carreg lwyd y rhych*.

Cedris.—Enw trefgordd yn mhlwyfi Talyllyn a Llanfihangel-y-Pennant. Tybir mai llygriad yw'r enw o *Cader Idris*, prif fynydd y rhanbarth.

Cell Iago.—[Cell: Gwyddelaeg, *coill, caill;* Gaelaeg, *coill, coille;* Manawaeg, *keil*] *Celli*=a wood; a grove. *Cell ysgaw*, an elder grove. Ystyr yr enw Iago (Saesonaeg, James) yw *disodlwr*.

Corris.—Tref-ddegwm yn mhlwyf Talyllyn; ond defnyddir y gair yn fwy cyffredin fel enw ar ardal gyfansoddedig o'r dref-ddegwm uchod, a rhan o dref-ddegwm Ceiswyn, yn yr un plwyf. Yn y lle ei hun cyfyngir yr enw i'r pentref gwasgarog sydd wedi ei adeiladu ar derfyn y ddwy dref-ddegwm. Am ystyr yr enw "*Corris*" gwel "*Abercorris.*"

Craig y Llam.—Ar un tu i'r Llyn Bach ymestyn *Craig y Llam* yn ysgythredd daneddog. A cherllaw ei phen dwyrain-ogledd, a chyferbyn â'r llyn, ymddyrcha clogwyn uchel a elwir *Pen y Cnycyn*. Ymddengys mai y cnycyn hwn yw y man y cyfeirir ato fel Llam y Lladron yn Mharthiadur Samuel Lewis, dros ba un y dywedir yr arferid taflu troseddwyr i'w dinystr dienyddol." *Llam*=naid, crychnaid (a leap). *Llamu*=neidio, llemain (to leap).

Cwmcadian.—Adroddir y chwedl ddigrif a ganlyn am ystyr yr enw hwn gan hen drigolion y mynydd-dir

rhwng Tywyn a Dinas Mawddwy:—"Pan oedd Sant Cadfan yn teithio ar hyd rhyw lwybr hynod o anhygyrch rhwng Tywyn a Dinas Mawddwy, collodd ei ffordd; a chan ei bod yn tywyllu yn gyflym, yr oedd yr hen sant, druan, yn myned i benbleth. Eisteddodd ar gareg a gwelai i lawr yn y glyn islaw iddo oleuni. Cyfeiriodd ei gamrau tuag yno, ac wedi cyraedd y fan, yr oedd yno dŷ ardderchog iawn yr olwg arno. Aeth at y drws yn hyderus am letty, a daeth cloben o hen wraig i agor iddo, ac a'i gwahoddodd ef i mewn yn groesawus, a chafodd swper rhagorol. Wedi gwneud cyfiawnder â hwnw, aeth yr hen sant i ddechreu dweyd ei hanes wrthynt—y modd y bu arno wrth dreiglo dros y torlenydd a soddi yn y corsydd, &c., ond deallodd yn fuan nad oedd neb o'r teulu yn gwrando arno, ond pawb am gael rhyw lawenydd; felly rhoddodd Cadfan heibio adrodd ei helynt i wrandaw arnynt hwy. Ond cyn hir aeth Cadfan i ddechreu marweiddio, a phan ganfyddodd yr hen wraig hyny, anfonodd Ann y forwyn i ddangos iddo ei wely, yr hwn oedd y gwely goreu a harddaf allesid ddisgwyl yn unman. Ond faint bynag oedd Cadfan yn rhyfeddu at wychder y palas cyn myned i'w wely, yr oedd yn rhyfeddu mwy wrth godi o hono, pan ganfyddai nad oedd yn ddim amgen na thwmpath o frwyn a'i obenydd yn gareg. Yr enw a gafodd Cadfan ar yr hen wraig oedd Cadi, ac enw'r forwyn Ann; ac yn ol traddodiad, enw y lle yw *Cwm-Cadi-Ann*, neu *Cwm Cadfan*.

Cylyn Pumwern.—*Cylyn*, odyn (a kiln). *Cylyn calch* (odyn galch), a lime-kiln.

Cymerau.—Wrth y gair CYMMER y golygir undeb, cydlifiad, neu gymundeb dyfroedd, neu gyfarfyddiad, neu uniad dwy afon *(the juncture or union of two streams)*. Ni ddefnyddir y gair ond mewn enwau lleoedd yn Nghymru, megys *Pentre-llyn Cymmer* (y Faner, ger Dolgellau), *Afon Cymmerig*, a *Cwm Cymmerig* (ger Llaw Cefndwygraig, Bala). *Cefncoed y Cymmer* (Merthyr), *Y Cymmer* (ger Pontypridd), *Pont y Cymmer* (ger Llantrisant, Morganwg), *Cymmer Glyn Corwg*

a *Llyn y Cymmer* (yn yr Hafren, ger Llanidloes), *Cymmerau* (ger Eglwysfach, Sir Aberteifi). Ystyr "*mer*" ydyw yr hyn sydd ddyfeiriol neu laith. Ceir y gwreiddair hwn yn *Dyferyn*, *Gofer*, *Dadmer*, *Meiriol*, *Merllyn*, *Merydd*, *Merhelyg*, *Merlys*, *Merolaeth*, *Merwerydd*, *Meryw*, *Merion*, &c.

Dolffanog, Dolffanog Fach.—Llygriad yw *Dolffanog* o Dol y Fawnog.—Derbyniodd ei enw mewn rhan oddiwrth y Fawnog sydd yn mhen gogledd-ddwyrain i Llyn Talyllyn, ac a adnabyddir wrth yr enw *Mawnog Ystradgwyn*.

Dulas.—Ffurfir yr afon risialaidd hon o amrai fân ffrydiau a darddant yn nghreigiau Corris, ac ymarllwysa i'r Dyfi yn ymyl Machynlleth. Daw yr enw o *du* (black) a *glas* (blue), sef lliw ei dyfroedd.

Y *dulas fôr*, the dark blue sea.

Eglwys Talyllyn.—Hen enw yr eglwys ydoedd *Llan Fair Bryn Muallt*, ac ar y cyntaf nid oedd namyn capel eglwysig mewn cysylltiad ag eglwys Tywyn. Cafodd ei chysegru i Mair, ac ymddengys ei bod yn ieuangach fel eglwys na'i chyd-ganghenau eglwysig, Pennal a Llanfihangel-y-Pennant.

Ffoslas.—Enw ar le rhwng Ffynnon Badarn ac Aberllwyfeni. Ystyr "*ffos*" (a ditch, a mote) ydyw clawdd toredig neu sugnfa wlyb. Arferid tori ffosydd o amgylch lleoedd yn yr hen amseroedd er eu hamddiffyn, y rhai a lenwid ar brydiau â dwfr. Ystyr "*las*" yw "*lladdwyd*." Y mae un o "feddau y gwroniaid" ar y lle hwn.

Ffynnon y Cwm.—Y mae mangre y ffynnon hon ar fynydd Cildydd, ar fin yr hen brif ffordd, a thua gwaelod Rhiw Hwb y Wrach, ar gwr y fan a elwir Llawr y Cwm. Dichon mai dyma yr un a eilw Samuel Lewis yn ei Barthiadur yn *Ffynnon yr Esgob*. Byddai llawer o gyrchu gynt i Ffynnon y Cwm—Cwmrhwyfor, a dywedir ei bod yn rhinweddol tuag at wellau y crydcymalau *poeth*. Yr oedd "*rhwyf*" yn mhlith y gwa-

hanol enwau am Dduw yn mysg yr hen Gymry, a golyga "frenin" neu "reolwr."

Ffynnon Badarn.—Enw ar le ger Aberllwyfeni, ac a alwyd ar yr enw hwn oddiwrth "*Ffynon Badarn*" sydd gerllaw. Yr oedd y "*Padarn*" hwn yn un o'r seintiau a ddaethant i'r wlad hon o Llydaw. Dyfynwn a ganlyn o'r *Giwyddoniadur Cymreig*, tudalen 511:—"Yn fuan ar ol hyn, tra nad oedd Padarn ond pur ieuanc, fel y dengys ei fuchdraeth chwedlonol sydd yn *Mucheddau y Saint*, cynhyrfwyd ysbryd mynach arall, o'r enw Corus, i gasglu cynifer ag a allai o saint i ddyfod ar ol y lleill i'r wlad yma, 'o'r hon yr hanoeddynt.' Am hyny, meddai'r chwedl, 'y cynhyrfodd yr ysgogiad yma'r gwr ieuanc sanctaidd Padarn, ac efe a ymwregyses i fyned tros y môr gydag ereill, ac nid arafach ydoedd na'r rhai oedd gydag ef, ond po ieuengaf ydoedd, mwyaf oll ei yni i lafurio, ac yr oedd ei wasanaeth crefyddol yn tra rhagori ar ei oedran.' Am hyny, daeth yr holl frodyr ynghyd, ac wedi cytuno o unfryd i forio i Brydain, buan y gwnaed Padarn yn bedwerydd arweinydd brawdoliaeth, nid o'i ewyllys ei hun, ond ei gefnderydd yn ei weled yn ymestyn at eithaf perffeithrwydd, a'i hetholasant, gan ddywedyd, 'Yn gymaint ag i Dduw beri i ti ragori mewn cynneddfau, iawn dy osod ar ddynion, fel y byddit esampl o fuchedd dda.' Am hyny yr holl wyr llên, ar ol dyddanus fordaith, a diriasant yn Mhrydain. Dilynodd *saith mynach a deugain ac wyth gant Badarn; a chymerodd ef a'i sant le yn yr eglwys a elwir Mauritania* (Llanbadarn Fawr, wrth Aberystwyth, yn Ngheredigion), lle yr ymenwogodd Padarn Sant wedi hyny trwy wyrth, enrhyfeddol."

Fotty'r Waen.—Sef llygriad o *Hafotty'r Waen*. Y mae lluaws o Hafottai, yn fwy neu lai cyfain, o fewn terfynau plwyf Talyllyn. Y mae rhai o honynt erbyn hyn yn furddynod, rhai yn gorlanau defaid, rhai yn feudai, ac eraill yn cael eu defnyddio yn dyddyndai trigianol trwy gydol y flwyddyn. Fel y mae'r enw yn arwyddo math o dai haf oedd yr Hafottai hyn. Cyfodid hwy bellder o ffordd oddiwrth y prif aneddau; ac i'r

dyben, ar un cyfnod o leiaf, i'r amaethwyr gael y fantais i fod yn nes i borfeydd y defaid a'r buchod am dymor yn ystod yr haf. Ond y mae'r arferiad o ymsymud iddynt fel teulu am adeg, fel y byddid gynt, wedi peidio er's llawer o amser bellach. Yn yr Hafottai hyn y trinient y llaeth a'r ymenyn ar y pryd. Ond wedi'r haf, neu dymor dechreu haf, fyned heibio, ai y teulu drachefn i'r prif aneddau, neu y gauafdai. Neu hwyrach yr elent ar un cyfnod, yn nghyntaf, i'r cynhauafdai; o leiaf, ceir son am gynhauafdy yn hen gyfreithiau Cymru. Dywed Pennant y cynwysai yr Hafottai ystafell hir, gyda thwll yn un pen iddi i ollwng y mwg allan oddiwrth y tân a gyneuid islaw. Ond, a chaniatau hyn mewn perthynas i niferoedd o honynt, ceir nodi y perthynai simneiau i rai o'r adeiladau hyn, fel y dengys eu gweddillion adfeiliedig. Er fod yn amlwg oddiwrth adfeilion yr Hafottai iddynt gael eu hadeiladu o feini yn y cyfnod diweddaf arnynt, eto ymddengys oddiwrth y Trioedd canlynol mai adeilad o wiail oeddynt gynt:—"Tri anhebgor bwd havodwr: nenbren, nenfyrch, a bangor; a rhydd eu tori yn nghoedgwyllt a fyno."

Gyfylchau.—Llygriad o "*gafaelau*," sef math o raniadau tirol yr hen amser.

Gweirglodd Arthur, Braichgoch, Ddu.—Am ystyr "*gweirglodd*," gwel tud. 86. Dywed llên gwerin i "*Weirglodd Arthur*" dderbyn ei henw oddiwrth Arthur ab Uthr Bendragon. Credir fod yr hen arwr hwn wedi ymweled a'r fangre hon ar un o'i wib-deithiau milwrol. Lle arall yn mhlwyf Tywyn yw *Craig Carn March Arthur*.

Hengae, neu yn hytrach *Hengaer*, oddiwrth hen wersyllfa sydd gerllaw.

Llawr y Cwm.—Enw ar le yn Nghwmrhwyfor. *Llawr*=gwaelod, sylfaen; y ddaear. *Nef a llawr*, heaven and earth. *Nef a daear*, heaven and earth. Nid yn fynych y ceir y gair "*llawr*" mewn enwau lleoedd, ond ceir rhai engreifftiau, megys yn *Llawr y*

Glyn, yn sir Drefaldwyn, a *Llawr Cwmbach*, yn ngogledd Sir Aberteifi.

Llam y Lladron.—Enw ar res o greigiau ysgythrog uwchben Llyn y Tri Graienyn, ac oddiwrth draddodiad lleol, byddid gynt yn taflu drwgweithredwyr drostynt, y rhai a gollent eu bywydau gan y codwm, ac a ddiflanent o'r golwg yn nyfroedd y llyn. "*Lleidr*=ysbeiliwr. Gallem feddwl i hwn ddod o'r Lladin *latro*, ond goddefodd rai cyfnewidiadau hynod yn y trosglwyddiad. Ei ffurf yn y lluosog yw *lladron*, gan gadw llafariad y Lladin, ac heb gyfnewid dim ond cryfhau yr L ddechreuol yn Ll."

Llyn Cau, sydd yn yswadio yn ei wely dwfn rhwng ysgythredd y creigiau islaw Cadair Idris. Y mae oddeutu chwarter milldir o hyd a'r un faint o led. Ystyr CAU yma yw, a hollow, a cavity. Daw y gair o'r Lladin *cavus*, hollow.

Llyn Bach, a elwir hefyd *Llyn y Tri Graienyn* a *Llyn y Garnedd*. Gorwedd y llyn hwn yn nghwr isaf gwastadedd bychan gerllaw pen Bwlch Llyn Bach, ac ar fin y brif-ffordd a arwain o Ddolgellau i Fachynlleth. Y mae y dynodiant bach a roddir iddo, o'i ystyried yn gymariaethol, yn ddigon addas am faintioli ei arwynebedd. Derbyniodd yr enw *Llyn y Tri Graienyn* oddiwrth dri maen anferth sydd ar ei lan, y rhai y dywed traddodiad ydynt dri graienyn, y rhai y dygwyddodd y Cawr Idris eu teimlo yn anesmwytho ei draed, nes peri iddo ddattod ei esgidiau, a'u hysgwyd allan yn y fan hon. Y mae'r chwedl ganlynol yn egluro ystyr *Llyn y Garnedd*:—Yn gymhwys ar ei ganol y mae tŵr o geryg geirwon wedi ei adeiladu, yr hwn a fesura tua chwe llath o amgylchedd a haner hyny o uchder; ac y mae y traddodiad am dano yn debyg i hyn, fod gwraig i un o etifeddion Maes y Pandy wedi myned tua'r Llyn Bach un diwrnod a dau o'r plant yn ei llaw, gan ddywedyd mai ei hamcan oedd eu trochi yn nyfroedd y llyn.

Ond gan fod un o honynt o wraig gyntaf ei gwr, ac felly yn etifedd cyfreithlawn Maes y Pandy, efe a fodd-

wyd ganddi yn y Llyn, fel y deuai yr etifeddiaeth i'w mab hi ei hunan; ond bu y tro yn chwerw iddi hi a'i hiliogaeth am oesau, yn gymaint ag y byddai ysbryd y bachgen yn eu haflonyddu, a bod amryw o honynt wedi boddi yn y llyn. Ond, fe chwanegir, ddarfod iddynt o'r diwedd fyny ei offrymu i'r llyn; a bod yr ysbryd yn awr wedi ei gau i fyny mewn costrel wydr o dan y tŵr ceryg; a phe meiddiai rhyw un ei symud, y cyfodai yn y fan, er braw a dychryn y gymydogaeth."

Llain y Groes,—Wrth "LAIN" yma y golygir darn hirgul o dir *(a strip of land)*. Ymddengys fod y lle wedi ei alw ar yr enw hwn oherwydd fod yma un o'r "*meini ffiniau*" (boundary stones).

Llwydiarth, Llwydiarth Bach.—Am "*garth*" gwel tud. 28. Rhag-dyddyn yn canlyn Llwydiarth yw Llwydiarth Bach er y flwyddyn 1780. Yn y flwyddyn 1854, darganfyddwyd *crug* ar fynydd Llwydiarth Bach, yn cynwys llestr pridd ac ynddo amryw o esgyrn mewn cadwraeth dda.

Maes y Gorwyr.—Y mae "llên gwerin" yn rhoddi amryw ystyron i'r enw hwn. Un yw, i frwydr gael ei hymladd yma, a bod yr enw yn golygu *Maes y Goreu Gwŷr*, oherwydd mai yma y gwersyllai y fyddin fu'n fuddugoliaethus. Ystyr arall ydyw *Maes y Gorwydd*, am y tyfai yno lawer o goed mafon cochion, ac mai y coed hyny, o *goed*, oedd y rhai lleiaf. Mewn llyfr o ardreth y brenin am 1633, dynodir y lle fel Maes y Gorwydd,—y gair "Gorwydd" yn air cyfystyr a "*march*" (a steed). Gellir sylwi hefyd fod gorwyr yn y cysylltiad o berthynas, i'w ddeall fel dynodiant perthynasol â'r nebun a fai radd yn mhellach nac ŵyr. Yn yr amser gynt byddai trigolion Dolgellau a Machynlleth yn cyfarfod â'u gilydd yn y lle hwn i gadw ffair.

Maes Machreth a alwyd ar yr enw hwn oddiwrth Machreth—sant o'r seithfed ganrif, a sefydlydd eglwys Llanfachreth yn Meirion.

Maes y Pandy.—Saif yr hen breswyl enwog hwn wrth droed mynydd uchel, ychydig islaw pentref Taly-Llyn. Yr oedd gynt yn perthyn i gangen o deulu y

Nannau. Bu yr olaf o'r rhai hyn farw yn y flwyddyn 1764. Derbyniodd y lle ei enw oddiwrth "*bandy*" (a fuller's workhouse) a safai yma gynt.

Minyffordd.—O MIN, ymyl, ochr; a FFORDD (a way). *Minyffordd*=wrth ochr y ffordd. Golyga y gair "*ffordd*" "*faran*," "*fahren*," *fynedfa* trwy *ddwfr*, yn mhlith y Teutoniaid (="*ford*"), tra defnyddir ef gan y Celtiaid ar y llaw arall am *fynedfa* trwy'r *wlad*. Y ffurf dalfyredig yn y Gernywaeg ydyw "*ffor*," ac yn wir yr ydys wedi arfer y gair lawer gwaith yn Nghymru yn y frawddeg fechan hon—"*ffor yma*"=*this way*. Felly, a gadael y gair yn neillduolion ei israddau, sef ei eithriadau treigliadol, cawn mai ei ystyr gwreiddiol ydyw *tramwyfa* i *gludo* pethau.

Mriafael.—Gellir nodi fod islaw Talyllyn, ac yn ardal Abergynolwyn, dri o leoedd yn dwyn yr enw hwn, sef *Myriafel Uchaf*, *Myriafal Fach*, a *Myriafal Ganol*. Yn y *Cambrian Register*, am y flwyddyn 1795, tud. 304, cyfeirir at ddau o'r lleoedd hyn,—y naill wrth y ffurf unigol o "Mryaval" a'r llall wrth yr enw a'r ansoddair o "Mryavael Isaf"; a'r Saesneg a roddir yno am "Mryavael" sydd gyfystyr a *Y Gafael Uchaf** Maentumia awdwr *Cantref Meirionydd* i'r lleoedd hyn dderbyn eu henwau oddiwrth berson o'r enw Briafael, y sonir am dano yn Llyfr Llandaf *(Liber Landavenses)*. Gwel *Cantref Meirionydd*, tud. 426.

Mawnog Ystradgwyn, sydd yn awr yn feusydd trefnus a chynyrchiol. Bu y lle hwn am lawer o flynyddoedd yn fan cyfarfod "bechgyn Corris" a "bechgyn Ystradgwyn" i gicio pêl droed, ac ymddengys mai y Corrisiaid fyddent y rhan amlaf yn enill y maes, os oes coel i'w roddi ar yr hen benill canlynol:—

"Ni wiw i 'Stradgwyn gicio côl
A phobl wrol Corris;
Mae nerth yr uwd yn môn y glin,
Yn gwneyd y dyn yn ddawnus."

---

* "The high hold."

Wele eglurhad Dr. John Rhys ar y gair "*ystrad*"—"*Ystrad* is the Welsh corresponding to Scotch *strath*, and it is nearly related to the English word *strand*. It means the flat land near a river."

Moel Grochan.—Enw ar fryn ger Corris, ac ymddengys ei fod wedi derbyn ei enw oherwydd ei debygrwydd i lun *crochan* [Cernywaeg, *crochan*, *croch-hadn;* Gwyddelaeg, *crocan*, *crogan;* Gaelaeg, *crog*] llestr ceuol (a pot; a kettle). *Crochan pridd*, an earthen pot. *Crochan aur*, a golden pot. *Crochan haiarn*, an iron pot.

Offeiriad a'r Clochydd.—Enwau ar ddarnau o graig uwchben Llyn y Tri Graienyn. Cawsant yr enwau hyn oherwydd eu bod yn edrych oddidraw y pethau tebycaf a ellir ei ddychymygu i hyny. Wrth "OFFEIRIAD" y golygir un yn offrymu offrymau, neu berson wedi ei neillduo i wasanaeth yr offrwm, a swyddau a seremoniau ereill perthynol i grefydd. CLOCHYDD yw y swyddog eglwysig sydd yn gofalu am dori y beddau, am ganu y clychau, ac am ddarllen yr atebion yn y gwasanaeth.

Panylau y gelwir yr ochr agosaf i Gader Idris i'r ffordd fawr ger Llyn y Tri Graienyn. Ystyr *pannwl* yw pant, ceule, neu yn ol Geir. Richards, a *place somewhat lower than the places around it.*

Gwyddwn y cawswn le cau.
Pan elwn i'r *Panylau.—Fychan y Gwyngyll.*

Weithiau y codai'r deifr yn fryn,
Weithiau fel glyn *pannylent;*
Lle trefnaist iddynt *bannawl* cau,
Ac weithiau y gorphwysent.

—*Ed. Prys*, Salm civ. 8.

Penycnycyn.—Gwel "*Craig y Llam.*" Ystyr *cnycyn*, yw a little hillock or eminence. *Cnyciau a phantau*, elevations and depressions. *Ar gnwc*, on a little eminence. Y gair cyfystyr yn y Saesneg yw *knoll*, a chyfystyr yw y gair Cymraeg "*cnol.*"

Pen y Rhyl.—Anedd-dy sydd erbyn hyn heb ond ychydig weddillion o hono yn aros ger Aberllefeni.

Mynega traddodiad i benaeth o'r enw Ednyfed Fychan fod yn byw yn Mhen y Rhyl, ac iddo fod yn ymladd brwydrau gerllaw ar faes a elwir Maes y Gorwyr.

Tybiwn mai "*yr heol*" (ffordd, ystryd) yw "*y Rhyl*" yma. "*Rhewl*" neu "*rhuol*" y geilw llawer o amaethwyr sir Ddinbych y buarth (farmyard), ac mae'r "*hwylfa*" yn enw cyffredin ar ffordd breifat *(private road)*.

Pengrych, ger Aberllyfeni, a gafodd yr enw hwn oherwydd ei safle ger nant fechan drystiog a chrychiog (a crisped or rippling stream). *Nentydd crychion*, purling or rippling brooks.

Lleuych dwfr *crych* ar dor craig.—*Iolo Goch.*

Nofio yn erbyn y crych, to swim against the current.

Penydelyn.—Enw ar glogwyn uwchben Llyn y Tri Graienyn, ac a alwyd ar yr enw hwn oherwydd ei debygrwydd i'r offeryn a elwir *telyn* (harp).

Penybwlch.—Enw ar dŷ anedd gerllaw y ffordd o Fachynlleth i Bennal, ond nid oes dim o'i olion i'w cael yn bresenol,—dim ond y llanerch lle bu.

Rhugog, neu "*Rhygog*" o "*rhyg*," math o ŷd bara. "Coll mab Collfawr a ddaeth â gwenith a haidd gyntaf i Ynys Prydain, lle nid oedd cyn no hyny namyn ceirch a *rhyg*."—*Trioedd.* Ceir lle arall yn y plwyf yn dwyn yr enw *Rhognant*, sef llygriad o "*Rhygnant*" neu "*Nant-y-rhug.*"

Rhiw Hwb y Wrach, neu *Riw Gwth y Widdanes*, sydd gerllaw mynydd Cildydd. Dengys yr enw mor ddwfn oedd ofergoeledd wedi cymeryd meddiant o'r plwyfolion. Yr oedd y rhiw hon yn enwog am ei gwrach-y-rhibinod, ac yr oedd yn berygl bywyd i'w rheithio wedi'r hwyr.

Tap Rhys Edward.—Enw ar le ger Llyn y Tri Graienyn, lle y torodd un o'r enw Rhys Edward ei wddf drwy gwympo trosto pan yn dyfod adref o garu o Waen Llwyfeni. Ystyr "*tap*" yw trum, cefnen; dibyn. *Tabig*, *tapyn*, trumen neu risyn bychan.

Talyllyn.—Cafodd y lle hwn ei enw mewn rhan oddiwrth y llyn prydferth a orwedd yn nghwr isaf gwastadedd Ystradgwyn, ac mewn rhan hefyd, fel yr ymddengys oddiwrth adeilad a safai ar ei lan. Ac yn ol Samuel Lewis, yn ei Barthiadur, yr eglwys oedd yr adeilad hwnw. Y llyn a elwir hefyd yn *Llyn Meingul* a *Llyn Mwyngil* (the lake of the Pleasant Retreat), ac y mae pob un o'r ddau enw yn lled ddynodol o hono; canys os yr enw blaenaf a gymerir, cyfetyb yn weddol i'r dynodiant, canys cyfrifir ei fod dros filldir o hyd, a thua haner milldir o led, ac os yr enw olaf a ddewisir, y mae hwnw hefyd yn arwyddocaol, oblegid gorwedd mewn mangre led ddymunol, rhwng y gelltydd a ymgodant ar ei ochrau.

Twr Main sydd enw ar glogwyn tàl ar gŵr de-orllewin Llyn Cau. Gorwedd Llyn Cau wrth droed Craig Cau, ac yn mhen eithaf math o gwm anghysbell, uchel, a mynyddig. Yn y llyn, ac islaw y clogwyn hwn, y mae careg o gryn faintioli, ar yr hon y tyf gwelltglas.

Ty'nyceunant, neu yn fwy cywir *Tyddyn y Ceunant*. Cyfansoddir y gair *ceunant* o *cau* (a hollow) a *nant* (a brook, a rivulet; a hollow bottom), a golyga *dyfngwm* neu *dyfnnant* (a deep dingle).

Pob llwybr mewn *ceunant* i'r un ffordd a redant.—*Diareb.*

Pydew rhwng gwaun a *cheunant*,
Plas yr ellyllon a'u plant.

—*Dafydd ab Gwilym.*

Cynt wyf at William i gael ei ramant,
Na'r hydd rhag cynydd dros war *ceunant*.

—*L. G. Cothi.*

Am y ceisyliaid, gedwch hwy yn rhyddion, i bryfeta, ac i'w gyru i'r byd i *geunentydd* a pherthi, i ddal dyledwyr y goron uffernol.—*Elis Wyn:* Bardd Cwsg, 95.

Ty'nyberth.—Enw ar dyddyndy yn Nghwm Dolgoed. Ystyr "*perth*" yw llwyn o ddrain, prysgl, dyrysni, neu lwyn o fangoed (a bush).

Ty'n yr wdyn.—Tŷ bychan a safai gynt yn agos i'r Ceunant. Ymddengys mai llygriad yw'r enw o *Tyddyn yr Odyn.*

Pynfarch Maes y Pandy.—Ystyr "*pynfarch*" yw "*argae*" (a weir). *Pynfarch melin*, a mill dam.

Ty'nclawdd, sef "*tyddyn y clawdd.*"—Er mai ffos neu rych yw priodol ystyr y gair CLAWDD, eto trwy arferiad y mae mur ceryg, gwrych, &c., a fyddo yn amgylchynu ac yn diogelu unrhyw gae neu faes, yn cael ei alw yn glawdd mewn gwahanol ranau o'r wlad. Mae'r gair yn arferedig am wrthglawdd (a trench) i warchae ar ddinasoedd. *Clawdd castell*, the moat, ditch, or fosse of a castle. *Clawdd a mur*, ditch and wall. *Clawdd cerryg*, a stone wall. *Clawdd ffin, Clawdd terfyn*, a boundary fence.

Ty'n'rhelyg.—Tyddyndy ger Corris. *Helyg*, math o goed yn tyfu mewn lleoedd dyfrllyd.

Ty'nycornel.—Gwesty ar gŵr de-ddwyreiniol Llyn Tal y Llyn. CORNEL [Cernywaeg, *cornel, cornal;* Llydawaeg, *korn;* Gwyddelaeg, *caerna, corneal;* Gaelaeg, *cearn;* Lladinaeg, *cornu, corna*] yw congl, cilfach (a corner, a nook).

Cornel yw ongl, a gofod yw triongl.—*Elfenau Gallofyddiaeth.*
Cornel ddiddos vw Rhosyr.—*Daf. ab Gwilym.*

Tyrrau Hirion.—"*Twr,*" yn y cyffredin, sydd yn arwyddo adeilad uchel, cadarn, wedi ei godi yn amddiffynfa rhag ymosodiad gelynion. Daw y gair o'r Lladin *turris*, a tower.

VI. PLWYF PENNAL.

Bettws.—Enw ar dyddyndy, ac mae'r enw fel yr ymddengys yn ffurf Gymreig ar yr enw Saesneg *Beadhouse.*

Bwlch Pawl.—Edrydd traddodiad i ferch Cefn Caer roddi ei serch ar fab ieuanc heb fod wrth fodd ei thad.

Ac fel teler iddo gyflawni er mwyn ei meddu yn wraig briod, gosododd ei thad o'i flaen y byddai yn rhaid iddo aros allan dros nos yn noethlymyn, a hyny, yn ol ffurf o'r traddodiad, ar ben *Bwlch Pawl*. Ac er mwyn gallu cyflawni y fath deler creulawn, cymerodd y mab ieuanc bawl a gordd i'w ganlyn. Ac wedi cyraedd y fan, defnyddiodd y rhai hyn i fod yn foddion i gadw ei fywyd; canys wedi curo o hono yn egniol ar y pawl, a thwymo o ben yr ordd wrth hyny, gosodai hi ar ei fynwes er mwyn cynesu ei galon, fel y gallai barhau i daflu y gwaed i'w wythienau. O'r diwedd, gwawriodd y dydd tros y gorwel draw, ac yntau yn fyw i'w groesawu, ac i hawlio y ferch i fod yn briodwraig iddo. Arosodd ei gariad yn y ffenestr yn dal canwyll trwy'r nos er mwyn ei galonogi i gyflawni y teler a osodwyd iddo.

Ac, ar ryw Sul gwedi hyn, darfu i rieni y ferch, cyn myned o honynt i'r eglwys y diwrnod hwnw, beri iddi rostio gŵydd; eithr beth a wnaeth hithau yn nghysylltiad a'r gorchymyn, yn lle gosod yr ŵydd o flaen eirias o dân, ond ei dodi yn un pen i'r ystafell, a chanwyll yn y pen arall iddi. A chan hyny, wedi i'w thad a'i mam ddod adref, ac heb ganfod fawr debyg am ŵydd rostiedig, dechreuasant ymliw â'r eneth paham nas rhostiasai hi, i'r hyn yr atebodd hithau, fod gan hawdded i'r ŵydd rostio wrth wres canwyll ag oedd i'w chariad hi fyw wrth wres canwyll ar ben Bwlch Pawl.

Honir y gelwir y bwlch yn *Fwlch Pawl* yn herwydd yr amgylchiad traddodiadol a nodwyd. Ond, modd bynag, er yr honiad hwn, ystyrir nad amrhiodol yma nad rhy annhebygol mai oddiwrth ryw berson neu gilydd a elwid Pawl gan y Cymry gynt, y cafodd yr unrhyw yn wirioneddol. Y mae lleoliad y Bwlch Pawl hwn yn nghymydogaeth afon Ddyfi, ac ar ben mynydd Esgairwiddan megis, ac am y terfyn â mynydd Doldyhewydd, pa un sydd ar y tu arall i'r tir. Ac ymddengys mai at yr unrhyw y cyfeirir yn un o ddarpariadau Rhodri Mawr, yn nghysylltiad â rhai o'i feibion, yr hwn a oesai yn y nawfed ganrif. Canys pan ranodd y tywysog hwnw yr oll o Gymru y ffordd "y cerddai ei

fraint" rhwng tri o honynt, sef Anarawd, Cadell, a Merfyn, gan benodi Talaeth i bob un o'r rhai hyn, penodwyd Bwlch Pawl, "yn Nglan Dyfi" fel man i fod yn eisteddle barn i benderfynu ymrafael a allai gyfodi rhwng penaethiad dwy o honynt.—Gwel *Cantref Meirionydd*, tud. 496.

Caeau Madog Ffarm.—Enw ar dyddyndy. Enw person yw Madog, a deillia o "*mad*" *da* (good, just, righteous).

Caerllanbach.—Sef CAER (a fortress) a LLAN, neu *lanerch bychan*. Lle clir yw "*llan.*" Ceir y gair yn "ydlan" a "gwinllan."

Cefn.—Enw ar dyddyndy. Ystyr "*cefn*" mewn enwau lleoedd yw "*the back or upper part of a hill.*" *Cefn o dir*, a ridge of land.

"Yr wyt yn ymweled â'r ddaear . . . gan ddyfrhau ei *chefnau*, a gostwng ei rhychau.—*Salm* lxv. 9.

Cefncaer, sef cefn yr amddiffynfa. Ystyrir y safai amddiffynfa Rufeinig* gynt tua'r fan y mae tyddyndy Cefncaer. Dywed Cambden y byddid weithiau yn cloddio i fyny yn Nghefncaer ddarnau bathol Rhufeinig, ac fod yno olion mur crwn o gryn helaethder, a dywedir yn yr ychwanegiadau at waith yr un gŵr i'r ystyr ganlynol:—Adeiladwyd y brif gaer, pa un oedd ar ran uchaf y bryn, yn bedronglog, ac yn amgylchynedig â mur cadarn a ffos lydan, o ffurf hirgrwn, gydag eithro ag oedd gyferbyn a'r dyffryn, yn estynedig mewn llinell unionsyth. Yr ochr allanol i'r ffos fawr agosaf i afon Ddyfi, darganfyddwyd sylfeini amryw o dai, ac ar is bryn, safai caerfa fechan, wedi ei hadeiladu, yn ol fel y gellir tybio, o briddfeini, gan y ceir yno ddigonedd o honynt. Adeiladwyd yr oll o'r muriau allanol o gareg arw galed, pa un a gludwyd yma ar hyd

* Ymddengys y cyfeirir mewn nodyn yn ngodreu'r ddalen yn Cambden's *Britannica*, gan Gibson, mai yn amser yr ymerawdwr Theodosius, yr ieuengaf, yr oedd yr amddiffynfa hon.

o dwfr o Tal y Gareg, pellder oddeutu saith milldir o'r lle hwn. O'r gaer at ochr y dwfr, y mae ffordd lydan galed o fân geryg cyd-gludiedig â phŷg â cheryg ereill, gan barhau mewn llinell union trwy'r gweirgloddiau, a'r morfeydd, pa un a all fod tua chan' llath o hyd, a deg neu ddeuddeg o led. Y mae yn dra amlwg i'r gaer hon gael ei dymchwelyd cyn adeiladiad eglwys Pennal, oblegid cawn yn muriau yr eglwys hono amryw o briddfeini amryblith â'r ceryg, pa rai yn ddiameu a ddygwyd yno o'r lle hwn. Cafwyd arian bathol y Rhufeiniaid yno ar ol amser Mr Cambden, yn neillduol rai darnau arian Augustus a Tiberius, ac yn agos i'r brif gaer, mewn cae o'r enw Cae Llwyn y Neuadd, gadwyn aur fechan, oddeutu pedair modfedd o hyd, a phryd arall gareg saphir, wedi ei thrwsio yn ddestlus." Mewn mawnog heb fod yn mhell oddi yno cafwyd pen gwaywffon neu bicell, o wneuthuriad Rhufeinig amlwg.

Cefnfaes, sef *Cefn y maes.*—Enw ar faes neu ddarn o dir mewn cysylltiad âg adeilad ar dir Drain Llwydion.

Cwmgila.—Llygriad o *Cwmcilan*, a place of retreat.

> Efelly wrth eu *cilan*, sefynt hwy,
> Ill dau a dro'ynt, ac is awyr las
> Addolynt Dduw.—*W. O. Pughe*, C.G. iv. 787.

Cwmdwr.—O CWM, "a deep valley where the sides come together in a concave form, whereas the sides of glyn approach in a convex form," a DWR [Cernywaeg, *dour;* Llydawaeg, *dour;* Gwyddelaeg a Galaeg, *dur, dobhur;* Manawaeg, *doour*] water.

Doldyhewydd.—DYHEWYDD sydd derm amaethyddol yn golygu aeddfedrwydd, ac hefyd Hydref neu gynhauaf.

Megys yr oeddwn yn nyddiau fy *nyhewydd* [tymmor ffrwythau] gyda chynghor Duw uwch ben fy mhabell.—*Dr. Thomas Briscoe:* Llyfr Job xxix. 4.

Dolgelynen.—Tyddyndy yn nghymydogaeth Penal. Yr enw yn cael ei wneyd i fyny o DOL (a dale), a CHELYNEN (a holly tree). Yma yn y bedwaredd ganrif ar ddeg y trigai merch ieuanc nodedig ei glendid a'i harddwch o'r enw Lleucu Llwyd, ac nis gall ei marwolaeth anhygoel a phruddglwyfus, er yn dra ffafriol i'w theimladau, lai na chynyrchu cydymdeimlad a thosturi. Cerid hi â chariad pur gan Llewelyn Goch ab Meurig Hen, bardd penigamp o'r Nannau, gerllaw Dolgellau. Ond nid oedd ei thad mewn un modd yn foddlawn i'r garwriaeth, ac achubai bob cyfle i yru anghariad rhwng Lleucu a Llywelyn. Un tro, digwyddodd i Llewelyn Goch fyned ar daith i Ddeheudir Cymru, a daeth ei thad at Lleucu a dywedodd wrthi, er mwyn diddyfnu ei serch oddiar y bardd, fod Llywelyn wedi ymbriodi yno â merch arall. Pan glywodd Lleucu hyn, hi a syrthiodd i lawr ac a fu farw yn y fan! Dychwelodd Llywelyn adref; ac ofer ceisio darlunio ei deimladau pan ddeallodd fod anwylyd ei galon wedi huno yn yr angau; a than ei deimladau cyffrous ar yr achlysur, efe a gyfansoddodd alareb dra hiraethus a serch-gynhyrfiol ar ei hol.

Domen Las.—Y mae dau fan yn dwyn yr enw Domen Lâs. Y mae safle un oddiar Wtra Benal; a safle y llall y tu isaf i'r Wtra hono. Tybir gan drigolion Penal fod Wtre Penal yn llawn o feddau, a dywed hanesyddiaeth i frwydr waedlyd gael ei hymladd yma rhwng Thomas ab Gruffydd ab Nicholas o Dynevor, dros dŷ Lancaster, a Harri ab Gwilym o Lys Henry, un o gadbeniaid Iarll Penfro, dros dŷ Caerefrog, pryd yr enillodd Thomas ab Gruffydd y maes. Yn y fan yma hefyd cymerodd ymladdfa bersonol waedlyd le rhwng yr un Thomas ab G. ab Nicholas a David Goch (Gough) o Gastell Slapleton, Maeshyfaidd. Daeth ab Nicholas yn fuddugwr o'r ymrysonfa hon eilwaith; syrthiodd David Gough dan fin ei gleddyf. Ond er hyn oll, ymddengys na chafodd adael yr ardal yn fyw; oblegid dywed Lewis am y Domen-las, mai crug *(tumulus)* ydyw a godwyd ar fedd Thomas ab Gruffydd a rhai o'i

filwyr, y rhai a lofruddiwyd ar y llanerch tra yn eu cwsg, gan rai o'r blaid arall.

Drain Llwydion, o'i gyfieithu i'r Saesneg yw *gray thorns*. Enw ar dyddyndy yw Drain Llwydion ac ymddengys ei fod yn lle o hynafiaeth. Yr oedd un o'r enw Oliver Morus yn byw yma yn 1688.

Esgairlyfuryn.—Yn Hanes Pywys Fadog, cyfrol v., tud. 127, cyfeirir at y lle hwn fel *Esgair Foel Eirin*. Ond yn unol a hen syniad, *Esgair Foel Euryn* yw ffurf briodol enw y lle, neu yn hytrach, yw enw y foel y saif y tyddyndy yn ei chysgod. A dywedir i'r foel hono dderbyn ei henw *Foel Euryn* oherwydd tlysni ymddangosiadol ei dullweddiad. Ond gellir sylwi yma fod Euryn yn cael ei ddefnyddio yn enw personol. Dygid yr enw hwn gan Euryn y Coed Helyg ac Euryn y Coed Aur, y rhai a restrir ymhlith Saint Ynys Prydain. Tybir gan eraill mai llygriad yw yr enw o Esgair Llywelyn.

Felindref.—Sonir yn hen Gyfreithiau Cymru am "*tayawctref*" a "*meleyntref*," neu "*vileintref*." Y ffurf flaenaf, sef "*tayawctref*" ydyw yr hynaf. Nid yw y rhan gyntaf o'r ddau ereill namyn enw o iaith estronol wedi ei gysylltu â'r gair Cymraeg tref. Math o lafurwyr tirol oedd y Taeogion, y rhai yn ddiweddarach a elwid yn Fileiniaid,—ag oeddynt yn rhwym wrth gyfraith i gyflawni gosodiadau penodol i'r tywysog neu ei swyddogion. A pherthynai iddynt reolau cyfreithiol yn ol eu safle yn y wladwriaeth. Y mae yr enw *Mileintref* neu *Fileintref* i'w gael eto yn y dull gwerinol o enwau ag sydd ar dyddynod neu rag-dyddynod, megis *Flindre* neu *Fylindre*, neu *Flindra*.

Cyllellog.—Enw ar dyddyndy, ond beth a feddylir wrth hyny sydd yn rhy anhawdd penderfynu. Dichon y ceir cyfeiriad ynddo at gyllell yn rhyw wedd neu gilydd. A hyny, feallai, naill ai fel enw personol neu ddynodiant ar un a wisgai enw arall. Ceir y dynodiant i "gyllelluawr" yn Ystori Kulhwch ac Olwen neu y Twrch Trwyth yn y Mabinogion, ar un o'r enw Osla, lle ei gelwir yn Osla Gyllelluawr, neu Osla'r gyllell fawr.

Ceir y gair cyllellawr yn y llinell ddilynol:—"Ni wan cyllellawr cleddyfawr meiwyr." Ond Cyllellog neu Gyllellog sydd yn enw gwerinol ar y lle, a gall mai talfyriad yw o enw heb fod a fyno cyllell â'r unrhyw o gwbl.

Llidiart Parc Crach=Llidiart Parc Bach.—Wrth lidiart yn briodol y golygir clwyd neu ddor cae neu lwybr. Ceir y gair hwn yn gwneyd i fyny enwau amryw leoedd yn Sir Aberteifi. Llidiart y Rhos, Llidiard Mangwyn, Ty'nyllidiard, &c., a cheir Llidiardau yn Sir Feirionydd. Cawsant yr enwau hyn oherwydd fod bylchau neu lidiardau yn digwydd bod ger y fan lle yr adeiladwyd y tyddyndai hyn.

Llugwy.—Yn y *Cambrian Register* am y flwyddyn 1795, tud. 302, gosodir yr enw yn y ffurf o *Llygwy*, lle rhoddir yn ystyr iddo, "*the gray stream*," sef yr afon lwydwyn, neu lwydlas, neu oleu. I'n tyb ni gwneir yr enw i fyny o "*llug*" gair yn golygu "*goleuni*" (light) a'r terfyniad "*wy*" yn golygu "*dwyfol*" neu "*gysegredig.*" *Llug y dydd*, day break, the dawn. Ceir amryw afonydd yn dwyn yr enwau *Llug* a *Llugwy*, ac ymddengys iddynt dderbyn eu henwau oddiwrth eu dysgleirdeb wrth darddu. Y Lladin am "*llug*" yw "*lux*," ac o hono y gwneir y geiriau canlynol i fyny:—*Llugas* (dechreuad goleuni), *Llugorn* (a lamp), &c. "Dau *lugorn* nef, haul a lleuad."

Maes yn Mhenal.—Ymddengys mai y ffordd fawr a arwain o Bennal at y Cwrt, yr hon a elwir yn awr Wtra Benal, ond a elwir gynt Wtra'r Beddau, ydyw y Maes yn Mhenal, y cyfeiria hanesyddiaeth ato. Ymladdwyd brwydr ar y maes hwn rhwng rhanau o fyddinoedd tŷ Caerefrog a thŷ Caerwerydd. Penaeth y llu yn y frwydr yn mhlaid y blaenaf oedd Syr Thomas ab Gruffydd ab Nicholas, o Ddinefwr; a phenaeth y blaid arall oedd Thomas ab Gwilym, o Lys Henry, un o gadbeniaid Iarll Penfro. Ond enillwyd y dydd gan bleidwyr Caerefrog.

Ystyr y gair "maes" yn yr enw uchod yw "brwydr neu ymladdfa," a chafodd y lle yr enw "Maes yn

Mhenal" mewn canlyniad i'r frwydr grybwylledig. Dywedir y caed esgyrn yn Wtra Benal.

Maesgwerngoch.—Enw ar dyddyndy, a'r gair yn cael ei wneyd i fyny o "*maes*" (a field), "*gwern*" (alder trees), a "*choch*" (red). Dywed "llen gwerin" i'r lle dderbyn ei enw oherwydd i'r frwydr a ymladdwyd ar "*faes yn Mhenal*" gael ei hymladd mewn rhan ar dir y lle hwn.

Marchlyn.—Cymhwysir y gair MARCH yn unig at geffyl yn bresenol, ond yr oedd iddo ystyr llawer eangach gynt. Yr oedd Cynfarch yn enw dyn; a sonir am un arall o'r enw March ab Meirchion. Mae *march*, fel ansoddair yn dynodi tirf, braig, uchel, nerthol, tyfadwy, ffrwythlawn, &c., fel y dengys y geiriau canlynol:—Marchfiaren, marchredyn, marchysgall, marchredyll, marchbren, marchdaran, marchddyrnod, &c., ac y mae plwyf ffrwythlawn yn Maelor o'r enw Marchwiail. Marchwiail yw gwiail breisgion a thyfadwy,—twf blwyddyn. Mae llawer o dribanau y cynfeirdd yn dechreu gyda'r gair hwn. Dyma engraifft o Dribanau dechreu Haf, neu Ganiadau Gorsedd Alban Hefin:—

Marchwiail bedw, briglas;—
A dyn fy nhroed o wanas;
Nac addef dy rin i was.

Yn ol "llên gwerin" ardal Penal, ystyr yr enw Marchlyn yw "*Llyn y Marc'h*," a dywedir ei fod wedi dod lawr o'r cyfnod pan yr oedd y Rhufeiniaid yn gwersyllu yn amddiffynfa Cefncaer.

Pandyrhosfarch.—Enw ar dyddyndy. Gwneir y gair i fyny o "*pandy*" (a fuller's workhouse), *rhos* (a moor), a *march* (a steed).

Penal.—Y mae gwahanol farnau am ystyr yr enw *Penal*, ac yn gyffredin rhoddir dwy n wrth ei ysgrifenu. Dywed y *Gwyddoniadur Cymreig* mai *Penôl* a feddylir wrth yr enw *Penal;* ond dywed Cathrall yn ei *History of North Wales* mai ystyr yr enw yw *Penael*—copa, neu ael y bryn. Cyfeirir at yr enw mewn hen gofnodion Lladinaidd o amser Edward I. neu Edward II, fel

Pennal a *Penale*. Ym mharthau Cymru, o amser y tywysog Cymreig Llewelyn ab Gruffydd, cyd-oesydd âg Edward I., y mae yn cael ei ddwyn i sylw fel *Pennal*. Ond yn Monedd y Saint, y mae yn cael ei ddwyn i sylw fel *Penial* yn y ffurf o Mhenial, yn y crybwylliad canlynol:—"Dannwc a Samarws y Saint ym *Mhenial* ym Meirionydd." Os mai *Penial* yw y ffurf gyntefig, sef y brif neu y ben dinas, gall yr enw fod wedi ei gymeryd oddiwrth yr hen amddiffynfa Rufeinig a safai ar dyddyndir Cefn Caer.

Rhydgaled.—Enw ar dyddyndy, ac yn cael ei wneyd i fyny o "*rhyd*," sef ffrwd o ddwfr, a'r ansoddair "*caled*" (hard), h.y., caled ddwfr. Ceir lle yn Sir Aberteifi yn dwyn yr enw *Penrhiwgaled*.

Rofft, y *Rofft*, neu *Plas yn y Rofft*, a safai yn agos i dyddyndy Esgairwiddan. Ceir fod amryw o faesydd neu fanau cauedig yn cael eu galw yn *Rofft*, ac ymddengys y golyga gadlas, claws, neu faes bychan, neu faesan wrth dŷ. Daw y gair o'r A. Sax. *croft*, a field. Ceir a ganlyn dan y gair yn ngeiriadur Annandale:—A small piece of inclosed ground adjoining a dwelling house, and used for pasture, tillage, or other purpose; a very small farm. *Crofter*, one who cultivates a *croft*.

Siambr Wmphra.—Yn ol a ddywedir, y mae y siambr hon yn Nghwm Siambr Wmphra, yr hwn a ymestyn am encyd o bellder ar hyd y cwm sydd rhwng Esgairlyfuryn a Phant Perthog. Ac y mae rhyw dair rhan o filldir o'r brif ffordd a arwain o Fachynlleth i Gorus i fyny at y fan lle y dynodir fod y siambr hon. Dywedir mai yn y nant y mae, a bod ffrwd ei dwfr yn rhedeg dros ei genau. Y mae yn y fan lyn lled ddwfn, a phistyllfa, ffurfiedig yn y nant yn disgyn iddo. Nid yw cwymp y pistyll ond ychydig, ac ymddengys nad oes yno loches o'r fath yn ei chysgod. Ysbeilydd oedd yr Wmphra hwn, ac yn ol traddodiad yr ardal, byddai yn cilio i'w "siambr" y dydd ar ol bod yn lladratta y nos. Daw y gair "Siambr" o'r Ffrancaeg *chambre*, a golyga a vault or arched roof. Yn gyffredin, pan

fyddai "*siambr*" yn perthyn i dŷ, nid oedd llofft iddo, a'r ystyr a roddid iddo ydoedd ystafell wely ar yr un llawr a'r gegin. Ni ddefnyddid y gair ond yn unig i ddynodi ystafell wely. *Lloches* neu *guddfa* Wmphra, a olygid wrth "*Siambr Wmphra.*"

Tywyllnodwydd.—Enw ar dyddyndy, ac yn ol a ddywedir golyga "*goedwig dywyll y gwyr nod*" neu yr "*eilltion.*"

YR AIL DRAETHAWD.

RHAGLITH.

Mae dehongli ystyr enwau lleoedd yn ganghen o lên sydd yn prysur ddyrchafu i fri. Mae llawer o'r enwau wedi bod yn treiglo am filoedd o flynyddoedd, gyda chenedl ar ol cenedl, ac o wlad i wlad, fel y mae yn anhawdd adnabod eu dosbarth na'u rhiaint erbyn hyn. Ond hwn yw y gorchwyl fydd genym yn y Traethawd yma.

Dehongliad o'r enwau a ystyrir yn dywyll a ddisgwylir, ac at hyn yn arbenig y ceisiwn ninau ymgyrhaedd. Geilw hyn arnom am beidio mynd yn ormodol i faes yr Hynafiaethydd ar un llaw, ac i beidio esgyn i fryn y desgrifiwr ar y llaw arall. Sicr yw fod yma ddefnyddiau lawer ar gyfer afiaeth yr Hynafiaethydd, a darfelydd y Desgrifiwr ar ymylon ein llwybr. Ond diau nas gwarafunir ni i edrych dros y mur ar y chwedloniaeth ryfedd a difyr, a'r golygfeydd prydferth ac amrywiol a'n cylchynant, pan y tybiom y rhydd hyny help i daflu goleuni ar yr enw.

Canfyddwn fod yr enwau yn ymranu i lawer o ddosbarthiadau, a bydd yn fanteisiol tuag at fod yn glir, i roddi arbenigrwydd i'r dosbarthiadau hyny. Dyna un dosbarth,—

YR HEN, HEN, A'R HEN DIWEDDAR.

Mae enwau y mynyddoedd, yr afonydd a'r dyffrynoedd yn hynach nag enwau y plwyfi, y trefi, a'r tai. Rhydd y blaenaf ini yn aml awgrymiadau am bobl fu yma yn byw unwaith, ond ydynt wedi diflanu, neu fyned o'r golwg bellach. Megys, er engraipht, yn yr Unol Dalaethau, mae y Niagara, Ohio, Potamic, &c., yn ein hadgofio am lwythau o bobl na wyddis fawr am danynt heddyw. Ond mae enwau y dinasoedd, &c., megys Pensylvania, Brownsville, Grantstown, yn bethau diweddar. Mae hyn yn ffaith eglur gyda golwg ar y gymydogaeth hon. Mae Cadair Idris, Gwyddel Fynydd, Llyn Cai, yn hen hen, a'r un modd y gellir dweyd hefyd am Mawddach, Eiddew, a Synu. Ond y mae enwau y trefi a'r pentrefi, megys Llwyngwyril, Llanegryn, yn swnio yn llawer mwy diweddar ar ein clyw, ac yn haws i'w hesbonio. Bydd cadw y dosbarthiad yna mewn golwg yn help ini wneyd ein llwybr yn glir.

Mae y chwe phlwyf yr ydym wedi ymgymeryd i ddehongli ystyr eu henwau dyrys yn ngorllewinbarth Meirionydd, ac felly teimlwn ein bod ar fin y môr mawr mewn mwy nag un ystyr. Nid yw y parth yma ond rhan fechan o Meirion, a Meirion ond rhan lai o Gymru, a Chymru yn rhan lai drachefn o Brydain, a'r un peth ellir ddweyd am Brydain yn ei pherthynas a maintioli Europ, er hyny, dichon fod perthynas y gellir ei holrhain rhwng y lle bychan hwn, â'r cyfandir mawr a phell, ie, ac yn mhellach na hyny, yn nglyn hefyd a phreswylwyr, iaith, ac enwau yn y rhanbarth hon. Dywed awdurdodau uchel ar y math yma o lên wrthym, fod olion traed, a llaw, a llafar, nid yn unig y Celtiaid a breswylient ganolbarth Ewrop fwy na chwe chan' mlynedd cyn y cyfnod Cristionogol yma; ond hefyd o'r Gwyddyl a'r Iberiad a breswylient yn y wlad hon ganoedd o flynyddoedd cyn hyny, ie, fod olion o honynt hwy ar Gymru a'i hiaith, heddyw. Ac os nad ydym yn cymeryd ein camarwain gan debygolrwydd, mae olion

o honynt yn y plwyfi hyn. Beth am yr enwau "Bera," "Gwyddel," a "Gwalia," ag ydynt yn ein hymyl yma. Ie, beth am y llestri pridd a gafwyd wrth chwalu hen domen-glawdd wrth PANYNEUADD ychydig flynyddau yn ol. Tystiodd awdurdod uchel* ar fater dyddorol fel hwn, fod y llestri hyny dros dair mil o flynyddoedd o oedran. Awgryma hyn ini nad dyogel iawn anwybyddu y pellder maith yn nghyfeiriad boreu y byd, wrth geisio dehongli enwau y plwyfi hyn yn ngorllewin Meirionydd yn awr.

Ceir dwy agwedd ar yr enwau, sef,

Y LAFAREDIG A'R YSGRIFENEDIG.

Ceir y Lafaredig mewn seiniau geneuol, a'r Ysgrifenedig mewn cyfuniad llythyrenau. Y ffordd i wybod am un agwedd bwysig ar yr enwau yw, drwy yr ysgrifenedig, a'r ffordd i wybod am agwedd arall arnynt yw, drwy wrandaw a chydmaru, ac y mae hyn oll yn galw arnom fod yn dra gochelgar gyda chlust a meddwl.

Cyfarfyddwn a dau ddosbarth o ysgrifenwyr enwau,

YR HEN A'R DIWEDDAR.

Ceir trafferth gyda'r hen am nad ydynt yn sillebu yn gyfatebol i gywirdeb tybiedig yr oes hon,—y rhai a syrthiasant i'r amryfusedd hwnw am nad oeddynt yn ddigon cyfarwydd a'n hiaith. Diffyg y rhai diweddar yw, peidio boddloni ar ddweyd *na wyddent* ystyr briodol yr enwau, ac yna, droi at y gwaith o ddyfeisio ystyr iddynt. Mae genym engreiphtiau lawer o'r diweddaf yn yr ardaloedd hyn. Megys yr enw DYFFRYNGLYNCUL gan lenorion diweddar; ond DYFFRYNGLYNGYN y ceir ef gan yr hen ac ar lafar gwlad o hyd: a pha beth sydd amlycach na bod "*yr hen*" a'r "*llafar gwlad*" yn rhagori llawer ar y diweddar. Ceir Dyffryngwyn am y bryn ag ef, ac er mwyn gwahaniaethu a chyferbynu y naill a'r llall, beth sydd yn fwy naturiol na galw y Dyffryn *perthog* hwn yn Ddyffryn+clyn=

* Proff. Anwyl, Aberystwyth.

(perthi) + gwyn. Sicr yw fod DYFFRYNCLYNGWYN, a'i ystyr yn amlwg, ac yn cadw at y seiniadaeth heb drais o fath yn y byd.

Yr un peth ellir ddweyd am leoedd ereill gerllaw, megys *Tonfanau*, dyna ei ffurf ddiweddar, ond yr hen ffurf, a'r seiniadaeth barhaus yw *Tryfana*, neu *Tyrfana* (ceir egluro hwn eto).

Yr un modd hefyd y gellir dweyd yn ddiau am CEFNLLECOEDIOG, dyna y ffurf roddwyd arno tua thriugain mlynedd yn ol. Ond CEFNLLYGODIG yw yr hen ffurf arno, a dyma y modd y seinir ef gan yr hen bobl o hyd (ceir egluro rhagor ar hwn hefyd eto). Dengys hyn y dylem fod ar ein gocheliad rhag gwneyd anturiaethau mympwyol i fro dehongliaeth.

Dichon hefyd y byddai yn fanteisiol ini tuagat ddehongli ambell enw lled bwysig, i ystyried y berthynas sydd rhwng yr Iberiad, y Gwyddyl (Goidel) a'r Celt (Brython), a'u gilydd. Yr Iberiaid oedd preswylwyr cyntaf y wlad yma (oddigerth ini enwi rhyw Ogofäwyr tybiedig). Daethant hwy i gyfaneddu yma ganrifoedd na feiddia neb ddweyd pa nifer, cyn y cyfnod Cristionogol. Dywedir mai o'r Aipht y daethant, ac fod olion eu taith-lwybr yma, mewn llinell o gromlechi hyd ymylon Mor y Canoldir, Spain a Gaul (Ffraingc). Dynion bychain, bywiog, pryd-ddu, ac hir-ben, mewn dwy ystyr oedd yr Iberiaid, a dywedir fod eu hanian a'u delweddiad hwy yn amlwg ar ein cenedl ni heddyw. Yn enwedig mewn rhai parthau o Forganwg. Yn mhen canrifoedd lawer ar eu hol hwythau daeth yma lwythau o'r Celtiaid (Gwyddyl) o'r Iseldiroedd a ddyfrheir gan y Rhine a'r Scheldt. Yn mhen amser daethant hwy yn gyfeillgar a'u gilydd. Yna yn mhen canrifoedd lawer a'r eu hol hwythau (tua chwe' chant, fel y sylwasom eisioes, cyn y cyfnod Cristionogol) daeth llwythau drachefn o Geltiaid (Brythoniaid) o Europ i'r wlad hon. Daeth y ddau lwyth o sefydlwyr cyntaf erbyn hyn i fesur mawr yn un, fel ag i wrthsefyll gormes ac ymosodiadau y Celtiaid newyddion.

Yr oedd yr Iberiaid a'r Celtiaid (Brythoniaid) yn gwahaniaethu oddiwrth eu gilydd mewn tri peth yn arbenig:—

1. Yr Iberiaid oedd preswylwyr cyntaf y wlad; ond dyfodiaid, yn mhen, mae'n bosibl, fwy na mil o flynyddoedd ar eu hol hwy, oedd y Celtiaid.

2. Dynion bychain, pryd-ddu, hir eu gwyneb a'u pen oedd yr Iberiaid (fel y sylwasom eisioes), ond dynion mawrion, cryfion, pengrwn, goleu-goch, ac oddeutu troedfedd yn dalach na'r cynfrodyr, oedd y Celtiaid.

3. Dynion yn byw mewn *villages* (pentrefi) oedd yr Iberiaid,—a phobpeth a phawb yn gyffredin i'w gilydd; er yr oeddynt wedi dysgu trin y tir hefyd; ond llwythau teithiol oedd y Celtiaid.

Drwy y gwahaniaeth hwn yn eu dull o fyw, daeth y Celtiaid yn gryfach eto yn mhob rhyw ystyr, na'r Iberiaid, a'r canlyniad o hyn oedd, gwneyd yr Iberiaid yn ddarostyngedig iddynt, ac at eu gwasanaeth. Collodd yr Iberiaid eu hannibyniaeth a'u hiaith. Cadwai y Celtiaid hwy yn eu *villages*, gan roddi tir dan eu gofal ar amodau neillduol. Nid oeddynt bellach yn fawr gwell na chaethweision i'r Celtiaid.

O'r cysylltiadau yma yr ydym am ddangos sut y cafwyd rhai geiriau neillduol i fod yn "*current coins*" yn yr iaith Gymraeg. Gwir mai iaith y Celt yw iaith y Cymro heddyw, ac fod yr Iberiad wedi colli ei iaith wreiddiol ei hun a mabwysiadu iaith ei orchfygwr; er hyny ceir yn iaith y Celtiaid heddyw ddrych i ddangos fod yr Iberiad ynddi. Rhoddwn yma eglurhad,—ac at hyn yr oeddym yn ceisio ymgyraedd yn y sylwadau a wnaed:—

Villager oedd yr Iberiad,—un yn byw bywyd cyfyngedig ei ryddid, ac at wasanaeth arall,—yna yn gyfystyr a chaethwas.

Sylwer eto (*Villain*, Fr.; *Villano*, It. a Sp.). *Village*, o'r gwreiddyn hwn y daw y gair Saesonaeg *Villain*, ac hefyd y gair Cymraeg *milain;* ac hefyd *milyn* a *milwr;* yn golygu un neillduedig a darostyngol at wasan-

aeth arall. Felly mae *village*, yn ei ystyr briodol ac hanesyddol yn golygu caethwas.

Sylwer eilwaith. Mae genym y fath eiriau yn ein gwlad a *Velindre* a *Velindra*, a dywed Hynafiaethwyr wrthym nad oes hanes am *Felin* o gwbl yn nglyn a'r lleoedd hyny, ac onid oes genym lawer o ysgolheigion Celtaidd a'n hysbysant fod y berthynas agosaf yn bodoli rhwng y geiriau *Villain* a *Velindre* â'u gilydd, ac felly onid enw arall, ac hollol gyfystyr, yw y gair *Caethle*. (Daw y gair hwn dan ein sylw yn ei le ei hun eto).

Yn y *Geninen* am Ebrill, 1885, mewn ysgrif o'i eiddo ar ei ymweliad ag amaethdy o'r enw Sarphle yn ei ardal enedigol, dywed Mr. J. Ceiriog Hughes, nad oes yno olion sarph, na chwedl am sarph ychwaith yn y gymydogaeth, ac felly mai nid oddiwrth sarph mewn un modd y cafodd y lle ei enw. Dywed mai priodas sydd yma rhwng gair Saesoneg a gair Cymraeg, ac mai ffurf briodol y gair yw *Serf-le*, hyny yw, lle ag yr oedd rhyw arglwyddi mewn amseroedd pell yn ol yn cadw eu *serfs*, neu eu caethion. Ac ar ol gwneyd y sylw yna cyfeiria at CAETHLE ger Tywyn ag sydd yn engraipht o'r cyffelyb le.

Priodol ini sylwi hefyd y modd y mae cenhedloedd ereill, mewn amseroedd diweddarach wedi rhoi eu hol ar ein hiaith. Daeth y Rhufeiniaid yma tua dechreuad y cyfnod Cristionogol, a gadawsant ar eu hol y fath enwau a *caer*, *stryd*, *twr*, *wàl*, *porth*, *aradr*, *caws*, &c., y rhai a glymir yn esmwyth wrth y geiriau Cymraeg. Daeth y Daniaid a'r Norweyaid yma, a gwnaethant hwythau yr un peth. Daeth y Normaniaid yma, ac er na wnaethant rhyw gymaint tuagat effeithio ar enwau *lleoedd* yn ein tud, eto rhoisant ini lawer o enwau *personol*. Y Saxoniaid sydd wedi effeithio fwyaf tuagat gyfenwid ac ychwanegu at enwau *lleoedd* yma. Yr un modd y gellir dweyd fod ein cenedl ninau wedi effeithio yn fawr ar enwau lleoedd mewn lleoedd tuallan i'w therfynau presenol, ond ydynt yn brawf o oes euraidd ei hetifeddiaeth eang mewn oesoedd sydd wedi myned heibio. Mae wedi gadael ei hol ar Loegr a Ffraingc

(Gaul) yn ein hymyl, heblaw gwledydd pellach oddiwrthym. Y mae wedi gadael *Calais* (Kul, Cymraeg) yn Ffraingc, a gadael *Dover* (Dwfr, Cymraeg), rhwng y ddwy wlad a'u gilydd, fel ceryg sarn i nodi ei hymdaith i'w gwlad fabwysiedig. Ac y mae gwyr Lloegr wedi gwneyd defnydd helaeth iawn yn eu hiaith, o'n *hafon* a'n *dwr*, trodd ein hafon, enw cyffredin, yn *Avon* enw priodol; ac o'n dwr tynodd allan *Dowr*, *Esk*, *Usk*, *Ouse*, &c., yn gystal a *Dover*. Mae yma lawer o gymeryd a rhoi wedi bod rhyngom ni â gwledydd ereill.

Byddai yn fanteisiol hefyd i ni gymeryd i ystyriaeth y berthynas sydd rhwng enwau *personau* ag enwau *lleoedd* yn aml, gan nas gellir esbonio y naill ar wahan i'r llall. Canys deillia enw y lle yn aml o enw person, a phryd arall i'r gwrthwyneb. Er engraipht: Washington yw enw prif-ddinas yr Unol Dalaethau; ond y mae y ddinas wedi cael ei henw oddiwrth George Washington, llywydd cyntaf yr Unol Dalaethau. Eto yr oedd George wedi cael y cyfenw hwnw oddiwrth ei riaint, y rhai a fuont byw mewn pentref bychan yn Durham, o'r enw *Wasings*, yr hwn enw a gafwyd oddiwrth lwyth Teutonaidd fu yno yn flaenorol i'r oll. Fel hyn gwelwn fod yr enw weithiau yn troi mewn cylch; oddiwrth le, at berson, ac oddiwrth berson at le. Y dynodiant goreu i enw fel yna fyddai ei alw yn Enw Trosglwyddol.

Manteisiol hefyd fyddai sylwi ar y rhan fawr y mae lliwiau yn gymeryd mewn enwau Desgrifiadol, y rhai ydynt fel rheol yn gyfansawdd. Eglur yw fod y lliwiau, gwyn, du, glas, llwyd, &c., yn cymeryd lle mawr mewn ffurfio enwau lleoedd; ond mae yn amlwg fod dau ddosbarth o ystyron i'r rhan-eiriau hyn. Er ein cyfleusdra yn awr, ni a'u galwn yn *ystyr lythyrenol*, ac *ystyr farddonol*. Ystyr lythyrenol *gwyn* yw (S) *White*, ond ei ystyr arall yw *blessed*. Ystyr lythyrenol *du* yw *black;* ond ei ystyr arall yw *hopeless*. Ystyr lythyrenol *glas* yw *blue* a *green*, ond ei ystyr arall yw *fresh* a *young*. Ystyr lythyrenol *llwyd* yw *grey* a *brown;* ond yr ystyr arall, yr ystyr farddonol, yr hon

sydd yn ystyr *wirioneddol* yn nglyn a phob un o'r lliwiau yw, *venerable, blessed, adorable,* ac felly teimlwn mai cyfieithiad o'r fath hapusaf a chywir gan rywun yw *Happy Valley* am *Ddyffryn Gwyn,* a dylid sylwi fod y naill ystyr a'r llall yn cael ei roddi i'r lliwiau, yn ol y priodoldeb ar y pryd.

Priodol hefyd ini ystyried y gall pob rhyw wrthrych gael *dau enw,*—ei *ddosbarth enw,* hyny yw, ei enw cyffredin ac enw priodol. Mae yr enw cyffredin yn perthyn i bob un yn y dosbarth fel iddo yntau,—megys derwen, seren. Mae pob derwen yn dderwen, a phob seren yn seren. Dyna yr enw cyffredin: ond gall pob un gael enw priodol hefyd, megys Derwen Dafydd, Seren Foreu. Golygir derwen a seren neillduol wrth yr enwau hyn, a gelwir hwy yn enwau priodol y gwrthrych.

Dymunem hefyd hysbysu ein bod am *ochelyd* y pethau canlynol yn ein dehongliadau pan yr awn at y gorchwyl.

1. *Gochel dehongliadau coeg-dyb.* Er esiampl, esboniad un cyfaill ar *Gernos,* sydd gerllaw Castell Bera, yw *Ger-y-nos.* Esboniad un arall ar Cwmcadian yw *Cwm-Cadi-Ann.* Er y dygir chwedl yn dal perthynas a'r Sant Cadfan yn mlaen i ategu yr olaf,—eto teimlwn fod esboniadaeth fel yna yn chwerthinus o rwydd a choegaidd.

2. *Gochel pendantrwydd, pan y bo sail i wahanol dybiaethau.* Dodwn wahanol ffurfiau i'r enw gerbron, gan nodi, y rhan amlaf, yr un a dybiwn ni gywiraf, gan adael ar yr un pryd i'r darllenydd i wneyd dewisiad drosto ei hun.

3.—Hefyd ni a geisiwn ochelyd rhag gadael yr un enw, heb yn gyntaf gydmaru iaith llafar, ac iaith llyfr, —hen a diweddar hyd y mae ynom yn nglyn ag ef.

4.—Ceisiwn gyda hyny ochelyd rhag siomi ein dau ddosbarth o ddarllenwyr, sef y rhai a ddisgwyliant yn arbenig am sylw manwl o'r fath eiriau ag Esguan, Rhywniar, Gwyddgwian, Esgairweddan, Rhycryw, Trychiad, Tywyll Nodwydd, Nantco, Bera; enwau ag

y mae ein tadau a ninau wedi bod yn ymddrysu yn hir uwch eu penau, ac hefyd y dosbarth fydd eisiau cael gair o gyfarwyddyd hyd y nod ar enwau fel Erwfaethlon, Garegarw, &c.

Dichon y byddai yn well i ni nodi hefyd rai o'r arweinyddion fydd genym tuagat ein dehongliadau. Ceisiwn gadw mewn ystyriaeth yr iaith fain a leferir yn y cymydogaethau hyn. Mae y llythyren "u" wedi ei halltudio oddiyma, "i" sydd gan bawb, a hyn oedd y rheswm i Owen William ddweyd yn Sir Gaernarfon, wrth rywun a ofynodd iddo o ba le yr oedd yn dod,—"Yr wyf yn dod," ebai yntau, "o gymydogaeth nad oes dim son am Dduw na dyn un amser gan neb o'i brodorion." "Rhyfedd iawn," ebai yr ymofynydd diniwed, "am ba beth y maent yn siarad yno ynte?" "Am *Ddiw* a *din*," ebai yr hen batriarch ffraeth. Yr oedd Dr. Pugh, Aberdyfi (Ioan ap Hu Feddyg) yn arfer dweyd fod tair iaith yn cael eu siarad yn y fro, sef y *Saesonaeg*, y *Gymraeg*, a'r *Dywynaeg*. Gwneir cam ag amryw o'r llafariaid. Ceisiwn gadw golwg ar hyn.

Hefyd ceisiwn arweinyddiaeth rheolau gwarantedig, hyd y bydd ynom. Dyma un,—

1. *Fod sill flaenaf gair cyfansawdd teir-syll, pan y bo o flaen sill acenol, yn aml yn cael ei chladdu neu ei cholli.*

Eng. :—Cardy o Vicardy.
Bermo o Abermaw.
Stadfryn o Gwastadfryn.

A dyma un arall yn nglyn a sain lafarol:—(2) Newidia "*a*" yn "*e*" o flaen terfyniad gyda'r Llafariaid "*i*" ac "*y*."

Eng. :—Gwendid o gwan + did.
Aderyn o adar + yn.
Nentydd o nant + ydd.
Arenig o aran + ig.

Nyni a ymdrechwn hefyd wneyd dosbarthiad arbenig o'r holl enwau a drafodir genym. Mae priodol-

deb lleol yn rheswm dros un dosbarth lluosog o enwau, megys Bronheulog, Tynycoed, &c. Mae nodwedd yr enw yn codi o'i gylch, ac felly ceir llawer iawn o enwau, a *bryn, pant, coed, llysiau, adar, anifeiliaid, corsydd, clogwyni, nentydd, pontydd,* &c., yn ffurfio rhan o honynt fel eu cylchynedd. Teimlwn hi yn briodol i alw y cyfryw yn *Enwau Desgrifiadol.* Cawn ereill ag enw rhyw *berson* enwog yn nglyn a hwy, megys Cadair Idris, —ni a alwn y dosbarth yna o enwau yn *Enwau Personol.* Ceir ereill gwahanol eto, a rhyw ffaith hanesyddol yn cael eu chario ar eu hadenydd; megys *Rhos Lefain, Caethle,* &c. Ni a alwn y dosbarth yna yn *Enwau Hanesyddol.* Mae enwau ereill y teimlir nad ydynt yn perthyn yn arbenig i'r un o'r dosbarthiadau yna; megys, *Bodawen, Bodmyfyr,* &c.,—gallant fod neu beidio bod yn ateb i'w henwau awgrymiadol; gellid galw y rhai hyn yn *Enwau Mympwyol.* Ac y mae dosbarth ychwanegol eto yn ein bro ni yma, megys, *College Green, Pall Mall, Picadily.* Priodol fyddai galw y dosbarth yma yn *Enwau Trosglwyddol.*

Er mwyn mantais i'r darllenydd ni a ddodwn Dalfyriadau i nodi y DOSBARTH y perthyna yr enw iddo, fel hyn,—

1. Desgrifiadol, megys Bronheulog: Dos. Des.
2. Personol, megys Efailfeirig: Dos. Pers.
3. Hanesyddol, megys Rhos Lefain: Dos. Hans.
4. Mympwyol, megys Bodawen: Dos. Mymp.
5. Trosglwyddol, megys College Green: Dos. Tros.

TALFYRIADAU WRTH ELFENU YR ENWAU.

= Cyfystyr (equal).
\+ Chwanegol (plus).
h.y. hyny yn (i.e).
S. Saesneg (English).
" Yr un modd (the same).
e.b. Enw Benywaidd (Feminine).
e.g. Enw Gwrywaidd (Masculine).

PLWYF TYWYN.

Caiff y plwyf ei enw oddiwrth y dref. Saif y dref ar lan basfor Ceredigion. Dwy filltir o Abersynu a phedair milltir o Aberdyfi. Dywed traddodiad fod y basfor hwn yn gorchuddio Cantref y Gwaelod a'i hunarbymtheg trefi er y flwyddyn 520. Dynodir hen furiau amddiffynol y gantref wrth yr enwau Sarn Cynfelyn, yr hon a gyfeiria i'r môr tua thair milltir yn ochr Tywyn o Aberystwyth, a Sarn Batric yr hon a gyfeiria i'r mor tua chwe' milltir yn ochr Tywyn o Harlech, a Sarn y Bwch, yr hon a gymer y mor yn ymyl Abersynu. Ond barn Daearegwyr o awdurdod uchel yw, mai rhediad cribau y creigiau o'r glenydd yw y pethau hyn, ac nid gwaith celfyddyd mewn unrhyw oes. Mae Tywyn yn lle sydd ar gynydd mawr er's deugain mlynedd. Mae yn gyrchfa llawer o ymwelwyr yn yr haf. Mesura y plwyf 26,372 o erwau, ac o werth trethianol tua £22,000. Viceriaeth yn esgobaeth Bangor yw y fywoliaeth eglwysig. Nawdd Sant yr Eglwys yw Cadfan, fel y ceir manylu eto. (Gwel Towyn).

YSTYRON ENWAU Y PLWYF.

Dilynwn yr enwau yn ol trefn y Wyddor Gymraeg.

Abertrinant.—Enw Ty Capel, a chymdogaeth rhwng Craig y Deryn a Dolaugwyn. Aber+tri+nant. Mae dwy ystyr arferedig i'r gair "*Nant*," sef "*Afonig*" a "*Cwmwd.*" Aberteirnant fuasai pe yn cyfeirio at dair afonig (e. b.). Sicr felly mai cyfeirio at dri chwmwd (e. g.) wneir yma; felly mai *trinant*, ac nid teirnant yn briodol enw ar y lle (Dos. Des.).

Aelybryn.—Ael+bryn. Ty. Lle uchel ac amlwg ar y bryn (Dos. Des.).

Abergroes.—Mae y gair "*croes*" yn aml yn nglyn ag enwau. Mae iddo ddwy ystyr,—*naturiol*, megys Croes-ffordd, neu *hanesiol*, gan gyfeirio at adeg y cleddid drwg weithredwyr ar groes-ffyrdd; ac yn arbenig at feini roddid gan hen saint Brythonig yn y cyfryw le-

oedd er cof am y ffaith hapus fod crefydd y groes wedi cael ei dwyn yno. Ond tra thebygol mai perthynas yw hwn â'r Dos. Des.

Afon Ddu.—Cyfeiriad syml at ei lliw (Dos. Des.).

Aberdyfi.—Pentref porthladdol prydferth a chynhyddol. Mae ceisio gwneyd allan ystyr yr enw hwn wedi rhoi llawer o ddifyrwch aml dro.

ABER=Dwr bach yn rhedeg i ddwr mwy.—Afon yn rhedeg i for.—Genau yr afon ger y mor.

DYFI.—Cyfnewidiad ar *Dof+wy*, *Wy=dwfr*. Pan ar *dop llanw*, mae yr ystyr hon yn fyw: ond nid wrth *lenwi* na *threio*.

Dyfi=Deifr; Dyfroedd=cyflawnder o ddwfr. *(From dubr, dwfr, or dwr; water; we have the "Dove," "Dovey," &c.*, Chambers Encyclo.). Ac o wreiddyn y geiriau hyn y cawsom *Dover*,—ac nis gall *Dover* a Dovey fod yn berthynasau pell. Mae *Dover* cydrhwng dwy wlad, ac y mae Dyfi cydrhwng dwy sir. Mae llawer o ddyfroedd Meirion, Maldwyn, a Theifi yn llifo i'r Dyfi. Mae yn afon "dyfroedd lawer."

Gellid dychmygu ystyron ereill, megys AFON DWYFWY=dwyfol+wy; i'n hadgofio am hen saint y gorphenol pell, neu AFON DYFNWY i'n dysgu i ystyried nad oes ynddi RYDAU hawdd i'w defnyddio i groesi o un sir i'r llall. Ond tueddir ni at Afon cyflawnder dyfroedd (Dos. Des.).

Abernewydd.—Gwnaed ei ffos yn nechreu y ganrif ddiweddaf. Bum yn siarad a phersonau gofient am ei gwneuthuriad. Gwnaed hi i sychu tipyn ar Forfa mawr rhwng Tywyn ac Aberdyfi. Yr oedd yn NEWYDD y pryd hyny. Gwnaed ffos drachefn i sychu y Morfa yn nes i'r De, a sychwyd yr Abernewydd *yn hollol* y pryd hyny (186—). Nid oes ond ychydig o ol lle y bu yn awr. Cofus genyf fod yn ymdrochi yno lawer tro, a chofus genyf hefyd weled un o "*saint y dyddiau diweddaf*" yn cael ei fedyddio drwy drochiad ynddi. Ond nid oes yno nac *Aber* na *newydd* erbyn hyn (Dos. Hans.).

Brynglas.—Bryn + glas (gwel Rhaglith). (Dos. Des.).

Brynerwest.—Bryn + erw + gwest (feast), gan gyfeirio at ei faint (erw) a'i fwyniant (gwest), neu Bryn + hir + west: arhosfa faith yno: ynte Bryn Arwest = Bryn llon, Bryn y gan. Gogwyddwn braidd at yr ystyr olaf, er fod llawer i'w ddweyd dros yr ystyr gyntaf (Dos. Hans.).

Bronbiban.—Bron + Piban (Pipe), chwibanogl, neu Pibydd, yr hwn sydd enw personol, megys *Pibydd Moel* a gofnodir yn y Trioedd, gyda Cholwyn a Gwesyn, fel tri Defeidydd Gosgordd Ynys Prydain. Er fod ystyr llawer o'r enwau i'w cael mewn pellder mawr, eto tueddir ni yma at yr ystyr gyntaf (Dos. Hans.).

Brynhyfrwyn.—Bryn + hy (blaenddawd grymusol i'r gair ddilyna) + brwyn. Bryn a llawer o frwyn arno, cyfystyr a Brynbrwynog (Dos. Des.).

Braichyrhenllysg.—Braich = trum o dir; hen = llawn dwf + llysg = coed. Mae *Henllys* hefyd yn enw ar lawer o ffermydd a lleoedd. Pan y golyga y rhan olaf o hono *brawdle*, a'r gair "Hen" o'i flaen i olygu addfedrwydd barn ynddo. Ond tebygol yw fod y gair wedi ei gadw yn ddilwgr yma, ac mai Braichyrhenllysg ac nid Henllys ydyw (Dos. Des.).

Berthlwyd.—*Berth*, S., a bush, a brake; *lwyd*, nid yn cyfeirio at lwydni y tir, ond at barchusrwydd y lle. (Dos. Hans.). (Gwel Bryngareglwyd).

Bronyffynon.—Palas ac amaethdy ar fron y mynydd, ac yn ateb i'w enw yn dda (Dos. Des.).

Bryncrug.—Bryn + crûg, S., a barrow; twmpath, tomen. Tebygol y cyfeiria at y crugiau claddfeydd. Nid yw y Domen Ddreiniog yn bell oddiyma (Dos. Hans.).

Brynithel.—Bryn + Ithel, enw personol. Daeth Ithel Hael o Lydaw i Brydain gyda Cadfan, sylfeinydd eglwys Tywyn. Gall fod cysylltiad rhwng ei enw ef a'r lle cysgod-dlws hwn. Mae "Llwybr Cadfan" o Tywyn yn Meirionydd, i Langadfan yn Maldwyn o fewn taith ychydig funudau i'r lle. Os nad oes cysyllt-

iad rhwng yr ITHEL hwnw a'r lle, sicr fod cysylltiad rhwng rhyw un arall o'r un enw (Dos. Hans.).

Bryncastell.—Bryn + Castell. Un o olion amddiffynol yr amser gynt (Dos. Hans.).

Bryngareglwyd.—Mae *Rhiwsaeson* a *Pantyneuadd* yn ffinio â'r lle henafol hwn. *Bryn*, a hill; *carreg*, a stone; *lwyd*, reverance, venerable, adorable, o nodwedd addolgar, neu yn nglyn ag addolgarwch. Diau fod enw y lle hwn yn ein cario at amser pell iawn yn hanes ein gwlad a'n cenedl.

Dywed y Doethor Rhys yn y *Geninen* dro yn ol, wrth egluro enw *Traeth Saith*, ger Llanarth, Aberteifi, nad oes a fyno y rhif *saith* a'i ystyr o gwbl; ond mai hen enw Celtaidd am *saint* yw *saith*, ac mai Traeth Saint yw yr enw iawn. Gwyddom fod saethon a saithon yn enw aml yn ein gwlad; a digon tebyg mai treigliad yw Rhiwsaison yn ymyl Gareg Llwyd o Rhiwsaithon=i Rhiwsaint, ac felly fod yma gysylltiad agos ag sydd yn ein cario yn ol i'r oesoedd pell, cydrhwng Riwsaison a'r Gareg Lwyd. Eto, o fewn hyd dau gae mewn tir isel, oddiwrth y Gareg Llwyd, y mae PANTYNEUADD (gwel tud. Rhaglith). Wele y *pant* prydferth, ond pa le yr oedd y *Neuadd* bwysig? Onid y "GAREG LWYD" ar y bryn yn yr ymyl? Hefyd ychydig flynyddau yn ol, pan oedd dau ewythr Mr. Haydn Jones, Y.H., yn cyfnewid yr hen adeilad syml oedd yno gynt, i adeiladu y tŷ teg sydd yno yn bresenol, lle y preswylia y nai, daeth y gweithwyr ar draws un o *barrows*, sef beddau llwch hen, hen frodorion y wlad. Yno cafwyd pridd lestri, a llestri bychain mewn llestri mwy, a llwch esgyrn ynddynt. Mae un o'r rhai bychain hyn i'w gweld gan Mr. Haydn Jones, y llall gan ei fam yn Isle of Wight, ac un arall yn y *British Museum*, ac amrai eto mewn lle dyogel yn Pantyneuadd; a dywedir ar awdurdod dda fod y priddlestri, o'r argraph hono, dros dair mil o flynyddoedd o oedran. Yr ydym yn nodi hyn i gadarnhau ein dynodiad am ystyr yr enw GAREG LWYD (Dos. Hans.).

Bronprys.—Amaethdy. Gall wneyd enw personol, megys Bron + Prys, h.y., Ap Rhys, neu Bron + Prysg = coed. Mae Prysgau isaf ac uchaf a chanol yn mhlwyf Celynin i'w cael. Bron *Priest* yw sain arall a roddir iddo gan rai, a gwnant driawd o leoedd yma er mwyn cario ystyr neillduol iddo. Bryn y Paderau, Bronypriest, a Pantynefoedd, yn ymyl eu gilydd; tipyn o goegni yw hyna. Tebygol mai Bronprysg yw yr enw llawn (Dos. Des.).

Bryn Dinas.—*Bryn* + *dinas* = fortress. Cysylltir yr enw a llawer o leoedd yn Nghymru,—Dinas Emrys, Dinas Mawddwy, &c. Cylchynir y lle hwn gan gaer o fynyddau ucheldrem. Mae gerllaw carneddi lawer. Er mai amaethdy syml yw yn awr, diau iddo fod yn lle o amddiffynfa gynt (Dos. Hans.).

Bodtalog.—*Bod* + preswylfa + *Talog* = gwr tal, uchelwr. Hen balas ardderchog. Mae llawer o chwedlau cyflafan ac ysbrydion amseroedd diweddar yn nglyn â hwn. Gwel ragor yn nglyn a Caethle (Dos. Hans.).

Bwlchllanerchrheidiol.—Dyna fel y sillebir ef yn gyffredin, ond tebygol mai ei ystyr yw *Braich* = cefnen + *llanerch* = darn o dir; *hudol*, ac nid *rheidiol;* ceir yr un ystyr a sain mewn lleoedd ereill gerllaw (Dos. Des.).

Brynmorlo.—Bryn + mor + llo. Mae y lle hwn yn ymyl y traeth, ac yn ngolwg y mor. Diau fod rhyw gysylltiad hanesiol rhwng y pysgodyn a'r enw (Dos. Hanes.).

Betws.—Mae'n ddiau fod perthynas rhwng yr enw hwn ag Abatty, &c., a'r allwedd gyffredin i'w esbonio yn awr yw, *Bead House*. Lle yn ymyl rhyw Abatty bychan ag y byddai y pererinion yn myned iddo ar eu ffordd i'r Abatty mwy (Dos. Hans.).

Crynllwyn. — *Cryn* = crwn + *llwyn* = Llwyncrwn, neu crwyn. S., *skins*, a *llwyn*. Mae y lle hyd yn ddiweddar wedi bod yn weithfa crwyn (Dos. Hans.).

Cilcemaes.—Cil + cefn + maes (Dos. Des.).

Cynfal.—Mae yn enw mynych. Mae iddo enwogrwydd hanesyddol. Cofrestrwyd ef yn lle i bregethu gan Hugh Owen, Brynclydwr, hwn, neu un arall yn

ymyl ei dŷ ei hun o'r un enw. Dichon mai enw personol oedd hwn yn cael ei roi ar leoedd. Elfenir y gair yn *Cyn*=cynt=cynar+*mâl*, sef tir mâl, neu farl, h.y., tir cynar. Ond mae yn anhawdd bod yn sicr (Dos. Tros.).

Dolwen.—*Dol*=dale+*wen*=fine=teg. Doldeg (Dos. Des.).

Dysyrnant.—*Dy*, blaenddawd grymusol + *syrn*=swrn *(a small space*, &c.)=man bychan; +nant. Mae dwy nant fechan yma, un bob ochr i'r tŷ (Dos. Des.).

Dyffrynglyngyn. — *Dyffryn*+*clyn*=*perthi* + *gwyn*. Fel yr uchod y seinir yr enw yn awr, ac hefyd er cyn cof. Ond tua deugain mlynedd yn ol, yr oedd yn y cylchoedd hyn amryw lenorion pert, a fynent esbonio enwau lleoedd, ac a gyfnewidiasant aml un yn lled fawr. Mae y lle hwn yn mhlith y cyfryw. Mynent hwy mai Dyffryn glyn cul oedd yr enw a'r ystyr briodol, a llwyddasant i gael yr enw hwn, a'r ystyr, i'w cydnabod yn dra chyffredinol. Ac wrth yr enw newydd y mae yn mynd gan bobl a ystyriant eu hunain dipyn yn gywir a choeth bellach. Ond wedi y cwbl "DYFFRYNGLYNGYN" ddywed y bobl. Ac ystyriwn ni fod yr ystyr gyntaf a roddasom iddo, yn naturiol, ac heb ddim trais ar y cynganiad. Ac heblaw hyny ceir *Dyffryngwyn* am y mynydd ag ef, a pha beth sydd yn fwy naturiol na galw y Dyffryn *perthog* hwn, sydd yn ei ymyl, ac i'w gwahaniaethu, a'u cyferbynu a'u gilydd, yn DYFFRYNCLYNGWYN (Dos. Des.).

Dolaugwyn.—Dolau+gwyn=teg. Ffarmdy mawr (Dos. Des.).

Doldyhewydd.—Saif y tyddyn hwn, yn wynebu y De, yn ymyl Dolaugwyn. *Dol* Deheuwydd=coed yn wynebu y De, neu Dyhewydd, fel yr arferir ei seinio a'i ysgrifenu. *Dyhewydd*, ffrwythlondeb yr Hydref, neu amser cynhauaf. Tueddir ni at yr olaf (Dos. Des.).

Dolgoch.—Palas o hynafiaeth, yn ymyl y Dolau ereill. *Dol*+*goch*=red dale. A oes dim yn wahanol i'w ystyried yn nglyn a'r enw hwn? Mae Coch yn fynych yn Enw Priodol. Bu Dafydd Goch (neu Gough) yn

brwydro yn Maes Pennal (am y mynydd a'r lle hwn) â Thomas ap Gruffydd. Ai tybed fod cysylltiad rhwng y Coch hwnw a'r lle hwn (Dos. Des. ai Dos. Hans.).

Caethle.—*Caeth*=a captive, a slave+*le*=an abode, trigfan. Tebygol mai perthyn i'r Dos. Hanesyddol o enwau y mae. Ond pa hanes all fod iddo? Yr ydym wedi awgrymu peth o hono yn nglyn â Gareg Lwyd. Yr oedd yr Iberiaid yn gaethion gan y Celtiaid (Brythonig) a thra thebygol mai olion o'u darostyngiad hwy sydd ar yr enw hwn (gwel Bodtalog ac Erwporthor). (Dos. Des.).

Erwporthor.—*Erw*+*porthor*=un yn gofalu am y porth. Ond pa borth? Nyni a sylwn yn awr ar y ddau enw, *Caethle* ac *Erwporthor* yn nglŷn â Bodtalog. Onid awgrymir ini gyda'r tri enw hyn, mor agos i'w gilydd o ran lle, ddefnydd hanes tra chryno. Yn *Bodtalog* yr oedd yr uchelwr, Celt, yn byw. Yn *Caethle*, gyferbyn, ac yn ymyl, yr oedd yr Iberiad gwasanaethgar wedi cael ei neillduo. Yn yr *Erwporthor*, yr oedd yntau, un ag oedd ganddo ddyledswyddau yn nglyn a dyfodiad a mynediad yr Iberiaid yn preswylio. I ni, y mae naws arogl y gorphenol pell yn y tri enw yna, sydd yn ymyl eu gilydd o ran lle (Dos. Hans.).

Erwbenlas.—Erw+pen+glas (Dos. Des.).

Erwaudd.—Erw+gwaudd=merch yn nghyfraith; erw+gwaedd=llef, cri; erw+chwaedd=porfa flasus. Mae eisiau hanes i ategu ystyron y ddau gyntaf, ond y mae natur yn desgrifio yr olaf.

Efailfeirig.—*Efail*=gweithdy gof + feirig = *Meirig*, enw personol (Dos. Pers.).

Esguan.—*Esg*=lle agored+*uan* = Huan, yr haul. Lle a'i fron yn agored i'r Haul. Mae y Fronheulog am y terfyn (Dos. Des.).

Erwgwenllian.—Erw+Gwenllian, y berchenoges (Dos. Hans.).

Esgairweddan.—*Esgair*=trum hir o dir + *weddan*, neu yn hytrach sain fymryn yn wahanol: Widdan=witch, dewines. Neu *gwydd*=coed+*an*, terfyniad bychanigol=Esgair coed fechan. Mae'r sylw ag y mae

witches wedi ei gael yn hanes llawer cymydogaeth yn peri i ni ogwyddo at yr ystyr gyntaf (Dos. Hans.).

Fachgoch.—*Fach* = bachell + *goch*, lliw, neu rhyw berchenog o'r enw Goch neu Gough.

Faenol.—*Maenol*=Doldir. (Dos. Des.).

Felinfach.—*Melin ŷd*, nid yr un ystyr a Felindre (gwel Rhaglith). *Fach*, i'w chydmaru â rhai mwy (Dos. Hans.).

Fadfa.—*Fad*=Haf+fod+*fa*, terfyniad i fan. (Gwel Rheol 1, Rhaglith).

Gesailddwynant.—*Gesail* = lle clyd + *dwy* + *nant*. (Dos. Des.).

Gwaundasau.—*Gwaun*, S., *meadow* + dasau=mydylau gwair, neu redyn, neu fawn (Dos. Des.).

Gwyddelfynydd. — *Gwŷdd*=coed+*el*, terfyniad i'r enw, fel y ceir "*el*" yn pwyntel+*mynydd*, mynydd y coediwr o ran ystyr, neu GWYDDYL, y Celtiaid cyntaf ddaethant i'r wlad hon ar ol yr Iberiaid. Os hyny, rhoddai yr enw hwn, megys amryw enwau ereill, help i ni fyned yn ol i amseroedd boreu iawn ar ein gwlad.

Geufron.—*Geu*, S., hollow = pantiog+*bron* (Dos. Des.).

Groesfaen a'r Wtra Groesfaen.—Mae maen hir ar ei ben yn y ddaear yma yn ymyl y groesffordd sydd yn troi o ffordd Tywyn i ffordd Aberdyfi. Mae ei uchder tua dwy lath a haner. Ai maen terfyn rhwng trefddegwm Cynfal a'r Faenol yw hwn yn unig, ynte un o'r Meini Hirion sydd yn myned â ni yn ol at breswylwyr cyntefig y wlad? Tebygol mai yr olaf (Dos. Hans.).

Grofft.—Cyfystyr a Cadlas, Talwrn, Maes Bychan, &c. Ceir ffarm hefyd yn ymyl Cemaes Road yn Maldwyn o'r enw hwn (Dos. Des.).

Garthmor.—*Garth*+*mor* (sea), mae y mor gerllaw, neu *mawr*, Garthmawr. Mae yn gywir o ran desgrifiad am y ddau (Dos. Des.).

Gogarth.—*Go*, S., partly+*garth*, lle braidd yn garthog (Dos. Des.).

Gelligraian.—*Gelli* = coed + *graian* = man geryg, neu grean = disglaer, prydferth. Gall felly gyfeirio at dir graianog neu at goed prydferth (Dos. Des.).

Glanymorfa.—Lle yn min morfa. Cartref genedigol Dafydd Ionawr (Dos. Des.).

Hendy.—*Hen* = cyflawn ei gadernid + *dy* (Dos. Hans.).

Esglan.—*Esg* = agored + *glan*, neu Hesg *lan*. Ateba i'r ddau ddesgrifiad (Dos. Hans.).

Llanerchgoediog.—Llanerch + coediog (Dos. Des.).

Llwynwcws.—*Llwyn* + *wcws*, hwca = bachog. Llwynbachog o ran ystyr, neu Hwcws yn enw priodol, os yn dal perthynas a Huco, yna *Llwynhwcws*.

Llanerchybleiddiau. — *Llanerch* + *bleiddiau*, S., wolves. Dichon fod hwn yn cyfeirio yn ol at amser cyn chwynu y bwystfil o'n gwlad (Dos. Hans.).

Llanerchllin. — *Llanerch* + *llin* = mountain flax, neu ynte llin, fel yn y gair llinell, yn golygu rhibyn main o dir. Mae yn ateb yn hollol i bob un o'r ddau (Dos. Des.).

Maesllefrith.—Arwydda hyn ei feithrinedd (Dos. Des.).

Morfa Gwyllt.—Etyb ei enw. Ger Abersynu (Dos. Des.).

Murpoeth.—*Mur*, S., wall; *poeth*, S., warm. Mae hwn am y terfyn ag Erwporthor. A yw hyn yn awgrymu poethi rhywbeth ar gyfer y porthor, neu ynte ai llygriad yw *poeth* o *porth*, ac mai Murporth yw yr enw yn briodol? (Gwel ar Porth Gwyn a Pentre Poeth).

Melinllynpair.—*Melin* + *llyn* + *pair*, llyn yn trochioni'n ferwol, neu felin yn puro a glanhau. Mae olion yr hen felin yno eto. Mae tua milltir yn nes i Maethlon na'r Mwnglawdd, Melinllynpair.

Melinparsel.—*Melin* + *parsel*, ychydig swm. Cyfleusdra mawr i'r werinos oedd cael melin i falu parseli bychan yn gystal a'r pynau mawr. Y mae lle a elwir

"*Parsel tuhwnt i'r Bont*" yn mhlwyf Llaneddwyn. Rhodd ydyw at wasanaeth eglwys y plwyf (Dos. Hans.).

Nantymynach. — *Nant* + *mynach* = meudwy. Caria yr enw hwn ni yn ol rai canrifoedd (Dos. Hans.).

Nantcynog.—*Nant* + *Cynog*, enw priodol, neu cunog, un a phyllau dyfnion fel cunog ynddo. Mae yn ateb i'r ddau. Tebygol mai y cyntaf yw yr ystyr (Dos. Pers.).

Nantiestyn. — *Nant* + *iestyn* = prydferth, neu Estyn yn enw priodol.

Nantgwenlli.—*Nant* + *gwenlli* = *llif* + *gwyn*, neu ynte talfyriad, ac enw anwes ar Gwenllian. Ceir "*Erw Gwenllian*" yn ymyl. Nantgwenlli (an), Nantgwynlli. Nant = cwmwd nid afonig (Dos. Des.).

Perfeddnant. — *Perfedd* = canol; nant, neu *Per* + *fedd*, S., mead, diod boblogaidd ein hynafiaid; *nant*. dan gyffelybrwydd dymunoldeb y *medd*. Tra thebygol mai yr olaf yw yr ystyr. Cwmwd yn cynyrchu mêl (Dos. Des.).

Penywern.—*Pen* + *gwern*, tir corsiog neu goediog (Dos. Des.).

Pensarn.—*Pen* + *sarn* = rhyd-lwybr. Yn ymyl Pont Synu (Dos. Des.).

Perthycutiau.—*Perth* = llwyni + *cutiau*. Dichon fod cysylltiad rhwng y "cutiau" hyn a "Cutiau y Gwyddelod" a welir yn aml yn Ngogledd Cymru, ac yn ein hadgofio am amseroedd pell. Y mae Gwyddelfynydd hefyd yn rhan braidd o'r lle a elwir yn Perthycutiau. Adran o Bryncrug yw (Dos. Hans.).

Penllyn.—*Pen* + *llyn*. Nid oes yma lyn er yn agos i ddeugain mlynedd. (Gwel Abernewydd). (Dos. Des.).

Peniarth. — *Pen* + *iarth* = *garth*. (Gwel Llanegryn) (Dos. Des.).

Pantidal.—*Pant* + *tidal*, llygriad o *hudol*. Mae yn ateb i'r enw *Panthudol* (Dos. Des.).

Penyparc.—*Pen* + *parc* = maes. Cartref yr hen ysgolfeistr enwog John Jones yn nechreu y ganrif o'r blaen (Dos. Des.).

Penmaen.—*Pen* + *maen* = tir cadarn dan droed. Mae yma uchaf ac isaf, ac ar lan llanw Dyfi (Dos. Des.).

Pantcarneddi.—*Pant* + *carneddi*. Mae lluaws o garneddi gerllaw yn annibynol ar y carneddi gwaith dwylaw dyn.

Pantyron.—*Pant* + *on*, onen. Mae "Llwynon" yn adnabyddus ddigon (Dos. Des.).

Rhydyronen.—*Rhyd*, S., ford + *onen*. Mae am y mynydd a Pantyron. Yma y dechreuodd yr eglwys Annibynol sydd yn awr yn Bryncrug.

Rhosdom.—*Rhos*, S., a moor, gwyllt-dir; *dom*, tomen, neu Rhos + drom, lle cleiog iawn yw y cae tu ol i'r tŷ (Dos. Des.).

Rhywniar, neu *Rhowniar*.—Mae llawer esboniad coegaidd wedi cael ei gynyg ar yr enw hwn. Megys, Daeth cymydog at y ty i ofyn am gardod at ginio Nadolig, ac wedi i'r gwr a'r wraig ymgynghori a'u gilydd ar y mater, dywedasant, "*Rhown iar* iddo." A byddai ei gyn-berchenog nwyfus a thalentog, Ioan ap Hu Feddyg, yn dweyd gyda hwyl mai "*Rhawn iar*" oedd ei ystyr, gan gyfeirio at y blewyn sych-lyfn a dyfai ar y trwyndir hwnw. Ond mae yn debygol mai ystyr arall sydd iddo, megys *Rhyn*, S., cape, trwyndir; *âr*, daear. Felly *Rhynar*, neu wrth ychwanegu "*i*" fel y gwneir yn Peniarth, *Rhyniar*. A "*Cape Saint Vincent*" y geilw hen forwyr Aberdyfi y lle ers ugeiniau o flynyddoedd. Mae yr ystyr hwn yn gorwedd yn esmwyth yn y gair yn gystal ag ar y lle (Dos. Des.).

Sychnant.—*Sych* + *nant*. Peth tipyn yn chwithig yw dweyd *nant* (afonig) *sych*, er y gellid tybio am nant wedi sychu, ond mae hyny yn beth hollol wahanol i nant sych, gan fod nant yn golygu afonig. Cynygiwn *Sochnant*, mae afon "Soch" yn sir Gaernarfon. Golygai Sochnant, Nant ystwrllyd. Byddai hyn yn gydweddol a'r nant hon a dweyd y lleiaf. Ond mwy tebygol mai cwmwd olygir yma wrth *nant*, ac felly fod Sychnant yn golygu cwmwd (neu hafn) sych (Dos. Des.).

Tywyn.—Dyma y dref y caiff y plwyf ei enw oddiwrthi. *Tyw*, S., what overspreads, taenfan; *wyn*= teg. Tywyn=Taenfandeg.

Mae llawer *Tywyn*, neu y dull mwy diweddar o'i sillebu, *Towyn*,—Tywyn, ger y Rhyl, Tywyn ger Llandudno, Tywyn ger Porthmadog, Tywyn ger Ceinewydd, Aberteifi, &c., ond y maent oll gerllaw y mor, ac ar dywod-dir. Felly diau fod yr enw o ran ei ystyr yn cymeryd i fewn y daenfa deg o dywod glan sydd o dano.

Y mae amryw enwau hynod yn nhref Tywyn, a dichon mai yn awr y byddai yn fwyaf trefnus i gymeryd gafael ynddynt. Nyni a gydiwn yn llinyn yr *Abieciaeth* (trefn y Wyddor) eto i derfynu a'r plwyf hwn.

Byddai Tywyn yn cael ei rhanu gynt i wahanol barthau. Megys, Gwalia, Drenewydd, Pendre, Ochrdraw i'r dre, Penisa'rdre, College Green, Porthgwyn, Pentrepoeth, a Morfa Bach, &c. Nid oes angen gwneyd sylw ar yr oll o'r enwau hyn: gwnawn sylw ar y rhai mwyaf dyrys o honynt.

College Green.—Dyma y rhesdai brydferthaf yn Nhywyn haner can' mlynedd yn ol. Sut y cafodd yr enw? Tu cefn i'r rhesdai hyn, gyda mynedfa o *Church Street* ato, yr oedd Crwynfa,—mae rhai yn fyw yn awr yn cofio ei weled. Un Mr. Evans oedd y perchenog. Arferai Mr. Evans fynd yn awr ac eilwaith i'r Iwerddon yn nglyn a'i fasnach; pan y deuai adref byddai ganddo lawer i'w ddweyd am wahanol leoedd yno, ac am le a alwai yn "*College Green.*" Aeth ef a'r cyfeillion arferent ddod yno i wrando arno i alw yr ystfaell hono yn y Crwyndy yn *College Green*, &c. A phan adeiladwyd y rhes dai brydferth hono, yr oedd yr enw wrth law i'w roddi arnynt. Dyna, yn ol Dr. Griffith Evans, Bangor, yr eglurhad sydd i'w roi ar yr enw hwn (Dos. Tros.).

Gwalia.—Saif ar ben y gefnffordd, ac ar fin y Morfa sydd yn arwain o'r dref at Afon Synu. Gwalia=Gaul=Wales,—Gwalia yw un o enwau Cymru. A dderbyniodd y lle hwn ei enw oddiwrth y wlad, yr un modd ag y derbyniodd "*Gwalia House*" ef yn Llynlleifiad? Ynte a

ydyw yr enw hwn ar y lle yn gydredol a'r enw ar Gymru yn gyffredinol o'r dechreuad. Yr ydym yn cael ein tueddu i dybio yr olaf. "*Among the Celts the family estate was called* GWELY" (Welshmen: T. Stephens, B.A.). A thybio yr ydym mai *Family Estate* rhyw Geltiaid gynt oedd yma, a alwent "*Gwely*," ac mai o'r gair yna, mewn dull hollol briodol y cafodd y tai hyn, a'r llanastr mawr tir sydd islaw iddynt, eu galw yn *Gwalia* a *Morfa y Gwalia* (Dos. Des.).

PENTREPOETH a PORTHGWYN.—Mae y ddau le hyn yn ymyl eu gilydd, yn y pen agosaf o'r dref i'r mor yn y dyddiau gynt. *Porth*, S., porch; *drws+gwyn*=teg. Lle dymunol i dderbyn rhai ar eu dyfodiad o'r mor i'r dref. Yn ei ymyl mae rhes dai (neu yn hytrach yr oedd gynt) o rhyw haner dwsin o dai bychan (ond yr oedd adfeilion o'u cwmpas yn dweyd fod yno dai wedi bod o'u blaen hwy), gelwid y tai hyny yn ymyl Porthgwyn yn Pentreboeth. Yn awr beth yw yr ystyr? Ai *pentre+poeth*, warm, cynes, ac yn dynodi fod deiliaid y Pentrepoeth yn darparu rhywbeth fyddai frwd neu gynes ar gyfer gofynion Porthgwyn?

Mae *Erwporthor* a *Murpoeth* yn ymyl eu gilydd hefyd, ac wele yma *Porthgwyn* a *Pentrepoeth* yn ymyl eu gilydd. Neu ynte, ai llygriad yw y gair *poeth* yn y ddwy engraipht o'r gair *porth?* Mai *Murporth* ddylasai y naill gael ei alw, ac mai *Pentreporth* ddylasai y llall gael ei alw. Tybio yr ydym mai y cyntaf yw yr ystyr briodol, pa gyfrif bynag sydd i'w roi i'r gair poeth yn y naill le a'r llall. Mae Porthgwyn erbyn hyn yn fasnachdy mawr yn *nghanol* y dref, ac nid y lle agosaf o'r dref i'r mor (Dos. Hans.).

TREFRI, TREFRY, TREFFRIDD (fach a fawr).—Mae y lle hwn yn cael ei sillebu yn dra gwahanol, yn ol yr ystyr y dymuna pobl roddi iddo. *Trefri* yw y dull mwyaf cyffredin o'i ysgrifenu a'i gynghanu. A oes cyfathrach rhyngddo a'r gair *Trefriw?* Mae y ddau le mewn safiad hynod debyg. Y naill ar fron Dyffryn Conwy a'r llall ar fron Dyffryn Dyfi, mae llanw y mor yn dod i olwg pob un o honynt. Ond dichon mai yn ei ddull

symlaf y rhydd ei ystyr oreu. *Tref*, a homestead=preswyl; *fri*=gwerthfawr, rhagorol, dymunol, &c. Preswyl bri (Dos. Des.).

TAFOLGRAIG.—*Tafol*, S., the dog plant, llysiau tafol + *craig*, y llysiau yn gorchuddio y graig (Dos. Des.).

YSGUBORIAU.—Amaethdy mawr yn ymyl Ynys Maengwyn. Awgryma hyn nad oedd Ysguboriau gynt yn ffarm ar ei phen ei hun; ond "*tai allan*" mewn cysylltiad a'r Palas (Dos. Hans.).

YNYSMAENGWYN.—Yma gynt yr oedd yn byw Corbett (nid yr un teulu a'r Corbet sydd yn ei berchenogi yn awr) perchenog y rhan fwyaf o'r plwyf a rhanau helaeth o blwyfi Pennal a Thal-y-llyn. Llosgwyd y palas yma i'r llawr yn nyddiau y Rhyfel Cartrefol rhag i fyddin Cromwell gael dim o'i gwynfyd arno nac ynddo. *Ynys*, lle yn cael ei gylchynu gan ddwr neu rhyw ddiffyn arall; *maen* S., stone=main+*gwyn*, teg. Ac y mae drwy y blynyddoedd yn aros yn degwch bro, Ynysmaengwyn (Dos. Des.).

MYNYDDOEDD PLWYF TYWYN.

1, Mynydd Esgair-widdan; 2, y Pentre; 3, Rhydgaled; 4, Cedris; 5, Rugog; 6, Tynyceunant; 7, Braichgoch; 8, y Waun; 9, Gwrachfynydd; 10, Corlanfraith. Mae enwau y mynyddoedd hyn a'r ffermydd yn un a'u gilydd, fel y mae esbonio y naill yn esboniad i fesur digonol ar y llall.

TARENAU RHWNG DYFI A SYNU.

Taren=bryncyn.

1, Taren Cwmffernol. Cwm+ffernol, hyll a brawychus fel uffern. 2, Taren y Gelli=gelltyd. 3, Taren Nantymynach (gwel ar y gair hwn). 4, Taren Fach. 5, Taren Hendre. 6, Taren y Gesail (gwel ar Gesail).

MOELYDD.

Llawer o fynyddoedd yn cael yr enw "Moel."

1, Moel y Geifr; 2, Moel Maestrefnant; 3, Moel Ddu; 4, Moel Fawr; 5, Pentrumgwr.

LLYNOEDD.

1, Llyn Barfog; 2, Llyn y Borth; 3, Llyn Penyroror; 4, Llyn Tanygraig.

CREIGIAU.

Rhwng Dysynu a Mawddach.—1, Craig y Barcut; 2, Craig yr Aderyn; 3, Craig Ysgiog; 4, Craig Ddu; 5, Craig Lwyd; 6, Craig Cwmrhwyddfor. Rhwng y Dyfi a'r Dysynu: 7, Craig Cwmamarch; 8, Craig Las; 9, Craig Llyn; 10, Craig Cwmllwyd.

AFONYDD.

Afon Dysynu neu Synu.—Cychwyna hon ei thaith yn Talyllyn ar un llaw, ac yn Cwmrhwyddfor ar y llaw arall. *Araf* a *syn* yw ei holl daith i'r mor. *Dysynu.*—Afon—di—swn—wy, ydyw ei hystyr gan lawer. Dywed y Doethawr Rhys fod gormod o awydd mewn llenorion i gario dwr (gwy) i afonydd; fod rhoi afon ar y dechreu a "*gwy*" ar y diwedd yn ei gwneyd yn rhy afonog, ac mewn perygl o foddi y synwyr. A dywed drachefn, yn ei ddull chwyrn ei hun, fod y dwr hwnw yn nes i ymenydd y cyfryw bobl nac i'r afon. Boed hyny fel y bo. *Afon*, y rhedlif; *synu*, syn, bron sefyll. Onid hyn yw nodwedd yr afon, ac onid yw hyn yn dod allan yn ddidrais o'r sain a roddir i'r enw Dy+synu; y "*dy*" yn flaenddawd grymusol i ddangos ei bod wedi *llwyr* synu. Gellid cadarnhau y golygiad yma, ni a dybiwn, oddiwrth enw afon yn Ffraingc, sef *Saone*, a'r hyn a ddywed awdwr galluog mewn perthynas iddi.

Dyma fel y dywed yr enwog John Walters, M.A., yn ei "*Dis. on the Welsh Language.*"—"*It is evident from the critical observations of our learned Camden and the great Bochart among the French, that the most ancient names of cities, towns, rivers, mountains in several parts of France, and every where in Great Britain, are naturally, and without the least straining, resolved or analysed into Cambro-British, i.e.*, WELSH." Yn Ffraingc hefyd, mae afon o'r enw "*Arar*," ac fel hyn y dywed yr awdwr am hono: "ARAR *(a river in France now called* AL SAONE) *from the Cambro-British,* 'ARAF,' *slow; and nothing can be more expressive of its property, for its course is so slow that it can hardly be discerned,* &c." Nis gallesid cael darluniad cywirach o nodwedd rhediad Afon Synu, ac onid yw hyn wedi cael ei ddweyd filwaith am dani gan breswylwyr ei glanau: Afon Araf, Afon Synu (Dos. Des.).

AFON DULAS.—Mae ystyr hon heb ddadl yn ei gylch. Rhed y Llwyfeni a'r Eiddew iddi, ac yna a i Afon Dyfi cyn cyraedd Machynlleth.

AFON FATTHEW.—Cyfyd hon yn Cwm Dolaugwyn, a rhed drwy Bryncrug i'r Dysynu. Caiff yr afon a'r bont yn Bryncrug eu henw oddiwrth rywun o'r enw Matthew (Dos. Per.).

AFON TYMAWR.—Rhed o Ffridd Tymawr, yn agos i'r Gorlanfraith a thrwy Tywyn ac i'r mor. Gynt, yn Afon Synu, ond bellach ar ol sychu y Morfa, cyrhaedda y mor yn nes i Tywyn nag Abersynu.

AFON MELINLLYNPAIR, TYNYCORNEL, CAETHLE, &c. —Tardda hon tua Pantycarneddi a Dysyrnant, ac â i'r mor mewn ffos newydd o dan Gaethle.

Mae yma NENTYDD lawer ar enwau y tiroedd yr ant trwyddynt, megys: 1, Nant Ceiswyn; 2, Nant Coedwig; 3, Nant Llwydiarth; 4, Nant y Daren; 5, Nant Lliwdy; 6, Nant Cwmbreichiau; 7, Nant Geseiliog, Gwril, ac Arthog, &c. Mae y nentydd bron oll yn cymeryd enwau y tiroedd yr ant trwyddynt, felly nid oes angen egluro.

ATODIAD.

Cadfan.—Sant, ganedig yn Llydaw. Dod drosodd i Brydain tua 516. *Eglwys.*—Yn plwyf Tywyn, Meirionydd, ac yn Llan Gadfan, Maldwyn. *Careg Cadfan.*—Ysgrifiad arni yn nodi ei hystyr yn mur eglwys Tywyn. *Ffynon Cadfan.*—Islaw y fynwent. Meddyginaethol. *Llwybr Cadfan.*—O Tywyn i Langadfan. Yn olrheiniadwy yn awr. 1, Pistyll Cadfan; 2, Eisteddfa Cadfan, i gyfeiriad Bryn yr Eglwys. Yna Lloeron, Bwlchygroes, Mynydd Pennal, dros Afon Dulas, Mynydd y Fotty, Taren y Gesail, Bwlch Llydan, Pantperthog, Cwmcadian, Esgairgeiliog, Gallt y Rhiw. Yna eto, y llwybr wrth ei enw, "Llwybr Cadfan." Maesycwm, Moel Eulyn, oddiar Cwm y Gath, Cwm Coeg, Esgair Angell, Plwyf Mallwyd, Dolcorslwyn, ac yn fuan yn ngolwg Llangadfan.

Ystumaner.—Enw mewn llyfr, ac nid ar lafar yw yr enw hwn wedi bod hyd yn ddiweddar. Mae ei ystyr yn anmhenodol. Cytunir mai *Maenor* olygir wrth y rhan olaf o hono. Ond beth am y rhan gyntaf, Ystum? (Nid awn ar ol y dyfaliadau lu). Mae Llan+ystum+dwy yn sir Gaernarfon. "*Dwy*" yn ddiau yn golygu yr afon *Dwy*fawr. Mae yr afonydd hyn yn droellawg iawn eu hynt, h.y., yn *ystumiawg* ar eu taith. Mae Ystum+dwy yn eglur yno. Onid yw y Maenor hwn yn gilfachog iawn hefyd. Canfyddir yn hyn yr ystyr a roddwn ni i Ystum+Maenor. Nid oes eisieu cyfnewid arno. Mae yn lled eglur.

RHAI ENWAU HYNOD DIWEDDAR.

Pall Mall and Picadilly.—Tai ar ochr y ffordd rhwng Tywyn ac Ynys Maengwyn. Gwarogaeth i Lundain.

Neptune Hall.—Aneddfawr, ar lan y mor, godwyd gan J. H. Caethle. Yr enw oddiwrth dduw y mor=Neifion.

Warwick Place.—Yn agos i Neptune Hall.

Plas Bedoes.—Bedoes a'i hadeiladodd yn nechreu y ganrif ddiweddaf, ac a fu fyw ynddo hyd y *fifties* (50ies).

Plas Edward.—Yn lled agos i Plas Bedoes.

Plas Jolly.—Ty bychan rhwng Bodtalog a Cathle. Wedi syrthio.

RHAI CAEAU YN YMYL TYWYN.

Cae'r Brenhin, Richard Owen; Cae Tanws, wrth hen T. H., Pentref; Cae'r Ffynon, o flaen Ffynon Cadfan; Cae Llwyd, Parch. H. Lloyd; Caenadrodd, un o gaeau Bedoes; Cae Saithbladur, yn ymyl Garegarw.

Teimlir fod maes y geirddehonglydd yn mynd i lawer o feusydd ereill.

PLWYF LLANFIHANGEL Y PENNANT.

Llanfihangel.—*Llan*=eglwys+*Mihangel*=Michael yr archangel. Mae oddeutu deugain o eglwysi yn Nghymru wedi eu cysegru i Michael. Dywed y Doethawr Rhys fod yr eglwysi a gysegrwyd i "Michael yr *Archangel*," yn blaenori cyfnod cysegru eglwysi i *Seintiau*, megys Mair, Pedr, &c. Saif Llanfihangel-y-Pennant yn ngodreu Cadair Idris, a gerllaw y ffrydiau cyntaf ant i ffurfio Afon Synu. Mesura tua 8,321 o erwau, a'i werth trethianol yn £1,900. Y fywoliaeth eglwysig yn Viceriaeth yn Esgobaeth Bangor. Bu yn cael ei ddal gynt gan Vicar Tywyn, mewn cysylltiad â Tywyn, a'r un modd hefyd y bu Talyllyn, Pennal, ac Aberdyfi.

YR ENWAU.

Bodilan (fach a fawr).—*Bod*=preswylfa+*Ilan*, mae Ilan yn enw personol. Cysegrwyd eglwys i'r Sant Ilan

yn Morganwg. Neu, fod Ilan wedi ei lygru o Elan, ac mai Bodelan yw yr enw yn gywir. Mae llawer o enwau wedi eu cysylltu ag Elan neu Elen, megys Dolwyddelen, Llanwyddelen, &c. (Dos. Hans.).

Brynyreglwys.—Bryn + eglwys. Saif uwchlaw Aberganolwyn yn y cyfeiriad deheuol. Y mae traddodiad ac olion am eglwys yma, yn enwedig am y fynwent. Mae "Llwybr Cadfan," "Pistyll Cadfan," "Eisteddfa Cadfan," &c., yn rhibyn o Dywyn tuag at y fan. Mae "Beddau y Gwroniaid," "Cantrybedd" (Cant+tir+bedd) gerllaw. Er fod chwarel Brynyreglwys yn crych rwygo yr arwynebedd yma, eto teimlir fod awelon o'r dyddiau gynt yn ein hadgofio am Deml Duw fu yma unwaith (Dos. Hans.).

Caerberllan.—Palas henafol, gyferbyn, ac yn ymyl Castell y Bera. *Caer*=a fort+*berllan*=gardd ffrwythau pêr, neu Cae=maes+'r+berllan (Dos. Des.).

Cantrybedd.—*Cant*=cylch; *try*=llygriad o "tir," +y+bedd. Cyfeiriad at fynwent yr eglwys yno.

Caetidlian. — Cae+*tid*=llygriad o tud=rhandir+*lian*, llygriad o leian, S., *nun*. Awgryma hyn yr amser gynt. Adgofia ni am Brynyreglwys, a Nantymynach sydd gerllaw. Tebygol mai yr ystyr yw *Caetudleian* (Dos. Hans.).

Dyshefin. — *Dys*, blaenddawd grymusol + *Hefin*, hafaidd. Lle hafaidd (Dos. Des.).

Gwastadfryn.—Gwastad+bryn. (Gwel Rhaglith). (Dos. Des.).

Gernos.—*Gern*, llygriad o gwern, coed, neu gorsdir; *os*, bychanigyn atodol, megys yn plant, plant*os*, felly Gwernos (Dos. Des.).

Gamallt.—Gam+allt (Alltgam) (Dos. Des.).

Hendrewallog. — *Hen*=llawn gadernid+*dre*=preswylfa+*Wallog*, neu Gwallog, enw personol. Onid hwn yw Gwallawg ab Lleenawg y ceir caneuon iddo yn y *Myvyrian Archaiology* gyda'r penawd "*I Wallawg?*" Cysylltir ei enw gan awdurdodau uchel a'r lle hwn. Mae ar y ffordd o'r Aber i Machynlleth (Dos. Hans.).

Hendre.—*Hen* = cadarn + *dre* = preswylfa (Dos. Hans.).

Llwynyfynwent.—*Llwyn*, S., a bush + fynwent. Mae y lle hwn yn ymyl Gorsaf y Rheilffordd: ond nid oes yno heddyw ond yr olion lleiaf am y peth a fu gynt. Mae gerllaw yma hefyd dai llwyr ddadfeiliedig gan henaint a elwir *Tainewyddion*. Gwna y pethau hyn yr ystyriol yn syn ag yn brudd yn y lle. Mae amser yn newid pethau yn fawr (Dos. Hans.).

Llanllwyda.—*Llan* + *llwyd* = gwych + *a* = Manyn o arth = garth = llechwedd y bryn: felly yn gyfystyr a Llangarthdeg (Dos. Des.).

Nantcai.—*Nant* + *cai;* mae y nant basia y ty yn dyfod o Lyn Cai. (Cai, Cau a Caw, ydynt enwau Celtig y wlad, ac wedi eu cydio yn nglyn a llawer o leoedd a llynoedd, megis Cawlyd, &c.). Gelwir ef yn gyffredin Nantco (Dos. Des.).

Nantllwyngwedd. — *Nant* + *llwyn* + *gwedd* = golygus; felly yn gyfystyr a *Nantllwynprydferth* (Dos. Des.).

Nantyreira.—Nant + *eira*, S., snow. Mae lle o'r un enw yn Maldwyn (Dos. Des.).

Pennant.—Pen + nant (Dos. Des.).

Rhiwogo.—Rhiw + ogof (Dos. Hans.).

Rhiwerfa.—Rhiw + erfa = talfyriad o eirfa; cyfeiriad at arfau brwydrau y dyddiau gynt. Mae yma amrai enwau ereill yn cyfeirio at amseroedd ymrafaelion yr hen breswylwyr (Dos. Hans.).

Tynyceunant. — *Ty* + *yn* + *ceu* = hollow = pantiog + nant. *Ty yn y nant geuog* (Dos. Des.).

Abergynolwyn.—*Aber* = cyswllt mwy nag un ffrwd ar daith. (Gwel Aberdyfi); *gyn*, llygriad o gan = ganol; *wyn*, gwyn. Y ddau ddull mwyaf cyffredin o sillebu y gair yw, Aber*gyn*olwyn ac Aber*gan*olwyn. Tueddir ni at yr olaf; golyga felly *canol gwyn*. Yn dangos felly degwch y lle. Mae gwyn, "teg" yn cael ei gysylltu ag amryw o'r lleoedd hyd y Dyffryn o frig y mynydd i lan y mor.

Mae un o'r nentydd yn dod o ffynon Gwernol, a rhed dan yr enw Gwernol i'r Aber, a cheisia rai roi ffurf yn ol perthynas y Nant Gwernol a'r lle, a'i alw wrth yr enw Abergwernolwy, sef Aber + gwernol + wy = dwr = llif. Ond teimlir fod hwn yn enw newydd, ac y rhaid stumio llawer ar yr hen enw mewn trefn ag i gael lle iddo. Tybiwn mai *Aberganolwyn* yw yr enw priodol (Dos. Des.).

Castell y Bera.—Mae hanes y Castell hwn yn orchuddiedig gan niwl pell a thew y gorphenol, ac felly y mae ystyr ei enw o angenrheidrwydd yn aros yr un modd. Ai enw *person* (a person) ai ynte *peth* (a thing) yw Bera? Os cynrychioli *peth* neu bethau y mae, ai Ber = ll, berau *(spears)* a wna? Arfau amddiffynol triganwyr y castell, *Castell y Berau*, the Castle of Spears. Neu os cyfeirio at berson neu bersonau, at bwy? Wrth gymeryd yn ganiataol mai at berson neu bersonau y cyfeirir yma, gwelwn y sillebir ef yn dra gwahanol gan lawer.

Castell y Byr, gan Gruffydd Hiraethog.
Castel y Biri, gan Vychan o'r Hengwrt.
Castell Treseri, gan Owen Jones.
Castell Teberri, gan Pennant.
Castell y Beri, gan Cathral.

Ac y mae Ieuan Brydydd Hir, fu gynt yn giwrad yn eglwys Tywyn a'i chylchoedd, yn maentumio mai "Castell yr Aberau" ydyw ystyr yr enw. Dengys hyn fod tywyllwch caddugawl o gwmpas y lle a'r enw. Cydnabyddir ei henafiaeth a'i ardderchawgrwydd gan bawb, er nad yw o faintioli Castell Caernarfon, Conwy, &c. Gofynwn hyn i awdurdodau uchaf hanes ac iaith y Cymry: *Ai nid oes perthynas uniongyrchol cydrhwng* BERA *ag* IBERIAD? Onid yw traddodiad yn dweyd wrthym am *ogofeydd* sydd bron yn anhygoel yn nglyn a Chastell y Bera? Onid oedd yr Iberiaid yn breswylwyr tyllau ac ogofeydd y ddaear cyn bod yma gastell o gwbl? Oni buasai *greddf amddiffynu* yn arwain pobl gelfus i

adeiladu castell yn y cyffelyb fan, ag y buasai *greddf ymguddio* er mwyn diogelwch yn arwain rhai llai ffodus i fyned iddo? Dymunwn inau ychwanegu un enw yn rhagor felly at restr y ddamcaniaeth yn nghylch enw Castell y Bera, sef Castell yr Iberiaid (Dos. Hans.).

MYNYDDOEDD.

Cadair Idris.—Dyma frenhin fynydd Meirion. Perthyna i ochr Llanfihangel fel i ochr Dolgellau. Uchder, 2,929. *Cadair*, Chair; *Idris*, Cawr Idris. *Cadair* y seryddwr. Nid *Cader* yr amddiffynydd. Mae y chwedloniaeth yn nglyn ag ef yn amryw a lluosog. Mae mynd ar ol hyny yn perthyn i'r Hynafieithydd, ond nid hyny ddisgwylir yn y Traethawd hwn. Ofnwn ein bod eisoes wedi ein hudo i gerdded ar y mwyaf o'i faes ef.

Craigyderyn.—*Craig* = noethfryn + *deryn*, y lluosog-rwydd o adar wedi meddianu y lle. Gelwir hi felly Craigyderyn (Dos. Des.).

Ar *Craigyderyn* ceir y pethau canlynol: (1) *Castell*, mewn lle uchel oddiar Dysefin, a gelwir ef yn gastell Dysefin. (2) *Tap y Spi.*—Bryn uwchlaw y castell i wylio dynesiad y gelyn. *Tap* = top; *Spi* = spy. (3) *Y Gaerwen.*—Caer + wen, amddiffynfa wych. Mae olion amddiffynfa nodedig yma. (4) *Y Palis Mawr.*—Yr oedd natur wedi gwneyd dwy amddiffynfa yma sydd yn mynd wrth yr enw hwn.

Clwt Maen Hir.—*Clwt* = llecyn = *maen* + *hir*. Mae amryw o'r Meini Hirion yma. Ceir y lle hwn ar lwybr y mynydd rhwng Abergynolwyn a Machynlleth, ac uwchlaw Pont Llaeron. Mae yma dri o feini hirion, ac yn amlwg i'w canfod o bell. Mae Maen Hir hefyd yn ymyl Caerberllan: cant yr enw oddiwrth eu maint a'u ffurf.

PLWYF PENNAL.

Mae'r pentref o fewn Cantref Estumaner. Saif ar hen ffordd Rufeinig a elwir "Sarn Helen" yn agos i'r Dyfi. Mesura y plwyf 7,461 o erwau, a'i werth trethianol yn £3,356. Y fywoliaeth eglwysig yn Viceriaeth yn Esgobaeth Bangor. Cysegrwyd yr eglwys i Pedr, ond ni alwyd y dreflan yn Llanbedr, fel y gwneir a llawer ereill. Yr un peth ellir ei ddweyd am Tywyn, ei mam eglwys, cysegrwyd hithau i Cadfan, ond nis galwyd y dreflan yma ychwaith yn Llangadfan, a'r cyffelyb sydd i'w ddweyd am Talyllyn; cysegrwyd hithau i Mair, ond ni elwir y lle hwnw yn Llanfair. Paham hyn? gan fod y lleoedd yn gyffredin yn mynd wrth enw y sant eglwysig?

Ai rhy *ddigydio* oedd y preswylwyr wrth bethau crefyddol i wneyd yr eglwys yn un math o *ganolbwynt* i'w bywyd? ac yna i lynu wrth ochr *ddaearol* pethau hyd y nod mewn enwau. Os nad oedd yr eglwys yn cael sylw y bywyd mewn ambell gymydogaeth, dichon y ceir cyfrif yma am y *pam* nad ymwisgasant dan enw yr eglwys, canys nid mater o osodiad, nac o gyfraith oedd hyn, ond mater o ymollwng i arferiad. Gadawn hyn-yna i ystyriaeth y myfyrgar.

YR ENWAU.

Aberafan.—*Aber*+*afan* = ban, uchel, trystiog: neu gellir ei gymeryd, Afan, llygriad o Afon. Ceir pob un o honynt yn enwau Morganwg, Aberafan, ac Aberafon (Dos. Des.).

Bronaer.—Bron+aer, etifedd (Dos. Hans.).

Cefnesgairgoch.—*Cefn*=trum o dir; *esgair*=estyniad hir o dir+*goch*, heb lawer o dwf yn weledig arno (Dos. Des.).

Cwmbreichiau.—Cwm+breichiau, tir estynol (Dos. Des.).

Cwmcadian.—Nid Cwm Cadi Ann. Gellid dwyn rhesymau dros y rhai canlynol: 1, Cwm Cadfan; 2, Cwm Cadnant; 3, Cwm Cadian. Tra thebyg mai y trydydd yw yr agosaf i'r nod (Dos. Hans.).

Cwmgilia.—Cwm+gil, meddalu yr "*c*" yn CIL= cornel+a, y terfyniad lluosog *au* heb fod yn llawn, felly *Cwmciliau*, llawn o gilfachau (Dos. Des.).

Cwtwshelyg.—*Cwtws*, S., a lot=coelbren + *Helyg*, enw personol, neu y pren helyg.

Cyllellog.—*Cyllell*, S., a knife; *og*, olddodiad yn gwneyd enw dansoddol *(abstract noun)* neu ynte ansoddair *(adjective)* o hono, ac i olygu felly *arfogi a chyllell*, os hyn (Dos. Hans.). Neu *Cyll*=coed+*ellog*. olddodiad i ddangos nerth nodweddiadol y cyll, i roi golygfa tebyg iddynt eu hunain ar y lle. Pleidiwn yr olaf (Dos. Des.).

Caerbage.—Cae+'r+bage, cyfnewid ychydig ar y terfyniad (yn ol arfer gyffredin) i *e* o *wy*=bagwy=bachell,=Cae'rfachell neu Cae'rcornel. Neu gellid tybio am gyfnewidiad arall, *Cae'rbugail*, ond tra thebyg mai y gyntaf yw yr oreu (Dos. Des.).

Dolgragen.—*Dol+cragen*, a shell. Mae cregyn y mor a chregyn ereill i'w cael yma; neu Dol+greigen. Mae'r graig yn ymyl y wyneb yma (Dos. Des.).

Esgairaelfryn.—*Esgair* + *ael* = ochr + *bryn* (Dos. Des.).

Felindre, neu *Flindre*, o villain; cartre y caeth. (Gwel Rhaglith) (Dos. Hans.).

Graiandy.—Gwel *Gelligraian*.

Hafotty Llelo.—*Hafotty+llelo*, lleban, lelo, lolyn (Dos. Hans.).

Llanerchbleiddiaid.—Gwel *Llanerchbleiddiau*.

Lliwdy.—*Lliw*, S., colour; *dy*, a dyeing house (Dos. Hans.).

Maesbrynar.—*Maes*, S., a field; *brynar*, newidiad o braenar=Maesbranaredig (Dos. Des.).

Maeswerngoch.—*Maes* + *wern* + *goch*. Coch gan waed Siencyn Vychan, a laddwyd gan ei was, medd tra-

ddodiad: ond tebycaf yw mai cyfeiriad sydd yma at ddiffrwythdra y wern.

Marchlyn.—*March* = a horse + llyn (Dos. Hans.).

Pandy Rhosfarch.—*Pandy* + *Rhos* + *farch* (Dos. Hans.).

Pantlludw.—*Pant* + *lludw*, ashes; llwch golosg, neu Pant + llwyd + wy, Pantafonlwyd.

Pantspydded.—*Pant* + *spydded*, neu *Spadded*. Lle y byddid yn yspaddu ar anifeiliaid (Dos. Hans.).

Penpiner.—*Pen* + *pin* = brig + *âr*, Penuchel y tir (Dos. Des.).

Pennal.—*Pen* + *al*, S., a fence = Pendiffyn; *Pen* + *al*, S., excellent = Penteg; *Pen* + *al*, S., gliding = Pengogwydd. Defnyddir *Al* hefyd yn flaenddawd, *Al* + *ban* = Uchelfan. Gellir tybio am ystyron ereill iddo: Penallt, yr *ll* wedi meddalu, a'r "*t*" wedi'i cholli. Penael neu ochr y pen, ael y bryn; *Pennal*, Pen + tal, y "*t*" wedi ei llyncu, ac felly yn golygu pen uchel neu amlwg. Defnyddir yr enw ar lawer lle yn y gymydogaeth, megys Blaen Pennal, Pennal Uchaf, Pennal Isaf, a Pennal Ganol, a'r Pentref Pennal. Mae yn dra thebygol ei fod yn cyfeirio at *ffurf* y tir (Dos. Des.).

Daw amryw enwau neillduol i fewn yn nglyn a hynafiaethau y lle, megys *Maes Pennal*. Tebygol mai "tir cyffredin" yw y gwastadedd mawr yma wedi bod amser yn ol. Maes brwydrau lawer, ac yn yr ystyr hono yr adnabyddir ef fel *Maes Pennal*.

Y Domen Las.—*Tomen*, un o gladdfeydd cyn breswylwyr y tir, ac mae traddodiadau am y lle hwn fel maes brwydrau, yn rhoi ar ddeall ini fod yma lawer o laddedigion wedi eu claddu. *Las* = llas = lladd, ac felly yn golygu lladdedigion. A thra thebygol yw fod "*Y Domen Las*" yn golygu nid y lliw sydd arni, ond y lladdedigion ynddi.

Cefncaer.—Hen amddiffynfa Rufeinig. Adeiladwyd y brif gaer yn bedair onglog, yn amgylchynedig a mur cadarn, a ffos lydan o ffurf hirgrwn. Adeiladwyd y muriau allanol o gareg arw, galed a gludwyd yno ar

hyd y dwfr o "Talgarreg" (Talgarreg yn ymyl Abersynu). Eglur yw i'r gaer hono gael ei dymchwelyd cyn adeiladu eglwys Pennal, oherwydd fod yn muriau yr eglwys amryw o briddfeini amry-blith â'r ceryg a ddygwyd yno o'r Gaer. Cafwyd yno arian bathol o argraph Augustus a Tiberius.

Esgairlyfurum neu *Ysgarlyfuryn*.—Mae y lle hwn yn agos i Pantlludw. Mae iddo hanes lawer. I Esgairlafuryn yr aed a gwely barotowyd i'r brenhin Siarl II. mewn ty yn Machynlleth. Mae gwahanol ddulliau o geisio elfenu y gair i gael ei ystyr. Megis Esgair-Foel-Eiryn. Dywed rhai *Euryn*=aur, yn lle o brydferthwch gwirioneddol.

Lleucu Llwyd.—Merch ieuanc hynod am ei glendid a'i harddwch, ac yn byw yn Dolgelynen, Pennal, yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Gosodasai ei serch ar y bardd Llewelyn Goch o Nanau, ond gwrthwynebai ei thad y garwriaeth. Effeithiodd hyny gymaint ar Lleucu fel y llewygodd yn ddisymwth, ac y bu farw. Cyn ei phriddo daeth Llewelyn yno, pan y gwelodd hi yn ei harch syrthiodd yntau i lewyg, ond ymddadebrodd eilwaith, a chanodd y cywydd pruddglwys sydd yn dechreu fel hyn:

"Llyma haf llwm i hoeyw fardd,
A llyma fyd llwm i fardd."

PLWYF TALYLLYN.

Saif y Llan hon ar lan llyn prydferth yn nosbarth Dolgellau, o dan gysgod Cadair Idris. Mesura 15,182 o erwau; gwerth trethianol yn £2,778. Llawer o'r tir yn fynyddig. Y fywoliaeth eglwysig yn guradaeth barhaol yn Esgobaeth Bangor. Cysegrwyd yr eglwys hon i Mair, ond ni adnabyddir y gymydogaeth fel Llanfair, megys y gwneir â lluaws o eglwysi ereill yn Nghymru a gysegrwyd i'r Santes Mair. (Gwel ar plwyf Pennal).

YR ENWAU.

Abercwmeiddew. — *Aber* + *cwm* + *eiddew* = iorwg; S., ground ivy, ivy berries, ivy. *Cwmiorwg.* Eiddew, enw personol. Ceir a ganlyn yn Englynion y Beddau: —"Eitew ac Eidal diessic alltudion." Ceir dull arall o'i ysgrifenu. Yn y *Camb. Reg.* am 1795 ceir Cwmeiddian, ond tebygol mai camysgrifiad yw hwn, canys nid yw un amser yn cael ei seinio felly, hyd y gwyddys. Mae y dewisiad yn sefyll rhwng y ddau ffurf gyntaf, un yn rhoi yr enw yn y "*Dos. Des.*" a'r llall yn ei roi yn y "*Dos. Pers.*" Yn ymyl Cemaes gerllaw ceir Moel Eiddew. Gogwyddir ni i dybio mai yn y *Dos. Desgrifiol* y dylid rhoi yr enw, felly cyfystyr yw a *Cwmiorwg.* Y mae tyddyndy ynddo o'r enw, ac y mae Nant Cwmeiddew yn rhedeg o hono i'r Afon Dulas.

Aberllyfeni.—*Aber* + *llyfeni.* Ond beth ydynt wahanol ranau y rhan olaf o'r enw? Ai Llwydfeini? Dyma liw y meini ynddi. Ai Llyfni? Am ei bod mewn manau yn llyfn, ac yn llyfnu ei gwely. Mae afon yn Arfon o'r enw hwn, *Afon Llyfni.* Ai Afon Llyfnwy = Llyfn + wy? Nid yw ei hymddangosiad felly ar ond ychydig iawn o'i thaith tua'r Dulas. Ai Afonllwyfeni yw? Llwyfen = coed y llwyfen + "*i*" er gwneyd rhif luosog. Mewn llawer o hen lawysgrifau ceir llwyfeni, megys yn yr Amgueddfa Brydeinig, 12. 230. Plut. clxviii. E. dan y pennawd: "Cywydd i Shon Llwyd o Aberllwyfeni," ceir,—

> "Llawer i'r aber a red
> *Llwyfeni* mae'n lle i fyned."

Ceir hefyd yn y Cywydd Ymryson rhwng Richard Cynwal â Richiard Philip am Rhiwaedog:—

> "Cawn yn aber haelder hwn,
> *Llwyfeni* oll a fynwn."

Nid oes fawr o drais ar sain gyffredin yr enw yn y modd y defnyddir ef y dyddiau presenol wrth gymeryd *Llwy-*

feni yn lle *Llyfeni*, ac y mae yn rhoi ystyr iddo nas gellir dweyd yn ei erbyn. Onid yw y pren llwyfen yn tyfu ar ei glanau?

Abercorris.—Dyma yr enw a roddir ar y fro, yr un fath ag ar y nant, ac y mae yr un peth i'w ddweyd am Cwmeiddew ac Aberllwyfeni. Aber=cyswllt dwy ffrwd, ac y mae y Llwyfeni a'r Eiddew yn cydgwrdd yma i ffurfio y Dulas.

Cor+ris neu is. Sillebir ef lawer ffordd. *Cor*=pig, pwynt, bychan+*is*, islaw. Ai afon wedi rhedeg o'r pigau yn y mynyddoedd uwchlaw, a dangos ei hun yn afon yn y gwaelod islaw iddynt olygir? Cor-is. *Cor*-nant islaw. Neu ynte a yw Cor=cân yn cyfeirio at suad yr afon yn y gwaelod islaw. Ei bod wedi mynd yn *gor* wedi i Eiddew a Llwyfeni gydgwrdd. Neu, a oes a fyno enw rhyw berson neillduol a rhoi yr enw iddi? Daeth un o'r enw Corus i'r wlad hon gyda Padarn, sefydlydd eglwys Llanbadarn, ac nid yw y ddau le hyn yn bell oddiwrth eu gilydd. (Gwel *Gwyddoniadur Cymraeg*, tud. 185, 289, 511).

Mae yn gwestiwn penagored hefyd gan ymchwilwyr i'r mater, pa un ai yr Aber gafodd ei henw oddiwrth y fro, ai y fro oddiwrth yr aber. Os cymerwn y golygiad 3ydd, ffafria hyny i'r aber gael yr enw oddiwrth y fro y rhodd Corus ei enw arni; ond os un o'r ddau olygiad blaenaf a gymerir, bydd hyny yn ffafriol i'r syniad fod y fro wedi cael ei henw oddiwrth yr aber. Yr ydym ni yn cael ein tueddu braidd at yr ail olygiad felly (Dos. Des.).

Cildydd.—*Cil+dydd*=Cilhaul (Dos. Des.).

Crachfynydd.—*Crach*=llygriad o *gwrach* = *a witch* Yr oedd llawer o ofergoeledd dros Gymru gynt, ac y mae hwnw yn dod i'r golwg mewn hen enwau: Gwrachfynydd (Dos. Hans.).

Cwmgerwin.—*Cwm+gerwin=garw* (Dos. Des.).

Cwmrhwyddfor.—*Cwm* + *rhwydd* + *for*, neu fawr (Dos. Des.).

Cymerau.—Cydgwrdd afonydd. Tebyg i Aber. Mae hwn yn enw mynych yn Nghymru. Ceir ef weithiau yn unigol, ac weithiau yn lluosog. Cymer, yn Cwmrhondda; Llyn Cymer yn y Gogledd.

Dolfadog.—*Dol* + *fadog* = Madog (Dos. Pers.).

Dolffanog.—*Dol* + *ffanog* = llygriad o ffaenog, tir yn tyfu ffa, ffa corsydd, &c., wrth naturiaeth, a ffa ereill wrth eu hau, &c., neu Dol + ffonog = llygriad o fawnog. Tueddir ni at yr olaf (Dos. Des.).

Efailgedris.—*Efail* = gweithdy gof + *Cedris*, enw ar y gymydogaeth oddiwrth Cedris (Dos. Hans.).

Ffynonbadarn.—*Ffynon* + *Padarn*. Dichon fod Padarn a Corus wedi bod yma. Canys daethant, fel y sylwasom, gyda'u gilydd i Brydain.

Geuwern.—*Geu* = a hollow + *wern*, gwern, tircorsiog, corsdir ceuog (Dos. Des.).

Garneddwen.—*Garnedd* + *wen* (Dos. Des.).

Gwgan.—Enw lle oddiwrth enw priodol, neu *Gwg*, llygriad o gwig = coed + *an*, fel olddodiad bychanigol, gwigfa fychan.

Gwyndyll.—*Gwyn* + *dyll*, llygriad o gyll; *Gwyngyll*, cyll = coed, neu *Gwyntyll*, S., a fan.

Hengae.—*Hen* = cadarn, neu llawn wrteithiol + *gae*, a field, neu gae talfyriad o gaer.

Cwmbergi.—*Cwm* + *bêr*, ffer, coes + *ci*, a dog, neu Cwm + ber, talfyriad o Aber (yn ol Rheol 1, Rhaglith); *gi*, llygriad o gae = Cwmaberycae. Tueddir ni at yr ystyr olaf.

Llwydiarth.—*Llwyd* = mawreddus + *iarth* = garth, rhimyn o dir. Lle mawreddus (Dos. Des.).

Llwynithel.—*Llwyn* + *Ithel*, enw personol (gwel Bryn Ithel yn plwyf Tywyn) (Dos. Pers.).

Maespandy.—*Maes* + *Pandy*, melin ban. Hen gartref Evans, y Dirwestwr a'r Diwygiwr gwladol a chrefyddol mawr, fu farw yn ddiweddar yn Awstralia, ar ol treulio llawer o'i oes fyw a gweithgar yno. Ewythr i Dr. Griffith Evans, Bangor.

Mriafael, Fawr, Fach, a **Ganol**, ar lechwedd yn ymyl Aberganolwyn. *Briafael* sydd enw personol. Ceir enw fel hyn yn Llyfr Llandaf, yn dwyn tystiolaeth mewn achos o hawl, gan Morgan brenhin Morganwg. A oedd a fyno hwnw, neu un arall o'r un enw, ag enw y lle hwn? *Mae'n bosibl*, a dweyd y lleiaf. Ynte, Mriafael, llygriad o'r gair ymrafael? Bu llawer o ymrafaelion yn y cymydogaethau hyn yn yr hen amserau, ac y mae olion hyny ar lawer o'r enwau. Neu, eto, sillebir yr enw hwn yn y *Camb. Reg.* yn *Mryavael*, a rhoddir fel ystyr iddo yn Saesonaeg, "y gafael uchaf." Yn Llanfyrnach, Swydd Benfro, ceir lluaws o leoedd yn mynd wrth yr enw hwn. Ceir yno Afon Gafael, Cwm Gafael, Bryn Gafael, Pontygafael, &c. Ceir yno ffarm hefyd gerllaw o'r enw *By Hold*, a'r ystyr a olrheinir yno i'r gair gafael ydyw Daliad=Daliad Gafael. Daliad gafael drwy ardreth, drwy brydles, neu drwy feddiant. Nis gallwn gael gystal boddlonrwydd mewn dim, ag yn yr ystyr diweddaf hon iddo. Gafael=daliad yn y tir. Gall y blaenddawd eto olygu un o ddau feddwl. Mri=Bre=Bryn; gafael drwy ardreth, neu ryw ffordd arall ar y bryn Breafael; neu ynte Mri=Byr, felly yn golygu Byrafael, megys drwy brydles ac nid drwy feddiant. Yr un sydd yn peri lleiaf o ystum ar yr enw o'i gynghaniad gwastadol yw *Breafael*. Hyn ni a gredwn yw ystyr Mriafael (Dos. Hans.).

Pantydwr.—*Pant+dwr*. Mae'r hen adeilad wedi mynd. Cartref Robert Thomas, Wesleyad cyntaf, a dewraf y fangre, cychwynydd yr achos yn Coris, ac offeryn dychweliad "Owen Owens" at Grist (Dos. Des.).

Rhiwogo.—*Rhiw+ogof* (Dos. Des.).

Rhognant.—*Rhog* = newidiad "*ch*" i "*g*" yn rhoch+nant=Rhochnant (Dos. Des.)., neu *Rhygn*, to rub; *nant*, Rhygnnant. Maey ddau hyn yn dod i'r un ystyr. Y nant yn *rhygnu* swn wrth fynd yn mlaen neu y nant yn *rhochi swn* ar ei thaith.

LLYNAU.

Llyn Talyllyn.—Gelwir ef hefyd wrth enwau ereill megys Llyn Meingul a Llyn Mwyngil. Mae'r ystyr yn amlwg.

Llyn Cai neu **Cau.**—Yr oedd Cai yn un o deulu Bord Gron Llys Arthur.

Llyn Bach neu **Llyn Tri Graienyn.**—Llyn *bach* wrth ei gydmaru a Llyn Talyllyn. Llyn Tri Graienyn: y tri graienyn ydynt y tair carreg anferth eu maint sydd yn ymyl, y rhai y dywed chwedl i Idris Gawr eu taflu allan fel mân raian o'i esgid.

Ffynon y Cwm.—Cwmrhwyddfor. Gelwir hi hefyd Ffynon yr Esgob. Mae enwau saint yn fynych gyda ffynonau.

ENWAU YCHWANEGOL.

Crugllwydiarthfach. — Cafwyd bedd yn y Crug hwn wedi ei balmantu. Cynwysai: 1, Llestr pridd; 2, Lludw gweddillion dynol ynddo; 3, Llaw, pan gyffyrddwyd a hi, aeth yn lludw; 4, amryw esgyrn mewn cadwraeth dda; 5, tri phwt o dderw ac arwyddion llosg arnynt. Mesurai y mwyaf o honynt oddeutu deg modfedd o hyd, ac yn debyg o ran praffder i forddwyd gwr. Tybid hefyd y gallasai fod yno ddau o feddau bychain. Dyma ystyr y gair *Crug*.

Cistfaencwmsoeglyd.—Cafwyd hon ar dir Cwmsoeglyd. Ymddengys oddiwrth ei hagwedd a'i maintioli mai gweddillion corph a llosgwyd oedd ynddi. Yr oedd corphlosgiad yn arferiad cynar yn hanes y Celtiaid.

Ysgrindolithel.—Cafwyd hi dair llath yn y ddaear wrth dori mawn yn y flwyddyn 1684. Yr oedd yn saith troedfedd o hyd, a'i deuben wedi eu goreuro a'u cerfio.

Dichon fod mymryn fel hyn o hynafiaethau yn help i daflu goleuni ar werth un o'r egwyddorion sydd genym wrth ddehongli *geiriau*.

PLWYF LLANEGRYN.

Llanegryn sydd bentref ychydig islaw yr eglwys. Egryn oedd Ap Gwrydr Drwm, ab Gwedrog, ab Geraint ap Garanog . . . ap Cadell Deyrnllwg. Mae ffarm yn ymyl Llwyngwril, o fewn pedair milldir i Lanegryn, yn mynd wrth enw Cadell. Cafodd y plwyf a'r eglwys eu henw oddiwrth Egryn, ond nid i Egryn y cysegrwyd hi, ond i Mair, yr un modd ag eglwys Talyllyn. Yr oedd Egryn yn byw yn y seithfed ganrif. Mae y pentref ychydig uwchlaw y Dysynu. Mesura y plwyf 6,819 o erwau. Gwerth trethianol, £2,653. Prif dirfeddianwr y plwyf yw Mr. Wynne o Beniarth. Yn y plwyf hwn mae Talybont, hen annedd Tywysogion Gwynedd. Darfu i Llewelyn ddyddio un o'i "Freinleni" yma.

YR ENWAU.

Blaidd.—Mae dwy ystyr syml i'r gair blaidd. 1, Blaidd, *the aspect, visage;* golygfa. 2, Blaidd, *a wolf*, creadur ysglyfaethus. Gellid cymwyso y cyntaf at y lle hwn yn hawdd. Ond tra thebygol y rhaid mynd at y creadur rheibus cyn cael gafael ar yr iawn ystyr. Ymddengys felly fod hwn yn *hen, hen* enw,—wedi cael ei goinio yn yr amser yr oedd y creaduriaid gwylltion hyny yn heidio Cymru. Awgryma yr enw henafiaeth fawr (Dos. Hans.).

Bredyn.—Ceisia rhai gysylltu yr enw hwn a *Peredur* ab Elifor oedd yn byw yn y 5ed ganrif. Ereill, a hyny gyda mwy o bethau o'u plaid â *Bradwen*, gan fod ganddo ef lys gerllaw y Pant, a buasai yn hawdd llithro i ddweyd *Bredyn* yn lle *Bradwen*.

Brynbleiddyn.—*Bryn* + *bleiddyn* = blaidd ieuangc. Mae yr un peth i'w ddweyd am hwn eto, ei fod yn sawru o henafiaeth y lle (Dos. Hans.).

Caerabbot.—*Cae*+*'r*+*abbot*, abad (Dos. Hans.).

Caermynach.—*Cae* + *'r* + *mynach*, gwr crefyddol (Dos Hans.).

Cae'rdeon.—*Cae* + *'r* + *deon*, gwr eglwysig eto (Dos. Hans.).

Celmi.—*Cae* + *helmi* = dasau, gwair newydd (Dos. Hans.).

Cemaes.—*Cefn* + *maes* (Dos. Des.).

Cilsarn.—*Cil* + *sarn*, a causeway (Dos. Des.).

Closbach.—*Clos*, buarth + bach (Dos. Hans.).

Cyfanedd.—*Cyf*, cyd + *anedd*, cydlety (Dos. Hans.).

Cilfachygog.—*Cil* + *fach* = bachell; *y* + *gog*, y gwcw. Man y neilldua y gog iddo (Dos. Hans.).

Glanmachlas. — *Glan* + *mach* = machell = bachell; *las* = tyfadwy. Cilfach ffrwythlon (Dos. Des.).

Goleuwern.—*Goleu* + *gwern* = tir diwylliol (Dos. Des.).

Gwyddfryniau.—*Gwydd* = coed + *bryniau* (Dos. Des.).

Tyddynpatric.—*Tyddyn* + *Patric*, enw personol (Dos. Pers.).

Llwynhensel.—*Llwyn* + *hen* + *sel* = arwyddlw (Dos. Hans.).

Moelmon.—*Moel* = llwm + *mon* = buwch, buwch foel (Dos. Hans.).

Nantcynog. — *Nant* + *Cynog*, enw personol (Dos. Pers.); neu *Nant* + *cunog*, ceuog, dwfn, weithiau (Dos. Hans.).

Nantypwl.—*Nant* + *pwl* = pwll, Nantypwll (Dos. Des.).

Peniarth. — *Pen* + *garth* = cefnen mynydd (Dos. Des.).

Penyceunant.—*Pen* + *y* + *ceunant*, ceu + nant (Dos. Des.).

Penywern. — *Pen* + *y* + *wern*, tir diwylliol (Dos. Des.).

Rhiwfelen.—*Rhiw* + *felen* = fy Elen (Dos. Hans.); neu *Rhiw* + *filain*, caethwas, taeog (Dos. Hans.). Os yr olaf, mae yn myn'd a ni yn bell iawn yn ol yn hanes ein gwlad, yr un modd a'r gair *Flindre*, &c.

Rhoslefain.—*Rhos*+*lefain* = oergri, yn cyfeirio at rhyw anffawd, neu gyflafan, yn nglyn a brwydrau rhyfel, &c. (Dos. Hans.).

Rhydygarnedd.—*Rhyd*, S., a ford+*carnedd*, un o hen garneddi beddau y cyn-breswylwyr. Y mae y rhai hyn yn myn'd a ni i amseroedd pell iawn yn ol (Dos. Hans.).

Rhycryw.—Rhydyrhiw yw yr enw yn llyfr y dreth yn awr: ond Rhycryw ydyw yn hen goflyfrau y Llywodraeth gan Ddirprwywyr yn nyddiau Harri VIII. *Treddegwm y Rhycryw*. Nid yw Rhydyrhiw yn iaith llafar heddyw. Llenorion y gymydogaeth a fynodd wneyd y cyfnewidiad hwn arno rhyw haner can' mlynedd yn ol. Rhycryw yw iaith llafar, a phob hen lyfr a chareg bedd. Ond beth yw ystyr Rhycryw? *Rhyd* +*cryw*, cryw=cronfa. "Cryw y Felin," Llyn y Felin. Felly *Rhyd*=sarn+*cryw*, y llyn yn rhedeg,—croesi hwnw.

Talybont.—*Tal*=Pen+*y*+*bont*. Pont Synu yma. Mae y ty hwn gyferbyn a'r bont. Ty ffarm fu yn Balas Brenhinol y dyddiau gynt (Dos. Hans.).

Trychiad.—*Trych*=Trychyn, dernyn bychan o dir, ffarm fechan, wrth ei chydmaru a rhyw un fawr gerllaw (Dos. Hans.).

Tyrgawen. — *Ty* + *'r* + *cawen*, *(the bur-reed)*, cleddlys, caca mwci. Tir heb fod yn cynyrchu y ffrwythau goreu (Dos. Hans.).

TOMENYDD, CARNEDDDI, &c.

I. Y Domenddreiniog, ger Talybont, ar lan y Dysynu. Mae'n debyg iddi gael yr ansoddair dreiniog, nid ar y dechreu,—ond yn mhen canrifoedd, —rhywbryd wedi i ddrain dyfu arni. Tebygol mai tomen yn cysgodi dros lwch rhywrai ydyw, er rhyw gyfnod, cyn bod yr un o'r mynwentydd yn yr un o'r plwyfi hyn. Dichon ei bod yma lawer o amser cyn dechreuad y cyfnod Cristionogol.

2. Bryncastell.—Mae crugyn mawr o gerryg yno, yn rhanol o waith natur a gwaith celfyddyd, yn debyg i'r ddau Balis a'r carneddi adfeiliol eraill ar Graigyderyn. Mae Crugyn Bryncastell yn ein hadgofio am nerth a phenderfynolrwydd ein cyndadau.

Brynyrorsedd.—Mae yr enw hwn ynddo ei hun yn dynodi pwysigrwydd y lle gynt. Mae amryw leoedd ereill yn cael cyfenw oddiwrth Bryn yr Orsedd. Gelwir cae perthynol i'r Waen yn Gae Brynyrorsedd.

Carneddi.—Carnedd Cwm Llwyd, Carnedd yr Allt Lwyd, Careg y Big, Gwely'r Meibion. Gwaith dyddorol i'r hynafieithydd fyddai olrhain pob hanes sydd i'w gael yn nglyn a'r rhai hyn, a gwneyd un cyfanwaith trefnus o hono; ond nid yw o fewn cylch ein gorchwyl ni yn bresenol.

PLWYF LLANGELYNIN.

Plwyf ar yr ochr ogleddol i Tywyn, ar lan y môr. Mesura o erwau, 11,004. Gwerth trethianol yn £3,588. Mae hynafiaethau rhamantus yn perthyn iddo. Yr oedd Llys Bradwen,—un o bymtheg llwyth Gwynedd,—yn Crogennant. Mae "Ogof Owain" i'w gweled yma. Mewn adeg foreu, bu brwydr erch yn agos i'r "Castell Mawr," gerllaw "Rhos Lefain." Wrth bentref Llwyngwril ceir gweddillion "Amddiffynfa Brydeinig." Mae "Gwastad Meirionydd" gerllaw y pentref, ac yno ceir llawer o olion Derwyddol. Yn y flwyddyn 1826 caed gwrn bres, 18 modfedd o ddyfn oddifewn, 14½ modfedd o gylch-fesur yn y pen uchaf, ac 11 modfedd ar y gwaelod, mewn mawnog ar dir Ty'nycoed. Perigloriaeth yw y Fywoliaeth yn Esgobaeth Bangor. Er fod yr hen Llangelynin yn aros, mae yr "Eglwys" bellach, er y flwyddyn 1846, yn mhentref Llwyngwril. Mae tai a phoblogaeth prif bentref Celynin ar gynydd amlwg. Gelwir y plwyf hwn ar enw y sant y cysegrwyd yr eglwys iddo; ac felly

yn wahanol i blwyfi Tywyn, Pennal, Talyllyn, a Llanegryn (gwel ar Pennal). Blodeuai Celynin yn y seithfed ganrif. Celynin ab Helyg Foel, ab Glanog o Dyno Helyg, ab Gwgan Gleddyf-rudd, ab Caradog Freichfras, ab Llyr ab Einion Yrth, ab Cynedda Wledig. Mae mwy na haner enwau y tadau yna yn dod i mewn gydag enwau lleoedd yn y plwyf. Dyna ein hesgusawd dros roi ystyr yr hynafieithydd ar ddalen y geir-ddehonglydd.

YR ENWAU.

Arthog.—*Arth*, talfyriad o garth; *trum o dir+og*, olddodiad ansoddol, Garthog (Dos. Des.).; neu *Arth*, S., *the Bear+og*=olddodyn i arwyddo fod eirth yn nodweddu y lle (Dos. Hans.); neu Arthog, yn enw Personol. Ceir Arthen, Arthol, Arthur, Arthwys, yn enw Personol. Mae enwau Personol wedi eu cydio wrth leoedd lu yn y plwyf hwn, megys Bodgadfan, Bodlolan, Tyddyn Sheffrey, Carn Gadell, Pant Phillip, Pont Engian, Ynys Faig, &c. Ond tueddir ni at yr esboniad cyntaf.

Arddgladdu, Yr.—Mynwent. Mae dwy o'r cyfryw yn y plwyf. 1. Ar dir Cyfanedd Uchaf, dim olion braidd o honi yn awr. 2. Ar dir Llwyndu. Mwy o olion hon. Tybir mai mynwentydd y Crynwyr oeddynt. Felly, pethau cydmarol ddiweddar, i'w cyffelybu a darwelion ereill yn ein gwlad. Enw *tlws* ar fynwent yw gardd, yn gystal a phriodol.

"Ac yn y fangre lle y croeshoeliasid Ef yr oedd gardd, a bedd newydd yn yr ardd."

Bachysil.—*Bach*. Mae tair ystyr i'r gair hwn:—(1) *Bach*, S., *nook;* (2) *Bach*, S., *hook;* (3) *Bach*, S., *little*. Mae yn anhawdd penderfynu ar ystyr y rhan olaf o'r gair: ai Sil, ynte rhyw ffurf arall ar y gair, sydd gywir yma. (1) *Sil*, mân bysgod; yn nglyn a'r gair hwn gwelem wasanaeth yr *hook*, bachell. (2) *Sil*, *eisin sil*, S., *husks of oats*. Yna gwelem berthynas iddo yn y *nook*, *congl*. (3) *Sul*, L., *Sol*, C., Haul. Yn hyn

gwelem *Bachysil*, yn gyfystyr a *Bach-heulog*. (4) *Swl*, S., a flat space. Ô hyn gallem gael yr ystyr congl wastad, *bach isel*. (5) *Swŷl*, S., bashful, bachgudd, *bach swyl*. (6) *Syl*, S., a foundation. Tŷ mewn lle o dan gysgodion y mynydd ucheldrem Talygareg, ac felly yn peri meddwl am *Bachsail*. Barned y darllenydd drosto ei hun am yr ystyr oreu.

Bodgadfan.—*Bod* = preswylfa + *Gadfan*, y sant, enw Personol.

Bodwlan.—*Bod* = preswylfa + *Wlan*, enw Personol.

Bronclydwr.—Enw o beroriaeth grefyddol genhedlaethol, hen gartref Hugh Owen. *Bron*, S., a breast + *clyd*, cysgodol + *wr*, olddodyn personol. Gallai olygu y gwr oedd yn byw yno yn cael clydwch yn y lle,—neu ynte fod ereill yn derbyn clydwch drwy gymwynasgarwch y person a'i preswyliai. Nid Hugh Owen roes yr enw i'r lle, na neb arall ar ol dyddiau Hugh Owen. Dyma ei hen enw. Ond ai nid yw yn wyrthiol o nodweddiadol yma?

Bwlchgilbert.—*Bwlch* + *cil* + *bert*, prydferth (Dos. Des.); neu Gilbert, yn enw personol (Dos. Pers.).

Brynyperfedd. — *Bryn* + *y* + *per* + *fedd*, S., mead. Mêdd, hen ddiod boblogaidd y Celtiaid. (Gwel ar Perfeddnant).

Carnygadell.—*Carn*, S., cairn, heap of stones, y tomenau beddawl i'r hen frodorion gynt + *Cadell*, ab Rhodri Mawr. (Gwel Robert Vaughan, *British Antiquities*). (Dos. Pers.).

Cefncamberth.—*Cefn* + *cam* + *berth*. (Dos. Des.).

Coedygwyddill. — *Coed* + *y* + *gwyddill*, llygriad o gwyddyl, un o hen gynfrodorion y wlad.

Craigyfadan. — *Craig* + *y* + *fadan*, y fenywaidd o Madyn, llwynog, llwynoges; felly, Craigylwynoges (Dos. Hans.).

Creigiau'r Morwydd.—*Creigiau* = bryncynau + *'r* + *morwydd*, coed y môr, h.y., ger y môr, neu Coed Mawr (Dos. Des.).

Crygenau.—Sillebir yr enw hwn mewn llawer o wahanol ddulliau, megys Crogenau, Cregenau, Creig-

enau. Mae'n debygol mai math o enw lluosog yw, yn cyfeirio at yr amrywiol grugiau coffadwriaethol a'u cylchynant: *Crug*, twmpath, ceryg yw y gwreiddair yn ddiau (Dos. Des.).

Caregybig.—*Careg* + *y* + *big* = pigyn, lle uchel. (Dos. Des.).

Deildref.—Deil + dref. *Deil* = talfyriad (yn ol Rheol 1) o adeildref, megys Stadfryn, o Gwastadfryn, felly Deildref, o Adeildref (Dos. Hans).

Eglwysgoel.—*Goel*, enw personol, un o saint Ynys Prydain. Mae eglwys wedi ei chysegru iddo yn Llandaf. Mae y lle ger Llys Bradwen. Nid hwn yw yr unig enw sydd yn myn'd a ni yn ol i'r amser pell yn nghlyn a chrefydd y rhanbarth hwn. (Gwel Llanfendigaid). (Dos. Hans.).

Fegla Fawr, a Fach.—Ai llygriad yw o *Fedle?* Y Fedle Fawr *(About the Banks, the Banks of Helicon)* (Dos. Hans.); neu ynte *Maig*, S., a fall, a hap + *la*, talfyriad o lan, y Faiglan. Mae gerllaw Ynys Faig (Dos. Des.).

> I Faig ni bu ddadwyrain.
> For the fall there was no recovery.—*W. O. P.*

Felinfraenen.—*Felin* + *fraenen* = brân (Dos. Hans.); neu *Felin* + *fraenar* = tir braenaredig (Dos. Hans.). Y blaenaf yw'r tebycaf.

Figyn a Siglen Fawr.—Dau enw o'r un ystyr: *Y Figyn*, siglendir (Dos. Des.).

Friog.—Mae *Friog* yn meddu yr un olygwedd oddiar afon y Bermo ag y mae Trefri yn gymeryd oddiar Afon Dyfi; sylwasom fod y *gwreiddair* yn eglur yn y *seinair* yno, sef bri, lle gwych, urddasol, anrhydeddus, &c. Tybiwn fod y lle hwn hefyd wedi cael ei enw am y gyffelyb dybiaeth yn ei gylch,—felly *Bri*, anrhydeddus + *og*, terfyniad ansoddol, i arwyddo cyflawnder o'r gwychder tybiedig yno (Dos. Des.).

Ffriddboedol.—*Ffridd* + *Boedol*, enw personol (Dos. Pers.).

Partygwyddwch. — *Part*, Parth + *y* + *gwŷdd* + *hwch*, Hwchycoed, megys Baeddycoed (Dos. Hans.); neu Gwyddwch, fel enw personol (Dos. Hans.).

Hafotaliadau.—*Hafod*, ty haf + *taliadau?* ynte daliadau? Os *taliadau*, gellir ategu hyny drwy gyfeirio at y ffaith fod rhai lleoedd yn y gymydogaeth yn gwneyd taliadau blynyddol i arglwydd y Faenor. Ceir cofnod am symiau fel hyn: Llanfendigaid, 14s. 4c.; Foel ab Conofan, 13s. 4c.; Eigin ab Ph', 5s.; Coflyfr Caernarfon, dan y penawd "Extenta Comn. Meryoneth." Neu, os *daliadau* yw y gair, gellir ategu y syniad drwy ddweyd fod yr Hafotty hon yn cael ei dal ar amodau gwahanol i rai yn gyffredin, neu ni buasai yn cael ei galw yn *Hafod* + *daliadau* (Dos. Hans.).

Llabwst.—*Llabwst, a lubber*, dyn diog ac afrosgo; neu Lle y bwyst, bwystfil (Dos. Hans.).

Llanfendigaid.—Mae pob arwyddion ar y lle hwn, —er cymaint o adgyweiriadau diweddar a wnaed arno, —o wychder ac henafiaeth. *Llan*, eglwys + *fendigaid*, dan fendith. Credir i eglwys Babyddol fod yma. Nid yw Llys Bradwen yn bell o'r fan (Dos. Hans.).

Murpoeth.—(Gwel *Murpoeth*, Plwyf Tywyn).

Nantgwrddol.—*Nant* + *gwr* = *cwr* + *ddol*, Nantcwryddol. Tybia rhai mai Nantgwyrddail yw.

Nantgeseiliog.—*Nant* + *gesail* = cilfach + *iog*, olddodiad ansoddol i arwyddo y cysgod sydd i'r nant (Dos. Des.).

Ogof Owain.—*Ogof* = holltgell mewn craig + *Owain*, Owain Glyndwr. Mae yr ogof hon ar fin y môr, rhwng Abersynu a Llangelynin. Cyrcha dieithriaid yn yr haf i'w gweled. Adroddir fod Owain wedi cael cuddfan yma o ffordd y gelyn un tro. Noddid Owain tra yno yn ymguddio gan Gymro, o'r enw Ednyfed ab Aaron, o Lys Bradwen gerllaw; felly gelwir yr ogof o hyd wrth ei enw—*Ogof Owain* (Dos. Hans.).

Panthafal.—*Pant* + *haf* + *al* = uchel. Gwel *Pennal* (Dos. Des.).

Pantphilip. — *Pant* + *Philip*, enw personol (Dos. Pers.).

Parlle.—*Par* = newidiad o Aber + *lle*, Aberlle. (Gwel Rheol I.).

Penygromlech.—*Pen*+*y*+*gromlech*, beddau y cynfrodorion.

Prysgau.—*Prysg*=coed+*au*, olddodiad lluosogol. (Gwel ar *Bronprys*, Tywyn).

Talygareg. — *Tal*=uchel+*y*+*gareg*, lle uchel (Dos. Des.).

Tidfarch.—*Tid*=ffrwyn+*march*, neu *Tud*=rhandir +*march*. Yr olaf yw y tebycaf (Dos. Hans.).

Rhiwcyrniau.—*Rhiw*+*cyrn*, pigdyrau+*au*, olddodiad i luosogi y gair: cyfeirir at y Crugiau (Dos. Hans.).

Rhoslefain. — *Rhos*, corsdir+*lefain*, cyfeirio at frwydr fawr a'i chanlyniadau erchyll, y dywed traddodiad a gymerodd le ar y Rhosdir hwn.

Tryfana, neu Tyrfana, neu Tonfanau.—(Gwel ein sylwadau yn y Rhaglith ar yr enwau hyn). *Tryfan*, mae Mynydd, a Moel, a Rhos, ar yr enw hwn yn Arfon. Moel Tryfan, Rhostryfan. Ai tybed fod y lle hwn wedi cael yr enw am yr un rheswm naturiol ac ieithyddol a'r lle hwnw?

Tyrfana. — Y mae yn y gymydogaeth, megys Llechlwyd, Talygareg, Cefncamberth, Tyddyn Meirig, yn gystal ag ar gae yr amaethdy hwn ei hunan, ac yn amlwg ar gae yn ymyl y ty, yr hyn a elwir yn geryg Terfyn a Terfynau. Ai tybed na wna y ffaith artrefol hon ddangos i ni y ffolineb *o gario dwr dros afon?* Onid yw y ceryg terfyn yn rheswm amlwg dros yr ystyr yma? Yr unig gystwyaeth sydd i'w wneyd ar y gair yw newid yr *y* ar ol *t* i *e* yn ei hol, a gadael y Dywynaeg am dro, a rhoi *au* yn lle *a*, yna bydd genym *Terfynau*.

Tonfanau, yw yr enw presenol sydd ar y lle; ond nid oes dim petrusder ynom i ddweyd fod hwn yn enw newydd, ac nad oes ynddo ddim perthynas o gwbl a'r hen enw, ond yn nychymyg yr ychydig lenorion cartrefol gafodd y pleser o'i *goinio*, tua deugain mlynedd

yn ol. Hwn yw yr enw ar yr Orsaf, ac wrth hwn yn awr yr â busnes presenol y dydd, ac y mae enw yr amaethdy yn cael ei adnabod; er hyny, nid wyf yn meddwl fod cymaint ag un gwr, uwchlaw triugain mlwydd oed, trwy yr holl gymydogaethau, heb fod yn ei gynghanu o hyd yn *Tyrfana*, neu *Tryfana*.

Enw tlws yw *Tonfanau*, ac yr wyf yn ei hoffi; ond nid tlysni yw y pwnc, eithr cywirdeb: ac wrth *tòn* yn nechreu y gair, pa un olyga ei bleidwyr presenol, ai tòn y môr, ai tòn tir? Gwn mai tonau mân y môr gerllaw oedd wedi swyno yr hen gyfeillion wnaethant yr enw newydd.

Tyddyn yr Allt.—*Tyddyn*, fferm fechan+*yr*+*allt*, gallt, llethr. Tyddyn ar lethr (Dos. Des.).

Tyddyn Meirig.—*Tyddyn*+*Meirig*, enw personol. Bu perthynas rhwng rhyw Feirig rhywdro a'r lle (cyn cael yr enw), drwy ddaliad ar ardreth, neu berchenogaeth (Dos. Pers.).

Tyddyn Shephrey.—*Tyddyn*+*Shephrey*, enw personol (Dos. Pers.).

Ynysfaig.—*Ynys*+*faig*=serth, ger perygl. (Gwel ar *Fagle)*.

Ynysgyffylog.—*Ynys*+*cyffylog*=enw ar aderyn yr ymchwilir am dano yn ddiarbed yn y gauaf, mewn lleoedd ger llaw dyfroedd.

Ynysgreian.—*Ynys*+*greian*, disglaer. Nid graian, mân geryg. Aethom heibio i'r enw Llwyngwril yn anfwriadol, heb sylwi arno.

Llwyngwril.—*Llwyn*, a bush+*gwril*, neu *gwryl*, dichon mai yr un ydyw a *Cyril*.

Mae ein gwaith ar ben, ond y mae rhagor i'w ddweyd ar bob pennawd.

Y TRYDYDD TRAETHAWD.

Y MAE yr enwau roddir ar dai newyddion y dyddiau hyn mewn llawer amgylchiad yn rhai hollol ddiystyr. Nid ydynt ond enwau i wahaniaethu y naill dŷ oddiwrth y llall. Ond fel arall yr oedd gynt: yr oedd i bob enw ei ystyr. I ni, heddyw, y mae llawer o honynt yn hollol ddiysytr a chamarweiniol. Y mae yr enwau wedi eu llygru i'r fath raddau fel nas gallwn eu hadnabod. Eto, defnyddir ansoddeiriau, megys Coch, Llwyd, Du, Gwyn, &c., gydag enwau, megys y Coed Coch, y Fron Lwyd, Cae Du, Dyffryn Gwyn. Mae yn ddiameu genym fod rhyw nodwedd yn gydweddol â'r gair ddefnyddir yn perthyn i'r lle pan y rhoddwyd yr enwau, ac oherwydd hyny yr ydym ninau wedi rhoddi "enw desgrifiadol" mewn llawer o achosion gogyfer a'r enwau, gan ein bod yn gydwybodol gredu mai dyna oeddent gynt. Gwelwn hefyd fel y mae yr enwau yn ateb i arwynebedd y fan ddynodir, er engraipht, cawn *Esgair* lawer gwaith yn ochr Penal; *Cwm*, a *Nant*, yn Talyllyn; *Morfa*, a *Dôl*, yn Nhywyn, &c.

PLWYF TYWYN.

Bryncrug, sydd enw ar bentref bychan tua dwy filldir o Dywyn. Mae yn cymeryd ei enw oddiwrth *fryn* saif tu ol iddo, a *crug*, pentwr, twmpath: a dyna yw llun a ffurf y bryn.

Bronprys.—Bron y prysg. *Bron*, llechwedd, bryn, a *prysg*, mân goed, coediach, coed mân. Gorchuddid y lle gynt a *prysg* mae yn ddiddadl.

Bodtalog.—*Bod*, annedd, preswylfa. *Talog*, enw personol. Felly yr ystyr yw *Annedd Talog*. Yn Adroddiad Mr. Gwenogfryn Evans ar *MSS. in the Welsh Language, Vol. I., Part III.*, tud. 1089, ymddengys yr enw—"Bot talog, Towyn: plant J. ap J. gwynn." "Gwelygorddau Gwynedd" gan Lewis Dwnn, ydyw yr hen lawysgrif, ac y mae ym Mheniarth. Ysgrifennir

yr enw hefyd "Bottalog" mewn breintlen, wedi ei dyddio "10 Oct., 38 Henry VIII."

Brynerwest.—"Bryn" "erw" "cest." *Erw*= llain o dir. *Cest*=bol, rhumeu, crul. Rhoddwyd yr enw i'r amaethdy oddiwrth ffurf y bryn.

Castell Cynfal.—Mae tomen ger Bryn y Castell; ar ben y bryn mae olion amlwg *Castell* yma, ac ymddengys mai Castell Cynfal neu Cynfael oedd enw y Castell safai gynt yn y fan hyn. Syrthiodd y Castell tua'r flwyddyn 1145. Delid ef gan Morfran neu Merfyn, Abad Ty Gwyn ar Daf, dros Cadwaladr, brawd Owen Gwynedd. Hywel a Chynan, meibion Owen, a'i cymerasant. Y mae cyfeiriadau at hyn yn *Mrut y Tywysogion* ac yn *Mrut y Saeson*. Y mae Dr. W. O. Pughe yn rhoddi ystyr Cynfal fel yma: *Cynfal*, the head of the irruption.

Cefncoch.—*Cefn*, bryn bychan. Saif hwn yn Nghwm Dyffryn Gwyn. Mae gweddillion caer arno, a dywed traddodiad i ymosodiad gwaedlyd gael ei wneyd ar y fan, a chymaint oedd y lladdfa fel y dinystriwyd yr amddiffynwyr bob un. Yn ol y traddodiad yr oedd y *cefn* yn *goch* gan waed y lladdedigion. Y mae gweddillion yr hen gaerfa yn rhoddi "lliw" i'r ffordd yma o ddyfod at darddiad yr enw.

Cilparc.—*Cil*, lloches, lle neillduedig; *parc*, lle cauedig.

Clegyrog-ddu.—Y clogwyn neu y clogwrn du.

Clegyrog-wen.—Y clogwyn gwyn. *Tal Clegir* yw y lle adnabyddir yn Saesneg fel Ness Cliff. Saif ger yr Amwythig.

Dolau Gwyn.—*Dol* (dolydd, dolau, lluosog), gwastadedd; *gwyn*, teg, prydferth. Y mae y ty wedi bod gynt yn un o brif dai y plwyf. Yn y *Peniarth MSS.* 99, tud. 133, ceir Cywydd:—

"I'r ffiol oddfyn or dolegwyn,
"Hawddamor hoff oror ffawd . . . .
A chynydd yw fferchenawg."

—*Richard Philipp.*

MSS. 116, tud. 330. Cywydd: Mol: Gr: Nanney or Dolegwynn, 1633:—

"Un dyn byw sy'n dwyn y bel . . . .
Ach henwi'n Iarll uwch no neb."—*Sion Kain.*

MSS. 116, tud. 693. Cywydd: Mar: Sian merch Huw Nannau, gwraig (1) Elis o Riwedawc, (2) Lewis Gwynn o'r Dolau Gwynn, 1641:—

"Diliw rhoed dolur yw hynn . . . .
I law duw aeth le da iawn."—*Sion Kain.*

Dolgoch.—Y ddol-goch. *Coch* yn ddesgrifiadol o nodwedd y tir. Mae y lle yma a hanes dyddorol iawn iddo. Y mae darlun, fe ddywedir, yn cynrychioli Gruffydd ab Adda o'r Ddol-goch, yn gorwedd yn mur Eglwys Towyn, a chyfargraff Lladin dano. Dyma fel y maent yn Gymraeg: "Yma gorwedd Gruffydd ab Adda, o Ddol Goch ac Ynys y Maengwyn, Rhaglaw y Cwmwd hwn yn y bedwaredd a'r seithfed flwyddyn o deyrnasiad y Brenin Edward y Trydydd."

Doldehewydd.—*Dol*, gwastadedd, dyffryn; *dyhewydd*, ffrwythlonder; dyffryn ffrwythlon.

Dolyffrwd.—Enw yw hwn roddir i ddôl ar y gwastadedd, yn agos i Ynysymaengwyn. Dywedir i frwydr waedlyd gael ei hymladd ar y *ddol* hon rhwng byddin oedd ar Domen Bryn Castell (y cyfeiriwyd ati yn flaenorol), a byddin arall ar y Domen Ddreiniog (cyfeirir ati eto). Mor ddychrynllyd oedd y frwydr, nes y llifai gwaed y ddeulu yn *ffrwd* hyd y *ddol*.

Dovey, neu **Dyfi.**—Enw afon sydd yn ymarllwys i fachwy Ceredigion ger Aberdyfi. Y mae Robert Vaughan yn dweyd mai ystyr yr enw yw *profundity*, dyfnder, dyfnedd; ond tueddir ni i gredu mai *Y Ddofwy*, yr afon dawel, yw yr ystyr.

Dyffryngwyn.—Y dyffryn teg, neu brydferth.

Dyffryn glyn cul.—Dyry Dr. W. O. Pughe yr enw hwn yn wahanol, sef Dyffryn Glyngin, a'i ystyr yn *plain of Glyngin*. O dan yr enw *Glyngin* dyry yr ystyr *the dale of Slang*. Yr ystyr yn ol pob tebyg yw, *Dyffryn y Glyn Cul*.

Yr Erw.—*Erw* yw llain o dir. Mae yn debyg mai dyma yr enw roddid gynt ar ffermydd bychain. Cawn

fod pedair erw yn gwneyd un tyddyn. Ychwanegid yn raddol at *Yr Erw* drwy sychu corsydd, a chau i mewn ranau o'r mynyddoedd anial a gwylltion, ond yr oedd yr enw *Yr Erw* yn parhau yr un o hyd.

Erw Benlas.—*Erw Penglas*, sef y planhigyn *Pengaled*.

Erw Goch.—Erw Coch, yn ddesgrifiadol.

Erw Gwenllian.—*Gwenllian*, enw personol.

Erw Faethlon.—Yr Erw ffrwythlon.

Erw Porthor.—Mewn rhestr o *Rental of the Land Revenue of the Crown*, meddai awdwr *Cantref Meirionydd*, dynodir ef yn Erw Ferthyr, neu Erw Forthor, neu Erw Porthor. Dywed llafar gwlad mai yma yr oedd "porthor" y carchar oedd yn "Caethle" yn byw. Tybiwn ni mai enw personol ydyw. Mae "Porthawr" yn un o "Englynion y Klyweit," a hawdd y gellid newid yr *aw* yn Porthawr i *o*, a'i alw yn Porthor.

Esgair Gyfela.—*Esgair*, aelod, coes, clun, crimell o dir. *Gyfela*, gafaeliau, y lluosog o "gafael."

Eglwysi'r Gwyddelod.—Olion ddywedir o eglwysi y Gwyddelod yn y wlad. Dywed yr *Iolo MSS.* mai Brynach Wyddel "a wnaeth Eglwysydd gyntaf yng Ngwynedd."

Escuan.—"Ysgian," meddai Dr. W. O. Pughe, "the break." Ond yr ydym ni o'r farn, a chadarnheir ni gan y syniad yn yr ardal, mai yn deilliaw o *Hesgen* y mae y gair. Hesgen yw y gair Cymraeg am *sedge;* ac oddiwrth y cyflawnder dyfai yma gynt o'r llysieuyn hwn y galwyd y lle.

Fachgoch.—*Fach*, cornel; *goch*, desgrifiadol.

Garthmawr.—*Garth*, codiad o dir; *mawr*, o'i gyferbynu ag un llai.

Geufron.—*Geu*, cauedig, cysgodol; *fron*, bryn.

Gessel.—*Gesail*, cysgodol, mewn congl neu gilfach naturiol rhwng breichiau y bryniau.

Gwaen Llywelyn.—Gwastad Llywelyn. Bu y Tywysog Llywelyn yn aros am amser yn Nhalybont, a mae yn debyg mai oddiwrth y tywysog hwnw y gelwir y lle.

Dywedir i wyr Bryn y Castell un tro fyned dros afon Disynai a churo eu gelynion oddiwrth y Domen Ddreiniog, ac mai yn y lle elwir Gwaen Llywelyn y buont yn ymladd.

Gwalia.—Y Waliau, h.y., y muriau oedd yn cadw y môr a'r afon rhag boddi tref Tywyn. Hyd y flwyddyn 1809 yr oedd llanw uchel Mawrth a Medi yn dyfod i fyny hyd at waliau y dref.

Gogarth.—*Garth*, yn estyn allan, penrhyn, pentir, trwyndir.

Gwydd Gwion.—*Gwydd*, coed; *Gwion*, enw personol. Sillebir yr enw yn "gwian," a "gwyon." Galwyd y coed ar enw Gwion rhyw adeg, ac wedi hyn trosglwyddwyd yr enw i'r amaethdy. Yr oedd yn gartref uchelwyr gynt. Mae yn *Peniarth MSS.* 100, gywydd o waith Owain Gwynedd, i Rytherch ap gr: ap Morys o Wydd Gwion:—

"Y mae dyn am y dynion . . . .
Heb un o'r rhyw 'n benn ar hwn."

Ysgrifennodd Lewis Dwnn achau y teulu i lawr i'r flwyddyn 1592, a maent i'w gweled yn *Peniarth MSS.* 268. Y mae lle o'r enw Cae Gwian ym mhlwyf Llanaber a Llwyngwian yn Nyffryn Ardudwy.

Gwyddelfynydd.—Yn nheyrnasiad Iorwerth I., perchenog y lle hwn oedd un Gwyn Wyddel, a mae yn ddiameu mai ar ei ol ef y gelwir y lle. Ar y 6ed o Fawrth, yn y 18fed flwyddyn o deyrnasiad Iorwerth II., Iefan ab Gwyn Wyddel oedd pia y lle. Nid Gwyddel oedd Gwyn, ond un o ddisgynyddion Gwaethfoed, Arglwydd Ceredigion. Arferid, yn yr hen amserau, galw Cymry fyddent wedi bod yn yr Iwerddon yn Wyddelod pan ddychwelent i Gymru.

Groesfaen.—Maen yw hon saif mewn maes ar fin y ffordd rhwng Bryncrug a Thywyn. Ystyrir ei bod yn union ar y terfyn rhwng trefddegwm y Faenol a threfddegwm Cynfal. Yr oedd y cyfreithiau gynt yn galw maen terfyn yng Ngwent yn *groesfaen*. Dywedir, ar

lafar gwlad, fod gwiber yn poeni trigolion y rhan yma o'r wlad. Er mwyn cael gwared a hi rhoddwyd pigau haiarn ar ben y gareg, a gorchuddiwyd hwy â brethyn coch. Pan ddaeth y wiber yno, a gweled y brethyn coch, ymgynddeiriogodd, ac ymosododd yn ffyrnig ar y gareg, a'r canlyniad fu iddi ladd ei hun. Adroddir hanes cyffelyb am gareg debyg yn Llanrhaiadr Mochnant, a gelwir y gareg hon y Post Coch hyd y dydd hwn.

Hafotty'r Waen.—Safai wrth odreu Bryn y Cistiau, eithr y mae erbyn hyn wedi ei wneyd yn gorlan. Hafotty oedd y ty lle y byddid yn arfer byw yn yr "haf" pan yn gwylio y praidd a'r gwartheg ar y mynyddoedd. Y *Waen* yma yw *Waen Dasau*, ac arferid gwneyd arni "dasau" o redyn, brwyn, a mawn.

Llain y Bedd sydd enw roddir ar "lain" o dir fferm y Tyno. Dyma y modd y daeth i gael ei adnabod wrth yr enw. Mewn ty cyfagos i'r Gesail trigianai gynt hen wr enillai ei fywoliaeth wrth chwareu y crwth. Elai ar deithiau meithion oddicartref, ac arhosai ar brydiau amser maith. Y tro olaf y bu ar daith aeth i'r Deheudir, ac aeth cryn amser heb i undyn ystyrio llawer yn ei gylch, gan feddwl ei fod yn aros yn hwy nag arfer yn y Deheudir. Ond pa fodd bynag, gwnaed ymholiadau, a chafwyd allan ei fod wedi ei weled yn myned trwy Machynlleth, ac yn cyfeirio tua chartref, a dyna y golwg ddiweddaf gafwyd arno. Ymhen tuag ugain mlynedd ar ol hyn yr oedd ffos yn cael ei thori trwy gors yn y fan adwaenir fel Llain y Bedd, a deuwyd o hyd i esgyrn dynol a darn o flaen cyllell yn asgwrn y gwddf. Hefyd, cafwyd yno ben crwth, a chasglwyd oddiwrth hyn mai gweddillion yr hen grythor a'i grwth oeddynt, ac iddo gael ei lofruddio pan yn myned adref, a'i daflu i'r gors hon.

Melinllynpair. — Melin, ger Llyn y Crochan. Cymer ei enw oddiwrth ei ffurf.

Murpoeth.—*Mur*, wedi ei adeiladu a chalch *poeth*. Y mae fferm ym mhlwy Llanaber yn cael ei galw yn Cae Murpoeth.

Nantymynach.—*Nant*, ffrwd, a *mynach*. Mae y nant wedi rhoddi yr enw i'r tyddyn.

Ol Troed March Arthur.—Dyma yr enw roddir i fan yn ymyl Eglwys y Gwyddelod. Y traddodiad yn nglyn a hwn yw, i Arthur fod yma yn ymladd yn erbyn y Gwyddelod, iddo eu gorchfygu, a bod ol troed ei farch yn aros yno hyd y dydd hwn. Gall fod yn bosibl i Arthur fod yn y cyffiniau hyn, ond mae yn ddiameu mai ol ystormydd natur ar y graig yw yr hyn adnabyddir fel "Ol Troed March Arthur."

Pantidal.—Pant Eidiol, sef lle isel, yn cael yr enw oddiwrth Eidiol, y perchenog, pwy bynag ydoedd. Daw yr enw Eidiol i mewn hefyd yn y lle adnabyddir fel *Bwlch Llanercheidiol*. Saif y lle olaf enwyd yn Nhrefddegwm Is yr Afon. Yn y flwyddyn 1691 gadawodd un Lewis Lloyd "yr oll o'r tyddynod hyny yn Nhafolgraig Isaf a Bwlch Llanercheidiol, gwerth oddeutu saith neu wyth bunt yn y flwyddyn, tuag at wasanaeth tlodion y rhan hono o blwyf Tywyn ag a elwir Parcel Is yr Afon."

Pant yr Owen.—Pant yr Erw Wen. Ywen?

Pant y Beddau, sydd enw roddir ar olion dau fedd (ddywedir) ar y terfyn rhwng Bryn y Castell a Bachyrhew. Bu cweryl ynghylch y terfynau rhwng perchenogion y ddau le uchod; ac i dori y ddadl, penderfynasant ymladd; a'r arfau gymerasant i'r amcan hwnw oedd crymanau. Lladdwyd y ddau, a'r traddodiad yw mai eu beddau hwy yw yr olion adnabyddir wrth yr enw Pant y Beddau.

Pentref, Maes Trefnant.—Enw y drefddegwm yw Maes Trefnant. *Maes* yw cae. Dywedir yn y *Myf. Arch.*, dan yr enw "Maes":—"The court for determining causes for landed property was often so denominated, from its being held on the land in dispute." *Trefnant*, gwneir y gair o "tref" a "nant," hyny yw, "tref" (256 erw), a "nant" yn rhedeg drwyddo. Y *Pentref* yn Maes Trefnant, o dair o ffermydd, yn 1795, a'u gwerth blynyddol yn £80. Daw y gair "pentref" o *pen*, prif neu derfyn, a *tref*, a defnyddir ef yn fynych

iawn yng Nghymru gyda rhyw ansoddair, yn desgrifio safle y fferm, neu rhyw nodwedd neillduol berthyn iddi.

Perth y Cuttiau.—Cuttiau y Gwyddelod mae yn ddiameu. Ceir olion y rhai hyn mewn llawer man yng Nghymru, ac y maent yn dra amlwg mewn lle enwir Y Cutiau, tua thair milltir o'r Abermaw, ar y ffordd i Ddolgellau.

Perfeddnant.—Y nant ganol. *Perfedd* yw craidd, canol, canolbwynt. Gelwir rhan neillduol o Gymru "Y Berfeddwlad."

Parsel neu Parcel.—Cyfran. *Parcel is yr Afon* yw y gyfran o'r plwyf orwedd i'r deheu o'r afon.

Rhyd yr Onen.—*Rhyd* yw lle bâs i groesi afon, neu nant, ar y ceryg, pa rai elwir "Cerryg y rhyd." Tebygol yw fod yma rhyw bren *onen* hynod yn tyfu yma gynt, a bod y *rhyd* gerllaw iddi.

Rhosydom.—*Rhos*, yn lle corslyd gwlyb. *Dom*, tomen.

Trefeddian.—Tref Eiddon. Enw personol.

Trum y Gelli.—Enw ar fynydd. *Trum*, cefn, crib, criman, grwn; *Gelli*, llwyn, caeadlwyn. Gorchuddid y lle gynt a choed, fel y rhan fwyaf o fryniau Gwalia.

Tyddyn Rhys y Gader.—*Tyddyn* oedd y rhaniad lleiaf o'r tir gan yr hen Gymry. Cynnwys *tyddyn* oedd 4 erw. *Rhys y Gader*, enw personol.

Ty'n y Cornel.—Tyddyn y Cornel. Gyda golwg ar y gair *tyn*, mae y nodiad canlynol ar waelod tudalen 196, *(The Welsh People*, Rhys & Brynmor Jones). "In modern Welsh place-names *tyddyn* is reduced to *tyn*, as in *Tyn yr Onnen* for *Tyddyn yr Onnen*, and *Tyn Siarlas* for *Tyddyn Siarlas* (Charles' tenement)." Ceir ym mhlwyf Tywyn:—Ty'n y Gornel, Ty'n y Llwyn, Ty'n yr Eithin, Ty'n y Fedwen. Mae y rhai hyn yn cael eu henwau oddiwrth rhyw wrthddrych nodweddiadol o honynt.

Y Fadfa.—Tyddyn y Fâdfan, Tyddyn y Frwydr neu'r ymladdfa.

PLWYF LLANGELYNIN.

Bachysil.—*Bach*, cae; *sil*, esill had, grawn.

Borthwen.—Y gilfach deg.

Bryntrallwyn.—*Bryn-tal-lwyn*, h.y., bryn uwch y llwyn. Seinir y gair gan rai yn *Fryn Trallwm*.

Cae'r Deintur.—Trowyd y felin flawd uchod yn bandy, a dyna'r rheswm dros alw y cae yma wrth yr enw Cae'r Deintur. *Deintwr*, deintyr, ystyniedydd, tynhawr. Yn y cae yma y gosododid y gwlaneni, &c., i sychu.

Creigiau'r Morwydd.—*Creigiau Morwydd*, enw personol.

Eglwys Goel..—Eglwys Coel. *Coel*, enw personol. Mae olion yr hen eglwys i'w canfod yn agos i safle Llys Bradwen.

Figin.—*Megin* neu *bignen*, daear laith. Cors.

Friog.—*Fri*, Fre (fel yn Moel*fre*), uchel. Y tir uchel, a mae felly mewn gwirionedd.

Ffridd Boedel.—*Ffridd y bidwal*, ffridd y gwersyll.

Garthangharad.—*Garth* ac *Angharad*, enw personol.

Hafod Dywyll.—*Haf+od*, annedd ddefnyddid yn yr haf, yn gyferbyniol i *Hendref*, y gauaf-dy, yr hendrigfa. *Dywyll* yn yr enw hwn yn ddesgrifiadol o'r lle.

Hafod y Taliadau.—Dichon fod yma *daliadau* pennodedig wedi bod. Mae y lle yn terfynu ar Llys Bradwen.

Hafod wen.—Yr hafod deg.

Hendre.—Gauafdy.

Henblas.—Yr hen gartref.

Llanfendigaid.—*Llan*, gweler dan yr enw *Llangelynin*. Enw neuadd yw yn awr, ond bu yno eglwys yn cael ei galw wrth yr enw. Tua 1758 yr oedd yno gapel bychan yn sefyll, yr unig ran o'r hen eglwys. Mae y gair *Fendigaid* yn awgrymu mai Eglwys Babyddol oedd.

Llechlwyd.—Y graig lwyd.

Llechwedd cefn.—Ochr y grib.

Llwyndu.—*Llwyn*, gweler dan yr enw *Llangelynin. Du*, desgrifiadol.

Llwyngwril.—Enw pentref ar fin y môr yn mhen gogleddol y plwyf. Safai y *Llwyn* gynt, fe ddywedir, yn ymyl amaethdy y Borthwen, a bod *mil o wyr* wedi bod yn aros yno; ac yn ol y traddodiad *Llwyn gwyr fil* yw ystyr yr enw. Mae yr esboniad hwn yn debyg i'r hyn ddywedir am ystyr yr enw Caerfyrddin, sef ei fod yn tarddu o "fyrddiwn" o wyr. Enw personol yn ddiddadl yw *Gwril* neu *Gwryl*.

Llys Bradwen.—Nid oes heddyw ond ychydig iawn o olion yr hen lys yn sefyll ar y gwastadedd uwchben Arthog. Enw personol yw Bradwen. Yr oedd yn Arglwydd Dolgellau, a mae ei fab neu ei wyr, Ednywain ab Bradwen, yn cael ei ddynodi fel Arglwydd Dolgellau.

Maes Crygenan y gelwid unwaith y fan y saif olion Llys Bradwen arno. Mae amaethdy o'r enw Crygenan, a mae llynau gerllaw y ty elwir yn Llynau Crygenan. Dywed Dr. W. O. Pughe mae ystyr y gair yw "cregin," *shells*.

Melin Ddraenen, neu FELIN FRAENEN yn fwy cywir. —Enw cyffredin ar rai o afonydd Cymru ydyw "Brân" (Brëan), o *Bre*, bryn neu fynydd, ac *an*, ffrwd. Felly, ystyr yr enw uchod yw Felingar, y ffrwd fynyddig.

Nant Silig.—*Nant*, ffrwd, a *Silig*, enw personol.

Nantgeseulog.—Yn ol W. O. Pughe *Gysulog*, the place of counsel; ond gwell genym ni fod y lle yn cymeryd ei enw oddiwrth y *Nant* red yn *nghesail* y mynydd cyfagos.

Ogof Owen.—Ogof ar fin y môr yn ymyl Llanfendigaid. Y traddodiad ynglyn a hi yw i Owen Glyndwr fod yn llechu ynddi rhag ei elynion, ac iddo gael ei borthi tra yma gan Ednyfed ab Aron, un o deulu Ednywain ab Bradwen. Dywedai yr hynafiaethydd W. W. E. Wynne, o Beniarth, fod yno fynedfa yn troi ar y llaw dde allan o'r brif ogof, ac y gallai un ymguddio yn hawdd yn hwnw. Ond pan yr ysgrifenai yn

1872 am y lle, dywedai fod y fan yn prysur lenwi a thywod ac a graian.

Pant Einion.—Enw personol.

Pantyllan.—Gweler yr enw *llan* o'r blaen.

Pantafal.—*Pant y gafael*, 64 erw.

Pantywaungron.—Enw desgrifiadol.

Pantgwyn.—Y pant teg.

Pant y ffa.—Pant a "ffa y corsydd" yn tyfu ynddo.

Pant yr hen erw.—Hen erw, o'i chyferbynu a'r newydd.

Pantygwyddwch.—Parth neu Fuarth Gwyddwch neu Gwythwch, enw personol.

Parlle.—*Per-lle*, perllan. Edrycher *Tyddyn y Berllan*.

Pandy.—Melin banu. Y mae lluosogrwydd nifer y lleoedd elwir "Pandy" yn ein gwlad yn dangos y gwaith ddygid ymlaen yn ein rhanau gwledig.

Penygromlech, a saif yn agos i Lan Gelynin, eithr nid oes Cromlech yno yn awr. Mae yr enw yn gwneyd i ni feddwl i un fod yno rhyw adeg, neu feallai i'r hen dadau roddi yr enw i ryw gilfach naturiol sydd yn y creigiau yn y fan.

Rhiwcorniau.—Yn ol Dr. W. O. Pughe, "Rhiw'r cernau" yw yr enw, a'r ystyr, the ascent steeps; ac y mae y desgrifiad yma yn un tra chywir am y fan.

Rhiwgaeron.—Amaethdy yn agos i lle y saif Y Gaer. Tueddir ni i gredu mai enw personol yw Rhiwgaeron.

Tycerrig.—*Ty-cerryg*. Yn yr hen amser adeiledid y tai yn wahanol i'r hyn wneid pan yr oeddynt yn gwneyd y "Ty-cerryg" hwn.

Y Gaer.—Gweddillion caer, neu amddiffynfa, yw yr hon adnabyddir wrth yr enw hwn. Saif y tu deheuol i Lwyngwril, ychydig bellder oddiyno. Dywed traddodiad fod llawer ysgarmes waedlyd wedi cael eu hymladd o gylch y fan.

Ynys Gyffylog.—*Ynys*, a *cyffylog*, ceiliog coed.

Ynysgreuan.—*Ynys*, a *creuan*, penglog. Dyna yw ffurf y fan.

Yr Ardd Gladdu.—Hen fynwent y Crynwyr, ar Fryn Tallwyn, ar dir y Llwyn Du, gerllaw Llwyngwril.

PLWYF LLANEGRYN.

Y mae enw y plwyf hwn yn deilliaw oddiwrth Egryn, yr hwn, yn ol *Bonedd y Saint*, oedd fab i Gwrhydr Drwm, ab Gwrhydrawc, ab Geraint, ab Caranawc, ab Cleddyfgar, ab Cynan Glodrydd, ab Cadell Deyrnllwg. Yr oedd yn oesi tua'r seithfed ganrif.

Bronclydwr.—Y fron glyd. Saif y lle yng nghysgod bryn. Dyma gartref Huw Owen, wrol a duwiol. Dadorchuddiwyd cofgolofn iddo y flwyddyn ddiweddaf.

Bron Eunydd.—*Bron*, ac *Eunydd*, enw personol. Y mae y lle yma yn rhan o dyddyn y Castell Mawr.

Brynbloeddyn.—Bryn Bleddyn, enw personol.

Bryn y Froches.—Bryn y Broch, h.y., y ddaearfochyn *(badger)*.

Cae'r Abbot, neu ar lafar gwlad *Cae'r Abad*. Y mae cysylltiad rhwng hwn ac Abad *(Abbot)*.

Carregybig.—Ar fynydd y Waen. Yn ol pob tebyg, gwaith natur ac nid dyn yw ei lleoliad yno. Y mae traddodiad ynglyn a hi, a dyma fe:—Cyflawnodd dyn o'r gymydogaeth hunan-laddiad, a chan na oddefid claddu yn mynwent y plwyf, claddwyd ef ar groesffordd Cefn Coch. Dywedid ar ol hyn fod ysbryd yn aflonyddu ar y groesffordd. Codwyd corff y truan oddiyno, a chladdwyd ef ger Carreg y Big, a gosodwyd pren ar ei ben i nodi y fan yr ail gladdwyd ef.

Cilsarn.—*Cil*, lloches, neu fan neillduedig; *Sarn*, llwybr troed, neu ffordd.

Cloddfa'r Penguwch, neu Cloddfa'r Perfeddnant. —Buwyd yn cloddio yma am lechau. *Penguwch*, cap, neu capan. Gelwid y lle yma yn ol yr enw hwn gan ei fod ar "gopa" y bryn.

Crynllwyn.—Y crwn lwyn, enw desgrifiadol.

Closbach.—*Clos*, buarth, lle amgauedig; *bach*, desgrifiadol.

Cyfannedd.—Cyd-annedd.

Hafotty.—*Haf+od*, ty haf at wasanaeth y bugeiliaid. Saif ar uwchaf y mynydd.

Henddol.—Yr hen annedd, neu gartref.

Gleuwer.—Goleu-wern.

Gottal.—Ty bychan ym mhentref Llanegryn. Mae wedi ei wasgu i mewn, megis, i gongl rhwng dau dŷ arall. Ceir yr enw mewn lleoedd eraill, megis Ty'n y Gotal. Gelwir lle bychan yn Eryri yn Gotal. Saif rhwng dwy graig. Credwn mai dyma ei ystyr:—"A small corner, so-called because it resembles a rectangular pin known as a *cottle* or *cottel*."

Gwely'r Meibion.—Darn o fynydd-dir rhwng Pont Cwm Llwyd a Chyfanedd Fawr. Pwy oedd y meibion hyn nis gellir dweyd; ond wrth *Gwely* yr ydym i ddeall y drefdadaeth berthynai i'r teulu. Rhenid hon rhwng brodyr, yna rhwng cefndyr, ac wed'yn rhwng cyfyrdyr.

Gwydd-fryniau. — *Gwydd*, coed. Gorchuddid y bryniau a choed gynt, ac yr oedd yr enw yn un cymhwys iawn.

Moelmon, oedd unwaith yn dyddyn ar wahan, ond yn awr mae yn perthyn i'r Tymawr. Enw personol ydyw yn ddiau.

Penybylau.—Uwchaf y foel, neu fryn crwn.

Ty'r Gawen.—*Cawen*, y llysieuyn elwir cleddyflys neu cleddlys, yn Saesneg bur-reed. Amlder o'r rhai hyn yn tyfu yn y lle roddodd enw i'r fan Tir Cawen.

Talwrn.—*Tal*, pen neu gopa; ac *wrn*, *Wrn*, neu *Gwrn*, yw cnap caled, neu le caled ar y ddaear. Ystyr y gair felly yw pen y lle cnapiog.

Talybont.—Pen neu derfyn. *Y bont*, Pont ar Ddisynni. Y mae llawer o hanes yn perthyn i'r lle. Y mae y ty yn hen iawn. Oddiyma yr anfonodd Llewelyn ein Llyw Olaf lythyr at Archesgobion Caergrawnt a Chaerefrog. Bu y Brenin Iorwerth I. yma hefyd yn 1295. Yr oedd yma Mai 14 y flwyddyn hono,

ac yn Nhywyn y 17 a'r 18 o Fai, fel y dengys y *Patent* a'r *Close Rolls*.

Tomen Ddreiniog.—Crug henafol yw, ychydig i'r deheu oddiwrth Talybont, ac ar lan ogleddol yr afon Disynni. Cafodd yr enw "Dreiniog," mae yn debyg, oherwydd fod cnwd o ddrain yn tyfu arni. Yr ydym wedi sylwi eisoes ar Domen Bryn y Castell (dan yr enw hwnw). Dywed traddodiad y byddai y milwyr oeddynt ar y ddwy domen hyn yn ymladd llawer brwydr waedlyd. Edrycher dan yr enw *Dol y Ffrwd* yn Mhlwyf Tywyn.

Trychiad.—Y mae esboniad leol ar y lle fel hyn. *Trychiad*, tri chauad, h.y., tri o ddarnau bychain, wedi eu cau allan o'r morfa gwyllt, llaith, ar y cychwyn, ac yna ychwanegwyd atynt fel at fanau eraill. Yr ydym ni o'r farn mai hon yw yr esboniad tebycaf i gywir o'r enw.

Trawstmawr.—*Trawst*, tylath, swmer, dist, ceibren, ond yn yr achos yma fod y swmer yn gefnen o fynydd.

Troedyrhiw.—Gwaelod neu ben isaf yr allt. Enw nodweddiadol o'r lle.

Waen Llywelyn.—Rhosdir yn ymyl y Domen Ddreiniog, lle, meddai traddodiad, y bu ymladdfa rhwng milwyr Tomen Bryn Castell a milwyr y Domen Ddreiniog. Darganfyddwyd gweddillion arfau rhyfel, megis blaenau gwaewffyn, a darnau o fwâau yn y fan hon, a mae hyn yn myned i brofi bod yma ymladd wedi bod. Feallai mai oddiwrth y Tywysog Llywelyn y mae yn cael y dynodiant Llewelyn. Bu ef, fel y sylwasom, yn aros yn Talybont, gerllaw.

Y Gelli.—Tir wedi ei orchuddio un adeg a llwyni.

PLWYF LLANFIHANGEL Y PENNANT.

Castell y Bera.—Olion, erbyn hyn, Castell ar graig gadarn gerllaw Llanfihangel. Y mae yr hen fardd a'r

hanesydd Gruffydd Hiraethog yn nodi ei safle a'i gymeriad fel hyn:—"Kwmmwd Ystymaner Llanvihangel y Pennant, ar lan afon Dyssyni Kastell y Byr, lle bu adeilad mawr Cadarn wedi ei ddistrywio a'i fwrw i lawr, ac a elwir yn y Secr Sinadon Castell." Mae y Brenin Iorwerth I. wedi arwyddnodi Breintleni tra ar ei daith drwy Gymru yn 1284, ac yr ydym yn cael fel hyn am y lle hwn:—

(1284) Nov. 1.—Bere—Castell y Bere (Liberate Roll).
2.—Eto (Close Roll).
3.—Eto (Patent Roll).
4.—Eto (Close Roll).
5.—Eto (Patent Roll).
6.—Bere Castle (Close Roll).

Geilw Robert Vaughan yr Hynafiaethydd ef yn Castell y Biri (the castle of the Kites).

Gelwir ef yn yr ardal Castell Cae'r Berllan.

Gelwir ef yn Castell Tref Seri yn *O. Jones' Welsh Bards*, tud. 78.

Gelwir ef yn Castell Teberri gan Pennant *(Tours in Wales)*.

Gelwir ef yn Castell yr Aberau gan Ieuan Brydydd Hir.

Gelwir ef yn Castell y Beri gan Cathral.

Tebyg yw ei fod yn cymeryd yr enw *Bera* oddiwrth ffurf y fan y mae yn sefyll arno. *Bera*, daswrn, neu yn Saesneg, *a slack*.

Cedris.—*Cedris*, trysor cuddiedig.

Cefnmawr.—Y gefnen uchel.

Cegidan.—Enw afon. *Cegid*, cecys, cegyr, enw llysiau, ac *au*, ffrwd.

Clwt Maen Hir.—Llecyn yn ymyl Cae'r Berllan a Maen Hir, wedi ei osod ar ei ben yn y ddaear ynddo. Hyd y maen allan o'r ddaear yw chwe' troedfedd a haner. Mae yn debyg fod y lle yn cael yr enw oddiwrth y maen.

Craig y Deryn.—Craig uchel serth, ac felly yn hoff gyrchfan adar o bob math i nythu a magu. Mae gan Ieuan Brydydd Hir gyfres o englynion iddi. Dyma un:—

"Bryn yr aderyn ar diroedd—uchel,
Iachaf dan y nefoedd;
Caer gynt yn y creigiau oedd
I filwyr mewn rhyfeloedd."

Dysefin.—*Mysefin*, Maes Hefin, enw personol.

Erw Benlas.—Gweler dan yr enw *Erw*, Tywyn.

Erw Waedd.—Tyddyn yn ymyl Craig y Deryn. Dynoda yr enw fod brwydrau wedi eu hymladd yn y gymydogaeth, a thueddir un i feddwl mai dyma lle bu un neu ragor, oherwydd y mae *gwaedd* yn ganlyniad naturiol i frwydr.

Erwllwyngwern.—*Erw y llwyn gwern*, enw desgrifiadol oddiwrth y coed *gwern* yn y fan.

Ffynon Mihangel.—Yn cymeryd ei henw oddiwrth Mihangel, sylfaenydd y Llan. Saif ar Ffridd Ceryg y Felin. Bu yn gyrchfan llu o bobl unwaith ddioddefent oddiwrth y gewynwst, ac yr oedd yn cael ei chadw yn drefnus, ond

"Drain ac ysgall, mall, a'i medd,
Mieri lle bu mawredd."

Gwaith Deuwr Duon, Gwaith Gwr Du, a Pumwr Duon, ydynt enwau tri o leoedd yn perthyn i wahanol dyddynod: y cyntaf i Nantcawfawr, a'r ddau eraill i Gedris. Dywed *Cantref Meirionydd* mai gwaith dau wr oedd y cyntaf, gwaith un oedd yr ail, a gwaith pump oedd y trydydd, o dori gwair mewn diwrnod. Gall fod cyfeiriad y gair *du* at rhyw nodwedd yn y tir, at galedrwydd y gwaith, neu at y pladurwyr. Daeth llu o ddynion ysbeilgar i Gymru yn y nawfed ganrif, pa rai elwir y Daeniaid Duon, Llu Du, Paganiaid Duon, a'r Gwyr Duon, ac oherwydd creulondeb eu gweithredoedd cawsant yr enw *du*. Y mae y lleoedd enwir uchod—Gwaith Deuwr Duon, &c.,—yn anghysbell, a buasent yn gwneyd encilfeydd rhagorol i'r paganiaid hyn fyned iddynt i lechu, ac oherwydd hyn yr ydym ni o'r farn mai ar eu hol hwy y gelwir y lleoedd.

Gwerglodd Ystym Gronw.—*Ystym*, edrycher dan *Ystumaner;* Gronw, Goronwy, enw meddianol.

Gelli Ddraenen.—Gelli Fraenen. Edrycher dan yr enw *Melin Fraenen* yn Llangelynin.

Gernos.—*Cèrn*, corn, gallt, gallt serth. Enw nod-weddiadol.

Hendrefwallog.—*Hendref*, ty gauaf. *Gwallog* neu *Gwallawg*, enw personol.

Henfynwent.—Enw roddir i'r lle yr oedd adfeilion yr hen eglwys. Gweler dan yr enw *Bryneglwys*.

Llaethnant.—Enw afon. "Yno," meddai Robert Vaughan, "ar lan yr afon fechan Llaethnant, ar graig, y safai castell cadarn a elwid Castell y Biri." Oddi-wrth y dyfyniad hyn gwelwn mai yr afon red tu cefn i amaethdy Maes y Llan a feddylir wrth y Llaethnant.

Llanllwyda.—*Llan* a *Llwyda*, enw personol mae yn debyg. Yn y rhan fwyaf o engreifftiau sydd genym yn enwau Cymru, ceir y gair *Llan* yn gysylltiedig âg enw person.

Llwyngwer.—*Llwyn*, coed gwer, cysgod, y llwyn cysgodol.

Nantcaufawr, Nantcaufach.—Myn rhai mai Nant *cau* yw yr enw, a'i fod yn meddwl Cwm *cauedig;* ond yr ydym ni o'r farn mai enw personol ydyw, sef *Caw*, ac mai dyffryn neu Cwm Caw yw yr ystyr.

Nant yr Eira.—Lle cysgodol, cil haul, felly yn fan-teisiol i eira aros yno yn hir heb doddi.

Palis.—Yr enw roddir i wyneb Craig y Deryn oher-wydd ei debygrwydd i Balis, h.y., parwydfwrdd. Yma yr ystyr yw serthedd craig.

Pont Llaeron.—*Llaer*, crychiad dwfr, adlif, adlif-iad. Enw desgrifiadol iawn o'r fan.

Rhiwerfa.—Tyddyn yn ymyl Craig y Deryn. *Rhiw 'r aerfa*, Gallt y Frwydr. Cydmarer yr enw *Erw waedd*.

Tap Spi, Tap Yspi.—Telpyn o graig yn uwch i fyny na'r Castell (gweler dan yr enw Castell), ddefnyddid i wylio symudiadau gelyn.

Tynyfach.—*Tyddyn y Fach*, mewn bachell neu gornel.

Y Gaerwen, sydd olion hen gaer ar ben Bryn y Gaer Wen yn ymyl Craig y Deryn. Yr oedd yr enw gynt yn nodweddiadol o honi, ac yn ddesgrifiadol.

Ystumaner.—Enw y gantref. Yn yr hen amser, pryd nad oedd son am y gantref hon, gelwid rhan o honi yn Gwmwd Ystumaner. Y mae gwahanol ddulliau o ysgrifenu y gair, megis Ystymaner, Ystumaner, Ystum Anner, Ystymofir, Ystyn Aner, Ystym Aniel. Yn *Peniarth MSS.*, 135, o waith Gruffudd Hiraethog, sillebir ef Ystymanair. Yn *Peniarth MSS.*, 147, "A List of the Cantreds, Commotes and Parishes of Wales" (circa 1566), mae wedi ei sillebu yn Ystymaniel. Dywed ysgrifenydd yn *Y Geninen*, Gorph., 1887, mai *Ystum Aran*, ac yr ysgrifenir y gair hefyd yn Taran. Ysgrifena W. O. Pughe, yn ei *Typography of Meirion*,—

"*Ystum Anner.* This district takes its name from the most southern of the two ridges of Cader Idris, to the westward and which ridge is imagined to bear the form of a heifer couchant: for the meaning of the name is *heifer form.*"

Dywedir mai y gair sillebir *ystym* neu *ystum* yw y gair *estyn* neu *ystyn*, ac os mai dyna yw y gair ddylasai fod, ymddengys mai rhoddiad meddiant yw ei ystyr gyfreithiol. Y gair Saesnig am dano yw *Extent*. Y mae Tref Ddegwm ym mhlwyf Llansilin yn dwyn yr enw Estyn-allan.

PLWYF TALYLLYN.

Talyllyn yw enw y plwyf, a'i ystyr yw "pen," "terfyn," neu "uwch y llyn," a chymer ei enw oddiwrth y llyn sydd ynddo. Y mae dwy ffordd o enwi y llyn hwn, sef Llyn Mwyngil a Llyn Meingul, ac y mae y ddau enw yn ddesgrifiadol a nodweddiadol o hono.

Llyn Mwyngil.—Llyn y Mwyn Gil, h.y., yn gorwedd mewn mangre ddymunol rhwng y gelltydd a ymgodant o'i amgylch.

Llyn Meingul.—*Llyn* + *main* + *cul*, tros filltir o hyd, a haner milltir o led.

Abergwidol.—Amaethdy, yn cael yr enw oddiwrth un Gwidol. Mae rhyw hen gerdd yn son am

"Ysbryd Gwidol wedi'r nos."

A dywedir y byddai ysbryd yn Aber Gwidol, a thebyg mai at yr ysbryd hwnw y cyfeiria y llinell. Edrycher dan yr enw *Gwrthmwl*.

Aberllyfeni.—*Aber-llwyfeni*, enw pentref. *Aber*, y fan yr arllwysa yr afon a red i lawr ar hyd y cwm, ac a ymestyna i gyfeiriad Cader Idris i'r Afon Ddulas islaw ty Aberllwyfeni. Ceir yr enw yn y ffurf yma mewn cywydd o waith Ifan Tew: sef "Cowydd i Sion Llowyd o Aberllwyfeni cyn iddo fynd yn farchog y Sir." Dyma ddwy linell o hono:—

"Llawer i'r aber a red
Llwyfeni maen (n) lle i fyned."

Eto mewn cywydd o wais Rhisiart Phylip:—

"Cawn yn Aber haelder hwn
Llwyfeni, oll a fynwn."

Llwyfeni, y coed Llwyfeni, ac oddiwrth y rhai hyny y tardd yr enw.

Bwlch Bangor.—*Bwlch*, adwy; *Bangor*, erwydd, gwrysg a polion plethedig.

Braich yr hwch.—*Braich*, cefnen o fynydd yn estyn allan; *Hwch*, y mae yma gyfeiriad yn yr enw at yr arferiad o gyneu coelcerthi ar y bryniau yn ol defod yr hen amserau. Ellyll oedd yr Hwch, neu Hwch Ddu Gwtta, ac yr oedd yn peri ofn a dychryn anaele i ieuenctyd yr adeg. Ceir cyfeiriad at y peth yn *Y Geninen*, Ebrill a Gorph., 1899.

Cwm Rhwyfor.—Enw amaethdy, yn cael ei alw felly oddiwrth y Cwm. Cwm rhwydd i fôr.

Cwm Soeglyd.—Glyn gwlyb llaith, a mae yn debyg llawer o Soeg gwylltion yn tyfu ynddo.

Craig y Llam, Llam y Lladron.—Craig ddaneddog, dros yr hon y dywedir yr arferid bwrw troseddwyr gynt. Mae lle o'r enw *Llam y Lleidr* ger Harlech hefyd.

Cae'r Brenin.—Cae yn perthyn i fferm Llwyndolithel, ac a elwir felly am mai o fewn ei derfynau y gorwedd y gyfran a elwir *Cyfran y Brenin*, sef y rhan hwnw o'r unrhyw gyttir.

Cildydd.—Cilfach, yn amgauedig iawn—o olwg dydd neu haul megis.

Crachfynydd.—*Crach*, cnap caled, cnyciog, mynydd cnyciog.

Cwmcelli.—Y dyffryn coediog.

Cymerau.—Lle yn gorwedd rhwng dwy nant neu afon.

Dolffanog.—Y ddôl gysgodol.

Dolfadog.—*Dol-Madog*, enw personol.

Dolywern.—Dôl neu weirglodd y dyffryn.

Dulas.—*Du*, tywyll, a *clais* (hen Gymraeg) afon neu nant. Yr Afon Ddu.

Gaewern.—*Y gau wern*, y rhos mewn man cauedig neu gysgodol.

Gwyndyll.—*Gwyngyll*, yn tarddu oddiwrth "cyll," oeddent yn tyfu yma gynt, a'r ansoddair gwyn yn ddesgrifiadol o honynt.

Hafotty.—Ty haf. Yr oedd llawer iawn o honynt gynt yn y plwyf yma, fel ag yn mhob plwyf o ran hyny. Codid hwy ar leoedd uchel, bellder oddiwrth y prif anneddau, a symudai y teulu iddynt dros dymhor yr haf er mwyn bod yn nes at y defaid a'r geifr. Yn ystod y tymhor haf trinid y llaeth a'r ymenyn yma. Pan ddeuai y gauaf symudent yn ol i'r prif anneddau, neu i'r Hendref, fel y galwent ef.

Llwydiarth.—*Llwyd* a *garth*, y pentir llwyd.

Llwyndolithel.—*Llwyn*, *Dol*, ac *Ithel*, yr olaf enw personol.

Llyn Cau, neu **Llyn Cai.**—Mae hwn yn gorwedd wrth odreu Craig Cau neu Craig Cai, mewn lle anghysbell iawn. Gelwir ef ar ol person o'r enw Cai.

Llyn y Tri Graienyn.—Cafodd yr enw yma oddiwrth dair careg enfawr sydd ar ei fin. Y mae chwedl yn gysylltiedig â hwy, a hono yw i'r Cawr Idris fod yn teithio ffordd yma un diwrnod, ac iddo deimlo rhywbeth yn ei flino yn ei esgidiau. Tynodd hwynt oddiam ei draed, a syrthiodd y *tri graienyn* hyn allan.

Llyn Owain Goch.—Llyn wedi ei enwi ar ol Owain Lawgoch, neu Owain Goch, sef *Ioain de Galles*—Owain o Gymru. Dywed traddodiad y byddai ysbryd Owain yn ymweled â'r plwyf, oherwydd ei fod wedi cuddio caib a throsol o dan sylfaen ty Aberllwyfeni. Dywed traddodiad arall ei fod yn etifedd Aberllwyfeni, ac iddo fyned oddicartref. Pan ddaeth yn ol, yr oedd ei etifeddiaeth wedi cael ei meddianu gan un arall, yr hwn, er mwyn ei rwystro i ddyfod i'w eiddo, a achosodd i Owain gael ei lofruddio. Ac i'r Llyn yma yr offrymwyd ei ysbryd.

Maesygorwyr. — *Maes-y-goreu-wyr*, oedd esboniad Bardd Meirion arno gynt. Yn ol traddodiad, bu Ednyfed Fychan yn byw mewn lle o'r enw Penyrhyl, yn ymyl y fan dan sylw. Bu ymladd lawer yn y fan, a safai un fyddin yn Maes y Gorwyr, a hwy enillasant, felly dyna yr ystyr, *Maes y Goreu Wyr*. Ysgrifenir y gair mewn *Crown Rent Assessment Book*, 1633 A.D., yn *Maes y Gorwydd*, ac y mae *gorwydd* yn golygu "march," "eddestr," "ceffyl." Ond ychydig iawn o ddibyniad ellir roddi ar sillebiaeth geiriau Cymraeg yn y llyfrau hyny yr amser hono. Mae awdwr *Cantref Meirionydd* yn ei darddu o'r gair Gorŵyr, yn golygu perthynas yr hwn a fai radd yn mhellach nac ŵyr. Ond nid ydym yn gweled hwn yn esboniad boddhaol, oherwydd mae yn debyg fod enw ar y fan cyn i'r gorŵyr gael ei eni. Gwell genym ni "maes còr wydd," fel y dywedai Bardd Meirion, am y tyfai yno lawer o goed mafon cochion, ac mai y coed hyny, o *goed*, oedd y rhai lleiaf.

Maesybwlch.—*Maes-y-bwlch*. *Bwlch*, mynedfa neu adwy yn y bryniau gerllaw i'r fan.

Mriafel.—Y mae tri lle yn dwyn yr enw yma, sef Mriafel Uchaf, Mriafel Fach, a Mriafel Ganol. Dywed Dr. W. O. Pughe mai "Y gafael uchel yw ei ystyr." Ond yn *Transactions of the Cymmrodorion, Vol. I.*, y mae a ganlyn:—*Briavel*, supposed to have been the grave of Gwrthmwl Wledig, a chieftain from the north of England, who sought refuge in Wales about the beginning of the 6th century, and was buried on the side of Briavel, as appears from the following verse in the *Englynion Beddau Milwyr Ynys Prydain*,—

"I Gelli Vriavel, bedd Gwrthmwl."
—*Myf. Arch.*, vol. i., p. 81.

Yn ol pob tebyg gelwir y lle ar enw person.

Panylan.—Yr enw roddir i'r ochr agosaf i'r Gadair Idris i'r ffordd fawr ger y Llyn Bach. Caiff yr enw oddiwrth ei debygrwydd i "banylan" *(saddle)*.

Penydelyn.—Enw roddir i graig oherwydd bod ei ffurf yn debyg i ben telyn.

Penycnycyn.—Clogwyn uchel, elwir hefyd yn Llam y Lladron.

Pentre Dol Amarch.—*Pentre*, edrycher dan yr enw yn flaenorol. *Dol*, gweirglodd, neu wastadedd; *Amarch*, gorchuddiad, encuddiad, amleniad, Pentre y gwastadedd cauedig.

Penyrhyl.—*Pen y rhyle*, terfyn yr uwchfan neu le.

Rhiw hwb y wrach.—*Gwrach* gan yr hen Gymry oedd fath o wag ellyll neu ysbryd dychmygol.

Rugog.—Enw tyddyn. *Grugog*, llawer o rug yn tyfu ar y fan.

Tai Cynhauaf.—Anneddai. Ceir son yn hen gyfreithiau Cymru am gynhauaf-dai, sef, yn ol pob tebyg, tai i ddiddosi cynyrch y tir. Mae yr enw yn cael ei ddefnyddio yn y plwyf yma ar hyn o bryd.

Tap Rhys Edwards, sydd enw roddir i glogwyn—rhan o Graig y Llan. Syrthiodd un o'r enw Rhys Edwards drosto, a thorodd ei wddf.

Twr Main,—Clogwyn tal ar ffurf twr, ar gwr deorllewin Llyn Cai.

Tynywins,—*Anedd*, tyddyn; *Wins*, llygriad o winwyn y maes, neu winwyn gwyllt.

Tyno.—Enw tyddyn; *llain*, âs o dir, glasdir, dol.

Ystradgwyn.—*Ystrad*, gwastadedd, dyffryn, glyn; *gwyn*, teg, hardd.

PLWYF PENAL.

Penal.—Enw plwyf a phentref. *Panael*, neu *Penallt*, ydyw, meddai Cathral.

Bettws.—Enw ar dyddyn. Llygriad o'r gair Seisnig *Beadhouse*, elusendy, an almshouse for beadsmen. "Beadsman" or "Bedesman," an inhabitant of an almshouse, so-called because in Catholic times most charities of this class were instituted that the inmates might "pray for the soul of the founder" *(Dictionary of Phrase and Fable)*.

Bronyraer.—Bryn y frwydr. Ond nis gellir dweyd pa frwydr.

Bryniau Bychain.—Edrycher dan yr enw *Pennau'r Bryniau Bychain* yn flaenorol.

Caeceinach.—*Cae*, maes; *ceinach*, ysgyfarnog.

Cae Llwyn y Neuadd.—Enw cae yn agos i olion y brif gaer yn Cefncaer. *Neuadd*, plas. Y neuadd hon oedd Cae'r Berllan.

Caeau Madog.—*Madog*, enw personol. Anhawdd dweyd pwy oedd y Madog hwn.

Cefncrib.—Enw tyddyndy, yn cymeryd ei enw oddiwrth ei safle ar grib cefnen o fynydd.

Cefncaer.—Enw tyddyndy. Yr oedd yma gynt gaer, ac ymddengys mai yn amser Theodoseus yr ieuengaf yr oedd. Cafwyd llawer o arian bathol Rhufeinig yma wrth gloddio. Dyry Cambden ddesgrifiad llawn a dyddorol o honi.

Cefncynhafel Fawr, Cefncynhafel Fach.—Tyddyndai. *Cefn* a *Cynhafal*, enw personol.

Cwmbreichiau.—Gweler dan yr enw *Braichiau y Caeau*.

Cwmcadiau.—Cwm cadau, lle bu llawer o frwydro. Naturiol yw meddwl bod llawer o frwydro wedi bod yn y gymydogaeth.

Cwmgila.—*Cwm y gil fa*, y fan gysgodol neillduedig.

Cwmffernol.—"The cwm of the narrow stream," meddai Dr. W. O. Pughe. Mae yn *Englynion y Beddau* yr englyn canlynol:—

> "Y Bed yn y Goroynyd a lyuyaf ai luyossyd
> Bed ffyrnnal hael vab Hyulyd."

Ffyrnnal, ond ar waelod y ddalen yn y *Myf. Arch.* rhoddir *Ffyrmail*. Mae tebygrwydd mawr rhwng Ffyrnnal yr englyn a Ffernol yn yr enw, ac i wneyd y peth yn debycach fod cysylltiad rhyngddynt, ceir Carneddau ar dir Cwmffernol, a mae yno hefyd faen ar ei ben yn y ddaear, ac fe all yn hawdd ddigon ddynodi bedd rhywun neu gilydd.

Cwtwshelyg.—Enw tyddyn, yn tarddu o *Helyg*, y planhigyn; *Cwttws*, cottog, bondew. Llwyni o'r rhai hyn yn tyfu yn y fan roddodd yr enw.

Dolydderwen, elwir hefyd DOLWRACH.—Gweler dan yr enw *Rhiw hwb y wrach*.

Dolyragen, yn cymeryd ei enw oddiwrth rhwygiad yn y cwm lle y saif y lle.

Dolydd Annog.—Enw tyddyndy, dolydd y cyffroi, yn cael yr enw yn ddiddadl oddiwrth yr ymladd a'r brwydro fu yn y gymydogaeth.

Esgair Angell.—Edrycher yr enw *Esgair* ym mhlwyf Tywyn. *Angell*, "the ample chasm," meddai Dr. W. O. Pughe, a mae yr enw yn bur gymhwys.

Esgair Geiliog.—Y gefnen ar ffurf ceiliog. Y mae yr enw yma yn cael ei roddi i'r mynydd a'r tyddyndy.

Esgairlyfurum.—*Esgair*, cefnen ymestynol o dir; *Lyfurum*, cawn yr enw yn *History of Powys Madog*, Vol. V., fel Esgair Foel Eirin. Ond yr enw yn iawn yw Esgair Foel Euryn; a chafodd yr enw Euryn, fe

ddywedir, oherwydd tlysni ymddangosiadol ei dull-weddiad.

Esgairweddan.—Enw tyddyndy. Esgair a wyddan. *Esgair Wyddan*, yr esgair goediog. Tebygol iawn yw fod yr esgair hon yn orchuddedig â choed gynt, ac yr oedd yr hen bobl yn rhoddi enwau darluniadol a nod-weddiadol. Yr hyn sydd yn cymeryd ein sylw yma ydyw mor fynych mae y gair Esgair yn digwydd yn y plwyf hwn. Y mae rhai o'r plwyfi yn ymyl nad yw y gair i'w gael ynddynt o gwbl.

Llanerchybleiddiaid.—Cyfeiriad sydd yma yn ddi-ddadl at yr adeg yr oedd y creaduriaid rheibus hyn yn gyffredin yn ein gwlad. Ceir yr enw Y Blaidd yn Llan-egryn.

Llugwy.—Yr afon lwydwyn, neu lwydlas, neu oleu.

Llyn Barfog.—Llyn, tua thair milltir a haner o Aberdyfi. Saif mewn pant cysgodol, a mae yn dra thebyg iddo gael yr enw "Barfog" oddiwrth y coed orchuddient y bryniau o'i amgylch—o fin y dŵr i gop-äau y bryniau. Ymddangosent fel "barf."

Maes.—Y maes ym Mhenal, gwastadedd. "Near this place," meddai Robert Vaughan, "was fought the battle of Penal, in the days of Edward IV., by the men of William, Earl of Pembroke, and Thomas Gruffydd ab Nicholas with the house of Lancaster, when the said Thomas obtained the victory.

Nantygwenlli.—Nant y gwyn lif.

Pantycarneddi.—Gelwir felly oherwydd y crugiau ceryg sydd ynddo.

Pantyron—Pant, ac ŷn yn fwy amlwg a nodedig ynddo na'r un pren arall.

Pantlludw.—Enw tyddyn. Gellir tybied fod yma ymladd wedi bod o amgylch y fan, a llosgi a goddeithio y lle, a chanlyniad naturiol hyn fuasai lludw.

Plasesgun.—*Plas yr esgynfa*, y ty ar yr allt.

Penrhyn.—Tir yn ymestyn allan.

Penmaen Dovey.—Enw ty annedd. Uwch y maen ar fin Dyfi. Mae Penmaen arall ger Dolgellau, a mae hwnw yn cael ei alw yn Penmaen Cliffe.

Penmaen Isaf.—"Isaf," i'w wahaniaethu oddiwrth y Penmaen arall.

Penpiner.—*Piner*, pinwydd, y coed dyfent yno.

Pumwern.—Tyddyn sydd yn cymeryd ei enw oddiwrth y pum' rhos sydd yn ffinio a'u gilydd yn ei ymyl.

Pwllbudr.—Y pwll budr. Yr oedd yma le corsiog cyn iddo gael ei sychu.

Siambr Wmphra.—Dywedir fod yr Wmphra yma yn ysbeilydd, ac yn dwyn ei waith yn mlaen yn y nos; ond yn y dydd yn cilio i ymguddio i'r siambr hon. Saif yn Nghwm Siambr Wmphra, pa enw roddir i ran o'r cwm rhwng Pantperthog ac Esgair Lyfurun. Dywedir mai yn y nant y mae y Siamber, o dan bistyll, a bod y pistyll yn cuddio ei genau.

Talgarth.—Enw neuadd, a'i ystyr yw Terfyn-y-garth. Y mae yr enw yn gymwys iawn i'r lle.

Tyntwll.—Tyddyn y Twll, a gelwir felly oherwydd ei safle mewn pant.

Wtra y Beddau.—*Wtra* yw heolau, llwybr, culffordd, lôn. Yr Wtra hon yw y ffordd fawr arweinia o Benal at y Cwrt, yr hon a elwir yn awr Wtra Benal, ond elwid gynt Wtra'r Beddau, ydyw y Maes ym Mhenal, lle yr ymladdwyd brwydr. Cyfeiriwyd ato o'r blaen, a mae yn debyg y claddwyd y lladdedigion yma. Dyna ystyr yr enw.

Y Cwrt.—Enw pentref. Ystyr y gair yw buarth, llys (the equivalent of English "court," from Latin *curia).* Mae yn debyg mai y gaer Rufeinig yn Cefncaer roddodd fodolaeth i'r enw yma. Cawn yn ymyl hefyd *Top y Cwrt* a *Lower Court*. Ceir y gair Cwrt hefyd yn Nhrawsfynydd, yn ymyl olion Tomen y Mur.

Y Domen Las.—Y mae dau fan yn nghymdogaeth Maes Penal yn dwyn yr enw yma. Beddau, mae yn debyg, oeddynt.

Y Ffridd.—Enw tyddyn. Cawn yr enw hwn yn gysylltiol ac enw arall mewn rhai lleoedd, megis Ffridd Bryn Coch yn Nhrawsfynydd. Ystyr wreiddiol y gair yw "coedwig," ond defnyddir ef heddyw am gefnen

neu lechweddau isaf cefnen, lle y porfeir defaid, merlod mynydd, a gwartheg ieuainc yn yr haf.

Melin Parsel.—Melin yn y Parsel. Gweler dan y gair *Parsel* ym mhlwyf Tywyn.

Y Rofft, oedd unwaith balas yn cael ei adnabod wrth yr enw Plas yn y Rofft. Y mae achau y teulu yn *Peniarth MSS.* 268. Ystyr y gair yw cadlas, claws, neu faes bychan, neu faesan wrth dŷ.

CAERNARFON :
ARGRAPHWYD GAN GWMNI Y CYHOEDDWYR CYMREIG (CYF.)

ARFON/DWYFOR